



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru
The National Assembly for Wales**

**Cofnod y Trafodion
The Record of Proceedings**

**Dydd Mercher, 14 Tachwedd 2012
Wednesday, 14 November 2012**

Cynnwys
Contents

- | | |
|-----|---|
| 3 | Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ
Questions to the Minister for Finance and Leader of the House |
| 26 | Cwestiynau i'r Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth
Questions to the Minister for Business, Enterprise, Technology and Science |
| 51 | Cynnig i Gymeradwyo Cyllideb Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2013-14
Motion to Approve the Assembly Commission's Budget 2013-14 |
| 56 | Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 'Cynnydd o ran Cyrraedd Safon
Ansawdd Tai Cymru'
The Public Accounts Committee's Report 'Progress in Delivering the Welsh Housing
Quality Standard' |
| 73 | Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Y Stryd Fawr yng Nghymru
Welsh Conservatives Debate: The Welsh High Street |
| 103 | Dadl Plaid Cymru: Tlodi Tanwydd
Plaid Cymru Debate: Fuel Poverty |
| 129 | Cyfnod Pleidleisio
Voting Time |
| 143 | Dadl Fer: Bondiau Effaith Gymdeithasol a Phlant sy'n Derbyn Gofal yng Nghymru
Short Debate: Social Impact Bonds and Looked-after Children in Wales |

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynndi yn y Siambr.
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were
spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation has been included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m. gyda'r Llywydd (Rosemary Butler) yn y Gadair.
The Assembly met at 1.30 p.m. with the Presiding Officer (Rosemary Butler) in the Chair.*

The Presiding Officer: The National Assembly for Wales is now in session.

Y Llywydd: Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn eistedd yn awr.

Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ Questions to the Minister for Finance and Leader of the House

Caffael yn Lleol

1. Llyr Huws Gruffydd: *A wnaiiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i annog awdurdodau lleol i gaffael yn lleol. OAQ(4)0172(FIN)*

Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ (Jane Hutt): Caiff awdurdodau lleol eu hannog i ddilyn polisi Llywodraeth Cymru i wneud eu contractau yn fwy hygyrch, drwy fabwysiadu prosesau symlach, wedi'u safoni, a thrwy ddefnyddio manteision cymunedol.

Llyr Huws Gruffydd: Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Fodd bynnag, mae ymchwil yr ydym wedi'i wneud yn dangos bod cynghorau gogledd Cymru yn amrywio yn fawr o ran nifer y contractau a'r tendrau sy'n aros yn eu siroedd, ac, yn wir, yng Nghymru. Mae rhai yn sicrhau bod dwy ran o dair o werth y contractau yn aros yng Nghymru, ac mae eraill yn disgyn i lai na 40%. Pe bai pob cyngor yn y gogledd yn cyrraedd nod o 75%, dyweder, o gaffael yn aros yng Nghymru, byddai hynny gyfwerth â bod £150 miliwn ychwanegol ar gael i economi'r gogledd. Beth ydych yn bwriadu ei wneud, felly, i sicrhau ein bod yn cyrraedd yn nes at y nod hwnnw o 75%?

Jane Hutt: As you know, I wrote to all Assembly Members recently, clarifying information about Welsh public sector procurement expenditure. I am sure that you also drew from my analysis of local government expenditure. It is interesting to look at the north Wales authorities and compare, for example, Gwynedd Council, which has a 66% spend in Wales, with Flintshire County Council, which has a 40% spend in Wales. This leads to the firm recommendation by John McClelland in his

Local Procurement

1. Llyr Huws Gruffydd: *Will the Minister make a statement on what the Welsh Government is doing to encourage local procurement by local authorities. OAQ(4)0172(FIN)*

The Minister for Finance and Leader of the House (Jane Hutt): Local authorities are encouraged to adopt Welsh Government policy to make their contracts more accessible through the adoption of simplified, standardised processes, and through the use of community benefits.

Llyr Huws Gruffydd: Thank you for that response, Minister. However, research that we have carried out indicates that councils in north Wales vary greatly in respect of the number of contracts and tenders that remain within their counties, and, indeed, within Wales. Some ensure that two thirds of the value of the contracts remain in Wales, and others fall to less than 40%. If every council in north Wales were to achieve a target of 75%, say, of procurement remaining in Wales, that would be akin to an additional £150 million being available to the north Wales economy. What do you intend to do, therefore, to ensure that we get closer to that target of 75%?

Jane Hutt: Fel y gwyddoch, ysgrifennais at holl Aelodau'r Cynulliad yn ddiweddar, gan egluro gwybodaeth am wariant caffael yn y sector cyhoeddus yng Nghymru. Rwy'n siŵr eich bod hefyd wedi darllen fy nadansoddiad o wariant llywodraeth leol. Mae'n ddiddorol edrych ar yr awdurdodau yn y gogledd a chymharu, er enghraifft, Cyngor Gwynedd, sydd â 66% o wariant yng Nghymru, â Chyngor Sir y Fflint, sydd â 40% o wariant yng Nghymru. Mae hyn yn arwain at yr argymhelliad pendant gan John McClelland

review that we must ensure that local authorities improve their professional resource and their commitment to their procurement practice, which is laid down by Welsh Government policy.

Janet Finch-Saunders: Collectively, local authorities in Wales account for over half of all public procurement spending. I am sure that you will join me in welcoming the news that Welsh councils are among the best performing across the United Kingdom with regard to procurement from local firms. The Federation of Small Businesses has recently called on local authorities to publish detailed data showing where council spending has been allocated, by each business size and type. What steps is the Welsh Government taking to encourage this?

Jane Hutt: I welcomed the Federation of Small Businesses' survey. It concluded that, in Wales, local authorities are more likely to have greater levels of local spend. However, we are delivering the actions that the FSB calls for, through work on the supplier qualification information database, fair payment in construction contracts, and a measurement of the outcomes being addressed.

Prosiectau Cyfalaf

2. Alun Ffred Jones: *Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i godi arian ar gyfer prosiectau cyfalaf y tu allan i'r grant bloc. OAQ(4)0171(FIN)*

Jane Hutt: Mae mwy nag £1 biliwn yn cael ei fuddsoddi drwy ddulliau arloesol rhwng yn awr a 2020. Byddaf yn gwneud cyhoeddiad am fuddsoddiad arloesol ychwanegol cyn hir.

Alun Ffred Jones: Rydych wedi ceisio cael hawl benthyca drwy Lywodraeth Llundain, ond nid ydym wedi cael unrhyw fanylion am hynny, dim mwy na chael gwybod efallai y daw'r hawl rywdro yn y dyfodol. Felly, yn y tymor byr, mae'n debyg y byddwch yn trafod y posibilrwydd o greu rhyw fath o fodel ar hyd llinellau Adeiladu dros Gymru. Mae Gerry Holtham wedi eich helpu i greu'r math

yn ei adolygiad bod yn rhaid inni sicrhau bod awdurdodau lleol yn gwella eu hadnodd proffesiynol a'u hymrwymiad i'w harferion caffael, yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru.

Janet Finch-Saunders: Gyda'i gilydd, mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn rhoi cyfrif am dros hanner yr holl wariant ar gaffael cyhoeddus. Rwy'n siŵr y byddwch yn ymuno â mi i groesawu'r newyddion bod perfformiad cynghorau Cymru ymhlith y gorau ar draws y Deyrnas Unedig o ran caffael gan gwmnïau lleol. Yn ddiweddar, galwodd y Ffederasiwn Busnesau Bach ar awdurdodau lleol i gyhoeddi data manwl yn dangos lle mae gwariant y cyngor wedi cael ei ddyrannu, yn ôl maint a math pob busnes. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i annog hyn?

Jane Hutt: Croesewais arolwg y Ffederasiwn Busnesau Bach. Daeth i'r casgliad, yng Nghymru, bod awdurdodau lleol yn fwy tebygol o gael lefelau uwch o wariant lleol. Fodd bynnag, rydym yn darparu'r camau gweithredu y mae'r Ffederasiwn Busnesau Bach yn galw amdanynt, drwy waith ar y gronfa ddata gwybodaeth am gymwysterau cyflenwyr, taliad teg mewn contractau adeiladu, a mesur o'r canlyniadau yr ymdrinnir hwy.

Capital Projects

2. Alun Ffred Jones: *What plans does the Welsh Government have to raise funds for capital projects outside the block grant. OAQ(4)0171(FIN)*

Jane Hutt: More than £1 billion of innovative financial investment is taking place between now and 2020. I will be making an announcement about additional innovative investment shortly.

Alun Ffred Jones: You have been seeking borrowing powers from the London Government, but we have not had any details on that, other than hearing that perhaps the right to borrow will come at some point in the future. Therefore, in the short term, I expect that you will discuss the possibility of creating some model along the lines of Build for Wales. Gerry Holtham has assisted you to

hwnnw o gwmmi hyd braich. A oes trafodaethau wedi bod yn y Cabinet i symud y cynllun hwn yn ei flaen?

Jane Hutt: We are pleased with the progress that we are making on accessing borrowing powers. However, as I made clear in my draft budget, and in debate yesterday, we are also looking at innovative sources of finance. We are already using the local government borrowing initiative, as one example, but the 40% cut in our capital budget imposed by the UK Government means that we have to move further on this. We are looking at non-dividend vehicles for Wales, and at a range of potential funding partners, both public and private, and I will be saying more on that in due course.

Paul Davies: Minister, you will know that I have encouraged you on several occasions in the Chamber to establish public-private partnerships. From the evidence of the Scottish Futures Trust to the Finance Committee's inquiry on borrowing powers and innovative financing, we have seen the effects that these partnerships can have in the form of financing capital projects. You mentioned the not-for-profit distributing model. Could you give us more details about what work or analysis you, as a Government, have been doing so far in relation to this issue?

Jane Hutt: It is important to recognise that we were right not to pursue the old discredited PFI model. We have nothing like the stock of expensive PFI debt that other UK administrations are shouldering. The liability for PFI schemes in Wales is about one tenth of the level in Scotland: it is £100 million a year in Wales compared with £1 billion per year in Scotland. Although we are already progressing innovative finance—I have mentioned the local government borrowing initiative, and there is also the Welsh housing partnership as well as the Ely mill development—it is clear that non-dividend vehicles, where there can be a clear cap on profits, can ensure that we move forward with a range of instruments and delivery mechanisms, to underpin the growth of our economy.

create that kind of arm's-length company. Have there been any discussions in Cabinet about progressing such a scheme?

Jane Hutt: Rydym yn falch o'r cynnydd yr ydym yn ei wneud o ran cael gafael ar bwerau benthyca. Fodd bynnag, fel yr eglurais yn fy nghyllideb ddrafft, ac yn y ddadl ddoe, rydym hefyd yn edrych ar ffynonellau cyllid blaengar. Rydym eisoes yn defnyddio menter fenthyca llywodraeth leol, fel un enghraifft, ond mae'r toriad o 40% yn ein cyllideb cyfalaf a osodwyd gan Lywodraeth y DU yn golygu bod yn rhaid inni symud ymhellach ar hyn. Rydym yn edrych ar gyfryngau heb ddifidend ar gyfer Cymru, ac ar ystod o bartneriaid ariannu posibl, yn rhai cyhoeddus a phreifat, a byddaf yn dweud mwy am hynny maes o law.

Paul Davies: Weinidog, byddwch yn gwybod fy mod wedi eich annog ar sawl achlysur yn y Siambr i sefydlu partneriaethau cyhoeddus-preifat. O dystiolaeth Scottish Futures Trust i ymchwiliad y Pwyllgor Cyllid ymchwiliad ar bwerau benthyca ac ariannu arloesol, rydym wedi gweld yr effeithiau y gall y partneriaethau hyn eu cael ar ffurf prosiectau cyfalaf ariannu. Soniasoch am y model dosrannu nid-er-elw. Allech chi roi mwy o fanylion inni am y gwaith neu'r dadansoddiad rydych chi, fel Llywodraeth, wedi bod yn ei wneud hyd yn hyn mewn perthynas â'r mater hwn?

Jane Hutt: Mae'n bwysig cydnabod ein bod yn iawn i beidio â mynd ar drywydd yr hen fodel menter cyllid preifat diffygiol. Nid yw lefel ein stoc o ddyled menter cyllid preifat drud yn agos at y lefel y mae gweinyddiaethau eraill y DU yn ei hysgwyddo. Mae'r atebolrwydd ar gyfer cynlluniau menter cyllid preifat yng Nghymru tua un rhan o ddeg o'r lefel yn yr Alban: mae'n £100 miliwn y flwyddyn yng Nghymru o gymharu ag £1 biliwn y flwyddyn yn yr Alban. Er ein bod eisoes yn datblygu cyllid arloesol—rwyf wedi sôn am y fenter benthyca llywodraeth leol, heb anghofio partneriaeth tai Cymru yn ogystal â datblygiad melin Trelái—mae'n amlwg bod cerbydau heb ddifidend, lle gellir cael cap clir ar elw, yn gallu sicrhau ein bod yn symud ymlaen gydag ystod o offerynnau a dulliau cyflwyno, i fod yn sail i dwf ein heconomi.

Paul Davies: I was actually asking you about public-private partnerships as opposed to the private finance initiative. However, your predecessor, Andrew Davies, committed to establishing a central unit of expertise to support the financing of capital projects. While Value Wales has indeed taken on some of those functions, the Welsh Government has not set up a central body since those comments were made. I accept the importance of considering the cost-effectiveness of establishing any unit or body, but the benefits could be substantial. Will you confirm whether this objective is part of the Welsh Government's agenda, and tell us what work you and your officials have done in relation to setting up such a body with expertise?

Jane Hutt: I am glad that the opposition spokesperson for finance has recognised that we are moving on the public-private non-dividend model in raising finance. I did accept the recommendation from the very excellent Finance Committee report, which drew attention to the centre of expertise in Scotland and asked us to look at what arrangements we could put in place to gain access to a central source of expertise. We are investigating that further, with the support and expert advice of Gerry Holtham.

Hyrwyddo Cydraddoldeb

3. William Graham: *A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei strategaeth ar gyfer hyrwyddo cydraddoldeb yn Nwyrain De Cymru. OAQ(4)0184(FIN)*

Jane Hutt: Our equality priorities are set out in chapter 8 of the programme for government. In April this year, I launched the strategic equality plan, which sets out what the Welsh Government is doing to promote the equality agenda in Wales.

William Graham: I am grateful to you, Minister, for your answer. You will be aware that, in the recent consultation on the provision of Gypsy/Traveller sites in Newport, more than 7,000 individual responses were received, raising more than 40,000 issues. Will you outline how your

Paul Davies: Eich holi ynghylch partneriaethau cyhoeddus-preifat oeddwn i, nid y fenter cyllid preifat. Fodd bynnag, ymrwymodd eich rhagflaenydd, Andrew Davies, i sefydlu uned arbenigedd ganolog i gefnogi'r broses o ariannu prosiectau cyfalaf. Er bod Gwerth Cymru wedi cymryd rhai o'r swyddogaethau hynny, nid yw Llywodraeth Cymru wedi sefydlu corff canolog ers i'r sylwadau hynny gael eu gwneud. Derbynïaf bwysigrwydd ystyried cost-ffeithiolrwydd sefydlu unrhyw uned neu gorff, ond gallai'r manteision fod yn sylweddol. A wnewch chi gadarnhau a yw'r amcan hwn yn rhan o agenda Llywodraeth Cymru, a dweud wrthym pa waith rydych chi a'ch swyddogion wedi'i wneud mewn perthynas â sefydlu corff o'r fath ag arbenigedd?

Jane Hutt: Rwy'n falch bod llefarydd yr wrthblaid ar gyllid wedi cydnabod ein bod yn symud mewn perthynas â'r model cyhoeddus-preifat heb ddifidend i godi arian. Derbynïais yr argymhelliad yn adroddiad ardderchog y Pwyllgor Cyllid, a dynnodd sylw at y ganolfan arbenigedd yn yr Alban a gofyn inni edrych ar ba drefniadau y gallem eu rhoi ar waith i gael mynediad i ffynhonnell arbenigedd ganolog. Rydym yn ymchwilio ymhellach, gyda chefnogaeth a chynngor arbenigol Gerry Holtham.

Promoting Equalities

3. William Graham: *Will the Minister outline her strategy for promoting equalities in South Wales East. OAQ(4)0184(FIN)*

Jane Hutt: Nodir ein blaenoriaethau cydraddoldeb ym mhennod 8 y rhaglen lywodraethu. Ym mis Ebrill eleni, lansiais y cynllun cydraddoldeb strategol, sy'n nodi beth y mae Llywodraeth Cymru'n ei wneud i hyrwyddo'r agenda cydraddoldeb yng Nghymru.

William Graham: Rwy'n ddiolchgar ichi, Weinidog, am eich ateb. Byddwch yn ymwybodol, yn yr ymgynghoriad diweddar ar y ddarpariaeth o safleoedd Sipsiwn / Teithwyr yng Nghasnewydd, y cafwyd mwy na 7,000 o ymatebion unigol, gan godi mwy na 40,000 o faterion. A amlinellwch sut y

equality strategy protects the rights of both the residents and the Travelling communities?

Jane Hutt: 'Travelling to a Better Future', the Gypsy and Traveller framework for action and delivery plan, which was launched in September 2011, sets out the policy direction to ensure that we enable local authorities to take on their responsibilities to Gypsies and Travellers, as well as ensuring that there can be understanding and trust between Gypsy and Traveller communities and settled communities. It is clear that there is an issue in Newport, which is being dealt with by the Minister for Business, Enterprise, Technology and Science, but the local authority must also undertake an accommodation needs assessment for Gypsies and Travellers.

Buddsoddi mewn Seilwaith

4. Elin Jones: *Sut y mae'r Llywodraeth yn blaenoriaethu buddsoddiad mewn seilwaith yng Nghymru. OAQ(4)0179(FIN)*

Jane Hutt: Mae'r cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru yn nodi ein blaenoriaethau, ac mae'r gyllideb ddrafft ar gyfer twf a swyddi yn rhoi manylion ein cynlluniau gwariant cyfalaf ar gyfer 2013-14.

Elin Jones: Mae prosiectau isadeiledd â buddsoddiad ynddynt weithiau yn croesi portffolios ac mae angen cyllideb oddi wrth ddau Weinidog arnynt. Er enghraifft, mae prosiect Cylch Caron yng Ngheredigion yn brosiect iechyd a thai ar y cyd. Sut ydych yn sicrhau bod Gweinidogion yn cydweithio ac yn rhannu cyllidebau yn effeithiol mewn ffordd nad yw'n dal unrhyw brosiect yn ôl?

Jane Hutt: That is an important function of mine and role that I play as Minister for finance. The Wales infrastructure investment plan has provided us, as a Government, with the vehicle to ensure that we have a corporate approach to decision making, particularly on the allocation of finance. We see that progress at a project level, but it is always important to recognise that there are often other partners outside the Welsh Government, particularly in the housing sector and in local government.

mae eich strategaeth cydraddoldeb yn amddiffyn hawliau'r preswylwyr a'r cymunedau Teithio?

Jane Hutt: Mae 'Teithio at Ddyfodol Gwell', sef y fframwaith gweithredu a'r cynllun cyflawni ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr, a lanswyd ym mis Medi 2011, yn nodi'r cyfeiriad polisi i sicrhau ein bod yn galluogi awdurdodau lleol i ymgymryd â'u cyfrifoldebau i Sipsiwn a Theithwyr, yn ogystal â sicrhau y gellir cael dealltwriaeth ac ymddiriedaeth rhwng cymunedau Sipsiwn a Theithwyr a chymunedau sefydlog. Mae'n amlwg bod yna broblem yng Nghasnewydd, y mae'r Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth yn mynd i'r afael â hi, ond rhaid i'r awdurdod lleol hefyd gynnal asesiad o anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr.

Infrastructure Investment

4. Elin Jones: *How is the Government prioritising infrastructure investment in Wales. OAQ(4)0179(FIN)*

Jane Hutt: The Wales infrastructure investment plan sets out our priorities, and the draft budget for growth and jobs details our capital spending plans for 2013-14.

Elin Jones: Infrastructure investment projects sometimes cross portfolios and need funding from two Ministers. For example, the Cylch Caron project in Ceredigion is a joint project in both health and housing. How do you ensure that Ministers work together and share budgets effectively in a manner that does not delay any projects?

Jane Hutt: Mae honno'n un o'm swyddogaethau pwysig ac yn rôl a gyflawnaf fel Gweinidog Cyllid. Mae'r cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru wedi ein galluogi ni, fel Llywodraeth, i sicrhau bod gennym ymagwedd gorfforaethol tuag at wneud penderfyniadau, yn enwedig ar ddyrannu cyllid. Gwelwn y cynnydd hwnnw ar lefel prosiect, ond mae bob amser yn bwysig cydnabod bod partneriaid eraill y tu allan i Lywodraeth Cymru yn aml, yn enwedig yn y sector tai ac mewn llywodraeth

leol.

Julie Morgan: In advance of the implementation of any of the proposals from the Silk commission formally to transfer the responsibility for stamp duty or any other taxes, could you give us an indication of what type of infrastructure project is likely to be favoured by you on a case-by-case basis? For example, would you welcome a business case from Velindre Hospital, which is Wales's leading cancer hospital, for its reconstruction?

Jane Hutt: I am aware of the Member for Cardiff North's close involvement with that hospital and of the excellent cancer services and care that that trust provides in Wales. The Velindre Hospital redevelopment is included in the infrastructure plan pipeline. It is important to recognise that we have a pipeline of projects, and each Minister has provided the projects for that pipeline. Some projects are cross-cutting, as is the one that Elin Jones mentioned. However, it is clear that we have to use our own capital budget, innovative sources of finance and the opportunities afforded by our own new borrowing powers.

Antoinette Sandbach: In answer to a request from me under the Freedom of Information Act 2000, you confirmed that your Government spent just 13% of its capital investment in north Wales through its 25 largest schemes in the last financial year. Is it fair that such a low priority has been given to capital investment in north Wales? Despite a fifth of the Welsh population living there, it gets only a tenth of the major infrastructure investment.

Jane Hutt: There is a considerable investment in north Wales, and not just through project-specific investment, which takes us across transport, telecommunications, energy, housing and public services, such as the twenty-first century schools programme. I am sure that you will be pleased with the announcements and allocations of funding in this draft budget, for example for twenty-first century schools and for improvements to the A55,

Julie Morgan: Cyn gweithredu unrhyw un o'r cynigion o gomisiwn Silk yn ffurfiol i drosglwyddo'r cyfrifoldeb am dreth stamp neu unrhyw drethi eraill, a allech roi syniad inni o'r math o brosiect seilwaith rydych yn debygol o'i ffafrio fesul achos? Er enghraifft, a fydddech yn croesawu achos busnes dros ailadeiladu Ysbyty Felindre, sef prif ysbyty canser Cymru?

Jane Hutt: Rwy'n ymwybodol o gysylltiad agos yr Aelod dros Ogledd Caerdydd â'r ysbyty hwnnw a'r gwasanaethau canser a gofal ardderchog y mae'r ymddiriedolaeth yn eu darparu yng Nghymru. Mae'r gwaith o ailddatblygu Ysbyty Felindre wedi'i gynnwys yn y cynllun seilwaith arfaethedig. Mae'n bwysig cydnabod bod gennym sawl prosiect ar y gweill, ac mae pob Gweinidog wedi darparu prosiectau ar gyfer hyn. Mae rhai prosiectau yn drawsbynciol, fel yr un a grybwyllwyd gan Elin Jones. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod yn rhaid inni ddefnyddio ein cyllideb cyfalaf ein hunain, ffynonellau cyllid blaengar a'r cyfleoedd a gynigir gan ein pwerau benthyca newydd eu hunain.

Antoinette Sandbach: Mewn ateb i gais gennyf o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, cadarnhawyd gennych mai dim ond 13% o'i buddsoddiad cyfalaf y gwnaeth eich Llywodraeth ei wario yn y gogledd drwy ei 25 cynllun mwyaf yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf. A yw'n deg y rhoddwyd cyn lleied o flaenoriaeth i fuddsoddiad cyfalaf yn y gogledd? Er gwaethaf y ffaith bod un rhan o bump o boblogaeth Cymru yn byw yno, dim ond un rhan o ddeg o'r buddsoddiad seilwaith mawr a gaiff.

Jane Hutt: Gwneir buddsoddiad sylweddol yn y gogledd, ac nid dim ond drwy fuddsoddiad brosiect-benodol, sy'n cwmpasu trafndiaeth, telegyfathrebu, ynni, tai a gwasanaethau cyhoeddus, megis y rhaglen ysgolion ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain. Rwy'n siŵr y byddwch yn fodlon ar y cyhoeddiadau a'r dyraniadau cyllid yn y gyllideb ddrafft hon, er enghraifft o ran ysgolion ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain a gwelliannau i'r A55, a gyflwynwyd gan y

which the Minister for transport put forward. There are also many all-Wales capital projects, which provide benefits, such as investments in broadband and in telecommunications networks.

Aled Roberts: Mae'n debyg mai un o'r prosiectau mwyaf ar gyfer y gogledd bydd trydaneiddio'r rheilffordd ar draws yr arfordir. Bydd angen cynllun busnes i gefnogi unrhyw gais i Lywodraeth y Deyrnas Unedig, felly a ydych wedi neilltuo arian i gyllido'r achos busnes hwnnw?

Jane Hutt: That is a matter for the Minister for transport. I know that the transport objectives are not just north-south, but also east-west, and this is part of those.

Aflonyddu mewn Cysylltiad ag Anabledd

5. Mike Hedges: Pa gynnydd y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud tuag at weithredu unrhyw argymhellion o adroddiad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar aflonyddu mewn cysylltiad ag anabledd. OAQ(4)0174(FIN)

Jane Hutt: The recommendations were all accepted and will be taken forward in an over-arching framework for action on hate crime. A task and finish group and five stakeholder groups have been established to help to deliver the framework.

1.45 p.m.

Mike Hedges: I thank the Minister for her response and emphasise the importance of these recommendations and the fact that everybody in this Chamber believes that something must be done to stop these hate crimes taking place. Will the Minister commit to producing an annual progress report on this matter?

Jane Hutt: I thank the Member for Swansea East for this question. The disability hate crime action group meets regularly and is attended by a Welsh Government official. I am attending an event on Friday—a play by Disability Wales about educating young people about disability hate crime. I am

Gweinidog trafndiaeth. Ceir sawl prosiect cyfalaf Cymru-gyfan hefyd, sy'n cynnig buddiannau, megis buddsoddiadau mewn band eang ac mewn rhwydweithiau telathrebu.

Aled Roberts: I suppose that one of the largest projects for north Wales will be the electrification of the rail line across the coast. A business plan will be required to support any application to the United Kingdom Government, so have you designated any funding to support such a business case?

Jane Hutt: Mater i'r Gweinidog trafndiaeth yw hynny. Gwn fod yr amcanion trafndiaeth ar gyfer cysylltiadau rhwng y dwyrain a'r gorllewin yn ogystal â rhwng y gogledd a'r de, ac mae hyn yn rhan o hynny.

Disability-related Harassment

5. Mike Hedges: What progress has the Welsh Government made towards implementing any of the recommendations from the Communities, Equality and Local Government Committee's report into disability related harassment. OAQ(4)0174(FIN)

Jane Hutt: Derbyniwyd yr holl argymhellion a chânt eu datblygu mewn fframwaith trosfwaol er mwyn gweithredu ar droseddau casineb. Sefydlwyd grŵp gorchwyl a gorffen a phum grŵp rhanddeiliaid i helpu i gyflwyno'r fframwaith.

Mike Hedges: Hoffwn ddiolch i'r Gweinidog am ei hymateb a phwysleisio pwysigrwydd yr argymhellion hyn a'r ffaith bod pawb yn y Siambr hon yn credu bod yn rhaid i rywbeth gael ei wneud i atal y troseddau casineb hyn. A wnaiff y Gweinidog ymrwmo i gynhyrchu adroddiad cynnydd blynyddol ar y mater hwn?

Jane Hutt: Diolch i'r Aelod dros Ddwyrain Abertawe am y cwestiwn hwn. Mae'r grŵp gweithredu dros droseddau casineb yn erbyn pobl anabl yn cyfarfod yn rheolaidd ac mae'n cynnwys swyddog o Lywodraeth Cymru. Rwy'n mynd i ddiwyddiad ddydd Gwener—drama gan Anabledd Cymru am

prepared to report back not just annually but, I hope, more frequently.

Mohammad Asghar: The committee recommended that the Welsh Government should include a long-term aim in the replacement single equality scheme from 2012, to change the cultural attitude towards disabled people in Wales. Does the Minister agree with me that the success of the Paralympics has provided a unique opportunity to change attitude towards disability in Wales? What is the Government doing to seize this opportunity to encourage more people to change their attitudes and to see the person, not the disability?

Jane Hutt: The Paralympics had a huge impact. We paid tribute to our Paralympians whom many of us met when they returned for a celebration event in the Senedd, led by the Presiding Officer and the First Minister. However, the 'Framework for Action on Independent Living' for disabled people has been launched—in fact, there was a Paralympian at the launch—and Sports Wales and Disability Wales are closely involved with the Government in taking this forward.

Lindsay Whittle: I understand that you have authorised research into discovering the motives for disability hate crime in Wales. Who is carrying out this research and, most importantly, when are the research findings scheduled to be published?

Jane Hutt: The research project will be led by Cardiff University and I will report back on the evidence when it is published.

Polisi Caffael

6. David Rees: *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bolisi caffael Llywodraeth Cymru. OAQ(4)0182(FIN)*

Jane Hutt: Our policy is to maximise the value of the £4.3 billion annual procurement expenditure across Wales. I expect public bodies to implement our key policies, which include community benefits and simplified,

addysgu pobl ifanc am droseddau casineb yn erbyn pobl anabl. Rwy'n barod i adrodd yn ôl yn amlach nag unwaith y flwyddyn gobeithio.

Mohammad Asghar: Mae'r pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru gynnwys nod hirdymor yn y cynllun cydraddoldeb sengl newydd o 2012 ymlaen, i newid yr agwedd ddiwylliannol tuag at bobl anabl yng Nghymru. A yw'r Gweinidog yn cytuno â mi fod llwyddiant y Gemau Paralympaidd wedi cynnig cyfle unigryw i newid agwedd tuag at anabledd yng Nghymru? Beth mae'r Llywodraeth yn ei wneud i achub ar y cyfle hwn i annog mwy o bobl i newid eu hagweddau ac i weld yr unigolyn, yn hytrach na'r anabledd?

Jane Hutt: Cafodd y Gemau Paralympaidd effaith enfawr. Gwnaethom dalu teyrnged i'n Paralympiaid y gwnaeth llawer ohonom gwrdd â hwy pan wnaethant ddychwelyd ar gyfer digwyddiad dathlu yn y Senedd, dan arweiniad y Llywydd a'r Prif Weinidog. Fodd bynnag, lanswyd y 'Fframwaith ar gyfer Gweithredu ar Fyw'n Annibynnol' ar gyfer pobl anabl—yn wir, roedd Paralympiad yn y lansiad—ac mae Chwaraeon Cymru ac Anabledd Cymru yn cydweithio'n agos â'r Llywodraeth i ddatblygu hyn.

Lindsay Whittle: Deallaf eich bod wedi awdurdodi ymchwil i ddarganfod y cymhellion dros droseddau casineb yn erbyn pobl anabl yng Nghymru. Pwy sy'n cynnal yr ymchwil hon ac, yn bwysicaf oll, pryd y disgwylir i ganfyddiadau'r ymchwil gael eu cyhoeddi?

Jane Hutt: Arweinir y prosiect ymchwil gan Brifysgol Caerdydd a byddaf yn adrodd yn ôl ar y dystiolaeth wrth iddi gael ei chyhoeddi.

Procurement Policy

6. David Rees: *Will the Minister make a statement on the Welsh Government's procurement policy. OAQ(4)0182(FIN)*

Jane Hutt: Ein polisi yw sicrhau'r gwerth mwyaf posibl o'r £4.3 biliwn o wariant caffael blynyddol ledled Cymru. Rwy'n disgwyl i gyrrff cyhoeddus weithredu ein polisiau allweddol, sy'n cynnwys buddiannau

standard processes, ensuring openness and accessibility of contracts.

David Rees: Thank you for that answer, Minister. In September, you released a statement indicating that the Welsh Government's procurement policy statement will be published this autumn. Last week, I attended a meeting with Klaus Wiedner from the European Commission internal market and services directorate-general, in which he indicated that sub-contracting was an important aspect being considered under European directives. For many Welsh businesses, sub-contracting is critical. What consideration has been given to sub-contracting in the Welsh Government's policy and will a tight control be placed on it to ensure that social clauses in any procurement contract are met at all levels of the sub-contract?

Jane Hutt: That is a topical and key question on procurement from the Member for Aberavon. Our community benefits policy ensures that main contractors open up supply chain opportunities to smaller local businesses. As a result, in the 14 recently completed projects, Wales-based businesses won 70% of sub-contract opportunities.

Antoinette Sandbach: You will be aware from the work of the McClelland review that local authorities in north Wales have historically performed poorly in supporting local suppliers. Many have inadequate numbers of procurement staff and the majority have achieved below the national average of 52% spending—Conwy, Flintshire and Wrexham authorities have among the lowest figures in the whole of Wales. What discussions have you had with the Minister for Local Government and Communities and local authorities in north Wales about how they can learn from best practice elsewhere? I have seen your letter, to which you referred in your answer to Llyr Huws Gruffydd, which indicates that those councils between them have somewhere in the region of 38% to 40% and that is the level at which—

The Presiding Officer: Order. I think you

cymunedol a phrosesau safonol wedi'u symleiddio, gan sicrhau didwylledd a hygyrchedd contractau.

David Rees: Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Ym mis Medi, gwnaethoch ryddhau datganiad yn nodi y câi datganiad polisi caffael Llywodraeth Cymru ei gyhoeddi'r hydref hwn. Yr wythnos ddiwethaf, bûm mewn cyfarfod â Klaus Wiedner o gyfarwyddiaeth gyffredinol marchnad a gwasanaethau mewnol y Comisiwn Ewropeaidd, pan nododd bod is-gontractio yn agwedd bwysig oedd yn cael ei hystyried o dan gyfarwyddiaethau Ewropeaidd. Ar gyfer sawl busnes yng Nghymru, mae is-gontractio yn hanfodol. Pa ystyriaeth a roddwyd i is-gontractio ym mholisi Llywodraeth Cymru ac a gaiff ei reoli'n llym i sicrhau bod cymalau cymdeithasol unrhyw gontract caffael yn cael eu bodloni ar bob lefel o'r is-gontract?

Jane Hutt: Mae hwnnw'n gwestiwn amserol ac allweddol ar gaffael gan yr Aelod dros Aberafan. Mae ein polisi buddiannau cymunedol yn sicrhau bod prif gontractwyr yn cynnig cyfleoedd cadwyn gyflenwi i fusnesau lleol llai o faint. O ganlyniad, yn y 14 o brosiectau a gwblhawyd yn ddiweddar, enillodd busnesau a leolir yng Nghymru 70% o gyfleoedd is-gontractio.

Antoinette Sandbach: Byddwch yn ymwybodol o waith adolygiad McClelland bod awdurdodau lleol yn y gogledd wedi perfformio'n wael yn hanesyddol wrth gefnogi cyflenwyr lleol. Nid oes gan lawer ohonynt ddigon o staff caffael ac mae'r mwyafrif wedi cyflawni islaw'r cyfartaledd cenedlaethol o 52% o wariant—mae ffigurau awdurdodau Conwy, Sir y Fflint a Wrecsam ymhlith y rhai isaf drwy Gymru gyfan. Pa drafodaethau a gawsoch gyda'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau ac awdurdodau lleol yn y gogledd ynghylch sut y gallant ddysgu o arfer gorau mewn mannau eraill? Rwyf wedi gweld eich llythyr, y cyfeiriasoch ato yn eich ateb i Llyr Huws Gruffydd, sy'n nodi bod gan y cynghorau hynny rhyngddynt wariant o tua 38% i 40% a dyna'r lefel lle mae—

Y Llywydd: Trefn. Credaf eich bod wedi

have asked your question now.

Jane Hutt: I commissioned the McClelland review and I am glad that it has provided such a wealth of information in terms of policy direction. Indeed, you draw attention to the disparities of spend within Wales by local authorities, which is pleasing in terms of some of the figures: Pembrokeshire County Council's figure is 70% and Flintshire is down to a lower level at 40%. There are factors, and working with the Minister for Local Government and Communities, there is a compact by which local authorities can abide in terms of procurement, particularly in terms of adoption of the supplier qualification information database.

Alun Ffred Jones: Ym maes caffael, rwy'n falch o weld bod Cyngor Gwynedd yn perfformio'n sylweddol well nag amryw o'i gyd-cynghorau. Mae fy nghwestiwn i ynglŷn â'r ffaith bod chwe sir gogledd Cymru wedi cael eu gorfodi gan Lywodraeth Cymru i gydweithio ar yr hyn a elwir yn *'framework vehicle'* wrth osod tendrau fel rhan o raglen ysgolion ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain. Oherwydd maint y tendr, mae nifer fawr o gwmnïau lleol yn y maes adeiladu yn y gogledd yn credu y bydd hyn yn eu cloi allan o'r broses hon. Maent hefyd yn eich cyhuddo o ddweud un peth yn eich datganiadau a gweithredu mewn ffordd wahanol. Beth yw polisi Llywodraeth Cymru ar gynlluniau fframwaith er mwyn i ni fod yn hollol glir am y mater hwn?

Jane Hutt: I commissioned a lessons-learned review of the framework contracts, particularly the one that drew such concern in north Wales among construction companies. I can provide the Member with a copy of the report on the lessons-learned review. I have met with construction companies in north Wales and held an 'Open for Business' event in north Wales in recent weeks.

Pwerau Benthycia

7. Nick Ramsay: *A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am drafodaethau Llywodraeth Cymru gyda Llywodraeth y DU ynghylch pwerau benthycia.*

gofyn eich cwestiwn yn awr.

Jane Hutt: Fi wnaeth gomisiynu adolygiad McClelland ac rwy'n falch ei fod wedi darparu'r fath gyfoeth o wybodaeth o ran cyfeiriad polisi. Yn wir, rydych yn tynnu sylw at y gwahaniaethau o ran gwariant yng Nghymru gan awdurdodau lleol, sy'n ddymunol o ran rhai o'r ffigurau: ffigur Cyngor Sir Penfro yw 70% ac mae ffigur Sir y Fflint i lawr i lefel is, sef 40%. Mae ffactorau yn bodoli, a chan weithio gyda'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, mae compact gan y gall awdurdodau lleol ei ddilyn mewn perthynas â chaffael, yn enwedig o ran mabwysiadu'r gronfa ddata gwybodaeth am gymwysterau cyflenwyr.

Alun Ffred Jones: On procurement, I am pleased to see that Gwynedd Council is performing significantly better than a number of fellow councils. My question relates to the fact that the six north Wales councils have been forced by the Welsh Government to collaborate on something described as a 'framework vehicle' in offering tenders as part of the twenty-first century schools programme. Given the scale of the tender, many local construction companies in north Wales believe that this will lock them out of the process. They also accuse you of saying one thing in your statements and then taking contradictory action. What is the Welsh Government policy on framework contracts so that we can make the matter entirely clear?

Jane Hutt: Comisiynais adolygiad gwersi a ddysgwyd o'r contractau fframwaith, yn enwedig yr un a achosodd gymaint o bryder yn y gogledd i gwmnïau adeiladu. Gallaf roi copi o'r adroddiad ar yr adolygiad gwersi a ddysgwyd i'r Aelod. Rwyf wedi cwrrdd â chwmnïau adeiladu yng ngogledd Cymru a chynnal digwyddiad 'Ar Agor ar gyfer Busnes' yn y gogledd yn ystod yr wythnosau diwethaf.

Borrowing Powers

7. Nick Ramsay: *Will the Minister provide an update on the Welsh Government's discussions with the UK Government regarding borrowing powers.*

OAQ(4)0181(FIN)

Jane Hutt: Discussions with the Treasury have begun concerning the possibility of the Welsh Government borrowing for specific capital projects in advance of tax devolution.

Nick Ramsay: It was good to hear the recent announcement on borrowing powers, which I am sure you would agree was a great example of tripartite working between you and your department, the Welsh Government and the UK coalition Government. This is an initial step. Can you give any detail on the type of preparations that are under way with regard to the borrowing powers, including the all-important scale and limit on any such borrowing, and the type of infrastructure projects that you envisage the borrowing being used for?

Jane Hutt: Thank you to Nick Ramsay for his recognition of the progress that we have made intergovernmentally. The amount of finance that we can raise through borrowing powers should be enough to provide meaningful flexibility in our resources. Certainly, with regard to limits on the conditions to borrowing—which we will be discussing with the UK Government—at this point we do not want to restrict any negotiations. However, I would expect our limits to be at a comparable level to those of Scotland, perhaps around £1.5 billion in total and circa £120 million as an annual limit. I had a constructive bilateral meeting with the Chief Secretary to the Treasury last Thursday in Edinburgh.

Ieuan Wyn Jones: Rydych wedi egluro mwy yn awr am y symiau yr ydych yn disgwyl y bydd gennych yr hawl i'w benthyg. Rydych wedi awgrymu swm o £125 miliwn y flwyddyn gydag *envelope* ariannol o £1.5 biliwn. Pryd yn union fydd y pwerau hynny'n dod i rym?

OAQ(4)0181(FIN)

Jane Hutt: Mae trafodaethau gyda'r Trysorlys wedi dechrau ynghylch y posibilrwydd y gall Lywodraeth Cymru fenthyca ar gyfer prosiectau cyfalaf penodol cyn datganoli treth.

Nick Ramsay: Roedd yn dda clywed y cyhoeddiad diweddar ar bwerau benthyca, ac rwy'n siŵr y byddech yn cytuno eu bod yn enghraifft wych o weithio teir-ran rhyngoch chi a'ch adran, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth glymblaid y DU. Cam cychwynnol yw hwn. A allwch roi unrhyw fanylion ar y math o baratodau sydd ar y gweill o ran y pwerau benthyca, yn cynnwys y raddfa hollbwysig a chyfyngiadau ar unrhyw fenthyca o'r fath, a'r math o brosiectau seilwaith rydych yn rhagweld y benthyca yn cael ei ddefnyddio ar eu cyfer?

Jane Hutt: Diolch i Nick Ramsay am gydnabod y cynnydd yr ydym wedi'i wneud yn rhynglywodraethol. Dylai'r swm o arian y gallwn ei godi drwy bwerau benthyca fod yn ddigon i sicrhau hyblygrwydd ystyrlon yn ein hadnoddau. Yn sicr, o ran cyfyngiadau ar yr amodau i fenthyca—y byddwn yn eu trafod gyda Llywodraeth y DU—ar hyn o bryd nid ydym am gyfyngu unrhyw drafodaethau. Fodd bynnag, byddwn yn disgwyl i'n terfynau fod ar lefel debyg i'r rhai yn yr Alban, cyfanswm o tua £1.5 biliwn efallai a thua £120 miliwn fel terfyn blynyddol. Cefais gyfarfod dwyochrog adeiladol gyda Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys ddydd Iau diwethaf yng Nghaeredin.

Ieuan Wyn Jones: You have now further clarified the sums that you hope to have the right to borrow. You have suggested a sum of £125 million per annum with a £1.5 billion financial envelope. When exactly will those powers come into force?

Jane Hutt: We look to the Silk commission as the next step. It is reporting on Monday. We are awaiting the report of the Silk commission but the intergovernmental discussions that I am having are progressing, making access to borrowing a real possibility, which will happen as soon as possible.

Ieuan Wyn Jones: Ni chlywais y dyddiad, Weinidog, yr ydych yn disgwyl i'r pwerau hyn ddod i rym. Rwyf am roi hyn mewn cyddestun i chi. Mae blwyddyn arall o'r adolygiad cynhwysfawr o wariant i fynd. Mae adolygiad cynhwysfawr o wariant ychwanegol yn debygol o gael ei gyhoeddi'n eithaf buan a fydd yn parhau tan 2017 neu 2018. A ydych yn disgwyl y bydd y pwerau benthyg hynny yn dod atom yn ystod cyfnod yr adolygiad cynhwysfawr o wariant presennol neu'r un nesaf?

Jane Hutt: As a result of our intergovernmental talks, I made a statement with the Chief Secretary to the Treasury and the Secretary of State for Wales a couple of weeks ago that we would expect the UK Government to work to agree this package of measures and that will be based on the Silk commission's proposals. It will deliver an improved financial settlement for Wales and we have said that we would expect the UK Government to be prepared to legislate in the lifetime of the current UK Parliament to implement any jointly agreed reforms.

Peter Black: While we are waiting for borrowing powers, there are, of course, a number of other things that the Welsh Government could be doing. What progress is being made in terms of your exploration of tax increment financing?

Jane Hutt: Certainly. We responded to this point in the Finance Committee's report, which was valuable in steering the way to looking at new financial instruments. Tax increment financing is part of that.

Peter Black: Thank you for that answer, Minister, although it did not tell me much more than I know already. What sort of timetable are you looking at to come forward with some conclusions on tax increment

Jane Hutt: Rydym yn ystyried comisiwn Silk fel y cam nesaf. Mae'n cyflwyno ei adroddiad ddydd Llun. Rydym yn aros am adroddiad comisiwn Silk, ond mae'r trafodaethau rhynglywodraethol yr wyf yn eu cael yn mynd rhagddynt, gan sicrhau bod mynediad i fenthyg yn bosibl rwydd go iawn, a fydd yn digwydd cyn gynted ag y bo modd.

Ieuan Wyn Jones: I did not hear a date, Minister, as to when you expect the powers to come into force. To provide some context, the current comprehensive spending review has a year left to run. An additional CSR is likely to be announced quite soon, which will take us up to 2017 or 2018. Do you expect that we will be given borrowing powers during the current comprehensive spending review period or during the next?

Jane Hutt: O ganlyniad i'n trafodaethau rhynglywodraethol, gwneuthum ddatganiad gyda Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru byrthefnos yn ôl y byddem yn disgwyl i Lywodraeth y DU weithio i gytuno ar y pecyn hwn o fesurau a bydd hynny'n seiliedig ar gynigion comisiwn Silk. Bydd yn sicrhau setliad ariannol gwell i Gymru ac rydym wedi dweud y byddem yn disgwyl i Lywodraeth y DU fod yn barod i ddeddfu yn ystod oes Senedd bresennol y DU er mwyn gweithredu unrhyw ddiwygiadau y cytunwyd arnynt ar y cyd.

Peter Black: Wrth inni aros am bwerau benthyca, wrth gwrs, mae nifer o bethau eraill y gallai Llywodraeth Cymru ei wneud. Pa gynnydd sy'n cael ei wneud o ran eich archwiliad o brosesau ariannu cynnydd mewn treth?

Jane Hutt: Yn sicr. Gwnaethom ymateb i'r pwynt hwn yn adroddiad y Pwyllgor Cyllid, a oedd yn werthfawr o ran llywio'r ffordd i edrych ar offerynnau ariannol newydd. Mae ariannu cynnydd mewn treth yn rhan o hynny.

Peter Black: Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog, er na ddywedodd fawr mwy wrthyf nag yr oeddwn yn ei wybod yn barod. Pa fath o amserlen ydych yn ei hystyried i gyflwyno rhai casgliadau ar brosesau ariannu

financing? You will know that the UK Government announced some schemes in July of this year and further schemes were announced in the last few weeks. Therefore, we are already lagging far behind England in implementing this process. Do you not think that we should be getting on with it?

Jane Hutt: I accepted the recommendation in the Finance Committee's report and stated that this is an option in a range of innovative finance solutions. We are certainly looking at the value-for-money issues relating to tax increment financing and we are learning from the rest of the UK, which is important and valuable in getting things right. That approach was borne out yesterday in terms of our pioneering new mortgage guarantee scheme, on which I know you had an influence, Peter.

Dyraniadau'r Gyllideb

8. Lynne Neagle: *Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch dyraniadau'r gyllideb. OAQ(4)0183(FIN)*

Jane Hutt: I meet the Minister for Health and Social Services regularly to discuss a range of financial issues within that portfolio.

Lynne Neagle: I was pleased to see an extra £13 million allocated in this year's budget to support the Welsh Government's commitment to double the number of children benefiting from Flying Start. In these tough times, with news today that economic forecasts have been downgraded yet again, and with the Tories and Liberal Democrats at Westminster having all but abandoned Labour's target to eradicate child poverty, do you agree that it is more vital than ever that we continue to invest in programmes like Flying Start, a programme that will improve the life chances of children in the most deprived parts of Wales?

Jane Hutt: I agree with Lynne Neagle that Flying Start is a major contribution to ensuring that children benefit from free

cynnydd mewn treth? Byddwch yn gwybod bod Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi rhai cynlluniau ym mis Gorffennaf eleni ac y cyhoeddwyd cynlluniau pellach yn yr wythnosau diwethaf. Felly, rydym eisoes ymhell ar ei hôl hi o gymharu â Lloegr wrth weithredu'r broses hon. Oni chredwch y dylem fynd ymlaen â'r gwaith?

Jane Hutt: Derbyniais yr argymhelliad yn adroddiad y Pwyllgor Cyllid a nodais fod hyn yn un opsiwn ymhlith amryw o ddatrysiadau cyllid arloesol. Rydym yn sicr yn edrych ar y materion gwerth am arian sy'n ymwneud ag ariannu cynnydd mewn treth ac rydym yn dysgu oddi wrth weddill y DU, sy'n bwysig ac yn werthfawr o ran cael pethau'n iawn. Cadarnhawyd yr agwedd honno ddoe o ran ein cynllun gwarant morgais newydd arloesol, y gwn ichi gael dylanwad arno, Peter.

Budget Allocations

8. Lynne Neagle: *What discussions has the Minister had with the Minister for Health and Social Services regarding budget allocations. OAQ(4)0183(FIN)*

Jane Hutt: Byddaf yn cwrdd â'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn rheolaidd i drafod ystod o faterion ariannol o fewn y portffolio hwnnw.

Lynne Neagle: Roeddwn yn falch o weld £13 miliwn ychwanegol wedi'i ddyrannu yn y gyllideb eleni i gefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddyblu nifer y plant sy'n elwa ar Dechrau'n Deg. Yn y cyfnod anodd hwn, gyda'r newyddion heddiw bod y rhagolygon economaidd wedi cael eu hisraddio unwaith eto, a gyda'r Torïaid a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn San Steffan wedi troi cefn, i bob pwrpas, ar darged Llafur i ddileu tlodi plant, a ydych yn cytuno ei bod yn fwy hanfodol nag erioed ein bod yn parhau i fuddsoddi mewn rhaglenni fel Dechrau'n Deg, rhaglen a fydd yn gwella cyfleoedd bywyd plant yn y rhannau mwyaf difreintiedig o Gymru?

Jane Hutt: Cytunaf â Lynne Neagle fod Dechrau'n Deg yn gwneud cyfraniad mawr i sicrhau bod plant yn elwa o gael gofal plant

childcare and health visits. Indeed, there is an additional £55 million of revenue funding over three years, which will benefit 36,000 children a year. In this budget, I increased the capital allocation, as well as the revenue resource, to support this pioneering scheme.

Paul Davies: Minister, you are fully aware that both the Health and Social Care Committee and the Finance Committee have expressed concerns about the ability of local health boards to come in on target this year. The Minister for Health and Social Services has announced a review as to whether LHBs will meet their financial targets, and I understand that she will report back to us by the end of this month. What part are you playing in this review and what discussions have you had with the Minister for health on this issue?

Jane Hutt: The review is due to be completed shortly and the Minister will be announcing the outcome in due course. In my role as Minister for Finance, I support and work closely with the Minister for Health and Social Services and all my colleagues.

Cyfleoedd Cyfartal i Bobl â Nam ar eu Golwg

9. Christine Chapman: *Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella cyfleoedd cyfartal i bobl â nam ar eu golwg. OAQ(4)0175(FIN)*

Jane Hutt: We want all disabled people, including those with visual impairments, to be able to play a full and active part in their communities. Our consultation document on the 'Framework for Action on Independent Living' sets out how we aim to support this.

Christine Chapman: Thank you for that answer, Minister. I recently visited Cynon Valley Vision and Eye to Eye, which are two support groups for people with visual impairments based in my constituency. I was impressed by the excellent work they do, but it is key that people know about such groups. How can we ensure that our communities and

ac ymweliadau iechyd am ddim. Yn wir, mae swm ychwanegol o £55 miliwn o arian refeniw dros gyfnod o dair blynedd, a fydd o fudd i 36,000 o blant y flwyddyn. Yn y gyllideb hon, cynyddais y dyraniad cyfalaf, yn ogystal â'r adnodd refeniw, i gefnogi'r cynllun arloesol hwn.

Paul Davies: Weinidog, rydych yn gwbl ymwybodol bod y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Cyllid wedi mynegi pryderon ynghylch gallu byrddau iechyd lleol i fod ar eu targed eleni. Mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cyhoeddi adolygiad ynghylch a fydd Byrddau Iechyd Lleol yn cyflawni eu targedau ariannol, a deallaf y bydd yn adrodd yn ôl inni erbyn diwedd y mis hwn. Pa ran ydych chi'n ei chwarae yn yr adolygiad hwn a pha drafodaethau ydych wedi'u cael gyda'r Gweinidog Iechyd ar y mater hwn?

Jane Hutt: Caiff yr adolygiad ei gwblhau yn fuan a bydd y Gweinidog yn cyhoeddi'r canlyniad maes o law. Yn rhinwedd fy swydd fel Gweinidog Cyllid, rwy'n cefnogi'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'm holl gyd-Aelodau ac yn cydweithio'n agos â hwy.

Equality of Opportunity for People with Visual Impairments

9. Christine Chapman: *What is the Welsh Government doing to improve equality of opportunity for people with visual impairments. OAQ(4)0175(FIN)*

Jane Hutt: Rydym am i bob person anabl, gan gynnwys y rhai sydd â nam ar eu golwg, allu chwarae rhan lawn a gweithgar yn eu cymunedau. Mae ein dogfen ymgynghori ar y 'Fframwaith ar gyfer Gweithredu ar Fyw'n Annibynnol' yn nodi sut rydym yn bwriadu cefnogi hyn.

Christine Chapman: Diolch ichi am yr ateb hwnnw, Weinidog. Yn ddiweddar, ymwelais â Cynon Valley Vision ac Eye to Eye, sef dau grŵp sy'n cefnogi pobl â nam ar eu golwg yn fy etholaeth. Roeddwn yn llawn edmygedd o'r gwaith rhagorol y maent yn ei wneud, ond mae'n allweddol bod pobl yn gwybod am grwpiau o'r fath. Sut y gallwn sicrhau bod

healthcare professionals, who are often vital in signposting to these services, know and value such groups and make sure that people with visual impairments can benefit from the advice, friendship and support that they so willingly provide?

Jane Hutt: That is key in terms of not only supporting groups, but sharing best practice across Wales. The eye health care plan for Wales will shortly be published for consultation, and that will provide an opportunity to raise awareness of this important issue.

2.00 p.m.

Suzu Davies: Minister, you will remember this May's debate on making a measurable reduction in avoidable sight loss a public health priority for Wales. What steps has your Government taken since then towards implementing the Hall report, which recommends eye tests in schools for four and five-year-olds? If that is carried out, there will be early identification of problems that could lead to inequalities later on in life.

Jane Hutt: That is being taken forward. I will raise it with the Minister in order to identify progress.

Rhodri Glyn Thomas: Weinidog, roeddwn yn y grŵp trawsbleidiol ar olwg neithiwr, lle trafodwyd mynediad at wasanaethau. Mae 115,000 o bobl â nam ar eu golwg yn byw yng Nghymru ac mae bron i hanner y bobl hynny yn dweud y byddent yn dymuno gadael eu cartrefi'n amlach pe bai cyfle. A ydych yn derbyn bod sefyllfa lle mae gwasanaeth yn bodoli ond nad ydych yn gallu cael mynediad ato yn waeth na sefyllfa lle nad yw'r gwasanaeth yn bodoli o gwbl?

Ddoe, holodd Mike Hedges y Prif Weinidog am ddiffyg gwybodaeth ar fysiau ar gyfer pobl â nam ar eu golwg. Mae pob bws yn Llundain—8,000 ohonynt—yn rhoi gwybodaeth drwy sain i bobl â nam ar eu golwg. A ydych yn derbyn bod hynny'n adlewyrchu'n wael iawn ar y sefyllfa yng

ein cymunedau a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, sy'n aml yn hanfodol wrth gyfeirio at y gwasanaethau hyn, yn gwybod ac yn gwerthfawrogi grwpiau o'r fath a sicrhau y gall pobl â nam ar eu golwg fanteisio ar y cyngor, y cyfeillgarwch a'r cymorth a gynigir mor barod ganddynt?

Jane Hutt: Mae hynny'n allweddol, nid yn unig o ran cefnogi grwpiau, ond o ran rhannu arfer gorau ledled Cymru. Caiff y cynllun gofal iechyd llygaid yng Nghymru ei gyhoeddi i ymgynghori arno maes o law, a fydd yn rhoi cyfle i godi ymwybyddiaeth o'r mater pwysig hwn.

Suzu Davies: Weinidog, byddwch yn cofio'r ddatl fis Mai ar wneud sicrhau gostyngiad mesuradwy mewn achosion o golli golwg y gellir ei osgoi yn flaenoriaeth iechyd y cyhoedd yng Nghymru. Pa gamau a gymerwyd gan eich Llywodraeth ers hynny tuag at weithredu adroddiad Hall, sy'n argymhell profion llygaid yn yr ysgol i blant pedair a phum mlwydd oed? Os caiff hyn ei weithredu, gellir sicrhau bod problemau a allai arwain at anghydraddoldebau yn nes ymlaen mewn bywyd yn cael eu canfod yn gynnar.

Jane Hutt: Rydym yn bwrw ymlaen â hynny. Codaf y mater gyda'r Gweinidog er mwyn nodi cynnydd.

Rhodri Glyn Thomas: Minister, last night, I attended the cross-party group on vision, where we discussed access to services. There are 115,000 visually impaired people living in Wales, almost half of whom say that they would welcome opportunities to leave their homes more often. Do you accept that being unable to access a service that does exist is worse than having no service at all?

Yesterday, Mike Hedges asked the First Minister about the lack of information on buses for the visually impaired. All buses in London—a total of 8,000—provide audio information for the visually impaired. Do you accept that this reflects very badly on the situation in Wales?

Nghymru?

Jane Hutt: The framework for action on independent living gives us a real opportunity to respond to these issues. A key issue in that is to create a barrier-free transport system. The framework is out for consultation now. I hope that the responses will include a response from the cross-party group and the organisations represented there.

The Leader of the Welsh Liberal Democrats (Kirsty Williams): Minister, all of us in the Chamber take for granted the ability to go to an ATM to access our own money. However, for many people who are blind or partially sighted, that is not possible. Barclays Bank plc has made great progress in enabling its ATMs to have audio as well as visual functions. However, other banks have not done the same and, in many areas of rural Wales, banks have pulled out of communities altogether and ATMs are operated by different providers. Has the Welsh Government done anything to support the Royal National Institute of Blind People's campaign, 'Make money talk', to ensure that all ATMs in Wales, wherever they are placed, have an audio function that allows blind and partially sighted people to use them, without the assistance of a stranger or having to make arrangements with friends to meet them at the ATM?

Jane Hutt: Kirsty Williams raises an important issue and draws our attention to the disparity of response from the banking sector. The support that we give to RNIB Cymru in grant aid each year is particularly important in taking forward its campaign on this matter.

Sandy Mewies: As you know, I chair the cross-party group on vision. Last night, once again, transportation was on our agenda. It will come as no surprise to you to understand that people still think that there is a considerable shortfall in opportunities for people with visual impairment, and indeed any sensory impairment, to access transport,

Jane Hutt: Mae'r fframwaith ar gyfer gweithredu ar fyw'n annibynnol yn rhoi cyfle gwirioneddol inni ymateb i'r materion hyn. Un o'r materion allweddol yn hynny o beth yw creu system drafnidiaeth ddirwystr. Mae'r fframwaith yn destun ymgynghoriad ar hyn o bryd. Gobeithiaf y bydd yr ymatebion yn cynnwys ymateb gan y grŵp trawsbleidiol a'r sefydliadau a gynrychiolir yno.

Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Kirsty Williams): Weinidog, mae pob un ohonom yn y Siambr yn cymryd y gallu i ddefnyddio peiriant codi arian i gael mynediad at ein harian eu hunain yn ganiataol. Fodd bynnag, nid yw hynny'n bosibl i lawer o bobl sy'n ddall neu'n rhannol ddall. Mae Banc Barclays ccc wedi gwneud cynnydd mawr drwy roi opsiynau sain yn ogystal ag opsiynau gweledol ar ei beiriannau codi arian. Fodd bynnag, nid yw banciau eraill wedi gwneud yr un peth ac, mewn sawl ardal wledig yng Nghymru, mae'r banciau wedi tynnu allan o gymunedau yn gyfan gwbl ac mae peiriannau codi arian yn cael eu gweithredu gan ddarparwyr gwahanol. A yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud unrhyw beth i gefnogi ymgyrch Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Ddall, 'Make money talk', er mwyn sicrhau bod gan bob peiriant codi arian Nghymru, lle bynnag y maent wedi cael eu gosod, opsiwn sain sy'n galluogi pobl ddall a rhannol ddall i'w defnyddio, heb gymorth dieithriaid neu orfod gwneud trefniadau gyda ffrindiau i gwrdd â nhw wrth y peiriant codi arian?

Jane Hutt: Mae Kirsty Williams yn codi mater pwysig ac mae'n tynnu ein sylw at y gwahaniaeth yn yr ymatebion a gafwyd gan y sector bancio. Mae'r cymorth grant a roddwn i RNIB Cymru bob blwyddyn yn arbennig o bwysig er mwyn iddo allu bwrw ymlaen â'i ymgyrch ar y mater hwn.

Sandy Mewies: Fel y gwyddoch, rwy'n cadeirio'r grŵp trawsbleidiol ar olwg. Neithiwr, unwaith eto, roedd trafnidiaeth ar ein hagenda. Ni fydd yn syndod ichi ddeall bod pobl yn dal i feddwl bod diffyg sylweddol yn y cyfleoedd sydd ar gael i bobl â nam ar eu golwg, ac yn wir, unrhyw nam ar y synhwyrau, i ddefnyddio trafnidiaeth, boed

whether bus or rail. The Minister with responsibility for transport knows that I will be writing to him about this, but I encourage you to encourage your Cabinet colleagues and anyone who has an involvement to keep taking this forward until getting on a bus and a train is as easy for anybody with an impairment as it is for anybody else.

Jane Hutt: I am grateful to the chair of the cross-party group for raising this, along with other Members in the Chamber. The Minister for transport has heard this and I am sure that he will respond.

Blaenoriaethau Cyllido

10. Paul Davies: *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei blaenoriaethau cyllido ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. OAQ(4)0176(FIN)*

Jane Hutt: The draft budget set out our priorities for the next year. We remain committed to promoting economic growth and safeguarding our vital front-line services.

Paul Davies: I am grateful to the Minister for that answer. I am sure that one of her other priorities is to ensure value for money for the taxpayer. It could be argued that the invest-to-save fund that she has established will provide value for money, as it is a payback scheme under which money is reinvested in the next project. As Minister for Finance, can you tell us what processes and frameworks are in place to ensure that Ministers across all Government departments are achieving value for money? How do you monitor and test this particular objective?

Jane Hutt: That is a key question from the Welsh Conservatives' finance spokesperson. It is relevant to the review being undertaken by the Finance Committee. I look forward to the outcome of its inquiry and to responding in due course. There is a corporate approach across Government in making use of invest to save.

The Leader of Plaid Cymru (Leanne Wood): Minister, a number of people have mentioned borrowing powers to you this

ar fysiau neu drenau. Gŵyr y Gweinidog sydd â chyfrifoldeb dros drafnidiaeth y byddaf yn ysgrifennu ato am hyn, ond rwy'n eich annog i annog eich cyd-Weinidogion yn y Cabinet ac unrhyw un sy'n gysylltiedig i barhau i fwrw ati gyda hyn hyd nes y bydd teithio ar fws a thrên yr un mor hawdd i rywun sydd â nam ag y mae i bawb arall.

Jane Hutt: Rwy'n ddiolchgar i gadeirydd y grŵp trawsbleidiol am godi hyn, ynghyd ag Aelodau eraill yn y Siambr. Mae'r Gweinidog Trafnidiaeth wedi clywed hyn, ac rwy'n siŵr y bydd yn ymateb.

Funding Priorities

10. Paul Davies: *Will the Minister make a statement on her funding priorities for the next financial year. OAQ(4)0176(FIN)*

Jane Hutt: Nodwyd ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf yn y gyllideb ddrafft. Rydym yn dal yn ymrwymedig i hyrwyddo twf economaidd a diogelu ein gwasanaethau llinell flaen hanfodol.

Paul Davies: Rwy'n ddiolchgar i'r Gweinidog am yr ateb hwnnw. Rwy'n siŵr mai un o'i blaenoriaethau eraill yw sicrhau gwerth am arian i'r trethdalwr. Gellid dadlau y bydd y gronfa buddsoddi i arbed a sefydlodd yn darparu gwerth am arian, gan ei fod yn gynllun ad-dalu lle caiff arian ei ail-fuddsoddi yn y prosiect nesaf. Fel y Gweinidog Cyllid, a allwch ddweud wrthym pa brosesau a fframweithiau sy'n bodoli i sicrhau bod Gweinidogion ar draws holl adrannau'r Llywodraeth yn sicrhau gwerth am arian? Sut ydych chi'n monitro ac yn profi'r amcan penodol hwn?

Jane Hutt: Mae hwnnw'n gwestiwn allweddol gan lefarydd cyllid Ceidwadwyr Cymru. Mae'n berthnasol i'r adolygiad a gynhelir gan y Pwyllgor Cyllid. Edrychaf ymlaen at ganlyniad ei ymchwiliad ac i ymateb maes o law. Mae dull gweithredu corfforaethol ar draws y Llywodraeth i wneud defnydd o'r gronfa buddsoddi i arbed.

Arweinydd Plaid Cymru (Leanne Wood): Weinidog, mae nifer o bobl wedi sôn wrthyhych am bwerau benthyca'r prynhawn yma.

afternoon. Can you tell us what shovel-ready projects you have lined up to utilise those powers when they come? It would be useful to know your top three. I also noted your answer earlier to Ieuan Wyn Jones, who asked you when those borrowing powers would become available; you said that it would be sometime during this Parliament. Could you please be a bit more specific?

Jane Hutt: The pipeline for infrastructure projects laid out in our Wales infrastructure plan gives you a clear indication of the shovel-ready projects. In fact, I wrote to the Chancellor this week, following a call that I made at the quadrilateral meeting for finance Ministers last week, saying that the autumn statement should provide an opportunity for a fiscal stimulus for capital investment. I am happy to share that letter and to put it in the Library. I also think that we have to wait for the Silk commission and inter-governmental talks to provide a timely announcement on new opportunities for borrowing powers.

William Powell: Recently, it was my privilege to attend the Welsh Football Trust awards, where Alex Samuel from Ceredigion was the winner of the male player of the year award. Many attendees pointed out quite how much of an achievement it was that he secured the award, given the relative lack of facilities that are available in his home town, compared with the recent investments that have been made in south Wales in particular. Given the importance that youth sport plays in Welsh society, will you please commit to working with your colleague, the Minister with responsibility for sport, to ensure that rural Welsh teams are not disadvantaged by their location and that our young players also have the advantages enjoyed by their compatriots?

Jane Hutt: Certainly. We send our congratulations to your young constituent for his achievement at the Welsh football awards. The Minister for sport is addressing the issue of the rural and urban needs of our young people in terms of access to sport.

Allwch chi ddweud wrthym pa brosiectau parod rydych wedi eu trefnu i ddefnyddio'r pwerau hynny pan ddônt? Byddai'n ddefnyddiol inni wybod beth yw eich tri uchaf. Rwyf hefyd wedi nodi eich ateb cynharach i Ieuan Wyn Jones, a ofynnodd ichi pryd y byddai'r pwerau benthyca hynny ar gael; dywedasoch y byddai hynny ryw bryd yn ystod y Senedd hon. Allech chi fod ychydig yn fwy penodol os gwelwch yn dda?

Jane Hutt: Mae'r cynllun ar gyfer prosiectau seilwaith a nodir yng nghynllun seilwaith Cymru yn rhoi syniad clir ichi o'r prosiectau parod. Yn wir, ysgrifennais at y Canghellor yr wythnos hon, yn dilyn galwad a wneuthum yn y cyfarfod pedrochr ar gyfer Gweinidogion cyllid yr wythnos ddiwethaf, gan ddweud y dylai datganiad yr hydref roi cyfle am ysgogiad ariannol ar gyfer buddsoddiad cyfalaf. Rwy'n fodlon rhannu'r llythyr hwnnw a'i roi yn y Llyfrgell. Credaf hefyd fod yn rhaid inni aros am gomisiwn Silk a sgysiau rhynglywodraethol i ddarparu cyhoeddiad amserol ar gyfleoedd newydd ar gyfer pwerau benthyca.

William Powell: Yn ddiweddar, cefais y pleser o fynychu gwobrau Ymddiriedolaeth Bêl-droed Cymru, lle enillodd Alex Samuel o Geredigion wobwr chwaraewr gwrywaidd y flwyddyn. Nododd sawl un oedd yn bresennol faint ei gyflawniad yn ennill y wobwr, o ystyried y diffyg cyfleusterau cymharol sydd ar gael yn ei dref enedigol, o gymharu â'r buddsoddiadau diweddar a wnaed yn y de yn arbennig. O ystyried pwysigrwydd chwaraeon ieuenctid yn y gymdeithas yng Nghymru, a wnewch chi ymrwymo i weithio gyda'ch cyd-Aelod, y Gweinidog sydd â chyfrifoldeb dros chwaraeon, er mwyn sicrhau nad yw timau o ardaloedd gwledig yng Nghymru o dan anfantais oherwydd eu lleoliad a bod ein chwaraewyr ifanc hefyd yn mwynhau'r un buddiannau â'u cydwladwyr?

Jane Hutt: Yn sicr. Hoffem longyfarch eich etholwr ifanc ar ei gamp yng ngwobrau pêl-droed Cymru. Mae'r Gweinidog Chwaraeon yn mynd i'r afael ag anghenion gwledig a threfol ein pobl ifanc o ran mynediad i chwaraeon.

Rheoli Grantiau

11. Eluned Parrott: *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am agwedd Llywodraeth Cymru tuag at reoli grantiau. OAQ(4)0180(FIN)*

Jane Hutt: The grants management project was set up to improve grants management and administration across the Welsh Government. Officials have benchmarked all grants against minimum standards and made recommendations for improvements where appropriate.

Eluned Parrott: After the All Wales Ethnic Minority Association scandal, one grant management area that has caused concern is the so-called proxy arrangement, where third sector organisations are funded to deliver Welsh Government priorities. In July, you told the Chamber that audit arrangements for such proxy contracts are considered on a case-by-case basis. Given that we have had 19 highly critical Wales Audit Office reports in this area, do you not agree that this ad hoc approach has been truly inadequate?

Jane Hutt: The grants management project, set up to improve grant practices generally, has been reviewed and considered not only by the Wales Audit Office, but by the Public Accounts Committee. It provides us with a real opportunity to review, reflect and learn lessons. I had an excellent meeting on Monday with the third sector in my role as Minister for Finance, and governance and the grants management project were on the agenda.

Antoinette Sandbach: Minister, I am sure that you will agree that it is vital that, when the Welsh Government administers European grant funding, businesses receiving this money meet the conditions attached to the grant, so that the risk of fraud is minimised and Welsh taxpayers receive value for money. Given that the business department is the only Welsh Government department to receive a limited assurance warning in its annual assurance report, can you tell us what factors you have identified as being

Grants Management

11. Eluned Parrott: *Will the Minister make a statement on the Welsh Government's approach to grants management. OAQ(4)0180(FIN)*

Jane Hutt: Sefydlwyd y prosiect rheoli grantiau i wella prosesau rheoli a gweinyddu grantiau ar draws Llywodraeth Cymru. Mae swyddogion wedi meincnodi pob grant yn erbyn safonau gofynnol ac wedi gwneud argymhellion ar gyfer gwelliannau lle bo hynny'n briodol.

Eluned Parrott: Ar ôl scandal Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan, un maes rheoli grantiau sydd wedi achosi pryder yw'r trefniant dirprwy fel y'i gelwir, lle mae sefydliadau trydydd sector yn cael eu hariannu i gyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Ym mis Gorffennaf, dywedasoch wrth y Siambr fod trefniadau archwilio ar gyfer contractau dirprwy o'r fath yn cael eu hystyried fesul achos. O ystyried ein bod wedi cael 19 o adroddiadau beirniadol iawn gan Swyddfa Archwilio Cymru yn y maes hwn, a ydych yn cytuno bod y dull ad hoc hwn wedi bod yn gwbl annigonol?

Jane Hutt: Mae'r prosiect rheoli grantiau, a sefydlwyd i wella arferion grant yn gyffredinol, wedi cael ei adolygu a'i ystyried, nid yn unig gan Swyddfa Archwilio Cymru, ond hefyd gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. Mae'n rhoi cyfle gwirioneddol i ni adolygu, myfyrio a dysgu gwersi. Cefais gyfarfod rhagorol ddydd Llun gyda'r trydydd sector yn rhinwedd fy swydd fel Gweinidog Cyllid, ac roedd llywodraethu a'r prosiect rheoli grantiau ar yr agenda.

Antoinette Sandbach: Weinidog, rwy'n siŵr y byddwch yn cytuno ei bod yn hanfodol, pan fydd Llywodraeth Cymru yn gweinyddu arian grant Ewropeaidd, bod busnesau sy'n derbyn yr arian hwn yn bodloni'r amodau sydd ynghlwm wrth y grant, fel bod y risg o dwyll yn cael ei leihau a bod trethdalwyr Cymru yn cael gwerth am arian. O gofio mai'r adran fusnes yw'r unig adran o Lywodraeth Cymru i gael rhybudd sicrwydd cyfyngedig yn ei hadroddiad sicrwydd blynyddol, allwch chi ddweud wrthym pa

responsible for that limited assurance conclusion?

Jane Hutt: I am not aware of the issue that you are raising. I would say that what is very clear is that the grants management project and the due diligence that has been undertaken ensure that we are in a fit place in terms of value for money in the use of public money.

Jocelyn Davies: Minister, I am sure that you would agree that evaluation within the grants system is crucial to judge whether money is well used. Will you in the future publish the evaluation criteria for the grants given by the Welsh Government?

Jane Hutt: That would be a very valuable piece of information. I will certainly look into ways in which we can provide that in a coherent way for all our grants. It may take some time, but I will certainly look into that with my officials.

Cronfa Ddata Gwybodaeth am Gymwysterau Cyflenwyr

12. Mike Hedges: *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynnydd y Gronfa Ddata Gwybodaeth am Gymwysterau Cyflenwyr Llywodraeth Cymru. OAQ(4)0173(FIN)*

Jane Hutt: Since I launched the SQuID approach in February, there has been widespread take-up across the Welsh public sector, simplifying procurement for Welsh businesses. The electronic version will go live on the new Sell2Wales site in 2013.

Mike Hedges: I have been contacted by a number of small and medium-sized enterprises in my constituency that believe that this will help them with the tendering process. What will the Government do to publicise this database to SMEs in Wales?

Jane Hutt: The SQuID is import to SMEs, as you said. I can assure Mike Hedges that we

ffactorau a nodwyd gennych fel rhai sy'n gyfrifol am y casgliad sicrwydd cyfyngedig hwnnw?

Jane Hutt: Nid wyf yn ymwybodol o'r mater yr ydych yn ei godi. Byddwn yn dweud mai'r hyn sy'n glir iawn yw bod y prosiect rheoli grantiau a'r diwydrwydd dyladwy a roddwyd yn sicrhau ein bod mewn sefyllfa addas o ran gwerth am arian yn y defnydd a wneir o arian cyhoeddus.

Jocelyn Davies: Weinidog, rwy'n siŵr y byddech yn cytuno bod gwerthuso o fewn y system grantiau yn hanfodol i farnu a yw arian yn cael ei ddefnyddio'n dda. A fyddwch yn y dyfodol yn cyhoeddi'r meini prawf gwerthuso ar gyfer y grantiau a roddir gan Lywodraeth Cymru?

Jane Hutt: Byddai hynny'n wybodaeth werthfawr iawn. Byddaf yn sicr yn edrych ar ffyrdd y gallwn ddarparu hynny mewn ffordd gydlynol ar gyfer ein holl grantiau. Gall gymryd peth amser, ond byddaf yn sicr yn edrych i mewn i hynny gyda'm swyddogion.

Supplier Qualification Information Database

12. Mike Hedges: *Will the Minister make a statement on the progress of the Welsh Government's Supplier Qualification Information Database (SQuID). OAQ(4)0173(FIN)*

Jane Hutt: Ers imi lansio'r dull Cronfa Ddata Gwybodaeth am Gymwysterau Cyflenwyr ym mis Chwefror, mae nifer fawr wedi'i fabwysiadu ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru, gan symleiddio prosesau caffael i fusnesau yng Nghymru. Bydd y fersiwn electronig yn mynd yn fyw ar safle newydd GwerthwchiGymru yn 2013.

Mike Hedges: Mae nifer o fentrau bach a chanolig yn fy etholaeth wedi cysylltu â mi sy'n credu y bydd hyn yn eu helpu gyda'r broses dendro. Beth fydd y Llywodraeth yn ei wneud i roi cyhoeddusrwydd i'r gronfa ddata hon i fusnesau bach a chanolig yng Nghymru?

Jane Hutt: Mae'r gronfa ddata yn bwysig i fusnesau bach a chanolig, fel y dywedaso.

are now removing barriers to enable SMEs to access and compete for our public contracts. Indeed, the focus on procurement is widely welcomed. We have mentioned the Federation of Small Businesses and the McClelland report, which gives a very clear steer on the way forward.

Nick Ramsay: Minister, the FSB has called for your Government to increase the uptake SQuID. You have mentioned that there has been a delay in getting the online version up and running—I think you mentioned that it would be operational in 2013; can you be more specific about the date on which it will be launched, because it is very important for procurement in Wales?

Jane Hutt: I will certainly inform Members as soon as we have a date for its implementation.

Llyr Huws Gruffydd: Weinidog, rydym yn aml iawn yn clywed bod polisi'r Llywodraeth o safbwynt caffael cyhoeddus yn haeddu clod, ond nad yw cyrff cyhoeddus, fel awdurdodau lleol, o reidrwydd yn gweithredu'r polisi hwnnw. Roeddech yn bresennol mewn cynhadledd ddiweddar ar y pwnc penodol hwn, ac roeddwn yn glir wrth wrando ar y gwahanol gyfraniadau bod angen i'r Llywodraeth ddeddfu er mwyn sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn gweithredu polisi'r Llywodraeth yn effeithiol. A wnewch chi, felly, ddatganiad ar safbwynt y Llywodraeth o ran y gofyn i ddeddfu ar y mater hwn?

Jane Hutt: I will announce the public procurement policy statement shortly. One of the recommendations of the McClelland review was that we look at the justification and progress towards a statutory base. I am sure that that will be considered in due course.

Comisiwn Silk

13. Simon Thomas: *Pa sylwadau y mae'r Gweinidog wedi'u cyflwyno i'r Comisiwn Silk yn y chwe mis diwethaf. OAQ(4)0177(FIN)*

Gallaf sicrhau Mike Hedges ein bod yn awr yn cael gwared ar rwystrau i alluogi busnesau bach a chanolig i gael mynediad i'n contractau cyhoeddus a chystadlu amdanynt. Croesewir y ffocws ar gaffael yn eang. Rydym wedi crybwyll y Ffederasiwn Busnesau Bach ac adroddiad McClelland, sy'n rhoi arweiniad clir iawn ar y ffordd ymlaen.

Nick Ramsay: Weinidog, mae'r Ffederasiwn Busnesau Bach wedi galw ar eich Llywodraeth i gynyddu'r nifer sy'n mabwysiadu dull y gronfa ddata. Soniasoch y bu oedi o ran sefydlu'r fersiwn ar-lein—credaf ichi grybwyll y byddai'n weithredol yn 2013; a allwch fod yn fwy penodol am y dyddiad y bydd yn cael ei lansio, oherwydd ei fod yn bwysig iawn ar gyfer caffael yng Nghymru?

Jane Hutt: Byddaf yn sicrhau yn hysbysu Aelodau cyn gynted ag y cawn ddyddiad ar gyfer ei weithredu.

Llyr Huws Gruffydd: Minister, we often hear that Government policy in terms of public procurement is praiseworthy, but that public bodies, such as local authorities, do not necessarily always implement that policy. You attended a recent conference on this particular issue, and in listening to the various contributions, I was clear that there was a need for Government to legislate in order to ensure that public bodies implement the Government's policy effectively. Will you, therefore, make a statement on the Government's position on the need for legislation on this issue?

Jane Hutt: Byddaf yn cyhoeddi'r datganiad polisi caffael cyhoeddus maes o law. Un o argymhellion adolygiad McClelland oedd ein bod yn edrych ar y cyfiawnhad a'r cynnydd tuag at sylfaen statudol. Rwy'n siŵr y bydd hynny'n cael ei ystyried maes o law.

The Silk Commission

13. Simon Thomas: *What representations has the Minister made to the Silk Commission in the last 6 months. OAQ(4)0177(FIN)*

Jane Hutt: The Silk commission is an independent commission that reports to the UK Government. I look forward to its first report, which is due to be released next week.

Simon Thomas: Minister, in the press conference that you held about three weeks ago to announce an announcement that has not yet been made, Danny Alexander said that your borrowing powers should be commensurate with tax-varying powers. What evidence have you given to the Silk commission regarding the level of tax-varying powers that your Government should have?

Jane Hutt: We gave evidence to the Silk commission, and I am sure that I do not need to draw your attention to it again. I am sure that you would also have been interested in the lecture given by the First Minister last week at the London School of Economics, which I am sure will shed more light on our views prior to the report from Silk that will be published next Monday.

Paul Davies: In the event that the Silk commission reports against the idea of an independent stream of revenue in order to support future borrowing powers for the Welsh Government, will you tell us, Minister, what contingency plans the Welsh Government has in place and what other steps you can take?

Jane Hutt: I am very optimistic about the Silk commission report, as I am sure is everyone across the Chamber, because it is a cross-party commission. I look forward to a positive result, which I hope will reflect the views not only of the Government and the other parties, but also the people of Wales, because if you look at the recent polls, you will see that they are very encouraging indeed.

Pwerau Benthyc

14. Mick Antoniw: *Beth y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud i baratoi ar gyfer y posibilrwydd o gael rhagor o bwerau benthyc. OAQ(4)0178(FIN)*

Jane Hutt: Comisiwn annibynnol yw comisiwn Silk sy'n adrodd i Lywodraeth y DU. Edrychaf ymlaen at weld ei adroddiad cyntaf, y disgwylir iddo gael ei ryddhau yr wythnos nesaf.

Simon Thomas: Weinidog, yn y gynhadledd i'r wasg a gynhaliwyd gennych tua thair wythnos yn ôl i gyhoeddi cyhoeddiad nad yw wedi'i wneud eto, dywedodd Danny Alexander y dylai eich pwerau benthyc fod yn gymesur â phwerau amrywio trethi. Pa dystiolaeth ydych chi wedi'i rhoi i gomisiwn Silk am lefel y pwerau amrywio trethi y dylai eich Llywodraeth eu cael?

Jane Hutt: Rhoesom dystiolaeth i gomisiwn Silk, ac rwy'n siŵr nad oes angen imi dynnu eich sylw at hynny eto. Rwy'n siŵr y byddech hefyd wedi bod â diddordeb yn y ddarlith a roddwyd gan y Prif Weinidog yr wythnos ddiwethaf yn Ysgol Economeg Llundain, a fydd, rwy'n siŵr, yn taflu mwy o oleuni ar ein safbwyntiau cyn yr adroddiad gan Silk a gaiff ei gyhoeddi ddydd Llun nesaf.

Paul Davies: Pe byddai comisiwn Silk yn adrodd yn erbyn y syniad o ffrwd annibynnol o refeniw er mwyn cefnogi pwerau benthyc yn y dyfodol ar gyfer Llywodraeth Cymru, a ddywedwch wrthym, Weinidog, pa gynlluniau wrth gefn sydd gan Lywodraeth Cymru a pha gamau eraill y gallwch eu cymryd?

Jane Hutt: Rwy'n obeithiol iawn am adroddiad comisiwn Silk, fel pawb ar draws y Siambr rwy'n siŵr, gan mai comisiwn trawsbleidiol ydyw. Edrychaf ymlaen at ganlyniad cadarnhaol, y gobeithiaf fydd yn adlewyrchu safbwyntiau'r Llywodraeth a'r pleidiau eraill, yn ogystal â phobl Cymru, oherwydd os edrychwch ar y polau diweddar, byddwch yn gweld eu bod yn galonogol iawn.

Borrowing Powers

14. Mick Antoniw: *What preparations has the Welsh Government undertaken to prepare for the possibility of increased borrowing powers. OAQ(4)0178(FIN)*

Jane Hutt: Investment priorities have been identified in the Welsh infrastructure investment plan, which borrowing could be used to finance. In parallel, we are continuing discussions with the UK Government, securing early access to borrowing powers to finance specific capital projects.

Jane Hutt: Nodwyd blaenoriaethau buddsoddi yn y cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru, y gellid defnyddio arian a fenthycwyd i'w ariannu. Ar yr un pryd, rydym yn parhau i drafod gyda Llywodraeth y DU, gan sicrhau mynediad cynnar i bwerau benthyca i ariannu prosiectau cyfalaf penodol.

2.15 p.m.

Mick Antoniw: Minister, in the consideration of the development of those plans, will the Government be looking at, perhaps, major legacy potential in respect of such investment? I have in mind transformational projects, such as the south Wales metro and the idea of a circle line in the Valleys—things that will fundamentally transform communities for the benefit of all.

Mick Antoniw: Weinidog, wrth ystyried y gwaith o ddatblygu'r cynlluniau hynny, a fydd y Llywodraeth yn edrych, o bosibl, ar botensial etifeddiaeth fawr mewn perthynas â buddsoddiad o'r fath? Mae gennyf brosiectau trawsnewidiol mewn golwg, fel metro de Cymru a'r syniad o linell cylch yn y Cymoedd—pethau a fydd yn trawsnewid cymunedau yn sylfaenol er budd pawb.

Jane Hutt: Clearly, transport is a key priority in our Wales infrastructure investment plan. Again, I draw attention to projects in the pipeline. We would be open to considering other projects, such as those that the Member for Pontypridd raised, namely the south Wales metro and the Valleys circle line. Of course, we would be willing to consider them.

Jane Hutt: Yn amlwg, mae trafnidiaeth yn flaenoriaeth allweddol yn ein cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru. Unwaith eto, tynnaf sylw at brosiectau sydd ar y gweill. Byddem yn agored i ystyried prosiectau eraill, megis y rhai y soniodd yr Aelod dros Bontypridd amdanynt, sef metro de Cymru a llinell cylch y Cymoedd. Wrth gwrs, byddem yn barod i'w hystyried.

William Graham: As we have discussed already, the Treasury is very keen that if we do have borrowing powers, there should be taxing powers. Therefore, Minister, what particular taxes do you think that you should impose on the people of Wales?

William Graham: Fel yr ydym wedi trafod eisoes, mae'r Trysorlys yn awyddus iawn, os cawn bwerau benthyca, y dylem gael pwerau trethu. Felly, Weinidog, pa drethi penodol yr ydych yn credu y dylech eu gosod ar bobl Cymru?

Jane Hutt: Again, we have said that we are open-minded on the case for tax devolution. We should be pragmatic and take a case-by-case approach. Again, I think that we are anticipating Monday's response from the Silk commission. I am sure that we recognise that the devolution of taxes is strongest where taxes can be used as policy levers for matters that are already partly or wholly devolved in Wales.

Jane Hutt: Unwaith eto, rydym wedi dweud bod gennym feddwl agored ar yr achos dros ddatganoli treth. Dylem fod yn bragmatig gan weithredu ar sail achos unigol. Unwaith eto, crefaf ein bod yn rhagweld ymateb ddydd Llun gan gomisiwn Silk. Rwy'n siŵr ein bod yn cydnabod bod datganoli trethi ar ei gryfaf o ddefnyddio trethi fel dulliau polisi ar gyfer materion sydd eisoes wedi'u datganoli'n rhannol neu'n gyfan gwbl yng Nghymru.

Blaenoriaethau Portffolio

15. Arweinydd yr Wrthblaid (Andrew R.T. Davies): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei blaenoriaethau portffolio sydd yn yr arfaeth ar gyfer rhanbarth Canol De Cymru.

Portfolio Priorities

15. The Leader of the Opposition (Andrew R.T. Davies): Will the Minister make a statement on her upcoming portfolio priorities for the South Wales Central region.

OAQ(4)0185(FIN)

Jane Hutt: We are committed to delivering better outcomes for people and communities across the whole of Wales and to protect the most vulnerable in our society.

Andrew R.T. Davies: Thank you, Minister, for that answer. One of the things that your department could be doing with other Government departments is driving better service delivery from buses and public transport. This could be done by ensuring that there is adequate training provision within the contracts for bus operators, for example, and ensuring that disabled people's rights are protected so that they can feel included in public transport planning. Will you update us as to how your department is working across Government to make sure that this important part of its work is being undertaken?

Jane Hutt: Clearly, the deregulation of buses has had a major adverse impact on the way that we can ensure not only that we have appropriate-quality contracts with bus providers, but that we can deal with the important issues of access, particularly for disabled people. Certainly, this is a cross-governmental issue reflected in the framework for independent living.

OAQ(4)0185(FIN)

Jane Hutt: Rydym yn ymrwymedig i gyflwyno canlyniadau gwell i bobl a chymunedau ar draws Cymru gyfan, ac i amddiffyn y rhai mwyaf bregus yn ein cymdeithas.

Andrew RT Davies: Diolch ichi, Weinidog, am yr ateb hwnnw. Un o'r pethau y gallai eich adran ei wneud gydag adrannau eraill y Llywodraeth yw sicrhau darpariaeth well gan wasanaethau bysiau a thrafnidiaeth gyhoeddus. Gellid gwneud hyn drwy sicrhau bod digon o hyfforddiant o fewn y contractau ar gyfer gweithredwyr bysiau, er enghraifft, a sicrhau bod hawliau pobl anabl yn cael eu diogelu fel y gallant deimlo eu bod yn cael eu cynnwys wrth gynllunio trafndiaeth gyhoeddus. A roddwch y wybodaeth ddiweddaraf inni am sut y mae eich adran yn gweithio ar draws y Llywodraeth i wneud yn siŵr y gwneir y rhan bwysig hon o'i gwaith?

Jane Hutt: Yn amlwg, mae'r broses o ddadroleiddio'r bysiau wedi cael effaith andwyol sylweddol ar y ffordd y gallwn sicrhau bod gennym contractau o ansawdd priodol gyda darparwyr bysiau, yn ogystal ag ar y ffordd y gallwn ddelio â'r materion pwysig o ran mynediad, yn enwedig i bobl anabl. Yn sicr, mae hwn yn fater trawslywodraethol a adlewyrchir yn y fframwaith ar gyfer byw'n annibynnol.

Cwestiynau i'r Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth Questions to the Minister for Business, Enterprise, Technology and Science

Maes Awyr Caerdydd

I. Mick Antoniw: *Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cael ynglyn â chynlluniau i droi maes awyr Caerdydd yn gyfleuster 'porth i'r gorllewin'. OAQ(4)0196(BET)*

The Minister for Business, Enterprise, Technology and Science (Edwina Hart): Senior officials recently met with promoters of the proposals to discuss them in more detail.

Mick Antoniw: Minister, you will have seen reports in the press that were speculating

Cardiff Airport

I. Mick Antoniw: *What discussions has the Minister had regarding plans to elevate Cardiff airport into a 'western gateway' facility. OAQ(4)0196(BET)*

Y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth (Edwina Hart): Cyfarfu uwch swyddogion â hyrwyddwyr y cynigion yn ddiweddar i'w trafod yn fanylach.

Mick Antoniw: Weinidog, byddwch wedi gweld adroddiadau yn y wasg a oedd yn

about how the airport might develop internationally. Can you confirm that the Government has considered all the different options for the potential development of the airport and that the Government will continue to press for improvements to and the development of the airport?

Edwina Hart: I can answer 'yes' to your questions, but also indicate to you that we were very pleased with the appointment of the airports commission, chaired by Sir Howard Davies. We will, of course, be considering what evidence we present to Howard Davies to take forward the discussions in respect of Cardiff Airport.

Andrew R.T. Davies: I too commend the inclusion of Cardiff Airport as a possible hub. This is a proposition that I put to the First Minister back in the early summer for him to take forward. I am pleased that it has now come into reality. However, I would also ask the Minister for a statement on what she expects the outcomes from the First Minister's task and finish group on developing Cardiff Airport to be, so that in 12 to 18 months' time, we might be able to measure what success that task and finish group has had in developing the airport onto a more sustainable footing.

Edwina Hart: You will appreciate that it will be matter for the First Minister to present any reports to the Assembly, as it is his task and finish group that is dealing with the airport. However, I can assure you that we are continuing to look at how to develop and promote Cardiff Airport, grow the number of flights, expand connections with other countries, improve passenger experience and boost the economic investment. Perhaps, eventually, Cardiff will be Heathrow's sixth terminal.

Leanne Wood: Minister, we have all heard a number of proposals speculating on the future of Cardiff Airport. What is clear is that the airport needs serious investment, better management and to be a central part of Wales's infrastructure strategy. What plans does the Government have to ensure that the people of Wales have a stake and a say in their national airport?

dyfalu ynghylch sut y gallai'r maes awyr ddatblygu yn rhyngwladol. A allwch gadarnhau bod y Llywodraeth wedi ystyried yr holl opsiynau gwahanol ar gyfer datblygu'r maes awyr ac y bydd y Llywodraeth yn parhau i bwysu am welliannau i'r maes awyr a gwaith i'w ddatblygu?

Edwina Hart: Gallaf, ond roeddem hefyd yn falch iawn o weld penodi comisiwn meysydd awyr, dan gadeiryddiaeth Syr Howard Davies. Byddwn, wrth gwrs, yn ystyried pa dystiolaeth rydym yn ei chyflwyno i Howard Davies i fwrw ymlaen â'r trafodaethau mewn perthynas â Maes Awyr Caerdydd.

Andrew R.T. Davies: Hoffwn innau gymeradwyo'r cynnig i gynnwys Maes Awyr Caerdydd fel hwb posibl hefyd. Mae hwn yn gynnis a gyflwynais i'r Prif Weinidog ddechrau'r haf i'w ddatblygu. Rwy'n falch ei fod bellach wedi cael ei wireddu. Fodd bynnag, byddwn hefyd yn gofyn i'r Gweinidog am ddatganiad ar ganlyniadau disgwylidig grŵp gorchwyl a gorffen y Prif Weinidog ar ddatblygu Maes Awyr Caerdydd, fel y gallwn o bosibl, ymhen 12 i 18 mis, fesur llwyddiant y grŵp gorchwyl a gorffen hwnnw o ran datblygu'r maes awyr ar sail fwy cynaliadwy.

Edwina Hart: Byddwch yn gwerthfawrogi mai'r Prif Weinidog fydd yn cyflwyno unrhyw adroddiadau i'r Cynulliad, gan mai ei grŵp gorchwyl a gorffen ef sy'n delio â'r maes awyr. Fodd bynnag, gallaf eich sicrhau ein bod yn parhau i ystyried sut i ddatblygu a hyrwyddo Maes Awyr Caerdydd, cynyddu nifer y teithiau hedfan, ehangu cysylltiadau â gwledydd eraill, gwella profiad teithwyr a rhoi hwb i'r buddsoddiad economaidd. Efallai, yn y pen draw, mai Caerdydd fydd chweched terfynell maes awyr Heathrow.

Leanne Wood: Weinidog, rydym i gyd wedi clywed nifer o gynigion ynghylch dyfodol Maes Awyr Caerdydd. Yr hyn sy'n amlwg yw bod angen buddsoddiad sylweddol yn y maes awyr, ynghyd â rheolaeth well. Mae angen hefyd iddo fod yn rhan ganolog o strategaeth seilwaith Cymru. Pa gynlluniau sydd gan y Llywodraeth i sicrhau bod pobl Cymru yn cael budd o'u maes awyr

cenedlaethol a chyfle i ddweud eu dweud?

Edwina Hart: The airport is run and managed by a private Catalan company currently, and it is important to recognise that it is an investment within the private sector and that it seeks to make a profit on it in terms of the airport. Obviously, issues will develop. I know that the people of Wales feel particularly passionately about having an airport that enables them to travel where they want across the globe. The only thing that I can say to you is that we have seconded a member of staff to work full-time in the airport, and we are working closely with airport management to achieve suitable outcomes for the people of Wales.

Edwina Hart: Caiff y maes awyr ei redeg a'i reoli gan gwmni preifat o Gatalonia ar hyn o bryd, ac mae'n bwysig cydnabod mai buddsoddiad yn y sector preifat ydyw sydd â'r nod o wneud elw o ran y maes awyr. Yn amlwg, bydd materion yn datblygu. Gwn fod pobl Cymru yn teimlo'n frwd iawn dros gael maes awyr sy'n eu galluogi i deithio i le bynnag y mynnant yn y byd. Yr unig beth y gallaf ei ddweud yw ein bod secondio aelod o staff i weithio'n llawn amser yn y maes awyr, ac rydym yn gweithio'n agos gyda rheolwyr y maes awyr i sicrhau canlyniadau addas i bobl Cymru.

Blaenoriaethau

2. Angela Burns: *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei blaenoriaethau ar gyfer gweddill y Pedwerydd Cynulliad. OAQ(4)0197(BET)*

Edwina Hart: My priorities are outlined in the programme for government.

Angela Burns: Thank you for that answer. I am sure that you will be aware of the Lloyds TSB Wales purchasing managers' index, which was published very recently, and that you will also welcome the fact that the headline index rose from September's 52.42 to 53.8 in October—the highest figure among the 12 UK regions. However, a gulf remains between the output of the manufacturing and service sectors. The expansion detailed remains very dependent on the manufacturing sector, and I would be interested to know what you intend to do to help the service sector to also move forward and be successful.

Edwina Hart: It is very important to look at the contribution that the service sector can make to the Welsh economy. We have taken a strategic view as to how we deal with the economy in terms of the services that we have, and we have put a heavy emphasis on the financial and professional services sector, which we will continue to do. I am also interested in the retail sector in terms of the services that it provides, and it is very important that we continue the work that we

Priorities

2. Angela Burns: *Will the Minister make a statement on her priorities for the remainder of the Fourth Assembly. OAQ(4)0197(BET)*

Edwina Hart: Amlinellir fy mlaenoriaethau yn y rhaglen lywodraethu.

Angela Burns: Diolch am yr ateb hwnnw. Rwy'n siŵr y byddwch yn ymwybodol o fynegai rheolwyr prynu Lloyds TSB Cymru, a gyhoeddwyd yn ddiweddar iawn, ac y byddwch hefyd yn croesawu'r ffaith bod y prif fynegai wedi codi o 52.42 ym mis Medi i 53.8 ym mis Hydref—y ffigur uchaf o blith 12 rhanbarth y DU. Fodd bynnag, erys bwlch rhwng allbwn y sector gweithgynhyrchu a'r sector gwasanaeth o hyd. Mae'r gwaith ehangu y manylwyd arno yn ddibynnol iawn ar y sector gweithgynhyrchu, a hoffwn wybod beth rydych yn bwriadu ei wneud i helpu'r sector gwasanaeth hefyd i symud ymlaen a bod yn llwyddiannus.

Edwina Hart: Mae'n bwysig iawn ystyried y cyfraniad y gall y sector gwasanaeth ei wneud i economi Cymru. Rydym wedi delio â'r economi mewn modd strategol o ran y gwasanaethau sydd gennym, ac wedi rhoi pwyslais mawr ar y sector gwasanaethau ariannol a phroffesiynol, a byddwn yn parhau i wneud hynny. Mae gennyf ddiddordeb hefyd yn y sector manwerthu o ran y gwasanaethau y mae'n eu darparu, ac mae'n bwysig iawn ein bod yn parhau â'r gwaith

are doing within that sector as well, and also discussions with various individuals.

Kenneth Skates: Minister, the *Wrexham Leader* newspaper recently ran a dynamic campaign to help revitalise town centres. One of the suggestions made during the campaign was to improve local road networks in and out of town centres, essentially creating congestion-free green avenues. Minister, will you examine how we can develop integrated and sustainable transport gateways into Welsh towns and city centres, and provide clear guidance to local authorities to ensure that transport integration is a core element of all town centre regeneration?

Edwina Hart: I fully understand the issues that you raise with me, and which are of enormous interest to me, because of my economic and business responsibilities, to the Minister responsible for regeneration, Huw Lewis, and to the Minister for transport. I will certainly draw your comments to their attention.

Alun Ffred Jones: Yn y cytundeb ar y gyllideb, cyhoeddwyd y byddai parc gwyddoniaeth yn cael ei sefydlu a'i arwain gan Brifysgol Bangor. Beth yw eich gobeithion am y parc gwyddoniaeth hwnnw?

Edwina Hart: The budget agreement has only recently been announced, but I have taken the opportunity to have informal discussions with the Minister for Finance and others about the establishment of a working group to look in detail at how we can make the science park a reality.

Alun Ffred Jones: Gwyddom y bu fy nghyfaill Ieuan Wyn Jones yn gweld parc gwyddoniaeth llwyddiannus yn gweithredu ym Melffast. Ar ymweliad â Brwsel yr wythnos diwethaf, clywsom am ganolfan ragoriaeth ym Mhrifysgol Galway sy'n arbenigo mewn datblygiadau morol sy'n ymwneud ag egni, *aquaculture* a phethau tebyg. A wnewch chi sicrhau bod un o'ch swyddogion, neu rywun arall, yn ymweld â'r ganolfan honno hefyd, sy'n ymddangos fel pe bai'n dangos arweiniad ar lefel Ewropeaidd ac a allai fod o fantais wrth ddatblygu

rydym yn ei wneud o fewn y sector hwnnw hefyd, yn ogystal â thrafodaethau ag unigolion amrywiol.

Kenneth Skates: Weinidog, cynhaliodd papur newydd *Wrexham Leader* ymgyrch ddynamig yn ddiweddar i helpu i adfywio canol trefi. Un o'r awgrymiadau a wnaed yn ystod yr ymgyrch oedd gwella rhwydweithiau ffyrdd lleol i mewn ac allan o ganol trefi, gan greu, yn ei hanfod rodfeydd gwyrdd heb dagfeydd. Weinidog, a wnewch ystyried sut y gallwn ddatblygu pyrrh trafndiaeth integredig a chynaliadwy i mewn i ganol trefi a dinasoedd Cymru, a rhoi arweiniad clir i awdurdodau lleol er mwyn sicrhau bod integreiddio trafndiaeth yn elfen graidd o holl waith adfywio canol trefi?

Edwina Hart: Rwy'n deall yn llwyr y materion rydych yn eu crybwyll, ac sydd o ddiddordeb mawr imi oherwydd fy nghyfrifoldebau economaidd a busnes, y Gweinidog sy'n gyfrifol am adfywio, Huw Lewis, a'r Gweinidog Trafnidiaeth. Byddaf yn sicr yn tynnu eu sylw at eich sylwadau.

Alun Ffred Jones: In the agreement on the budget, it was announced that a science park would be established, led by Bangor University. What are your hopes for that science park?

Edwina Hart: Dim ond yn ddiweddar y cyhoeddwyd y gyllideb y cytunwyd arni, ond rwyf wedi achub ar y cyfle i gael trafodaethau anffurfiol gyda'r Gweinidog Cyllid ac eraill ynglŷn â sefydlu gweithgor i ystyried yn fanwl sut y gallwn droi'r parc gwyddoniaeth yn realiti.

Alun Ffred Jones: We know that my colleague Ieuan Wyn Jones has been to see a successful science park in operation in Belfast. On our visit to Brussels last week, we heard about a centre of excellence at the University of Galway, which is specialising in marine developments relating to energy, aquaculture and so on. Will you ensure that one of your officials, or someone else, will be able to visit that centre too, as it seems to be displaying leadership at a European level, and it could be of assistance when developing ideas for a science park in the north-west?

syniadau am barc gwyddoniaeth yn y gogledd-orllewin?

Edwina Hart: I will certainly refer this to my senior official in the department, because I think that you make an excellent suggestion.

Edwina Hart: Byddaf yn sicr yn cyfeirio hyn at fy uwch swyddog yn yr adran, oherwydd credaf eich bod yn gwneud awgrym rhagorol.

Peter Black: Minister, thank you for your letter of 15 October relating to SA1 and the long-standing commitment from the former Welsh Development Agency to develop a marina with new lock gates and a channel at that particular venue. I note from the letter that the indication is that Ministers had very little involvement in the decision to remove the policy of allocating capital receipts to invest in that particular area. Given that we are where we are, what is your policy towards creating that marina in the future, and, in particular, to developing the lock gates and the channel that will facilitate that development?

Peter Black: Weinidog, diolch am eich llythyr dyddiedig 15 Hydref ynghylch SA1 a'r ymrwymiad hirsefydlog gan Awdurdod Datblygu Cymru gynt i ddatblygu marina â llifddorau a sianel newydd yn y lleoliad penodol hwnnw. Nodaf o'r llythyr yr ymddengys na fu'r Gweinidogion yn ymwneud fawr ddim â'r penderfyniad i gael gwared ar y polisi o ddyrannu derbyniadau cyfalaf i fuddsoddi yn yr ardal benodol honno. O ystyried lle ydym, beth yw eich polisi o ran creu'r marina hwnnw yn y dyfodol, ac, yn benodol, datblygu'r llifddorau a'r sianel a fydd yn hwyluso'r datblygiad hwnnw?

Edwina Hart: I am aware, Peter Black, that you also raised the matter with the First Minister, who I understand will be replying to you in due course. There is an opportunity with the whole SA1 development to look at it in the context of the city region and what the economic benefits would be of a project like that. I hope very much that, when I announce my proposals on the city region, the four authorities that will be involved in the region, which you represent and in which I have a constituency interest, might be able to look at this area. Obviously, the jury is out on what marinas bring in terms of economic benefits. Therefore, it will be very important in these restrained times in terms of cash to look holistically at the benefits for the region and not just Swansea.

Edwina Hart: Rwy'n ymwybodol, Peter Black, eich bod hefyd wedi codi'r mater gyda'r Prif Weinidog, a fydd yn eich ateb maes o law, o'r hyn a ddeallaf. O ran datblygiad cyfan SA1, mae cyfle i'w ystyried yng nghyd-destun y ddinas-ranbarth a manteision economaidd posibl prosiect o'r fath. Gobeithiaf yn fawr, pan fyddaf yn cyhoeddi fy nghynigion ar gyfer y dinas-ranbarth, y gallai'r pedwar awdurdod a fydd yn rhan o'r rhanbarth, yr ydych yn eu cynrychioli ac y mae gennyf ddiddordeb etholaethol ynddynt, ystyried y maes hwn. Yn amlwg, nid yw'r manteision economaidd y gall marinas eu cynnig yn hysbys ar hyn o bryd. Felly, bydd yn bwysig iawn ar adeg o gyfyngiadau ariannol ystyried y manteision ar gyfer y rhanbarth mewn modd cyfannol ac nid ar gyfer Abertawe yn unig.

Nick Ramsay: Minister, I am sure that you will join me in welcoming the current drop in unemployment figures, not only in Wales but across the UK. However, I remain concerned that the unemployment count in Wales is still higher, at 8.2%, than the UK average of 7.8%. How are you dealing with this in order to get the numbers down?

Nick Ramsay: Weinidog, rwy'n siŵr y byddwch yn ymuno â mi i groesawu'r gostyngiad cyfredol mewn ffigurau diweithdra, nid yn unig yng Nghymru ond ledled y DU. Fodd bynnag, rwy'n dal yn bryderus fod nifer y bobl ddi-waith yng Nghymru, sef 8.2%, yn dal yn uwch na'r nifer gyfartalog yn y DU, sef 7.8%. Sut ydych yn delio â hyn er mwyn lleihau'r niferoedd hyn?

Edwina Hart: I share your feelings on that—we welcome any drop in the unemployment figures. However, we also have to look at the nature of the employment, because lots of people are undertaking part-time jobs, and we need to look at the wage rates they are on. Obviously, all our policies are focused on helping individuals into employment, including through our apprenticeship and training schemes. We are also giving grants and loans to businesses to allow them to retain their employees and take more people on. We hope to continue with that policy.

Nick Ramsay: I am sure that you are aware that the ‘Working Futures 2010-2020’ report that was published recently by the UK Commission for Employment and Skills suggested that, in future, unemployment in Wales would remain a problem and that any jobs created would be more likely to go to incomers to the Welsh economy, which is something that particularly concerns me. You have your policies on enterprise zones, which are now coming to fruition. We have also now had the business rate review. What overall strategy are you developing to bring all these different aspects of policy together to ensure that unemployment remains your Government’s No. 1 concern so that future generations will benefit from investment?

Edwina Hart: Yes, employment is the No. 1 concern of our Government. We are particularly concerned about youth unemployment and the need to get young people into work. That starts with the work that we do across Government on the education and training agenda and involves the schemes that we have available to encourage industry and how we utilise our enterprise zones. It is important to recognise that enterprise zones are about securing new jobs in Wales’s economy; they are not for displacement purposes as has happened historically with enterprise zones.

Cynllun Rhyddhad Ardrethi Busnes

3. Alun Ffred Jones: *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynllun rhyddhad ardrethi busnes yn yr ardaloedd menter arfaethedig.*

Edwina Hart: Cytunaf â chi ynghylch hynny—croesawn unrhyw ostyngiad yn y ffigurau diweithdra. Fodd bynnag, rhaid inni hefyd ystyried natur y gyflogaeth, gan fod llawer o bobl yn ymgymryd â swyddi rhan amser, ac mae angen inni edrych ar y cyfraddau cyflog y maent yn eu hennill. Yn amlwg, mae ein holl bolisiau yn canolbwyntio ar helpu unigolion i gael gwaith, gan gynnwys drwy ein cynlluniau prentisiaeth a hyfforddi. Rydym hefyd yn rhoi grantiau a benthyciadau i fusnesau i’w galluogi i gadw eu gweithwyr a chyflogi mwy o bobl. Gobeithiwn barhau â’r polisi hwnnw.

Nick Ramsay: Gwyddoch rwy’n siŵr fod adroddiad ‘Working Futures 2010-2020’, a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Gomisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau, wedi awgrymu y byddai diweithdra yn parhau i fod yn broblem yng Nghymru yn y dyfodol ac y byddai unrhyw swyddi a grëwyd yn fwy tebygol o fynd i fewnfudwyr i economi Cymru, sy’n peri pryder penodol i mi. Mae gennych eich polisiau ar ardaloedd menter, sydd bellach yn dwyn ffrwyth. Rydym hefyd bellach wedi cynnal adolygiad o ardrethi busnes. Pa strategaeth gyffredinol rydych yn ei datblygu i ddwyn ynghyd yr holl agweddau gwahanol hyn ar bolisi er mwyn sicrhau mai diweithdra yw prif bryder eich Llywodraeth ac y bydd cenedlaethau’r dyfodol yn elwa ar fuddsoddiad?

Edwina Hart: Yn sicr, cyflogaeth yw prif bryder ein Llywodraeth. Rydym yn pryderu’n arbennig am ddiweithdra ymhlith pobl ifanc a’r angen i gael pobl ifanc i mewn i waith. Mae hynny’n dechrau gyda’r gwaith a wnawn ar draws y Llywodraeth ar yr agenda addysg a hyfforddiant ac yn cynnwys y cynlluniau sydd gennym i annog diwydiant a’r modd rydym yn defnyddio ein hardaloedd menter. Mae’n bwysig cydnabod mai nod ardaloedd menter yw sicrhau swyddi newydd yn economi Cymru, ac nid adleoli swyddi fel sydd wedi digwydd yn hanesyddol gydag ardaloedd menter.

Business Rate Relief Scheme

3. Alun Ffred Jones: *Will the Minister make a statement on the business rate relief scheme in the proposed enterprise zones.*

OAQ(4)0182 (BET)

Edwina Hart: I refer to my statement of 23 October. I will make further details available before the scheme becomes operational in January, as I said in Plenary last month.

Alun Ffred Jones: Diolch am hynny ac edrychwn ymlaen at glywed y manylion. Mae'r cwestiwn yr ydych newydd gyfeirio ato yn codi o'r ffaith os mai rhyddhad ar ardrethi busnes yw'r prif arf i ddenu cwmnïau i'r ardaloedd menter hyn, sut ydych chi'n mynd i atal cwmnïau rhag symud o lefydd eraill yng Nghymru i'r ardaloedd hyn, gan greu gwagle ar eu holau, ac, mewn gwirionedd, gwneud dim byd ond symud busnesau o un lle i'r llall? Sut ydych chi'n mynd i atal hynny rhag digwydd?

Edwina Hart: Yes, I have been thinking about this and it is very important that we fine-tune the targeting of the scheme within each enterprise zone board. Of course, we have had discussions with the boards about this. Targeted funding is essential to achieve the best value and impact, but it is also important for us to recognise that we have learnt lessons from the previous rounds in enterprise zones when people just moved their businesses into the zones. As I indicated in my response to Nick Ramsay, this is about attracting new business and jobs to the enterprise zones. Of course, business rates are just part of the package.

Jenny Rathbone: As you said, Minister, business rate relief is not the only tool in the enterprise zone box. What other mechanisms are you pursuing to bring more new jobs to the Cardiff enterprise zone? For example, what progress has been made on developing a fully integrated rail and bus transport system in front of Cardiff Central station?

Edwina Hart: In answering your question, I want to reply to the speculation in the press about Cardiff Council having a scrutiny committee to look at some of these issues. I want to make it crystal clear that the enterprise zone for Cardiff is not just for Cardiff but for the benefit of the whole region. It is the only enterprise zone that is

OAQ(4)0182(BET)

Edwina Hart: Cyfeiriaf at fy natganiad ar 23 Hydref. Byddaf yn cyhoeddi rhagor o fanylion cyn rhoi'r cynllun ar waith ym mis Ionawr, fel y dywedais yn y Cyfarfod Llawn fis diwethaf.

Alun Ffred Jones: Thank you for that and we look forward to hearing the details. The question that you have just referred to arises from that fact that if business rate relief is the main tool for attracting companies to these enterprise zones, how are you going to prevent companies moving from elsewhere in Wales to these zones, thereby creating a vacuum, and, in all honesty, doing nothing but shifting businesses from one area to another? How are you going to prevent that from happening?

Edwina Hart: Ydw, rwyf wedi bod yn ystyried hyn ac mae'n bwysig iawn ein bod yn mireinio'r gwaith o dargedu'r cynllun o fewn bwrdd pob ardal fenter. Wrth gwrs, rydym wedi trafod hyn gyda'r byrddau. Mae arian wedi'i dargedu yn hanfodol i sicrhau'r gwerth a'r effaith orau, ond mae hefyd yn bwysig inni gydnabod bod gennym wersi a ddysgwyd o'r rowndiau blaenorol mewn ardaloedd menter pan welwyd pobl ond yn symud eu busnesau i mewn i'r parthau. Fel y nodais yn fy ymateb i Nick Ramsay, mae hyn yn ymwneud â denu busnes a swyddi newydd i'r ardaloedd menter. Wrth gwrs, dim ond rhan o'r pecyn yw ardrethi busnes.

Jenny Rathbone: Fel y dywedasoch, Weinidog, nid rhyddhad ardrethi busnes yw'r unig gyfrwng yn yr ardal fenter. Pa dulliau eraill rydych yn mynd ar eu trywydd i ddod â mwy o swyddi newydd i ardal fenter Caerdydd? Er enghraifft, pa gynnydd a wnaed o ran datblygu system trafndiaeth rheilffordd a ffyrdd gwbl integredig o flaen gorsaf Caerdydd Canolog?

Edwina Hart: Wrth ateb eich cwestiwn, hoffwn ymateb i'r dyfalu yn y wasg fod gan Gyngor Caerdydd bwyllgor craffu i ystyried rhai o'r materion hyn. Hoffwn ei gwneud yn gwbl glir nad rhywbeth i Gaerdydd yn unig yw ardal fenter Caerdydd; bwriedir iddi fod o fudd i'r rhanbarth cyfan. Hon yw'r unig ardal fenter sy'n canolbwyntio ar wasanaethau

concentrating on financial and professional services and what we want in that zone is high-standard office accommodation to attract new investment and jobs to the Cardiff area. Integral to that is the transport system. I have already had very positive discussions with my colleague the Minister for transport on this. We will be developing the transport arrangements not only for that zone, but for the other zones too. Integral to that will be what can be delivered in terms of rail and light rail. However, some of the other strategic decisions around this—about the location of the bus station, and so on—are a matter for Cardiff Council.

2.30 p.m.

William Graham: Minister, would you outline what discussions you have had regarding not levying empty business rates on new premises, which are essential to attracting new businesses to your enterprise zones?

Edwina Hart: As you are aware, this is one of the issues that have been raised with us. I met Professor Brian Morgan today, at another event. I intend to pick up a few other points that have arisen during the course of his business, not only the charity stuff, but issues such as that which you mentioned, so that we can pursue them.

Busnesau yn Islwyn

4. Gwyn R. Price: *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi busnesau yn Islwyn. OAQ(4)0183(BET)*

Edwina Hart: Yes. We have made clear commitments to support businesses throughout Wales, and our plans are set out in the programme for government.

Gwyn R. Price: Thank you for that answer. I have raised the matter of Real Crisps in the Crumlin ward in my constituency in the Chamber before, and I hope that you will forgive me for doing so again. I recently met representatives of the company, and I thank you for the attendance of officials from your department at that meeting, at extremely

ariannol a phroffesiynol a'r hyn rydym am ei weld yn yr ardal honno yw swyddfeydd o safon uchel er mwyn denu buddsoddiad a swyddi newydd i ardal Caerdydd. Mae'r system drafnidiaeth yn allweddol i hyn. Rwyf eisoes wedi cael trafodaethau cadarnhaol iawn gyda fy nghyd-Aelod, y Gweinidog Trafnidiaeth, ar hyn. Byddwn yn datblygu'r trefniadau cludiant nid yn unig ar gyfer yr ardal honno, ond ar gyfer ardaloedd eraill hefyd. Bydd yr hyn y gellir ei gyflawni o ran rheilffyrdd a rheilffyrdd ysgafn yn allweddol i hynny. Fodd bynnag, mater i Gyngor Caerdydd yw rhai o'r penderfyniadau strategol eraill mewn perthynas â hyn—ynghylch lleoliad yr orsaf fysiau, ac ati.

William Graham: Weinidog, a allech amlinellu pa drafodaethau rydych wedi'u cael ynghylch peidio â chodi cyfraddau busnes ar eiddo gwag ar safleoedd newydd, sy'n hanfodol i ddenu busnesau newydd i'ch ardaloedd menter?

Edwina Hart: Fel y gwyddoch, mae hwn yn un o'r materion a godwyd gyda ni. Cyfarfûm â'r Athro Brian Morgan heddiw, mewn digwyddiad arall. Rwy'n bwriadu crybwyll rhai pwyntiau eraill sydd wedi codi yn ystod cwrs ei fusnes, nid yn unig y pethau elusennol, ond materion fel yr un y sonioch amdano, er mwyn inni fynd ar eu trywydd.

Businesses in Islwyn

4. Gwyn R. Price: *Will the Minister make a statement on what the Welsh Government is doing to support businesses in Islwyn. OAQ(4)0183(BET)*

Edwina Hart: Gwnaf. Rydym wedi gwneud ymrwymïadau clir i gefnogi busnesau ledled Cymru, ac mae ein cynlluniau wedi'u nodi yn y rhaglen lywodraethu.

Gwyn R. Price: Diolch am yr ateb hwnnw. Rwyf wedi codi'r mater yn ymwneud â Real Crisps yn ward Crymlyn yn fy etholaeth yn y Siambr o'r blaen, a gobeithiaf y byddwch yn maddau imi am wneud hynny eto. Cyfarfûm yn ddiweddar â chynrychiolwyr y cwmni, a hoffwn ddiolch ichi am bresenoldeb swyddogion o'ch adran yn y cyfarfod

short notice. We were struck by the determination of all involved to get production going as soon as possible. Minister, can you commit to continuing to support this scheme and to ensuring that it happens?

Edwina Hart: Securing the earliest possible return to manufacturing of Real Crisps in south Wales is a priority. I believe that the best possible outcome from the factory fire would be the creation of a new and advanced facility that will allow the business to continue to grow and to continue to employ further skilled staff, who have contributed so strongly to its performance to date.

Mohammad Asghar: According to the Federation of Small Businesses, small and medium-sized enterprises in Islwyn, and elsewhere, are currently facing a disproportionate amount of costly and time-consuming regulations. In a recent survey, 30% said that employment law was a barrier to taking on new members of staff, while 26% suggested that regulations affected their ability to grow as a firm. The chief executive of Admiral also said that Wales has too many rules and regulations. What is the Minister doing to reduce the burden of regulations on small and medium-sized enterprises, which are vital to jobs and economic growth in Wales and in south-east Wales?

Edwina Hart: Let us make it quite clear that employment law is not a matter devolved to the Government in Wales. As regards Admiral, we have an excellent relationship with that company; it has been a good employer and is one of our anchor companies. Where we are responsible for regulation, we seek to look at the levels of regulation. However, a lot of regulation comes from Europe, and, dare I say it, from the UK Government.

Jocelyn Davies: I heard what you said earlier, Minister, about enterprise zones, and I know that you take a lot of questions on that. However, I wonder whether Islwyn businesses will be at a disadvantage, as they fall outside an enterprise zone?

Edwina Hart: That is a very useful question. In the long run, when we have enterprise

hwnnw, ar rybudd byr iawn. Cawsom ein rhyfeddu gan benderfyniad pawb dan sylw i fynd ati i gynhyrchu cyn gynted â phosibl. Weinidog, a allwch ymrwymo i barhau i gefnogi'r cynllun hwn a sicrhau y bydd yn digwydd?

Edwina Hart: Mae sicrhau bod y gwaith cynhyrchu yn ail-gychwyn cyn gynted â phosibl yn Real Crisps yn y de yn flaenoriaeth. Credaf mai canlyniad gorau posibl y tân yn y ffatri fyddai creu cyfleuster newydd a blaengar a fydd yn galluogi'r busnes i barhau i dyfu a pharhau i gyflogi rhagor o staff medrus, sydd wedi cyfrannu cymaint at ei berfformiad hyd yma.

Mohammad Asghar: Yn ôl y Ffederasiwn Busnesau Bach, mae mentrau bach a chanolig yn Islwyn, ac mewn mannau eraill, ar hyn o bryd yn wynebu nifer anghymesur o reoliadau costus, sy'n cymryd llawer o amser. Mewn arolwg diweddar, dywedodd 30% fod y gyfraith cyflogaeth yn rhwystr i gyflogi aelodau newydd o staff, tra bod 26% wedi awgrymu bod rheoliadau'n effeithio ar eu gallu i dyfu fel cwmni. Dywedodd prif weithredwr Admiral hefyd fod gan Gymru ormod o reolau a rheoliadau. Beth mae'r Gweinidog yn ei wneud i leihau baich rheoliadau ar fentrau bach a chanolig, sy'n hanfodol i swyddi a thwf economaidd yng Nghymru ac yn ne-ddwyrain Cymru?

Edwina Hart: Gadewch inni ei gwneud yn gwbl glir nad yw cyfraith cyflogaeth yn fater sydd wedi'i ddatganoli i Lywodraeth Cymru. O ran Admiral, mae gennym gydberthynas wych â'r cwmni hwnnw; mae wedi bod yn gyflogwr da ac yn un o'n cwmnïau angor. Lle rydym yn gyfrifol am reoleiddio, ceisiwn edrych ar lefelau rheoleiddio. Fodd bynnag, daw llawer o reoleiddio o Ewrop, ac, os caf feiddio dweud, o Lywodraeth y DU.

Jocelyn Davies: Clywais yr hyn a ddywedasoch yn gynharach, Weinidog, am ardaloedd menter, a gwn eich bod yn cymryd llawer o gwestiynau ar hynny. Fodd bynnag, tybed a fydd busnesau Islwyn o dan anfantaes, gan eu bod y tu allan i ardal fenter?

Edwina Hart: Mae hwnnw'n gwestiwn defnyddiol iawn. Yn y tymor hir, pan fydd

zones, and businesses coming into those zones, we will have to look at whether there will be any adverse impact. You are probably thinking about the adverse impact that occurred on town centres such as Swansea when an enterprise zone was created and businesses went out of Swansea. Therefore, it is something that we have to be mindful of. When we evaluate enterprise zones—probably in 12 to 18 months' time—I will certainly take that point into account.

David Rees: Businesses in Valleys communities in Islwyn, and elsewhere, are looking forward to the delivery of next generation broadband. The Welsh Government website indicates that further details on the roll-out programme will be available in the autumn. Can you give us an update as to when those details will be available?

Edwina Hart: We have yet to receive our state aid and major project approval for the project. That is not a matter for the Welsh Government; it is a matter for the UK Government and the European Commission. After that is received, you can have the details. Perhaps I should amend the website to say 'winter' at this rate.

Economi Canolbarth a Gorllewin Cymru

5. Joyce Watson: *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gefnogi economi Canolbarth a Gorllewin Cymru. OAQ(4)0192(BET)*

Edwina Hart: The programme for government sets out fully our priorities for the economy, growth and sustainable jobs throughout Wales.

Joyce Watson: Thank you for that answer, Minister. Certain projects, such as the one that offers free internet access to visitors at our tourist centres, will benefit the Mid and West Wales economy enormously. I understand that all those centres have now gone live. Has there been any initial assessment of the impact of that roll-out, and is the Welsh Government is on track to

gennym ardaloedd menter, a busnesau'n dod i mewn i'r ardaloedd hynny, bydd yn rhaid inni ystyried p'un a fydd unrhyw effaith andwyol. Rydych, fwy na thebyg, yn meddwl am yr effaith andwyol a gafwyd ar ganol trefi fel Abertawe pan grëwyd ardal fenter a gwelwyd busnesau yn symud allan o Abertawe. Felly, mae'n rhywbeth y mae'n rhaid inni fod yn ymwybodol ohono. Pan fyddwn yn gwerthuso ardaloedd menter—ymhen 12 i 18 mis fwy na thebyg—byddaf yn sicr yn ystyried y pwynt hwnnw.

David Rees: Mae busnesau yng nghymunedau'r Cymoedd yn Islwyn, ac mewn mannau eraill, yn edrych ymlaen at gael band eang y genhedlaeth nesaf. Mae gwefan Llywodraeth Cymru yn nodi y bydd manylion pellach am y rhaglen gyflwyno ar gael yn yr hydref. A allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni o ran pryd y bydd y manylion hynny ar gael?

Edwina Hart: Nid ydym wedi cael cymorth gwladwriaethol na chymeradwyaeth prosiect mawr ar gyfer y prosiect eto. Nid mater i Lywodraeth Cymru yw hynny; mater i Lywodraeth y DU a'r Comisiwn Ewropeaidd ydyw. Ar ôl inni eu cael, gallwch gael y manylion. Efallai y dylwn ddiwygio'r wefan i ddweud 'gaeaf' fel y mae pethau ar hyn o bryd.

The Economy of Mid and West Wales

5. Joyce Watson: *Will the Minister make a statement on what steps the Welsh Government is taking to support the economy of Mid and West Wales. OAQ(4)0192(BET)*

Edwina Hart: Mae'r rhaglen lywodraethu yn nodi'n llawn ein blaenoriaethau ar gyfer yr economi, twf a swyddi cynaliadwy ledled Cymru.

Joyce Watson: Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Bydd rhai prosiectau, megis yr un sy'n cynnig mynediad am ddim i'r rhyngwyrdd i ymwelwyr yn ein canolfannau twristiaeth, o fudd mawr i economi'r canolbarth a'r gorllewin. Deallaf fod yr holl ganolfannau hynny bellach yn weithredol. A fu unrhyw asesiad cychwynnol o effaith y broses gyflwyno honno, ac a yw Llywodraeth

deliver its pledge to bring next generation broadband to 100% of businesses by 2016?

Edwina Hart: We were very pleased with the launch of the tourist information centre project at the back end of October, which helps visitors in Wales to use the internet. I went to the launch in Caerphilly, where I saw an exceptionally good visitor centre and how it dealt with information. In terms of the broadband roll-out, I will provide an update as soon as I have Commission approval.

Paul Davies: I am pleased that the Welsh Government has decided to establish an enterprise zone in my constituency to support the local economy. However, it is important that momentum is not lost and that the implementation of these zones begins to take shape. Will you tell us, Minister, what specific support or business requests you have made to the Treasury in order to ensure that enterprise zones such as the Haven waterway zone can be developed as soon as possible?

Edwina Hart: You are aware that we have had discussions with the Treasury on looking at further enhanced capital allowance. I will cover that fully in my statement on 27 November, but I am very pleased with progress on the Milford Haven zone under the chairing of Nick Bourne, who is making good contact with local businesses and is fully outlining the potential of that area for development.

Simon Thomas: Minister, clearly tourism is extremely important in Mid and West Wales. How do you ensure that the use of public funds for tourism businesses does not distort the market? I will give you an example. One of my constituents, who has run Snowdonia Tourist Services, a successful self-catering accommodation business, for 37 years, has seen a new entrant come into the market funded partly by the rural development programme. My constituent is asking why public money is going to a new entrant into the market when they are already successful

Cymru ar y trywydd iawn i gyflawni ei haddewid i ddarparu band eang y genhedlaeth nesaf i 100% o fusnesau erbyn 2016?

Edwina Hart: Roeddem yn fodlon iawn ar lansiad y prosiect canolfan groeso ddiwedd mis Hydref, sy'n helpu ymwelwyr yng Nghymru i ddefnyddio'r rhyngwrwd. Euthum i'r lansiad yng Nghaerffili, lle gwelais ganolfan ymwelwyr eithriadol o dda a'r modd yr oedd yn ymdrin â gwybodaeth. O ran cyflwyno band eang, byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi cyn gynted ag y byddaf wedi cael cymeradwyaeth y Comisiwn.

Paul Davies: Rwy'n falch bod Llywodraeth Cymru wedi penderfynu sefydlu ardal fenter yn fy etholaeth i gefnogi'r economi leol. Fodd bynnag, mae'n bwysig na chaiff momentwm ei golli ac y bydd y gwaith o weithredu'r ardaloedd hynny yn dechrau mynd rhagddo. A fydechystal â dweud wrthym, Weinidog, pa gymorth penodol neu geisiadau busnes rydych wedi'u gwneud i'r Trysorlys er mwyn sicrhau y gellir datblygu ardaloedd menter megis ardal Dyfrffordd y Ddau Gleddau cyn gynted â phosibl?

Edwina Hart: Gwyddoch ein bod wedi cael trafodaethau gyda'r Trysorlys i ystyried lwfansau cyfalaf uwch pellach. Byddaf yn ymdrin â hynny'n llawn yn fy natganiad ar 27 Tachwedd, ond rwy'n falch iawn ar y cynnydd a wnaed yn ardal Aberdaugleddau dan gadeiryddiaeth Nick Bourne, sy'n meithrin cysylltiadau da gyda busnesau lleol ac yn amlinellu'n llawn y potensial i ddatblygu yn yr ardal honno.

Simon Thomas: Weinidog, mae twristiaeth yn amlwg yn bwysig iawn yn y canolbarth a'r gorllewin. Sut ydych yn sicrhau nad yw defnyddio arian cyhoeddus i helpu busnesau twristiaeth yn ystumio'r farchnad? Er enghraifft, mae un o fy etholwyr, sydd wedi rhedeg Gwasanaethau Twristiaeth Eryri, busnes llety hunanarlwyo llwyddiannus, ers 37 mlynedd, wedi gweld busnes newydd yn ymuno â'r farchnad a ariennir yn rhannol drwy'r rhaglen datblygu gwledig. Mae fy etholwr yn gofyn pam mae arian cyhoeddus yn cael ei roi i fusnes newydd sy'n dod i

and in the market. What are the principles by which the Government works to ensure that we do not see new businesses with public subsidy pushing out established businesses in what is a very fragile and delicately balanced tourism market?

Edwina Hart: This is a matter of concern for the Deputy Minister and I in terms of European funds in general. I have not had an example with regard to tourism given to me before, but, certainly in the creative industries, we are finding that competition is emerging from the further education and higher education sector against existing businesses. It is something that we will bear in mind when we deal with the next round of structural funds. It is opportune therefore that you have raised the point in the Chamber today. Members need to be aware that, when people take up opportunities, that sometimes distorts the market and creates unemployment among those private sector deliverers.

Kirsty Williams: Minister, you and your department have gone to a great deal of trouble to establish the Powys local growth zones. I was concerned to hear last week that, despite having sent a copy of the report to Powys County Borough Council, drawing its attention to recommendations and actions it could implement to improve the local economy, you have yet to have a response from that council. You said that your officials would chase it up; do you have better news for us this week, namely that Powys County Borough Council is taking up the cudgel and is looking to do what it can to improve the local economy?

Edwina Hart: I have had a reply and I thought it might be opportune, Presiding Officer, for me to make a further statement on local growth zones before we go into recess that will cover in detail any of the points that it may or may not have dealt with.

Ardal Fenter Eryri

6. Yr Arglwydd Elis-Thomas: Pryd y bydd y Gweinidog yn cyhoeddi'r trefniadau ar gyfer

mewn i'r farchnad pan fo'r busnes hwnnw eisoes yn llwyddiannus ac yn rhan o'r farchnad. Beth yw'r egwyddorion y mae'r Llywodraeth yn eu dilyn i sicrhau na fyddwn yn gweld busnesau newydd â chymhorthdal cyhoeddus yn llwyddo ar draul busnesau sefydledig yn y farchnad dwristiaeth fregus iawn sydd ohoni?

Edwina Hart: Mae hyn yn peri pryder i'r Dirprwy Weinidog a minnau o ran cronfeydd Ewropeaidd yn gyffredinol. Ni chefais enghraifft mewn perthynas â thwristiaeth o'r blaen, ond, yn sicr yn y diwydiannau creadigol, gwelwn fod sefydliadau yn y sector addysg bellach a'r sector addysg uwch yn dechrau cystadlu â busnesau sy'n bodoli eisoes. Mae'n rhywbeth y byddwn yn ei ystyried wrth ymdrin â'r cylch nesaf o gronfeydd strwythurol. Mae'n amserol, felly, eich bod wedi codi'r pwynt yn y Siambur heddiw. Mae angen i Aelodau fod yn ymwybodol, pan fydd pobl yn manteisio ar gyfleoedd, bod hynny weithiau'n ystumio'r farchnad ac yn creu diweithdra ymhlith y darparwyr sector preifat hynny.

Kirsty Williams: Weinidog, byddwch chi a'ch adran wedi mynd i gryn dipyn o drafferth i sefydlu ardaloedd twf lleol Powys. Roedd yn flin gennyf glywed yr wythnos ddiwethaf, er gwaethaf anfon copi o'r adroddiad i Gyngor Bwrdeistref Sirol Powys, yn tynnu ei sylw at argymhellion a chamau gweithredu y gallai eu gweithredu i wella'r economi leol, nad ydych wedi cael ymateb gan y cyngor hwnnw eto. Dywedasoeh y byddai eich swyddogion yn mynd ar drywydd hynny; a oes gennych newyddion gwell inni yr wythnos hon, sef bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Powys yn ysgwyddo'r baich hwn ac yn bwriadu gwneud popeth posibl i wella'r economi leol?

Edwina Hart: Rwyf wedi cael ateb a chredais y gallai fod yn amserol, Lywydd, imi wneud datganiad pellach ar ardaloedd twf lleol cyn y toriad a fydd yn ymdrin yn fanwl ag unrhyw un o'r pwyntiau y gall neu na all fod wedi delio â hwy.

Snowdonia Enterprise Zone

6. Lord Elis-Thomas: When will the Minister publish arrangements for the Snowdonia

ardal fenter Eryri. OAQ(4)0185(BET)

Edwina Hart: I will make a statement to update Members on 27 November.

Yr Arglwydd Elis-Thomas: Diolch yn fawr i'r Gweinidog am ei phendantrwydd gyda dyddiad ei datganiad. Bydd y Gweinidog yn gwybod mor bwysig i ardal Eryri, rhywle y mae hi wedi ymweld â hi sawl gwaith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, yw'r parth menter hon. Felly, a yw hi yn dal o'r farn y byddai'n bosibl i gyfuno maes awyr Llanbedr gyda'r parth menter a fydd yn bennaf yn seiliedig ar safle niwclear Trawsfynydd sydd wedi ei ddad-gomisiynu?

Edwina Hart: I do think that that will be possible and we will have to look at the infrastructure issues around that. In terms of the Snowdonia enterprise zone, we have identified it as an ICT, digital and energy and environment zone and we are making good progress. One of the joys of dealing with that enterprise zone is the highly skilled workforce within the area.

Mark Isherwood: Minister, in fact, it is six months since you announced the Snowdonia enterprise zone, chosen because of the importance of the energy sector, centred on the former nuclear energy plant in Trawsfynydd, with the interim chair, John Idris Jones, the development officer for the nuclear energy firm Magnox and also a member of the Anglesey enterprise zone. Given that, what impact does the announcement that Hitachi is taking over the project to build the new Wylfa plant on Anglesey have on future developments in respect of Snowdonia?

Edwina Hart: We are very pleased about the announcement on Wylfa and the announcement that Hitachi will be involved in the project. We are also particularly interested in the UK companies that are also involved in the delivery of the project. We believe that close working between Ynys Môn and the Snowdonia enterprise zone is essential and I am likely to make further announcements in this regard in due course.

Cyfrifiadura Perfformiad Uchel Cymru

enterprise zone. OAQ(4)0185(BET)

Edwina Hart: Gwnaf ddatganiad i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ar 27 Tachwedd.

Lord Elis-Thomas: I thank the Minister very much for the certainty that she has provided in giving that date. The Minister will know how important this enterprise zone is for the Snowdonia area, which she has visited on a number of occasions in the last year. Is she still, therefore, of the opinion that it will be possible to combine the Llanbedr airfield with the enterprise zone, which will be mainly based at the nuclear-decommissioned site at Trawsfynydd?

Edwina Hart: Credaf y bydd hynny'n bosibl a bydd yn rhaid inni ystyried y materion mewn perthynas â seilwaith sy'n gysylltiedig â hynny. O ran ardal fenter Eryri, rydym wedi ei nodi fel ardal TGCh, digidol ac ynni a'r amgylchedd ac rydym yn gwneud cynnydd da. Un peth da am ddelio â'r ardal fenter honno yw'r gweithlu medrus iawn o fewn yr ardal.

Mark Isherwood: Weinidog, mewn gwirionedd, mae chwe mis ers ichi gyhoeddi ardal fenter Eryri, a ddewiswyd oherwydd pwysigrwydd y sector ynni, sy'n canolbwyntio ar hen safle ynni niwclear Trawsfynydd, gyda'r cadeirydd dros dro, John Idris Jones, swyddog datblygu cwmni ynni niwclear Magnox a hefyd aelod o ardal fenter Ynys Môn. O gofio hynny, pa effaith y mae'r cyhoeddiad mai Hitachi fydd yn gyfrifol am adeiladu safle newydd Wylfa ar Ynys Môn yn ei chael ar ddatblygiadau yn Eryri yn y dyfodol?

Edwina Hart: Rydym yn falch iawn o'r cyhoeddiad am Wylfa a'r cyhoeddiad y bydd Hitachi yn ymwneud â'r prosiect. Mae gennym hefyd ddiddordeb arbennig yn y cwmnïau yn y DU sydd hefyd yn ymwneud â'r gwaith o gyflwyno'r prosiect. Credwn fod cydweithio agos rhwng Ynys Môn ac ardal fenter Eryri yn hanfodol ac rwy'n debygol o wneud cyhoeddiadau pellach yn hyn o beth maes o law.

High Performance Computing Wales

7. Nick Ramsay: *A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y trafodaethau y mae wedi'u cael â Cyfrifiadura Perfformiad Uchel Cymru er mwyn annog twf busnesau. OAQ(4)0194(BET)*

Edwina Hart: I have met High Performance Computing Wales to discuss its project. The project is supporting our vision of 'Delivering a Digital Wales', making Wales a more attractive place for world-class researchers and businesses seeking to work collaboratively, and helping our economy return to strength.

Nick Ramsay: I was aware of your visit. I also recently visited the high performance computing facility in Cardiff and was particularly impressed by the computers and the staff there. I am also aware of how the technology has been used in Swansea University, for example, to redesign heart pumps, which help people who have had heart problems. At the moment, it has been very much in the domain of academia. However, as you will be aware, those running HPC Wales would like it to be used much more by small and medium-sized enterprises and by businesses across Wales. This is very much the future of business, so what are you doing to encourage that?

Edwina Hart: That point has been made to me. We talk about Cardiff, but there is also a Swansea hub for that, so it is very important for others to be taking advantage of it, especially when we look at the post-2013 structural funds opportunities in this area. There will be a full draft consultation from the European Commission in 2013, I believe, which will input into that.

David Rees: As you have already pointed out, Minister, HPC Wales is a European-funded project—it is funded partly by Europe and partly by the Welsh Government—allowing supercomputers to facilitate academic research and to develop opportunities for business growth. What discussions have you had with the Minister for Education and Skills to ensure that this project is being fully utilised by the higher

7. Nick Ramsay: *Will the Minister provide an update on what discussions she had with High Performance Computing Wales to encourage business growth. OAQ(4)0194(BET)*

Edwina Hart: Cyfarfum â Cyfrifiadura Perfformiad Uchel Cymru i drafod ei brosiect. Mae'r prosiect yn cefnogi ein gweledigaeth, sef 'Cyflawni Cymru Ddigidol', gan wneud Cymru'n lle mwy deniadol i ymchwilwyr a busnesau o'r radd flaenaf sy'n awyddus i gydweithio, a helpu ein heconomi i ffynnu unwaith eto.

Nick Ramsay: Roeddwn yn ymwybodol o'ch ymweliad. Ymwelais innau hefyd â'r cyfleuster cyfrifiadurol perfformiad uchel yng Nghaerdydd yn ddiweddar a chreodd y cyfrifiaduron a'r staff yno argraff fawr arnaf. Rwyf hefyd yn ymwybodol bod y dechnoleg wedi cael ei defnyddio ym Mhrifysgol Abertawe, er enghraifft, i ail-gynllunio pypiau ar gyfer y galon, sy'n helpu pobl sydd wedi cael problemau gyda'r galon. Mae wedi bod yn amlwg iawn yn y byd academiaidd yn ddiweddar. Fodd bynnag, byddai'r rheini sy'n rhedeg HPC Cymru yn awyddus iddi gael ei defnyddio llawer mwy gan fentrau bach a chanolig a busnesau ledled Cymru, fel y gwyddoch. Dyma ddyfodol busnes yn bendant, felly beth ydych yn ei wneud i annog hynny?

Edwina Hart: Cyflwynwyd y pwynt hwnnw i mi. Rydym yn sôn am Gaerdydd, ond mae canolfan yn Abertawe ar gyfer hynny hefyd, felly mae'n bwysig iawn bod pobl eraill yn manteisio arni, yn enwedig o ystyried y cyfleoedd cronfeydd strwythurol ôl-2013 yn yr ardal hon. Cynhelir ymgynghoriad drafft llawn gan y Comisiwn Ewropeaidd yn 2013, rwy'n credu, a fydd yn cyfrannu at hynny.

David Rees: Fel y nodwyd gennych eisoes, Weinidog, mae HPC Cymru yn brosiect a ariennir gan Ewrop—fe'i hariennir yn rhannol gan Ewrop ac yn rhannol gan Lywodraeth Cymru—gan alluogi uwchgyfrifiaduron i hwyluso ymchwil academiaidd a datblygu cyfleoedd ar gyfer twf busnes. Pa drafodaethau rydych wedi'u cael gyda'r Gweinidog Addysg a Sgiliau i sicrhau bod y prosiect hwn yn cael ei ddefnyddio'n

education sector and by research organisations? What lessons have been learned from similar projects in the UK in order to create businesses from that project?

Edwina Hart: We have ongoing discussions with the appropriate Ministers. My Deputy Minister has been taking the lead on this issue and we are confident that it will be a good use of European resources now and in the future. We have to be mindful that there are budget pressures on the EU, but we want to ensure an EU budget that focuses on jobs and growth, and that the allocation of funding to the poorest regions continues.

Elin Jones: Mae Cyfrifiadura Perfformiad Uchel Cymru'n adnodd economaidd ac ymchwil pwysig yng Nghymru a chyda'r goreuon yn Ewrop, ond er mwyn cadw'r statws hwn mae angen diweddarar ar brosiect felly yn barhaus. Pa asesiad, felly, y mae'r Llywodraeth yn ei wneud o'r buddsoddiad sydd ei angen ar y prosiect hwn i'w gadw ar flaen y gad?

Edwina Hart: One of the key issues is to look at the investment that is required to keep it at the top level. That work is currently being undertaken, because HPC Wales has an independent chairman and all that work can be undertaken by it. You have our assurances on that.

Bwyd a Diod o Gymru

8. William Powell: *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bwysigrwydd bwyd a diod o Gymru i ddatblygiad y diwydiant twristiaeth yng Nghymru. OAQ(4)0187(BET)*

Edwina Hart: Welsh food and drink has an important role to play in Wales's tourism industry. Our food tourism strategy aims to ensure that Wales's food and drink offer will make a positive contribution to Wales's cultural identity.

William Powell: Across mid and west Wales we have seen the establishment, in the last couple of years, of 'taste towns' in locations such as Dolgellau, Montgomery and Talgarth. Those act as hubs for local producers and serve to bring together the

llawn gan y sector addysg uwch a sefydliadau ymchwil? Pa wersi a ddysgwyd o brosiectau tebyg yn y DU er mwyn creu busnesau o'r prosiect hwnnw?

Edwina Hart: Byddwn yn cynnal trafodaethau parhaus â'r Gweinidogion priodol. Mae fy Nirprwy Weinidog wedi bod yn arwain y mater hwn ac rydym yn hyderus y bydd yn gwneud defnydd da o adnoddau Ewropeaidd nawr ac yn y dyfodol. Rhaid inni gofio bod pwysau cyllidebol ar yr UE, ond rydym am sicrhau cyllideb yr UE sy'n canolbwyntio ar swyddi a thwf, ac y parheir i ddyrannu arian i'r rhanbarthau tlotaf.

Elin Jones: High Performance Computing Wales is an important economic and research tool in Wales and among the best in Europe, but to retain this status such a project needs to be continually updated. What assessment, therefore, is the Government making of the investment required to keep this project in the vanguard?

Edwina Hart: Mae ystyried y buddsoddiad sydd ei angen i'w gynnal ar y lefel uchaf yn fater allweddol. Mae'r gwaith hwnnw'n mynd rhagddo ar hyn o bryd, am fod gan HPC Cymru gadeirydd annibynnol a gall gyflawni'r holl waith hwnnw. Rhoddwn ein sicrwydd i chi o ran hynny.

Welsh Food and Drink

8. William Powell: *Will the Minister make a statement on the importance of Welsh food and drink to the development of the tourism industry in Wales. OAQ(4)0187(BET)*

Edwina Hart: Mae diwydiant bwyd a diod Cymru yn chwarae rhan bwysig yn niwydiant twristiaeth Cymru. Nod ein strategaeth twristiaeth bwyd yw sicrhau y bydd arlwy bwyd a diod Cymru yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at hunaniaeth ddiwylliannol Cymru.

William Powell: Ledled y canolbarth a'r gorllewin, rydym wedi gweld 'treff blasu' yn cael eu sefydlu yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf mewn lleoliadau megis Dolgellau, Trefaldwyn a Thalgarth. Mae'r rheini'n gweithredu fel canolfannau i

food, drink and tourism industries for mutual benefit. Given the initiative's success in encouraging collaboration and in growing existing business, will you consider rolling out this concept to additional towns across Wales, backed by the appropriate funding?

Edwina Hart: Good quality food and hospitality is essential in tourism, and the initiatives that you have outlined are very good. It is certainly a key area that we are looking at in terms of development.

Antoinette Sandbach: The tourist economy in Wales obviously operates in a competitive market, both for international and domestic tourism. Are you, therefore, concerned that, in the last three years, Yorkshire has spent more on marketing itself than your Government has spent on marketing the whole of Wales—£4 million more, to be specific? Do you accept that it will be incredibly difficult to draw in domestic and international tourists to Wales's many excellent food and drink trails, if your Government continues to sell Wales short in its marketing?

2.45 p.m.

Edwina Hart: Spending money does not necessarily equate to good outcomes. We have to recognise that sometimes you can have a minimal spend with good outcomes. Therefore, I do not think that you can make that direct correlation with the budget.

Lindsay Whittle: Minister, many small businesses in Wales do not want a handout but a hand up. Can you give an assurance that you will encourage Finance Wales to help small business in Wales? Such help would mean that the Welsh Soup Company, for example, based in Merthyr, could employ more staff from the locality to actively promote the marketing of its Lovely Welsh Soup, made entirely from Welsh products. I am sure that you will agree that marketing is important, and I invite you to come to Merthyr to see the Welsh Soup Company for yourself.

Edwina Hart: Thank you for your

gynhyrchwyr lleol ac yn fodd i ddwyn ynghyd y diwydiannau bwyd, diod a thwristiaeth er budd pawb. O ystyried llwyddiant y fenter i annog cydweithio ac thyfu busnesau sy'n bodoli eisoes, a fyddwch yn ystyried cyflwyno'r cysyniad hwn mewn trefi ychwanegol ledled Cymru, wedi'i gefnogi gan gyllid priodol?

Edwina Hart: Mae bwyd a lletygarwch o ansawdd da yn hanfodol mewn twristiaeth, ac mae'r mentrau a amlinellwyd gennych yn dda iawn. Mae'n sicr yn faes allweddol rydym yn ei ystyried o ran datblygu.

Antoinette Sandbach: Mae'r economi twristiaeth yng Nghymru yn amlwg yn gweithredu mewn marchnad gystadleuol, o ran twristiaeth ryngwladol a domestig. A ydych yn bryderus, felly, fod Swydd Efrog, yn ystod y tair blynedd diwethaf, wedi gwario mwy ar farchnata ei hun nag y mae eich Llywodraeth wedi'i wario ar farchnata Cymru gyfan—£4 miliwn yn fwy, i fod yn benodol? A ydych yn derbyn y bydd yn anodd iawn denu twristiaid domestig a rhyngwladol i'r llu o lwybrau bwyd a diod rhagorol sy'n bodoli yng Nghymru os bydd eich Llywodraeth yn parhau i danbriso Cymru yn ei gwaith marchnata?

Edwina Hart: Nid yw gwario arian o reidrwydd yn sicrhau canlyniadau da. Rhaid inni gydnabod y gallwch weithiau ond gwario ychydig iawn o arian a chael canlyniadau da. Felly, ni chredaf y gallwch wneud y cysylltiad uniongyrchol hwnnw â'r gyllideb.

Lindsay Whittle: Weinidog, byddai'n well gan lawer o fusnesau bach yng Nghymru gael cymorth yn hytrach na chardod. A allwch roi sicrwydd y byddwch yn annog Cyllid Cymru i helpu busnesau bach yng Nghymru? Byddai cymorth o'r fath yn golygu y gallai Welsh Soup Company, er enghraifft, a leolir ym Merthyr, gyflogi mwy o staff o'r ardal leol i fynd ati i hyrwyddo a marchnata ei Lovely Welsh Soup, a wneir yn gyfan gwbl o gynnyrch Cymreig. Rwy'n siŵr y byddwch yn cytuno bod marchnata yn bwysig, ac rwy'n eich gwahodd i ddod i Ferthyr i weld Welsh Soup Company drosoch chi eich hun.

Edwina Hart: Diolch ichi am eich sylwadau.

comments. If there are specific issues concerning Finance Wales and any funds that we make available to it to assist small businesses, I would like to know about them. We have said to Finance Wales that it has to ensure that the money and funds that we give it are used properly. I am sure that any request for a visit will be looked at, if you make it.

Amaethyddiaeth

9. Antoinette Sandbach: *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer amaethyddiaeth. OAQ(4)0191(BET)*

The Deputy Minister for Agriculture, Food, Fisheries and European Programmes (Alun Davies): My top priority is to continue working towards delivering the best possible deal for Welsh farmers from common agricultural policy reform.

Antoinette Sandbach: Deputy Minister, the outcomes of the Glastir stock take will hopefully have addressed many of the scheme's shortcomings, which have discouraged and prevented farmers, particularly in the uplands, from joining in previous years. Can you confirm at this stage what level of participation you would consider to be a success or a failure for the 2014 entry? What assurances can you provide that the weaknesses in Welsh Government support identified in Gareth Williams's report, particularly on the number of farm liaison officers, have now been addressed?

Alun Davies: I thank the Conservatives' spokesperson for her warm words on the result of my stock take, which I announced in July. I will be making a further statement on Glastir's take-up before the Christmas recess.

Yr Arglwydd Elis-Thomas: Yn ddiweddarach y mis hwn, bydd trafodaethau yn mynd gam ymhellach ynghylch y polisi amaethyddol cyffredin. Pa sicrwydd a all y Dirprwy Weinidog ei roi i randdeiliaid amaethyddol yng Nghymru ac i ni yn y Siambr hon y bydd yn gallu cynrychioli

Os oes materion penodol o ran Cyllid Cymru ac unrhyw gronfeydd a ddyrennir gennym i gynorthwyo busnesau bach, hoffwn wybod amdanynt. Rydym wedi dweud wrth Cyllid Cymru bod yn rhaid iddo sicrhau bod yr arian a'r cronfeydd a roddwn yn cael eu defnyddio'n briodol. Rwy'n siŵr y caiff unrhyw gais am ymweliad ei ystyried, os byddwch yn ei wneud.

Agriculture

I droi at y sylwadau a wnaed gan Aled Roberts, mae gennym le yn ein cyllideb i sicrhau y gallwn gyflawni ac ymestyn ein gwasanaethau Cymraeg. Ar hyn o bryd, mae gennym tua £450,000 yn y rhaglen fuddsoddi. Fodd bynnag, bydd y modd rydym yn gwario hynny yn dibynnu ar y cynllun iaith Gymraeg, pan gaiff ei gyflwyno. Caiff pob Aelod gyfle i drafod a chyfrannu at y cynllun hwnnw fel y gallwn weld ar ba ffurf y bydd. Rydym wedi lleihau ein gwariant gan ein bod wedi dechrau defnyddio technoleg llawer mwy. Er enghraifft, ers mis Ionawr eleni, rydym wedi dychwelyd at Gofnod y Trafodion cwbl ddwyieithog, ond mae'n costio llai nag yr oedd o'r blaen—cafodd hynny ei roi o'r neilltu—oherwydd y dechnoleg rydym yn gallu ei defnyddio. Rydym yn gyson yn edrych ar hynny ac yn ystyried hynny ar hyn o bryd. Byddai hynny'n sicrhau arbedion cost aruthrol pellach. Gallaf eich sicrhau bod gan y Cynulliad ymrwymiad llwyr i'w strategaeth ddwyieithog a byddwn yn disgwyl gweithredu'r cynllun ieithoedd swyddogol dwyieithog, ar ba ffurf bynnag y bydd yn y pen draw.

Hoffwn ddweud dau beth. Yn gyntaf, hoffwn gofnodi fy niolch yn fawr i dîm cyllid y Cynulliad Cenedlaethol. Arwyr di-glod yw timau cyllid bob amser; maent yn eistedd yn y cefn ac yn gwneud yr holl bethau anodd. Hoffwn ddiolch yn arbennig i Steve O'Donoghue, Nicola Callow a'u staff cymorth am gyflwyno gwybodaeth gryno ac amserol y gallwn ei deall. Hoffwn ddiolch hefyd i'r holl bobl sy'n cefnogi'r Comisiwn o ddydd i ddydd. Mae gennym loriau o bobl uwch ein pennau sy'n gwneud gwaith gwych.

hustle and bustle of our busy political lives, to overlook what they do. Each and every one of them, from the security guards who ensure our safety and wellbeing, all the way through to the chief executive, do an outstanding job. I pay an enormous tribute to them and thank them. The general public should also thank them, because it is with their support that each and every one of us can do our jobs better in serving the people who voted us into this place.

Finally, I reiterate that, for us, our absolute measure of success is for the National Assembly for Wales to be the fulcrum of Welsh life, helping to develop the nation with a centre and a heart that can be a place for the people of Wales to focus on. This budget gives us the tools to achieve a successful Assembly for a successful Wales. I commend this budget motion to the National Assembly.

The Deputy Presiding Officer: The proposal is that the motion be agreed. Is there any objection? I see that there is not. In accordance with Standing Order No. 12.36, I therefore declare the motion agreed.

*Derbyniwyd y cynnig.
Motion agreed.*

**Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, ‘Cynnydd o ran Cyrraedd Safon
Ansawdd Tai Cymru’
The Public Accounts Committee’s Report ‘Progress in Delivering the Welsh
Housing Quality Standard’**

Cynnig NDM5089 Darren Millar

Motion NDM5089 Darren Millar

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar y Cynnydd o ran cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Medi 2012.

Notes the Public Accounts Committee’s report on Progress in delivering the Welsh Housing Quality Standards which was laid in the Table Office on 11 September 2012.

Aled Roberts: Cynigiau y cynnig.

Aled Roberts: I move the motion.

Mae’n bleser gennyf agor y ddadl, ar ran y Cadeirydd, Darren Millar, ar adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, ‘Cynnydd o ran Cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru’.

I am pleased to open today’s debate on the Public Accounts Committee’s report on ‘Progress in Delivering the Welsh Housing Quality Standard’. In September this year, the

Ym mis Medi eleni, cyhoeddodd y pwyllgor ganfyddiadau ei ymchwiliad, a barodd naw mis, i faterion a godwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru. Hoffwn gofnodi ein diolch i Swyddfa Archwilio Cymru, a fy niolch i'm cyd-aelodau ar y pwyllgor, ac yn arbennig i'r ystod eang o bobl a roddodd dystiolaeth i'r pwyllgor yn ystod y gwaith hwn. Nid wyf am ymdrin â phob agwedd ar yr adroddiad yn fy araith, ond rwy'n gobeithio y bydd y ddadl yn cynnwys nifer o'r prif faterion sy'n codi o ymchwiliad y pwyllgor.

Roedd adroddiad y pwyllgor yn cydnabod bod cynnydd a gwelliannau sylweddol wedi eu gwneud ledled Cymru o ran ansawdd tai cymdeithasol ers cyflwyno safon ansawdd tai Cymru yn 2002. Dylid rhoi clod i Lywodraeth Cymru am hyn.

3.15 p.m.

Fodd bynnag, mae'r adroddiad hefyd yn nodi'n glir na fydd yn bosibl i Lywodraeth Cymru gyflawni ei tharged gwreiddiol, sef sicrhau bod holl dai cymdeithasol Cymru yn cyrraedd safon ansawdd tai Cymru erbyn diwedd 2012. Yn hytrach, roedd landlordiaid wedi rhagamcanu mai dim ond 60% o gartrefi, ar y gorau, a fydd yn cyrraedd y safon erbyn mis Mawrth 2013, a dim ond 79% erbyn mis Mawrth 2017. Er y byddwn yn derbyn bod targed gwreiddiol Llywodraeth Cymru yn uchelgeisiol, mae'r tebygolrwydd na fydd 21% o gartrefi yn cyrraedd y targed mewn pum mlynedd yn peri pryder mawr. Rhaid ystyried hyn yn fethiant.

Yn waeth fyth, nid oedd y pwyllgor wedi'i argyhoeddi bod gan Lywodraeth Cymru ddarlun cywir, hyd yn oed, o gyflwr presennol tai cymdeithasol yng Nghymru. Yn hytrach, canfu'r pwyllgor fod safon ansawdd tai Cymru yn agored i gael ei ddehongli mewn modd goddrychol, a mynegodd bryder efallai nad oedd cydymffurfiaeth hunan-gofnodedig landlordiaid â'r safon yn gwbl ddibynadwy. Am y rheswm hwn, argymhellodd y pwyllgor y dylid cyflwyno gwiriad allanol ac annibynnol o gydymffurfiaeth landlordiaid â'r safon. Rwy'n falch bod Llywodraeth Cymru wedi derbyn yr argymhelliad hwn, ond rwy'n siomedig ei bod wedi gwneud hynny mewn egwyddor yn

committee published the findings of its nine-month inquiry into issues raised by the Wales Audit Office. I would like to place on record my thanks to the Wales Audit Office, to my fellow committee members, and in particular to the wide range of people who provided evidence to the committee in the course of this work. I will not cover every aspect of the report in my opening speech, but hope to open up this afternoon's debate to a number of key issues arising from the committee's investigation.

The committee's report recognised that significant progress and improvements have been made across Wales in the quality of its social housing since the introduction of the WHQS in 2002. This is to the Welsh Government's credit.

However, the report was also clear that there is simply no chance that the Welsh Government will achieve its original target of all social housing in Wales achieving the WHQS by the end of 2012. Instead, landlords' projections were that, at best, only 60% of homes will meet the WHQS by March 2013, and only 79% by March 2017. While I would accept that the Welsh Government's original target was ambitious, the likelihood that 21% of homes will still not meet the target in five years' time is very concerning. This simply has to be regarded as a failure.

More worryingly, the committee was not convinced that the Welsh Government even has an accurate picture of the current state of social housing in Wales. Instead, the committee found that the WHQS is open to subjective interpretation, and expressed concern that landlords' self-reported compliance with the WHQS may not be wholly reliable. For this reason, the committee recommended the introduction of independent, external verification of landlords' reported compliance with the WHQS. I am pleased that the Welsh Government has accepted this recommendation, but disappointed that it has only done so in principle. Indeed, the Welsh

unig. Yn wir, mae Llywodraeth Cymru wedi mynegi pryder y gallai landlordiaid sydd â nifer llai o eiddo ei chael yn anodd rhoi'r argymhelliad hwn ar waith ar sail cost.

Rwy'n derbyn yn llwyr ei bod yn bosibl na fydd rhai landlordiaid sydd â nifer llai o eiddo am dalu ar gyfer gwerthusiad allanol. Byddwn hefyd yn awgrymu y bydd unrhyw landlord sydd wedi adrodd ar gam yn fwriadol ynghylch cydymffurfiaeth eu cartrefi â'r safon hefyd yn amharod i dalu am werthusiad allanol. Fodd bynnag, rhaid i Lywodraeth Cymru oresgyn y rhwystrau hyn.

Heb y wybodaeth gywir, ni all Llywodraeth Cymru ddisgwyl ysgogi gwelliannau mewn ansawdd tai mewn modd effeithlon. Yn y pen draw, heb ddata cadarn, ni fydd gennym unrhyw syniad ynghylch a yw Llywodraeth Cymru wedi cyflawni ei nod, sef sicrhau bod tai cymdeithasol yn cyrraedd y safon, boed hynny yn 2012, yn 2017 neu yn 2022. Rwyf hefyd am nodi nad oedd adroddiad y pwyllgor, mewn gwirionedd, yn nodi mai landlordiaid a ddylai dalu am werthusiadau allanol. Yn hytrach, roedd y pwyllgor wedi rhoi'r hyblygrwydd i Lywodraeth Cymru bennu dull priodol o sicrhau bod ffurflenni monitro landlordiaid yn gadarn.

Er fy mod yn parhau i bryderu'n ddirfawr am y pwynt penodol hwn, rwy'n falch bod Llywodraeth Cymru wedi derbyn pob un o argymhellion y pwyllgor—naill ai yn llawn, neu mewn egwyddor. Yn benodol, rwy'n falch bod Llywodraeth Cymru, yn ei hymateb i'n hargymhelliad cyntaf, wedi ymrwymo i gomisiynu gwerthusiad o safon ansawdd tai Cymru. Bydd adroddiad ar y gwerthusiad hwn yn cael ei gyhoeddi yn 2013, a deallaf y bydd yn nodi enghreifftiau penodol o arfer da o ran ymgysylltu â thenantiaid. Roedd y pwyllgor o'r farn bod cyrraedd safon ansawdd tai Cymru yn gyfrwng gwych i landlordiaid ymgysylltu â thenantiaid, felly rwy'n falch bod Llywodraeth Cymru wedi cydnabod bod angen cymryd y cyfle hwn a'i gefnogi.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Gweinidog roi rhagor o wybodaeth i'r pwyllgor am gwmpas, costau tebygol ac amserlen y gwerthusiad arfaethedig. Byddwn hefyd yn croesawu gwybodaeth am sut y bydd yr

Government has expressed concern that smaller landlords may find it difficult to implement this recommendation on cost grounds.

I fully accept that some smaller landlords may not wish to pay for external evaluation. I would also suggest that any landlord who has deliberately misreported their homes' compliance with the WHQS will also be unwilling to pay for an external evaluation. However, I believe that these are obstacles that the Welsh Government simply has to overcome.

Without accurate information, the Welsh Government cannot expect to drive improvements in housing quality forward in any efficient fashion. Without robust data, we will ultimately have no idea whether the Welsh Government has achieved its aim of social housing achieving the WHQS, whether we are talking in 2012, 2017 or 2022. I would also note that the committee's report did not actually specify that external evaluations be paid for by landlords. Rather, the committee left the Welsh Government with flexibility to determine a method of appropriately assuring itself that landlords' monitoring returns are robust.

While I remain deeply concerned about this specific point, I am pleased that the Welsh Government has accepted all of the committee's recommendations—either in full, or in principle. In particular, I am pleased that, in its response to our first recommendation, the Welsh Government has committed to commissioning an evaluation of the WHQS. This evaluation will report in 2013, and I understand that it will identify specific examples of good practice in tenant engagement. The committee considered that the delivery of the WHQS is a gold-plated vehicle for landlords to engage with tenants, so I am pleased that the Welsh Government has recognised that this opportunity needs to be seized and supported.

I would be grateful if the Minister could provide the committee with further information on the scope, likely costs and timetable of the proposed evaluation exercise. I would also welcome information on how

ymarfer hwn yn ychwanegu at waith blaenorol a pharhaus o ran cyflawni safon ansawdd tai Cymru, yn hytrach na'i ddyblygu. Byddai hefyd yn ddefnyddiol pe gallai'r Gweinidog ddweud wrthym a fydd gofynion safon ansawdd tai Cymru yn cael eu hystyried fel rhan o'r gwerthusiad hwn.

Nodaf hefyd fod Llywodraeth Cymru, wrth ymateb i'n hargymhelliad cyntaf, wedi nodi y bydd landlord cymdeithasol cofrestredig nad yw'n perfformio'n dda yn destun ymyrraeth reoleiddiol. Unwaith eto, byddwn yn croesawu eglurhad gan y Gweinidog ynghylch ystyr hyn—yn achos landlordiaid sy'n awdurdodau lleol, er enghraifft.

Roedd y pwyllgor o'r farn hefyd y gallai Llywodraeth Cymru osod mwy o flaenoriaeth ar gyflawni safon amgylcheddol safon ansawdd tai Cymru fel rhywbeth sy'n ategu'r gwelliannau i adeiladwaith eiddo. Am y rheswm hwn, rwy'n falch bod Llywodraeth Cymru wedi derbyn ein hargymhelliad y dylai fod yn ofynnol i landlordiaid ddangos eu bod wedi mynd drwy broses o nodi a blaenoriaethu gwelliannau amgylcheddol ehangach i'r ardal yn union o amgylch yr eiddo.

Fodd bynnag, nid polisiâu ac arweiniad clir gan Lywodraeth Cymru yn unig sydd ei angen i gyflawni'r safon; mae hefyd yn ddibynnol ar argaeledd cyllid i ariannu gwelliannau ym maes tai. Mae adroddiad y pwyllgor yn ystyried nifer o ddulliau i fesur cynnydd o ran cyflawni'r safon, gan gynnwys cynnal pleidlais arall ar drosglwyddo stoc a'r defnydd o bwerau benthyca llywodraeth leol. Rhoddwyd ystyriaeth arbennig gennym i ddiwygio'r system cyfrif refeniw tai fel modd o ryddhau arian i gyflawni'r safon.

Rwy'n cydnabod safbwynt Llywodraeth Cymru, sef ei bod ar hyn o bryd yn cymryd rhan mewn trafodaethau sensitif gyda'r Trysorlys, ond gan fod Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cyflwyno system newydd o gyllido cynghorau yn Lloegr, roedd y pwyllgor yn bryderus iawn y gallai Cymru, os nad oes diwygio, fod yr unig wlad sydd wedi'i rhwymo i'r system cyfrif refeniw tai presennol. Yn y fath sefyllfa, roeddem yn

this exercise will add to—rather than duplicate—previous and ongoing work around the delivery of the WHQS. It would also be helpful if the Minister could advise us whether the requirements of the WHQS itself would be considered as part of this evaluation.

I also note that, in responding to our first recommendation, the Welsh Government has stated that, if a registered social landlord is not performing well, they will be subject to regulatory intervention. Again, I would welcome clarification from the Minister on what this means—in the case of local authority landlords, for example.

The committee believed that the Welsh Government could place a greater priority on the delivery of the environmental standard of the WHQS as being complementary to improvements to the fabric of properties. For this reason, I am pleased that the Welsh Government has accepted our recommendation that landlords should be required to demonstrate that they have gone through the process of identifying and prioritising wider environmental improvements to the immediate surrounding area of a property.

However, it is not only policies and clear leadership from the Welsh Government that is required to deliver the standard; it is also dependent on funding being available to finance improvements in housing. The committee's report considers a number of mechanisms by which progress in delivering the standard could be delivered, including re-balloting on stock transfer and the use of local government borrowing powers. We gave particular consideration to the reform of the housing revenue account system as a way of freeing up funds to deliver the standard.

I recognise the Welsh Government's position that it is currently involved in sensitive negotiations with the Treasury, but as the UK Government is introducing a new system of council finance in England, the committee was very concerned that, without reform, Wales may soon be the only country still bound to the existing housing revenue account system. In such a scenario, we were concerned about the priority that would be

pryderu am y flaenoriaeth a fyddai'n cael ei rhoi i drafodaethau. Yn ei hymateb, dywed Llywodraeth Cymru nad oes ganddi unrhyw reolaeth dros brosesau penderfyniadau'r Trysorlys. Mae hyn yn cynyddu pryder y pwyllgor y gallai Cymru gael ei gadael ar ei hól yn y mater hwn.

Mae'r Gweinidog wedi nodi ei fod yn gobeithio y bydd trosglwyddo refeniw yn dod i ben ar 31 Mawrth 2013, ond, o gofio nad yw'n ymddangos bod cytundeb wedi'i gyrraedd eto, hyd yn oed ar egwyddor diwygio'r system, rhaid inni gwestiynu a yw'r Gweinidog mewn gwirionedd yn ystyried hyn yn derfyn amser realistig. Felly, rwy'n annog y Gweinidog i ddefnyddio adroddiad y pwyllgor fel arf i bwysu am ddiwygio'r system.

Mae hwn yn fater brys, ac rwy'n falch o weld bod ymdeimlad o frys yn cael ei gyfleu yn glir mewn manau eraill yn ymateb Llywodraeth Cymru i'n hadroddiad. Er enghraifft, wrth ymateb i'n hwythfed argymhelliad, rwy'n falch iawn bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu mynd ati yn gyflym i wneud ymweliadau sampl â landlordiaid er mwyn canfod sut mae methiannau derbynol yn cael eu dehongli ar lawr gwlad. Ar sail ymweliadau o'r fath, rwy'n deall y bydd Llywodraeth Cymru wedyn yn cyhoeddi canllawiau priodol mewn ymgynghoriad â landlordiaid. Roedd y pwyllgor o'r farn bod hwn yn fater arbennig o bwysig i Lywodraeth Cymru fynd i'r afael ag ef, oherwydd y gall y meini prawf 'methu derbynol' ddibynnu'n drwm nid yn unig ar farn landlordiaid, ond hefyd ar ddewisiadau tenantiaid.

I gloi, rwyf o'r farn bod llawer i'w groesawu yn ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad hwn, ond mae angen iddi gymryd camau o hyd i wella ansawdd tai yng Nghymru. Rwy'n edrych ymlaen at glywed cyfraniadau Aelodau i'r ddadl.

Mark Isherwood: The Public Accounts Committee's report on progress in delivering the Welsh housing quality standard looked into targets for delivery, weaknesses in Welsh Government leadership and the monitoring of the standard in the future of the

given to discussions. In its response, the Welsh Government states that it has no control over the Treasury's decision-making processes. This heightened the committee's fear that Wales could be left behind on this issue.

The Minister has stated his hope that we will see an end to the transfer of revenues by 31 March 2013, but, given that no agreement appears to have yet been reached on even the principle of system reform, we must question whether the Minister considers this to be a realistic deadline. I therefore urge the Minister to use the committee's report as a tool to press for system reform.

This is an urgent issue, and I am pleased to see that a sense of urgency is clearly communicated elsewhere in the Welsh Government's response to our report. For example, in responding to our eighth recommendation, I am delighted that the Welsh Government intends to undertake sample visits to landlords soon in order to establish how acceptable fails are being interpreted on the ground. I understand that, on the basis of such visits, the Welsh Government will then issue appropriate guidance in consultation with landlords. The committee considered that this was a particularly significant issue for the Welsh Government to address, because the 'acceptable fail' criteria can be heavily dependent not only on landlords' judgments but also on tenants' choices

In conclusion, I consider that there is much to welcome in the Welsh Government's response to this report, but there remains an urgent need for it to take action to improve the quality of housing in Wales. I look forward to Members' contributions to the debate.

Mark Isherwood: Edrychodd adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar gynnydd o ran cyrraedd safon ansawdd tai Cymru ar dargedau ar gyfer cyflawni, gwendidau yn arweinyddiaeth Llywodraeth Cymru a gwaith monitro'r safon yn y dyfodol o ran safon

Welsh housing quality standard after the Auditor General for Wales reported on progress in January 2012. The committee heard from a number of third-party organisations working within housing in Wales and brought together some of the Wales Audit Office's key findings, along with the evidence from these hearings. Both reports concluded that delivering the standard by the end of 2012 was an aspirational target and that, while it probably ensured that swift action was taken by some parties, many may have realised that they could never get close and, therefore, put in the minimum effort.

The committee also highlighted that this was at odds with the Welsh Government's commitment to be an outcome-focused Government that is judged by its delivery of specific, measurable, relevant and timely targets.

In March 2010, only 26% of houses met the standard. This is an incredibly low number for a programme that had then been operational for eight years. In its report, the Wales Audit Office pointed out that the new interpretation that the Welsh Government applied to its target—that the standard would be met not by the end of 2012, but by 31 March 2013—was due to landlords' planning on a financial basis. Huw Lewis, the Minister for Housing, Regeneration and Heritage, declared in 2011 that he expected around 78% to be compliant this year. However, the Welsh quality housing standard as at 31 March this year was only slightly better, at 33%. The Minister accepts in principle the committee's recommendation 5,

'that the Welsh Government sets out a clear intended timetable for its negotiations with HM Treasury on reforming the HRA system.'

He states that he would like to see an end to transfers of revenues by 31 March 2013. The housing revenue accounts system currently sees an estimated £70 million sent back to the Treasury each year—money that could help improve the quality of social housing in Wales and money that has been available to

ansawdd tai Cymru ar ôl i Archwilydd Cyffredinol Cymru gyflwyno ei adroddiad ar gynnydd ym mis Ionawr 2012. Clywodd y pwyllgor gan nifer o sefydliadau trydydd parti sy'n gweithio yn y sector tai yng Nghymru gan ddwyn ynghyd rai o ganfyddiadau allweddol Swyddfa Archwilio Cymru, ynghyd â'r dystiolaeth o'r gwrandawiadau hyn. Daeth y dda adroddiad i'r casgliad fod cyrraedd y safon erbyn diwedd 2012 yn darged uchelgeisiol ac, er iddo sicrhau i rai partion gymryd camau gweithredu cyflym, mae llawer efallai wedi sylweddoli na allent byth ddod yn agos at ei chyrraedd ac, felly, maent wedi gwneud cyn lleied â phosibl.

Pwysleisiodd y pwyllgor hefyd fod hyn yn groes i ymrwymiad Llywodraeth Cymru i fod yn Llywodraeth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau a fernir yn ôl y targedau penodol, mesuradwy, perthnasol ac amserol a gyflawnir ganddi.

Ym mis Mawrth 2010, dim ond 26% o dai a oedd yn cyrraedd y safon. Mae hwn yn nifer rhyfeddol o isel ar gyfer rhaglen a oedd wedi bod wedyn yn weithredol ers wyth mlynedd. Yn ei hadroddiad, nododd Swyddfa Archwilio Cymru fod y dehongliad newydd a roddodd Llywodraeth Cymru i'w tharged—na fyddai'r safon yn cael ei chyrraedd erbyn diwedd 2012, ond erbyn 31 Mawrth 2013—o ganlyniad i'r ffaith bod landlordiaid yn cynllunio ar sail ariannol. Dywedodd Huw Lewis, y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth, yn 2011 ei fod yn disgwyl i tua 78% gydymffurfio eleni. Fodd bynnag, ar 31 Mawrth eleni dim ond ychydig yn well yr oedd safon ansawdd tai Cymru, sef 33%. Mae'r Gweinidog yn derbyn mewn egwyddor argymhelliad 5 y pwyllgor,

'bod Llywodraeth Cymru yn nodi amserlen arfaethedig glir i'w thrafodaethau â Thrysorlys EM ynglŷn â diwygio system y Cyfrif Refeniw Tai.'

Mae'n datgan y byddai'n hoffi gweld diwedd ar drosglwyddo refeniw erbyn 31 Mawrth 2013. Mae system y cyfrifon refeniw tai ar hyn o bryd yn golygu bod tua £70 miliwn yn cael ei ddychwelyd i'r Trysorlys bob blwyddyn—arian a allai helpu i wella

English local authorities since 2001. However, this figure is gross; it is understood that the net figure could be as little as £20 million. Whether £70 million or less, this is will fall massively below the amount needed to achieve the Welsh housing quality standard.

The Minister accepts recommendation 1, to

‘identify and promote good practice in engaging tenants’,

and accepts in principle recommendation 7,

‘that the Welsh Government develops guidance on how landlords can effectively communicate with tenants’.

Inform to Involve—i2i—is the arm’s-length, Welsh-Government-funded project that supports local authorities to achieve the Welsh housing quality standard. The Minister has identified three local authorities, including Flintshire and Wrexham, where tenants have voted against stock transfer as lacking plans to achieve the Welsh housing quality standard. Although stock transfers would invest approximately five times more money into tenants’ homes than if ownership remained in local authority hands, and although the Welsh housing quality standard is about maximising the benefits of investment through local accountability and control, creating local jobs and training opportunities and supporting local businesses to grow and thrive, Flintshire had limited pre-ballot engagement with i2i. This was despite three meetings with the project manager to offer i2i services.

With cross-party support, it was the Labour-led Welsh Government that established the standard, which states that councils had to improve their stock by 2012. In fact, tenants in half of Welsh councils have already voted to transfer to achieve this. However, long-term underinvestment in council housing meant that around £4 billion was needed to achieve the standard in all council properties by 2012 or thereafter. The Wales Audit

ansawdd tai cymdeithasol yng Nghymru ac arian sydd wedi bod ar gael i awdurdodau lleol yn Lloegr ers 2001. Fodd bynnag, ffigur gros yw hwn; deallir y gallai’r ffigur net fod cyn lleied ag £20 miliwn. P’un a yw’n £70 miliwn neu lai, bydd hwn yn swm sylweddol is na’r swm sydd ei angen i gyrraedd safon ansawdd tai Cymru.

Mae’r Gweinidog yn derbyn argymhelliad 1, sef

‘yn canfod ac yn hyrwyddo arfer da o ran rhoi llais i denantiaid’,

ac yn derbyn argymhelliad 7 mewn egwyddor,

‘bod Llywodraeth Cymru yn datblygu canllawiau ar sut y gall landlordiaid gyfathrebu’n effeithiol â thenantiaid’.

Hyrwyddo i Ymrwymo—i2i—yw’r prosiect hyd braich, a ariennir gan Lywodraeth Cymru sy’n cefnogi awdurdodau lleol i gyrraedd safon ansawdd tai Cymru. Mae’r Gweinidog wedi nodi tri awdurdod lleol, gan gynnwys Sir y Fflint a Wrecsam, lle mae tenantiaid wedi pleidleisio yn erbyn trosglwyddo stoc gan nad oes cynlluniau i gyrraedd safon ansawdd tai Cymru. Er y byddai trosglwyddo stoc yn buddsoddi tua phum gwaith yn fwy o arian mewn cartrefi tenantiaid na phe bai perchenogaeth yn aros yn nwylo’r awdurdod lleol, ac er bod safon ansawdd tai Cymru yn ymwneud â sicrhau’r buddiannau mwyaf o ganlyniad i fuddsoddi drwy atebolrwydd a rheolaeth leol, gan greu swyddi lleol a chyfleoedd hyfforddi a chefnogi busnesau lleol i dyfu a ffynnu, cyfyngedig oedd ymrwymiad Sir y Fflint i brosiect i2i cyn y bleidlais. Roedd hyn er bod tri chyfarfod wedi’u cynnal gyda rheolwr y prosiect i gynnig gwasanaethau i2i.

Gyda chefnogaeth drawsbleidiol, y Llywodraeth dan arweiniad Llafur Cymru a sefydlodd y safon, sy’n datgan bod yn rhaid i’r cynghorau wella eu stoc erbyn 2012. Yn wir, mae’r tenantiaid o fewn hanner cynghorau Cymru eisoes wedi pleidleisio i gyflawni hyn. Fodd bynnag, roedd tanfuddsoddi hirdymor mewn tai cyngor yn golygu bod angen tua £4 biliwn i gyrraedd y safon yn eiddo’r holl gynghorau erbyn 2012

Office report on social housing in Wales revealed that the main shortfall in council homes meeting the standard was in areas where tenants voted against proposals to transfer or where tenants had yet to be balloted. The Flintshire against stock transfer group, regrettably, on behalf of local Labour Party members, bombarded tenants with propaganda, misinformation and scaremongering, condemning them to continued substandard housing and denying them the voice that they could have had in a community interest, non-profit, transfer association regulated by the Minister and the Welsh Government.

Finally, the Minister accepts in principle, recommendations 2 and 3. What is it about a fail that is acceptable for a programme operational for 10 years? Why did a new Welsh housing quality standard monitoring regime introduced only in 2012 have to be made more robust this year? For far too long, too many of our social housing tenants have been denied the housing and the voice that they need and deserve.

Lindsay Whittle: The reports by the auditor general and the Public Accounts Committee on progress in delivering the Welsh housing quality standard are a bit of a mixed bag. On the one hand they say that the Welsh Government's targets for social landlords to reach the standard were too ambitious, and on the other they say that the standard has at least served to galvanise housing associations and local authorities to improve the living conditions of their tenants. I know that some local authorities held out on a ballot, because they did not approve of the uneven playing field, and some felt that they had done a reasonable job anyway. That is fine. However, what it has done is create something of a postcode lottery in Wales, because some local authorities have made very slow progress compared with others. We have tenants in one part of Wales living in worse properties than tenants elsewhere. This could be because many local authorities are struggling financially, and both reports make

neu ar ôl hynny. Datgelodd adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar dai cymdeithasol yng Nghymru mai'r prif ddiffyg o ran sicrhau bod cartrefi'r cyngor yn cyrraedd y safon oedd mewn ardaloedd lle y pleidleisiodd y tenantiaid yn erbyn cynigion i drosglwyddo neu lle nad oedd tenantiaid eto wedi bwrw eu pleidlais. Yn anffodus, gwnaeth grŵp Sir y Fflint yn erbyn trosglwyddo stoc, ar ran aelodau lleol o'r blaidd Lafur, blagio tenantiaid â phropaganda, camwybodaeth a chodi bwganod, a'u condemnio i barhau i fyw mewn tai sy'n is na'r safon a gwrthod rhoi'r cyfle iddynt y gallent fod wedi ei gael i fynegi eu barn mewn cymdeithas trosglwyddo stoc, ddi-elw, o fudd cymunedol wedi'i rheoleiddio gan y Gweinidog a Llywodraeth Cymru.

Yn olaf, mae'r Gweinidog yn derbyn mewn egwyddor, argymhellion 2 a 3. Pam ei bod yn iawn derbyn methiant am raglen sydd wedi bod yn weithredol ers 10 mlynedd? Pam y bu'n rhaid i gyfundrefn monitro safon ansawdd tai Cymru, sydd newydd gael ei chyflwyno yn 2012, gael ei wneud yn fwy cadarn eleni? Ers gormod o amser o lawer, gwrthodwyd tai a'r cyfle i fynegi barn i ormod o'n tenantiaid tai cymdeithasol, sef rhywbeth sydd ei angen arnynt ac y maent yn ei haeddu.

Lindsay Whittle: Mae'r adroddiadau gan yr archwilydd cyffredinol a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar gynnydd o ran cyrraedd safon ansawdd tai Cymru yn gymysg iawn. Ar y naill law nodant fod targedau Llywodraeth Cymru ar gyfer landlordiaid cymdeithasol i gyrraedd y safon yn rhy uchelgeisiol, ac ar y llaw arall nodant fod y safon o leiaf wedi bod yn fodd i symbylu cymdeithasau tai ac awdurdodau lleol i wella amodau byw eu tenantiaid. Gwn fod rhai awdurdodau lleol wedi penderfynu peidio â chynnal pleidlais, am nad oeddent yn cymeradwyo'r sefyllfa anghyfartal, ac roedd rhai yn teimlo eu bod wedi gwneud gwaith da beth bynnag. Mae hynny'n iawn. Fodd bynnag, yr hyn y mae wedi'i wneud yw creu rhyw fath o loteri cod post yng Nghymru, gan fod rhai awdurdodau lleol wedi gwneud cynnydd araf iawn o'u cymharu ag eraill. Mae tenantiaid yn un rhan o Gymru yn byw mewn eiddo gwaeth na thenantiaid mewn rhannau eraill. Gallai hyn fod oherwydd bod llawer o awdurdodau lleol

the point that the housing revenue account system needs reform, and I agree with that. However, another reason why some local authorities seem well ahead of others is that, as Aled said, they may not be providing accurate data about where they are in meeting the target on housing standards. However, I will put it no stronger than that. Reading the reports, I was glad to see that that has been recognised, and that the Welsh Government will be monitoring the data more carefully, on the recommendation of the Public Accounts Committee.

3.30 p.m.

One extremely important issue that these reports mention is the fact that improving the quality of social housing is not just about bricks and mortar; there is enough evidence around to show that the standard of properties can have a significant positive or negative impact on tenants' health and wellbeing. This is linked to a sense of security, if homes and estate design are effectively burglar-proof. As a local councillor for 37 years, and as a housing manager for 25 years in a previous life—when I had a life—I know that proper maintenance and repairs to council housing are a priority for most tenants. However, even more importantly, as far as the impact on people's health is concerned, is the efficient heating of properties. I come from a generation when council homes had no central heating, so you would wake up in the morning with ice on the windows—and that was probably in September. I know that some housing associations have fitted solar panels on the roofs of their properties. However, we need to encourage and assist local authorities to invest in lower cost and greener heating systems, to offset the huge problems in Wales of fuel poverty.

Where does that leave us on the question of social landlords delivering on WHQS? The current estimate is that the standard will probably be met by all social housing in 2020-21, or thereabouts. However, for many of the tenants who are living in sub-standard housing, that means another 10 years or so until their homes are up to a standard. Perhaps they should pay a reduced rent to

yn ei chael hi'n anodd yn ariannol, ac mae'r ddau adroddiad yn cyfeirio at y ffaith bod angen diwygio system y cyfrif refeniw tai, a chytunaf â hynny. Fodd bynnag, rheswm arall pam mae rhai awdurdodau lleol ymhell ar y blaen i eraill, yn ôl pob golwg, yw nad ydynt efallai, fel y dywedodd Aled, yn darparu data cywir am eu cynnydd o ran cyrraedd y targed ar safonau tai. Fodd bynnag, ni nodaf hynny mewn geiriau cryfach. Wrth ddarllen yr adroddiadau, roeddwn yn falch o weld bod hynny wedi cael ei gydnabod, ac y bydd Llywodraeth Cymru yn monitro'r data yn fwy gofalus, yn ôl argymhelliad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus.

Un mater hynod bwysig y mae'r adroddiadau hyn yn sôn amdano yw'r ffaith nad oes a wnelo gwella ansawdd tai cymdeithasol â brics a mortar yn unig; mae digon o dystiolaeth i ddangos y gall safon eiddo gael effaith gadarnhaol neu negyddol fawr ar iechyd a lles tenantiaid. Mae hyn yn gysylltiedig ag ymdeimlad o ddiogelwch, os yw cartrefi a chynllun ystad yn ddiogel rhag lladron yn y bôn. Fel cynghorydd lleol am 37 o flynyddoedd, a rheolwr tai am 25 mlynedd mewn bywyd arall—pan oedd gen i fywyd—gwn fod gwaith cynnal a chadw ac atgyweiriadau priodol i dai cyngor yn flaenoriaeth i'r rhan fwyaf o denantiaid. Fodd bynnag, mae gwresogi eiddo yn effeithlon hyd yn oed yn bwysicach, o ran yr effaith ar iechyd pobl. Rwy'n dod o genhedlaeth lle nad oedd gan dai cyngor wres canolog, felly byddech yn diuno yn y bore gyda rhew ar y ffenestri—a hynny ym mis Medi siŵr o fod. Gwn fod rhai cymdeithasau tai wedi gosod paneli solar ar doeau eu heiddo. Fodd bynnag, mae angen inni annog a chynorthwyo awdurdodau lleol i fuddsoddi mewn systemau cost is a systemau gwresogi gwyrddach, i wneud iawn am y problemau enfawr yng Nghymru o ran tlodi tanwydd.

Beth yw canlyniad hynny o ran sicrhau y bydd landlordiaid cymdeithasol yn cyrraedd safon ansawdd tai Cymru? Yr amcangyfrif ar hyn o bryd yw y bydd y safon yn ôl pob tebyg yn cael ei chyrraedd gan yr holl dai cymdeithasol yn 2020-21, neu oddeutu hynny. Fodd bynnag, i lawer o'r tenantiaid sy'n byw mewn tai sy'n is na'r safon, mae hynny'n golygu tua 10 mlynedd arall nes bod

compensate for living in damp, unhealthy conditions.

The reports from the Auditor General for Wales, and from the Public Accounts Committee, have highlighted a number of important areas for improvement, and improvement means one thing: money. The Welsh Government needs to set out a clear timetable as to how it will negotiate with the Treasury regarding the housing revenue account. It is clear that the Welsh housing quality standard will not even be fully met in 10 years' time unless we can find additional funding to make it happen.

Peter Black: I wish to start by welcoming this report. It is an important and timely study into how the Welsh housing quality standard has been implemented over the last 10 years or so. Although the report concludes that the original aim that all social housing would achieve the Welsh housing quality standard by 2012 will not be met, it is important to note that it also concludes that many tenants have seen substantial improvements in the quality of their housing. Therefore, this is not all negative; we must acknowledge the fact that there have been substantial improvements in many areas—in the registered social landlords sector, as well as in the council housing sector. As such, the Welsh housing quality standard has had some impact.

However, the rest of the report does not read so well, particularly regarding the way in which the Welsh Government has conducted itself over the last 10 years, when the report concludes that the Government did not act swiftly enough to support and monitor progress, and that the Welsh Government did not put an effective framework in place to demonstrate value for money from the significant investment that was planned in order to achieve the Welsh housing quality standard. However, despite the improvements that have been made since the introduction of the Welsh housing quality standard, the auditor general's report is clear that the original objective of 2012 is unachievable. As Lindsay Whittle has just indicated, the indication of 2020 or 2021 is still a moveable

eu cartrefi yn cyrraedd y safon. Efallai y dylent dalu rhent is i wneud iawn am fyw mewn cartrefi llaith ac afiach.

Mae'r adroddiadau gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus wedi tynnu sylw at nifer o feysydd pwysig i'w gwella, ac mae gwelliant yn golygu un peth: arian. Mae angen i Lywodraeth Cymru bennu amserlen glir i nodi sut y bydd yn cyd-drafod â'r Trysorlys ynghylch y cyfrif refeniw tai. Mae'n amlwg na chaiff safon ansawdd tai Cymru ei chyrraedd yn llawn hyd yn oed ymhen 10 mlynedd oni allwn ddod o hyd i gyllid ychwanegol i wneud iddo ddigwydd.

Peter Black: Hoffwn ddechrau drwy groesawu'r adroddiad hwn. Mae'n astudiaeth bwysig ac amserol ar sut y rhoddwyd safon ansawdd tai Cymru ar waith dros y 10 mlynedd diwethaf. Er bod yr adroddiad yn dod i'r casgliad na fydd y nod gwreiddiol yn cael ei fodloni, sef y bydd yr holl dai cymdeithasol yn cyrraedd safon ansawdd tai Cymru erbyn 2012, mae'n bwysig nodi ei fod hefyd yn dod i'r casgliad bod llawer o denantiaid wedi gweld gwelliannau sylweddol yn ansawdd eu tai. Felly, nid yw'r cyfan yn negyddol; rhaid inni gydnabod y ffaith bod gwelliannau sylweddol wedi'u cyflawni mewn sawl maes—yn sector y landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, yn ogystal â'r sector tai cyngor. Fel y cyfryw, mae safon ansawdd tai Cymru wedi cael rhywfaint o effaith.

Fodd bynnag, nid yw gweddill yr adroddiad gystal, yn enwedig o ran y ffordd y mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal ei hun dros y 10 mlynedd diwethaf, pan ddaw'r adroddiad i'r casgliad nad oedd y Llywodraeth wedi gweithredu'n ddigon cyflym i gefnogi a monitro cynnydd, ac nad oedd Llywodraeth Cymru wedi rhoi fframwaith effeithiol ar waith i ddangos gwerth am arian o'r buddsoddiad sylweddol a gynlluniwyd er mwyn cyrraedd safon ansawdd tai Cymru. Fodd bynnag, er gwaethaf y gwelliannau a wnaed ers cyflwyno safon ansawdd tai Cymru, mae adroddiad yr archwilydd cyffredinol yn glir nad yw nod gwreiddiol 2012 yn gyraeddadwy. Fel y mae Lindsay Whittle newydd ei awgrymu, mae 2020 neu 2021 yn

feast, and one that we cannot put much confidence in, unless we are confident that substantial resources will be available in the council housing sector, and the registered social landlords sector, to achieve that target.

The report notes that there are concerns that the Welsh Government lacked baseline data on the quality of houses across Wales when it originally set a target of delivering the Welsh housing quality standard. That is a significant failing at that particular time. Therefore, there was a failure to appreciate the scale of the improvements that would be required. It was not just the target that was over-ambitious; the standard that was set was also much higher than that required in England. All that needs to be taken into account.

I was quite concerned at the further narrative in the report where the auditor general concluded that,

‘The Welsh Government issued guidance for local authorities in April 2002, and for housing associations in November 2003. The guidance required landlords to finalise their plans to achieve the WHQS by the end of 2006. In 2004, landlords raised concerns about interpretation of the WHQS, but it was not until 2008 that the Welsh Government produced revised guidance in collaboration with HouseMark Cymru.’

This is not just a question of resources or of local authorities or housing associations not meeting their obligations; clearly, there have been issues in relation to the guidance that the Welsh Government has been giving to those organisations. It was not until 2008 that that was made clear. I am also concerned that those lessons may not have been fully learned. I recall a conversation in the Chamber with the Minister, and subsequently in the Communities, Equality and Local Government Committee, in relation to the indication that he gave in July 2011 that 78% of RSL dwellings would reach the standard by this year. Yet, as of March 2012, only 40% of RSL dwellings and 22% of local authority dwellings were fully compliant. Despite the problems highlighted in this report, we still have Ministers setting

dal i fod yn ddyddiad a all newid, ac yn un na allwn roi llawer o hyder yn ddo, oni bai ein bod yn hyderus y bydd adnoddau sylweddol ar gael yn y sector tai cyngor, ac yn sector y landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, i gyrraedd y targed hwnnw.

Mae'r adroddiad yn nodi bod pryderon nad oedd gan Lywodraeth Cymru ddata sylfaenol ar ansawdd tai ledled Cymru pan osododd darged yn wreiddiol o gyrraedd safon ansawdd tai Cymru. Mae hynny'n fethiant sylweddol ar yr adeg benodol honno. Felly, roedd methiant i werthfawrogi maint y gwelliannau y byddai eu hangen. Nid y targed yn unig a oedd yn or-uchelgeisiol, roedd y safon a osodwyd hefyd yn llawer uwch na'r hyn a oedd yn ofynnol yn Lloegr. Mae angen ystyried hynny i gyd.

Roeddwn yn eithaf pryderus ynghylch y naratif pellach yn yr adroddiad lle y daeth yr archwilydd cyffredinol i'r casgliad,

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau ar gyfer awdurdodau lleol ym mis Ebrill 2002, ac ar gyfer cymdeithasau tai ym mis Tachwedd 2003. Roedd y canllawiau yn ei gwneud yn ofynnol i landlordiaid gwblhau eu cynlluniau i gyrraedd SATC erbyn diwedd 2006. Yn 2004, cododd landlordiaid bryderon ynghylch dehongli SATC, ond ni luniodd Llywodraeth Cymru ganllawiau diwygiedig mewn cydweithrediad â HouseMark Cymru tan 2008.

Nid mater o adnoddau yn unig yw hyn, na'r ffaith nad yw awdurdodau lleol neu gymdeithasau tai yn cyflawni eu dyletswyddau; yn amlwg, bu problemau mewn perthynas â'r arweiniad y mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn ei roi i'r sefydliadau hynny. Ni wnaethpwyd hynny'n glir tan 2008. Pryderaf hefyd nad yw'r gwersi hynny efallai wedi cael eu dysgu'n llawn. Rwy'n cofio sgwrs yn y Siambr gyda'r Gweinidog, ac yn dilyn hynny yn y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, mewn perthynas â'r awgrym a roddodd ym mis Gorffennaf 2011 y byddai 78% o anheddau landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn cyrraedd y safon y flwyddyn honno. Eto i gyd, ym mis Mawrth 2012, dim ond 40% o anheddau landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a 22% o anheddau

unattainable targets.

Much has been made of the housing revenue account subsidy system and I certainly share the objectives, both of this Minister and his predecessor, in trying to get rid of that clawback. I have written to the Minister, following our discussion in Plenary on 17 October, to offer my assistance in breaking any deadlock in negotiations with the UK Government on that particular issue, but have had no reply. Even so, important as this money is, I do not think that we can pretend that it is going to offer an instant solution to meeting the Welsh housing quality standard. Anyone who says that this money would sort the problem out straight away is being disingenuous, not least because it does not impact on the capacity of registered social landlords or stock transfer companies to do that. Even in terms of the amount of money needed for local authorities, although it will make a significant contribution, it will not meet the whole cost of that particular transformation. The lessons that we have to learn here are that we need realistic targets, we need to ensure that we are talking to all bodies in the sector, and we need to make sure that the resources that are needed to deliver ambitious targets are available as and when they are required.

The Minister for Housing, Regeneration and Heritage (Huw Lewis): I welcome the committee's report and the opportunity to discuss it today and thank Members for their comments. Ensuring the Welsh housing quality standard is met across all social housing in Wales remains central to the Government's agenda in tackling poverty, creating jobs and training opportunities, raising educational attainment and improving health and wellbeing. I am encouraged that the new data published on 15 October shows an increase in the number of social housing dwellings that are fully compliant with WHQS. Significantly higher percentages of homes were fully compliant with individual components of WHQS, including things like central heating systems and so on. I will return to that in a second. This represents a

awdurdodau lleol a oedd yn cydymffurfio'n llawn. Er gwaethaf y problemau a amlygwyd yn yr adroddiad hwn, mae Gweinidogion yn dal i osod targedau nad oes modd eu cyflawni.

Mae llawer o sôn wedi bod am system cymhorthdal y cyfrif refeniw tai ac yn sicrhannaf amcanion y Gweinidog hwn a'i ragflaenydd, o ran ceisio cael gwared ar yr adfachu hwnnw. Rwyf wedi ysgrifennu at y Gweinidog, yn dilyn ein trafodaeth yn y Cyfarfod Llawn ar 17 Hydref, i gynnig fy nghymorth i ddatrys unrhyw anghytundeb mewn trafodaethau â Llywodraeth y DU ar y mater arbennig hwnnw, ond ni chefais ateb. Er hynny, er mor bwysig yw'r arian hwn, ni chredaf y gallwn esgus ei fod yn mynd i gynnig ateb ar unwaith i gyrraedd safon ansawdd tai Cymru. Mae unrhyw un sy'n dweud y byddai'r arian hwn yn datrys y broblem ar unwaith yn camarwain, yn bennaf gan nad yw'n effeithio ar allu landlordiaid cymdeithasol cofrestredig na chwmnïau trosglwyddo stoc i wneud hynny. Hyd yn oed o ran y swm o arian sydd ei angen ar awdurdodau lleol, er y bydd yn gwneud cyfraniad sylweddol, ni fydd yn talu holl gost y trawsnewid penodol hwnnw. Y gwersi y mae'n rhaid inni eu dysgu yma yw bod angen targedau realistig arnom, bod angen inni sicrhau ein bod yn siarad â phob corff yn y sector, a bod angen inni wneud yn siŵr bod yr adnoddau sydd eu hangen i gyflawni targedau uchelgeisiol ar gael yn ôl y galw.

Y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth (Huw Lewis): Croesawaf adroddiad y pwyllgor a'r cyfle i'w drafod heddiw a diolch i'r Aelodau am eu sylwadau. Mae sicrhau bod safon ansawdd tai Cymru yn cael ei chyrraedd mewn perthynas â'r holl dai cymdeithasol yng Nghymru yn parhau i fod yn ganolog i agenda'r Llywodraeth o fynd i'r afael â thlodi, creu swyddi a chyfleoedd hyfforddi, codi cyrhaeddiad addysgol a gwella iechyd a lles. Fe'm calonogwyd gan y ffaith bod y data newydd a gyhoeddwyd ar 15 Hydref yn dangos cynnydd yn nifer yr anheddau tai cymdeithasol sy'n cydymffurfio'n llawn â SATC. Roedd canrannau sylweddol uwch o gartrefi yn cydymffurfio'n llawn ag elfennau unigol o SATC, gan gynnwys pethau fel systemau gwres canolog ac yn y blaen. Dychwelaf at

huge current and ongoing financial investment in our communities and in their future. In many communities, this is by far the biggest injection and movement of capital investment of any kind, let alone housing, in a generation.

This morning, I met some Cardiff Council tenants whose homes have been brought up to the standard and the very real impact the changes have had on their quality of life was evident. While it is good to see authorities like Cardiff meeting the standard, I am determined to ensure that all tenants, wherever they live in Wales, have the same quality homes to live in. Undoubtedly, constraints in public spending that have been imposed on us by the UK Government have meant that achieving the WHQS from here onwards has become extremely challenging. I am also concerned about the impact of welfare benefit reform on landlords' ability to invest as we look to the future. However, this does not lessen my resolve and commitment to ensuring that all social housing will meet the standard. My housing White Paper, published in May this year, reaffirmed this. It also seeks to take into account the difficult economic circumstances by setting a new target of 2020 for those landlords yet to achieve it.

I want to assure everyone here that I am determined that we will meet this new deadline. I have already established a ministerial task force to identify options for local authorities that are yet to meet the standard, in particular, those that are yet to produce a viable business plan. The task force will report back to me shortly and I will discuss these options directly with each local authority. In addition to this, my officials are monitoring closely progress against the business plans of all social landlords who are yet to fully comply, so that I can intervene where necessary.

There is still much to do on this agenda. We need to ensure that the standard is achieved by all local authorities and housing associations by 2020, as I say, and the recommendations in the Public Accounts

hynny mewn eiliad. Mae hyn yn fuddsoddiad ariannol cyfredol a pharhaus enfawr yn ein cymunedau ac yn eu dyfodol. Mewn llawer o gymunedau, hwn yw'r chwistrelliad a'r symudiad mwyaf o fuddsoddiad cyfalaf o unrhyw fath o bell ffordd, heb sôn am dai, mewn cenhedlaeth.

Y bore yma, cyfarfûm â rhai o denantiaid Cyngor Caerdydd y mae eu cartrefi bellach wedi cyrraedd y safon ac roedd yr effaith wirioneddol y mae'r newidiadau wedi ei chael ar ansawdd eu bywyd yn amlwg. Er ei bod yn dda gweld awdurdodau fel Caerdydd yn cyrraedd y safon, rwy'n benderfynol o sicrhau bod pob tenant, ble bynnag y mae'n byw yng Nghymru, yn cael yr un math o gartref o safon i fyw ynddo. Yn ddiau, mae cyfyngiadau mewn gwariant cyhoeddus a osodwyd arnom gan Lywodraeth y DU yn golygu bod cyflawni SATC o hyn ymlaen yn anodd tu hwnt. Pryderaf hefyd am effaith diwygio budd-daliadau lles ar allu landlordiaid i fuddsoddi wrth inni edrych i'r dyfodol. Fodd bynnag, nid yw hyn yn lleihau fy mhenderfyniad na'm hymrwymiad i sicrhau y bydd yr holl dai cymdeithasol yn cyrraedd y safon. Ailgadarnhawyd hyn yn fy Mhapur Gwyn ar dai, a gyhoeddwyd ym mis Mai eleni. Mae hefyd yn ceisio ystyried yr amgylchiadau economaidd anodd drwy osod targed newydd o 2020 ar gyfer y landlordiaid hynny sydd eto i'w gyflawni.

Rwyf am sicrhau pawb yma fy mod yn benderfynol y byddwn yn cyflawni hyn o fewn y terfyn amser newydd hwn. Rwyf eisoes wedi sefydlu tasglu gweinidogol i nodi opsiynau ar gyfer awdurdodau lleol sydd eto i gyrraedd y safon, yn enwedig, y rhai sydd eto i lunio cynllun busnes hyfyw. Bydd y tasglu yn adrodd yn ôl i mi yn fuan a byddaf yn trafod yr opsiynau hyn yn uniongyrchol â phob awdurdod lleol. Yn ogystal â hyn, mae fy swyddogion yn monitro cynnydd yn agos yn erbyn cynlluniau busnes yr holl landlordiaid cymdeithasol sydd eto i gydymffurfio'n llawn, fel y gallaf ymyrryd lle bo angen.

Mae llawer i'w wneud ar yr agenda hon o hyd. Mae angen inni sicrhau bod y safon yn cael ei chyrraedd gan bob awdurdod lleol a chymdeithas dai erbyn 2020, fel y dywedais, ac mae'r argymhellion yn adroddiad y

Committee report are extremely useful in terms of moving forward. I have ensured that robust mechanisms are in place to capture the data and to clarify 'acceptable fails'. In my response to the committee, I have confirmed that I intend to arrange for an evaluation of WHQS, which will include independent spot checks to verify the work landlords are claiming, to learn from best practice on working with tenants, and to ensure that 'acceptable fails' are not being used to avoid important work. All of this work is in hand and I will be able to report progress during 2013. I want to do this by working closely with landlords and tenant groups.

I fully accept the centrality of the housing revenue account subsidy system to this debate. I am still optimistic about a resolution to this by spring 2013. This report will help to concentrate the minds of the Treasury on this agenda in Wales.

As valuable as the committee's recommendations are, I do not want them to overshadow the achievements of the WHQS up until now and what that means for people and the communities in which they live. While the latest figures, rightly, as Peter Black pointed out, show that 33% of landlords are fully compliant, that does not tell us the whole story. Figures show that at 31 March this year, 94% or 205,000 homes had windows that met the standard; 92% or 203,000 homes had smoke detectors that met the standards; 91%, nearly 200,000 homes, had external doors that met the standard; 88% had roofs that met the standard; 70%, or 136,000 homes, had bathrooms that met the standard; and 68%, or 134,000 homes, had kitchens that met the standard. This standard's boost makes sustaining our efforts on the quality agenda more than worth it.

Peter Black: Those statistics are important, but although some homes have met part of the standard, they have not all met the full standard. That is not a criticism, but perhaps you need to consider how you define the

Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn hynod o ddefnyddiol o ran symud ymlaen. Rwyf wedi sicrhau bod mecanweithiau cadarn yn eu lle i gipio'r data ac i egluro 'methiannau derbynol'. Yn fy ymateb i'r pwyllgor, cadarnheais fy mod yn bwriadu trefnu gwerthusiad o SATC, a fydd yn cynnwys hapwiriadau annibynnol i ddilysu'r gwaith y mae landlordiaid yn ei hawlio, i ddysgu o arfer gorau o ran gweithio gyda thenantiaid, ac i sicrhau nas defnyddir 'methiannau derbynol' i osgoi gwaith pwysig. Mae'r gwaith hwn i gyd yn mynd rhagddo a byddaf yn gallu adrodd ar gynnydd yn ystod 2013. Rwyf am wneud hyn drwy weithio'n agos gyda landlordiaid a grwpiau tenantiaid.

Derbyniaf yn llwyr pa mor ganolog yw system cymhorthdal y cyfrif refeniw tai i'r ddadl hon. Rwy'n dal yn obeithiol y deuir i benderfyniad ar hyn erbyn gwanwyn 2013. Bydd yr adroddiad hwn yn helpu i ganolbwyntio meddyliau'r Trysorlys ar yr agenda hon yng Nghymru.

Er mor werthfawr yw argymhellion y pwyllgor, nid wyf am iddynt fwrw cysgod dros yr hyn y mae SATC wedi ei gyflawni hyd yma na'r hyn y mae hynny'n ei olygu i bobl a'r cymunedau y maent yn byw ynddynt. Er bod y ffigurau diweddaraf, yn gwbl briodol, fel y nododd Peter Black, yn dangos bod 33% o landlordiaid yn cydymffurfio'n llawn, nid dyna'r stori gyfan. Mae'r ffigurau'n dangos, ar 31 Mawrth eleni, fod gan 94% neu 205,000 o gartrefi ffenestri a oedd yn cyrraedd y safon; roedd gan 92% neu 203,000 o gartrefi synwryddion mwg a oedd yn cyrraedd y safon; roedd gan 91%, bron 200,000 o gartrefi, ddrysau allanol a oedd yn cyrraedd y safon; roedd gan 88% doeon a oedd yn cyrraedd y safon; roedd gan 70%, neu 136,000 o gartrefi, ystafelloedd ymolchi a oedd yn cyrraedd y safon; ac roedd gan 68%, neu 134,000 o gartrefi, geginau a oedd yn cyrraedd y safon. Mae'r hwb yn y safon hon yn golygu bod cynnal ein hymdrechion ar yr agenda ansawdd yn fwy na gwerth chweil.

Peter Black: Mae'r ystadegau hynny yn bwysig, ond er bod rhai cartrefi wedi cyrraedd rhan o'r safon, nid ydynt wedi cyrraedd y safon lawn. Nid beirniadaeth yw hynny, ond efallai fod angen ichi ystyried sut

standard and what the most important elements of the standard are in terms of setting targets. Perhaps that would be a more acceptable way of taking this forward.

Huw Lewis: I am open-minded on these issues and more than willing to consider how we set standards and work in co-operation with all parties, including opposition parties, on this. However, the point that I am trying to make is that politicians meeting targets is not nearly as important sometimes as the forward momentum that driving towards those targets actually delivers us. This level of work represents a huge expenditure in some of the poorest communities in Wales through jobs, training contracts and supply chains. That will continue up to 2020, at a time when most, if not all, other levels of investment in those communities are stationary or falling.

The standard was always ambitious and difficult to achieve in view of the work, money and political will required to make it happen. This has been made even more difficult—and I would encourage Peter Black and the Welsh Conservatives to think about this point—by the spending cuts imposed by the UK Government and the forthcoming impact of welfare reform on, for example, rent arrears.

The auditor general has recognised that the minimum requirements in Wales are more challenging than the standards in force elsewhere in the United Kingdom, and I am not embarrassed by that for a moment. He also recognises that it has been instrumental in improving social housing.

3.45 p.m.

According to landlords' projections, 98% of housing-association-owned homes and 51% of local-authority-owned homes—79% of all social housing—will meet the standard by 2017. The majority of homes that will not meet the standard by 2017 are owned by local authorities that have retained ownership of their housing stock, which is a distinctive

rydych yn diffinio'r safon a beth yw elfennau pwysicaf y safon o ran gosod targedau. Efallai y byddai hynny'n ffordd fwy derbyniol o ddatblygu hyn.

Huw Lewis: Mae gennyf feddwl agored ynghylch y materion hyn ac rwy'n fwy na pharod i ystyried sut rydym yn gosod safonau ac yn gweithio mewn cydweithrediad â phob plaid, gan gynnwys gwrthbleidiau, ar hyn. Fodd bynnag, y pwynt yr wyf yn ceisio'i wneud yw nad yw sicrhau bod gwleidyddion yn cyflawni targedau agos cyn bwysiced weithiau â'r momentwm y mae anelu at y targedau hynny mewn gwirionedd yn ei gyflawni inni. Mae'r lefel hon o waith yn cynrychioli gwariant enfawr mewn rhai o'r cymunedau tlotaf yng Nghymru drwy swyddi, contractau hyfforddi a chadwyni cyflenwi. Bydd hynny'n parhau hyd at 2020, ar adeg pan fo'r rhan fwyaf, os nad y cyfan, o'r lefelau eraill o fuddsoddiad yn y cymunedau hynny yn ddisymud neu'n disgyn.

Roedd y safon bob amser yn uchelgeisiol ac yn anodd ei chyrraedd o ystyried y gwaith, yr arian a'r ewyllys wleidyddol a oedd yn ofynnol er mwyn gwneud i hyn ddigwydd. Gwnaed hyn hyd yn oed yn fwy anodd—a byddwn yn annog Peter Black a'r Ceidwadwyr Cymreig i feddwl am y pwynt hwn—oherwydd y toriadau mewn gwariant a orfodwyd gan Lywodraeth y DU a'r effaith sydd i ddod o ran diwygio lles, er enghraifft, ar ôl-ddyledion rhent.

Mae'r archwilydd cyffredinol wedi cydnabod bod y gofynion sylfaenol yng Nghymru yn fwy heriol na'r safonau sydd mewn grym mewn manau eraill yn y Deyrnas Unedig, ac nid yw hynny'n gwneud imi deimlo'n chwithig am eiliad. Mae'n cydnabod hefyd i hyn fod yn gyfrwng i wella tai cymdeithasol.

Yn ôl amcanestyniadau landlordiaid, bydd 98% o dai sy'n eiddo i gymdeithasau tai a 51% o gartrefi sy'n eiddo i awdurdodau lleol—79% o'r holl dai cymdeithasol—yn cyrraedd y safon erbyn 2017. Mae'r rhan fwyaf o gartrefi na fyddant yn cyrraedd y safon erbyn 2017 yn eiddo i awdurdodau lleol sydd wedi cadw perchenogaeth o'u stoc

subset within the Welsh housing picture. The three councils that we are concentrating upon in this regard that do not have a business plan as yet have told me that they intend to work with me and my ministerial taskforce to reach that standard, to have a viable business plan in place and to meet the deadline. I will be determined to ensure that that happens, using the fullest extent of my ability to co-operate with those authorities, and the fullest extent of my powers as regards intervention.

These things are a matter of concern. Members are quite right to focus on the issues surrounding those tenants whose homes are not yet of that standard. However, I am confident that, together with the taskforce work, which will give me an early picture of the situation, particularly within those local authorities that have retained their stock, this will enable a vigorous forward planning regime to be instituted.

My commitment and that of the Cabinet to meeting the standard is stronger than ever—I will not be put off by whether or not the standard has been met according to targets set by my predecessors. The principle of this is too important for any amount of political embarrassment to overtake it. We must deliver quality housing for the people of Wales—they deserve it. With the rest of our agenda on tackling poverty, creating jobs and improving health and wellbeing, this is central to our work as a Government.

I put on record my thanks to all social landlords for their achievements to date. The target has been challenging, and, for councils in particular, the decision to transfer their stock or not has not been easy, but we will work together to deliver for the tenants involved. Finally, I thank the members of the Public Accounts Committee for their report; it is good, down-to-earth stuff. It makes sensible recommendations that I will gladly work with, and I will be reporting to the committee on progress against the Wales Audit Office report, upon which the committee's recommendations are made, before the end of December this year.

tai, sydd yn is-set benodol o fewn y darlun tai yng Nghymru. Mae'r tri chyngor yr ydym yn canolbwyntio arnynt yn hyn o beth nad oes ganddynt gynllun busnes hyd yma wedi dweud wrthyf eu bod yn bwriadu gweithio gyda mi a'm tasglu Gweinidogol i gyrraedd y safon honno, i gael cynllun busnes hyfyw ar waith ac i gyflawni'r gwaith o fewn y terfyn amser. Byddaf yn benderfynol o sicrhau bod hynny'n digwydd, gan ddefnyddio fy ngallu i gydweithio â'r awdurdodau hynny i'r eithaf, a manteisio i'r eithaf ar fy mhwerau o ran myrryd.

Mae'r pethau hyn yn achos pryder. Mae'r Aelodau yn iawn, a hynny'n briodol, i ganolbwyntio ar y materion sy'n ymwneud â'r tenantiaid hynny nad yw eu cartrefi wedi cyrraedd y safon honno eto. Fodd bynnag, rwy'n hyderus, ynghyd â gwaith y tasglu, a fydd yn rhoi darlun cynnar imi o'r sefyllfa, yn enwedig o fewn yr awdurdodau lleol hynny sydd wedi cadw eu stoc, y gellir sefydlu cyfundrefn drwyadl o flaengynllunio.

Mae fy ymrwymiad i ac ymrwymiad y Cabinet i gyrraedd y safon yn gryfach nag erioed—ni chaf fy niflasu am nad yw'r safon efallai wedi ei chyrraedd yn ôl y targedau a osodwyd gan fy rhagflaenwyr. Mae egwyddor hyn yn rhy bwysig waeth faint o embaras gwleidyddol sydd ynghlwm wrtho. Rhaid inni ddarparu tai o ansawdd i bobl Cymru—maent yn ei haeddu. Gyda gweddill ein hagenda ar fynd i'r afael â thlodi, creu swyddi a gwella iechyd a lles, mae hyn yn ganolog i'n gwaith fel Llywodraeth.

Hoffwn gofnodi fy niolch i bob landlord cymdeithasol am eu cyflawniadau hyd yn hyn. Bu'r targed yn heriol, ac, i gynghorau yn benodol, ni fu'r penderfyniad i drosglwyddo eu stoc ai peidio yn un hawdd, ond cydweithiwn i ddarparu ar gyfer y tenantiaid dan sylw. Yn olaf, diolchaf i aelodau'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus am eu hadroddiad; mae'r cynnwys yn dda ac yn realistig. Mae'n gwneud argymhellion synhwyrol y byddaf yn falch o weithio gyda nhw, a byddaf yn cyflwyno adroddiad ar gynnydd i'r pwyllgor mewn perthynas ag adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, y gwneir argymhellion y pwyllgor arno, cyn diwedd Rhagfyr eleni.

Aled Roberts: Rwyf yn ddiolchgar am y cyfle i ymateb. Yn yr amser sydd ar gael, ni allaf ymdrin â'r holl bwyntiau a godwyd, ond hoffwn ymateb i un neu ddau ohonynt yn benodol.

Aled Roberts: I am grateful for the opportunity to respond. In the time available, I cannot address all of the points raised, but I would like to respond to one or two points in particular.

Soniodd Mark Isherwood am y broblem sydd dal heb ei wynebu ar hyn o bryd ynglŷn â'r awdurdodau hynny sydd wedi pleidleisio yn erbyn trosglwyddo stoc. Mae hyn yn bwysig wrth i ni ystyried targed newydd y Gweinidog, sef y dylid cyrraedd y safon erbyn 2020. Bu hynny'n broblem sydd wedi bod yn wynebu awdurdodau unigol ers tua pum neu chwe mlynedd, ac nid ydym yn gwybod beth yn union yw'r ateb o hyd.

Mark Isherwood mentioned the problem that still has not been faced at present with regard to those authorities that have voted against stock transfer. This is important as we consider the Minister's new target, namely that the standard should be reached by 2020. That is a problem that has been facing individual authorities for some five or six years, and we still are not quite sure what the answer is.

Dywedodd Lindsay Whittle fod y targed gwreiddiol hwyrach yn rhy uchelgeisiol, a hefyd bod anghysondeb o ran ymdrin â'r maes hwn. Rwyf hefyd yn meddwl bod yr adroddiad yn adlewyrchu'r pwynt a wnaethpwyd ganddo ynglŷn â'r ffaith nad yw'r data yn gywir. Rwyf yn siŵr bod y Gweinidog wedi derbyn hynny. Mae hefyd wedi pwysleisio'r angen am amserlen benodol ar gyfer dwyn trafodaethau gyda'r Trysorlys dros y gronfa refeniw tai i ben.

Lindsay Whittle said that the original target was perhaps too ambitious, and also that there is inconsistency in how this field is dealt with. I also think that the report reflects the point that he made about the fact that the data are not accurate. I am sure that the Minister has accepted that. He has also emphasised the need for a specific timetable for drawing discussions with the Treasury over the housing revenue account to an end.

I fod yn deg, nododd Peter Black, fel ag y gwnaeth y pwyllgor, y bu cynnydd a gwelliant, fel mae'r Gweinidog eisoes wedi ei ddweud. Fodd bynnag, mae'n rhaid cydnabod bod methiannau ar ran y Llywodraeth, ac mae hynny yn cael ei grybwyll yn yr adroddiad. Yn benodol, dywedodd Peter fod beirniadaeth yn yr adroddiad am yr oedi rhwng 2004 a 2008.

To be fair, Peter Black noted, as did the committee, that there has been progress and improvement, as the Minister has already said. However, we must also recognise that there have been some failures on the part of the Government, and that has been mentioned in the report. Specifically, Peter said that there is criticism in the report of the delay between 2004 and 2008.

I gloi, rydym fel pwyllgor yn ddiolchgar i'r Gweinidog am ei ymateb cadarnhaol i'n adroddiad. Er mwyn gwella ansawdd tai cymdeithasol yng Nghymru, rydym yn credu ei bod yn hanfodol i Lywodraeth Cymru yn cadw ei thŷ ei hun mewn trefn. Rhaid sicrhau arweinyddiaeth cryf ar y mater hwn ar sylfaen o ddata cywir ar safon tai yng Nghymru.

To conclude, we as a committee are grateful to the Minister for his positive response to our report. In order to improve the quality of social housing in Wales, we believe that it is vital that the Welsh Government keeps its own house in order. Strong leadership on this issue must be secured upon the foundations of accurate data on the standards of housing in Wales.

Diolch i bawb sydd wedi cymryd rhan yn y ddadl heddiw. Rwy'n ddiolchgar am y cyfle i gyflwyno'r adroddiad hwn i'r Cynulliad y prynhawn yma.

I thank everyone who has participated in today's debate. I am grateful for the opportunity to present this report to the Assembly this afternoon.

The Deputy Presiding Officer: The proposal is to note the Public Accounts Committee's report. Are there any objections? I see that there are none. Therefore, in accordance with Standing Order No. 12.36, the motion is agreed.

Y Dirprwy Lywydd: Y cynnig yw nodi adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. A oes unrhyw wrthwynebiadau? Gwelaf nad oes. Felly, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36, caiff y cynnig ei dderbyn.

*Derbyniwyd y cynnig.
Motion agreed.*

*Daeth y Llywydd i'r Gadair am 3.50 p.m.
The Presiding Officer took the Chair at 3.50 p.m.*

Dadl y Ceidwadwyr Cymreig Welsh Conservatives Debate

Y Stryd Fawr yng Nghymru The Welsh High Street

The Presiding Officer: I have selected amendments 1, 3, 4, 5 and 6 in the name of Aled Roberts, and amendment 2 in the name of Jane Hutt. If amendment 2 is agreed, amendment 3 will be deselected.

Y Llywydd: Rwyf wedi dethol gwelliannau 1, 3, 4, 5 a 6 yn enw Aled Roberts, a gwelliant 2 yn enw Jane Hutt. Os derbynnir gwelliant 2, caiff gwelliant 3 ei ddad-ddethol.

Cynnig NDM5092 William Graham

Motion NDM5092 William Graham

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

The National Assembly for Wales:

1. Yn nodi swyddogaeth bwysig y stryd fawr yng Nghymru fel canolfan ar gyfer ymgysylltu cymunedol, rhoi hwb i economïau lleol a gwella balchder bro;

1. Notes the important role of the Welsh high street as a centre for community engagement, boosting local economies and enhancing civic pride;

2. Yn nodi'r sialensiau sy'n wynebu'r stryd fawr yng Nghymru, gan gynnwys cyfraddau uchel o unedau gwag, y cynnydd mewn siopa ar y rhyngwyd a datblygu canolfannau manwerthu ar gyrion trefi.

2. Notes the challenges facing the Welsh high street, including high vacancy rates, the rise of internet shopping and the development of out-of-town retail centres;

3. Yn nodi'r cynigion a amlinellir yn y papur polisi 'A Vision for the Welsh High Street'; a

3. Notes the proposals set out in the policy paper 'A Vision for the Welsh High Street'; and

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i archwilio'r cynigion a amlinellir yn 'A Vision for the Welsh High Street' a chyhoeddi ymateb yn rhoi manylion ynghylch sut y bydd yn ymgorffori'r cynigion hyn yn ei hadolygiad adfywio parhaus.

4. Calls on the Welsh Government to explore the proposals outlined in 'A Vision for the Welsh High Street' and to publish a response detailing how they will incorporate these proposals into their on-going regeneration review.

Suzy Davies: I move the motion.

Suzy Davies: Cynigiau y cynnig.

I wish to say what a pleasure it is to open this debate, and I thank everyone in advance for their contributions this afternoon. Like all Assembly Members, and particularly regional Assembly Members, I get the opportunity to speak to people in quite a number of towns that are centres of activity for different communities. I think it is fair to say that, everywhere I go, someone will start to talk about how their town has changed. Most of the time, we will not even be talking about high street regeneration; it will come from a conversation about parking, bus services, the accessibility of the library or facilities for young people. I imagine that that experience is shared by everyone in this Chamber, representing all parts of Wales. Therefore, I am disappointed that amendments 2 and 3 have been tabled today. A summary dismissal of our paper, 'A Vision for the Welsh High Street', misses the point that the Welsh Conservatives are trying to get across with today's debate.

Yes, we do call on Ministers to read our document and to consider whether its contents are valuable to them in their review. We ask for our ideas to be considered alongside the consultation paper and the Enterprise and Business Committee's report. People in every constituency are concerned about their high streets and this is a matter on which they will be keen to see us working together and adopting the cleverest ideas, whatever their source.

The Welsh Conservatives want to see a bustling high street with thriving local businesses and positive community engagement. To achieve this, we need effective management, strategy and direction for those high streets. High streets boost the local economy but, if well managed, they contribute to community cohesion and civic pride as well. I suspect that we probably agree on some of the challenges facing high streets, such as the rise of internet shopping and the development of out-of-town shopping centres, and that we are equally worried that Wales's average shop vacancy rate has risen and continues to be above the UK average.

'A Vision for the Welsh High Street' is a

Hoffwn ddweud cymaint o bleser yw cael agor y ddadl hon, a diolchaf i bawb ymlaen llaw am eu cyfraniadau y prynhawn yma. Fel holl Aelodau'r Cynulliad, ac yn enwedig Aelodau Cynulliad rhanbarthol, caf gyfle i siarad â phobl mewn nifer o drefi sy'n ganolfannau gweithgaredd ar gyfer gwahanol gymunedau. Credaf ei bod yn deg dweud, ym mhob man yr wyf yn mynd, y bydd rhywun yn dechrau sôn am sut mae eu tref wedi newid. Gan amlaf, ni fyddwn hyd yn oed yn sôn am adfywio'r stryd fawr, bydd yn deillio o sgwrs am barcio, gwasanaethau bysiau, hygrychedd y llyfrgell neu gyfleusterau ar gyfer pobl ifanc. Rwy'n tybio bod pawb yn y Siambr hon, yn cynrychioli pob rhan o Gymru, wedi cael y profiad hwnnw. Felly, rwy'n siomedig bod gwelliannau 2 a 3 wedi'u cyflwyno heddiw. Mae diystyru ein papur, 'A Vision for the Welsh High Street, yn colli'r pwynt y mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn ceisio ei gyfleu gyda dadl heddiw.

Ydym, rydym yn galw ar Weinidogion i ddarllen ein dogfen ac ystyried a yw ei chynnwys yn werthfawr iddynt yn eu hadolygiad. Rydym yn gofyn am i'n syniadau gael eu hystyried ochr yn ochr â'r papur ymgynghori ac adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes. Mae pobl ym mhob etholaeth yn poeni am eu strydoedd mawr ac mae hwn yn fater lle y byddant yn awyddus i'n gweld yn gweithio gyda'n gilydd ac yn mabwysiadu'r syniadau gorau, pwy bynnag sy'n eu cynnig.

Mae'r Ceidwadwyr Cymreig am weld stryd fawr brysur gyda busnesau lleol yn ffynnu ac ymgysylltu cymunedol cadarnhaol. Er mwyn cyflawni hyn, mae angen rheolaeth effeithiol, strategaeth a chyfeiriad ar y strydoedd mawr hynny. Mae'r stryd fawr yn rhoi hwb i'r economi leol, ond, os caiff ei rheoli'n dda, mae'n cyfrannu at gydlynid cymunedol a balchder bro hefyd. Tybiaf ein bod yn cytuno siŵr o fod ar rai o'r heriau sy'n wynebu'r stryd fawr, megis y cynnydd mewn siopa ar y rhyngwrwd a datblygiad canolfannau siopa ar gyrion trefi, a'n bod hefyd yn poeni bod cyfradd siopau gwag yng Nghymru ar gyfartaledd wedi codi ac yn parhau i fod yn uwch na chyfartaledd y DU.

Dogfen bolisi gan y Ceidwadwyr Cymreig

policy document launched by the Welsh Conservatives on 22 October that details policy proposals for revitalising our high streets. It outlines a strategic vision for high street regeneration, centred on community engagement and empowerment, practical proposals and ensuring fairness for business, setting modest targets to bring Wales in line with the rest of the UK. The document is the result of detailed research from a variety of sources and third-party meetings. It draws on ideas from the Mary Portas review and on high street analysis documents from Experian and the Welsh Retail Consortium. It draws on the Enterprise and Business Committee's own report into town-centre regeneration and looks at many of the consultation responses and evidence sessions related to that inquiry. We also spoke to a number of relevant stakeholders, high-street businesses and others, such as the Narberth Chamber of Trade, for example.

The policy document has been welcomed as a valuable contribution to the regeneration debate. The Federation of Small Businesses in Wales stated that it is pleased to see the Welsh Conservatives' high street policy considering a number of interlinking policy areas in which action is needed. The Narberth Chamber of Trade stated that this policy paper was welcome in the battle for the survival and future development of our high streets. The First Minister himself stated that he would examine the proposals with interest, and the Minister for Housing, Regeneration and Heritage called it a useful addition to the debate and said that it has much to recommend it. I thank him for that comment.

It is apparent that the policy document addresses key issues facing the Welsh high street and provides clear, common-sense and cost-effective solutions that must be considered as part of the ongoing regeneration debate. Although the Enterprise and Business Committee's report on town-centre regeneration provided a very valuable contribution to this debate, it appears that little has been achieved since its publication in January, as vacancy rates continue to increase and the Welsh high street continues to struggle. As I said, our policy document

yw 'A Vision for the Welsh High Street', a lanswyd ar 22 Hydref. Mae'n manylu ar gynigion polisi ar gyfer adfywio'r stryd fawr ein strydoedd mawr. Mae'n amlinellu gweledigaeth strategol i adfywio'r stryd fawr, sy'n canolbwyntio ar ymgysylltu â'r gymuned a'i grymuso, cynigion ymarferol a sicrhau tegwch i fusnesau, gosod targedau bach i sicrhau bod Cymru yn unol â gweddill y DU. Mae'r ddogfen hon yn ffrwyth ymchwil fanwl o amrywiaeth o ffynonellau a chyfarfodydd â thrydydd partiön. Mae'n cynnwys syniadau o adolygiad Mary Portas ac o ddogfennau dadansoddi'r stryd fawr gan Experian a Chonsortium Manwerthu Cymru. Mae'n defnyddio adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ei hun ar adfywio canol trefi ac yn edrych ar lawer o'r ymatebion i'r ymgynghoriad a'r sesiynau tystiolaeth a oedd yn ymwneud â'r ymchwiliad hwnnw. Siaradwyd hefyd â nifer o randdeiliaid perthnasol, busnesau ar y stryd fawr ac eraill, megis Siambr Fasnach Arberth, er enghraifft.

Mae'r ddogfen bolisi wedi cael ei chroesawu fel cyfraniad gwerthfawr i'r ddadl ar adfywio. Dywedodd Ffederasiwn y Busnesau Bach yng Nghymru ei fod yn falch o weld bod polisi'r Ceidwadwyr Cymreig ynglŷn â'r stryd fawr yn ystyried nifer o feysydd polisi cydgysylltiol lle mae angen gweithredu. Nododd Siambr Fasnach Arberth fod y papur polisi hwn i'w groesawu yn ystod y frwydr dros barhad a datblygiad ein strydoedd mawr yn y dyfodol. Dywedodd y Prif Weinidog ei hun y byddai'n ystyried y cynigion gyda diddordeb, a nododd y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth ei fod yn gyfraniad defnyddiol at y ddadl gan ddweud bod llawer i'w gymeradwyo ynddo. Diolch iddo am y sylw hwnnw.

Mae'n amlwg bod y ddogfen bolisi yn mynd i'r afael â materion allweddol sy'n wynebu'r stryd fawr yng Nghymru ac yn cynnig atebion clir, synhwyrol a chost-efeithiol y mae'n rhaid eu hystyried fel rhan o'r drafodaeth ar adfywio sy'n mynd rhagddi. Er bod adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar adfywio canol trefi yn gyfraniad gwerthfawr iawn at y ddadl hon, ymddengys mai ychydig sydd wedi'i gyflawni ers ei gyhoeddi ym mis Ionawr, wrth i gyfraddau siopau gwag barhau i gynyddu ac wrth i'r stryd fawr yng Nghymru barhau i wynebu

draws on some of the committee's proposals and looks to build on its suggestions. The Welsh Government's consultation document 'Vibrant and Viable Places', which was, incidentally, launched on the same day as our 'A Vision for the Welsh High Street', is clearly a valuable addition to the debate. However, the Minister will not announce proposals until February 2013 and, while it is a useful exercise, we need action on the Welsh high street now. The consultation document also does not outline any measurable targets. That is a deficit that will give no comfort at all to high-street shops facing closure. We are looking to achieve real change for our high streets, so positive action must not get lost in general rhetoric.

While we acknowledge that central Government has an important role in strategic direction, there is a clear emphasis in our report on local decision making, informed by those who use the high street. That means that the action on some strategy points can be completely different in one town from another. It happens, with mixed success, to a degree at the moment. In my region, for example, I can applaud Neath Port Talbot council for putting together a development plan in a way that discourages out-of-town development; I can wonder in amazement at Bridgend County Borough Council clinging onto and still pursuing pedestrianisation plans from late in the last century, and I can praise the City and County of Swansea council for embracing cafe culture, but criticise it for landing us with Wind Street. That is why this policy document is quite clear on what it wants from the strategic direction and helpfully splits that into four separate sections: high street management, business rates, access to the high street and planning.

With regard to high street management, we see that effective high street management is essential to regeneration and economic growth, yet management in Wales has faced a great deal of criticism, which has resulted in some of the issues that I have just mentioned

anawsterau. Fel y dywedais, mae ein dogfen bolisi yn cynnwys rhai o gynigion y pwyllgor ac yn anelu at adeiladu ar ei awgrymiadau. Mae dogfen ymgynghori Llywodraeth Cymru, 'Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid' a lanswyd ar yr un diwrnod â'n dogfen 'A Vision for the Welsh High Street' gyda llaw, yn amlwg yn gyfraniad gwerthfawr at y drafodaeth. Fodd bynnag, ni fydd y Gweinidog yn cyhoeddi'r cynigion tan fis Chwefror 2013 ac, er ei fod yn ymarfer defnyddiol, mae angen gweithredu ar y stryd fawr yng Nghymru yn awr. Nid yw'r ddogfen ymgynghori ychwaith yn amlinellu unrhyw dargedau mesuradwy. Mae hynny'n ddiffyg na fydd yn rhoi unrhyw gysur o gwbl i siopau ar y stryd fawr sy'n wynebu cael eu cau. Rydym yn anelu at gyflawni newid gwirioneddol ar y stryd fawr, felly ni ddylai camau cadarnhaol fynd ar goll yng nghanol y rhexreg.

Er ein bod yn cydnabod bod gan Lywodraeth ganolog rôl bwysig o ran cyfeiriad strategol, mae pwyslais clir yn ein hadroddiad ar broses gwneud penderfyniadau yn lleol, wedi'i llywio gan y rhai sy'n defnyddio'r stryd fawr. Mae hynny'n golygu y gall y camau gweithredu ynglŷn â rhai pwyntiau strategaeth fod yn gwbl wahanol o un dref i'r llall. Mae'n digwydd, i ryw raddau, gyda llwyddiant cymysg, ar hyn o bryd. Yn fy rhanbarth i, er enghraifft, gallaf gymeradwyo cyngor Castell-nedd Port Talbot am lunio cynllun datblygu mewn ffordd nad yw'n annog datblygiadau ar gyrion trefi; gallaf ryfeddu at Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr sy'n glynu at gynlluniau i greu manau i gerddwyr o ddiwedd y ganrif ddiwethaf, a gallaf ganmol Dinas a Sir Abertawe dros annog diwylliant caffi, ond ei feirniadu am y ffordd y mae wedi ymdrin â Wind Street. Dyna pam mae'r ddogfen bolisi hon yn eithaf clir o ran yr hyn y mae am i'r cyfeiriad strategol ei gyflawni ac er hwylustod mae'n rhannu hynny yn bedair adran ar wahân: rheoli'r stryd fawr, ardrethi busnes, mynediad i'r stryd fawr a chynllunio.

O ran rheoli'r stryd fawr, yn ein barn ni, mae rheoli'r stryd fawr yn effeithiol yn hanfodol i adfywio a thwf economaidd, ond eto mae rheolwyr yng Nghymru wedi wynebu cryn feirniadaeth, sydd wedi arwain at rai o'r materion yr wyf newydd eu crybwyll yn fy

in my region. Wales needs a consistent and long-term approach to regeneration, and we believe that our approach to high street management will help to provide this vision.

We hope to provide clear, overarching guidance, which we have developed through a charter for high streets, which outlines five key principles for high street regeneration. This charter promotes effective engagement with the wider community, supports greater accessibility, respects sustainability and aims to harness the potential of the internet for business and community development. That is about turning a threat into an opportunity.

To improve engagement and co-ordination, we are proposing that all local authorities have town-centre managers, and that an existing Minister or Deputy Minister in the Welsh Government should have named responsibility for the high street, providing a clear point of co-ordination, contact and accountability. As Boots UK stated in its committee consultation response:

‘if it is everyone’s responsibility in Cabinet, it can also become no-one’s responsibility.’

We have also proposed to develop a high-street night-time strategy to stimulate the night-time economy and improve the safety of our high streets.

With regard to business rates, I think that we can all agree that they are a huge burden on small and medium-sized enterprises. We maintain our 2011 manifesto pledge to abolish business rates for small businesses with a rateable value of up to £12,000 and provide tapered relief thereafter for businesses with a rateable value of up to £15,000. Small businesses need our support more than ever, and business rates relief enables businesses to expand and train staff.

We also wish to level the playing field with regard to how business rates are calculated, and this means addressing the issue of the multiplier in Wales. That policy has the potential to generate over £9 million a year. The Federation of Small Businesses stated

rhanbarth i. Mae angen ymagwedd gyson a hirdymor tuag at adfywio yng Nghymru, a chredwn y bydd ein hymagwedd tuag at reoli'r stryd fawr yn helpu i ddarparu'r weledigaeth hon.

Gobeithiwn roi arweiniad clir, cyffredinol, yr ydym wedi'i ddatblygu drwy siarter i'r stryd fawr, sy'n amlinellu pum egwyddor allweddol ar gyfer adfywio'r stryd fawr. Mae'r siarter hon yn hyrwyddo ymgysylltu effeithiol â'r gymuned ehangach, yn cefnogi mwy o hygyrchedd, yn parhau cynaliadwyedd ac yn anelu at harneisio potensial y rhyngwyd ar gyfer datblygu busnesau a datblygu cymunedol. Mae a wnelo hynny â throi bygythiad yn gyfle.

Er mwyn gwella prosesau ymgysylltu a chydgyssylltu, rydym yn cynnig y dylai pob awdurdod lleol benodi rheolwr canol trefi, ac y dylai Gweinidog neu Ddirprwy Weinidog yn Llywodraeth Cymru gael cyfrifoldeb penodol am y stryd fawr, gan gynnig pwynt cydgysylltu ac atebolrwydd clir. Fel y nododd Boots UK yn ei ymateb i ymgynghoriad y pwyllgor:

os yw'n gyfrifoldeb ar bawb yn y Cabinet, gall hefyd fynd yn gyfrifoldeb ar neb.

Rydym hefyd wedi cynnig datblygu strategaeth ar gyfer y stryd fawr gyda'r nos i ysgogi'r economi gyda'r nos a gwella diogelwch ein strydoedd mawr.

O ran ardrethi busnes, credaf y gallwn i gyd gytuno eu bod yn faich enfawr ar fusnesau bach a chanolig eu maint. Rydym am gadw at ein haddewid maniffesto yn 2011 i ddiddymu ardrethi busnes i fusnesau bach sydd â gwerth ardrethol o hyd at £12,000 ac wedyn roi rhyddhad sy'n graddol leihau i fusnesau sydd â gwerth ardrethol o hyd at £15,000. Mae angen ein cefnogaeth ar fusnesau bach yn fwy nag erioed, ac mae rhyddhad ardrethi busnes yn galluogi busnesau i ehangu a hyfforddi staff.

Rydym hefyd yn dymuno sicrhau mwy o degwch o ran sut y caiff ardrethi busnes eu cyfrifo, ac mae hyn yn golygu mynd i'r afael â mater y lluosydd yng Nghymru. Gallai'r polisi hwnnw gynhyrchu dros £9 miliwn y flwyddyn. Nododd y Ffederasiwn Busnesau

that it is an anomaly that Wales is the only part of the UK with a single multiplier for all businesses and the suggestion by the Welsh Conservatives to split that multiplier is a progressive alternative that merits further cross-party discussion.

With regard to accessibility, first and foremost there must be a recognition of the importance of transport to the success of the high street. Within this key principle, sustainable transport must be central, and ignoring the importance of accessibility is likely to undermine regeneration objectives in the long term.

The final section of the document examines planning, which is an integral part of high street regeneration as it determines the composition of high streets and affects the surrounding environment. Members will not be surprised to hear that I see the role of arts and culture as an important part of that environmental planning prospect. The Welsh Conservatives propose to promote a high-streets-first approach when it comes to out-of-town developments. It is difficult for local authorities to resist out-of-town proposals, but not impossible, as Neath Port Talbot council has shown, and so local authorities must proactively identify development sites on the high street through community engagement. Caerphilly County Borough Council already does this and must be one example of best practice that should be looked at throughout Wales.

4.00 p.m.

Bach fod anghysondeb yn y ffaith mai Cymru yw'r unig ran o'r DU gyda lluosydd sengl ar gyfer pob math o fusnes ac mae awgrym y Ceidwadwyr Cymreig i rannu'r lluosydd hwnnw yn ddull gweithredu amgen blaengar sy'n haeddu cael mwy o drafodaeth drawsbleidiol.

O ran hygyrchedd, yn gyntaf oll, rhaid cydnabod pwysigrwydd trafndiaeth i lwyddiant y stryd fawr. O fewn yr egwyddor allweddol hon, rhaid i drafndiaeth gynaliadwy fod yn ganolog, ac mae anwybyddu pwysigrwydd hygyrchedd yn debygol o danseilio amcanion adfywio yn yr hirdymor.

Mae adran olaf y ddogfen hon yn ystyried maes cynllunio, sy'n rhan annatod o adfywio'r stryd fawr gan ei fod yn pennu natur y stryd fawr ac yn effeithio ar yr amgylchedd. Ni fydd Aelodau'n synnu o glywed fy mod yn ystyried bod rôl y celfyddydau a diwylliant yn rhan bwysig o'r posibilrwydd cynllunio amgylcheddol hwnnw. Mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn bwriadu hyrwyddo dull gweithredu sy'n rhoi'r stryd fawr yn gyntaf o ran datblygiadau ar gyrion trefi. Mae'n anodd i awdurdodau lleol wrthsefyll cynigon ar gyfer datblygiadau ar gyrion trefi, ond nid yw'n amhosibl, fel y mae cyngor Castell-nedd Port Talbot wedi dangos, ac felly rhaid i awdurdodau lleol fynd ati'n rhagweithiol i nodi safleoedd datblygu ar y stryd fawr drwy ymgysylltu â'r gymuned. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili eisoes yn gwneud hyn a rhaid bod hynny'n enghraifft o arfer gorau a ddylai gael ei hystyried ar hyd a lled Cymru.

Finally, the Welsh Conservatives believe that it is vital that research on the impact of out-of-town developments on town centres, recommended by the committee, be commissioned as soon as possible. Local authorities must also address their specific high street planning needs in their local development plans and encourage a genuine high street mix. I think that Nick Ramsay is quite keen on the Pub is the Hub idea, and I am sure that many Members in the Chamber would be happy to support him on that. Therefore, I firmly believe that 'A Vision for the Welsh High Street' provides a comprehensive set of policy proposals that aim to regenerate the Welsh high street, and I strongly urge the Chamber to put aside party politics on this occasion and look at the proposals as a genuine contribution to the debate.'

Gwelliant 1—Aled Roberts

Ychwanegu pwynt 2 newydd ac ailrifo'r pwyntiau sy'n dilyn:

Yn gresynu nad yw TAN 4: Manwerthu a Chanol Trefi wedi'i ddiweddarau ers datganoli.

Gwelliant 3—Aled Roberts

Ym mhwynt 4, dileu 'A Vision for the Welsh High Street' a rhoi yn ei le 'adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes: Adfywio canol trefi, dyddiedig Ionawr 2012'

Gwelliant 4—Aled Roberts

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw am ragor o bwerau i gymunedau liniaru ar effaith canolfannau siopa ar gyrion trefi ar siopau lleol, adfywio canol trefi lleol, a gostwng ardrethi busnes ar gyfer cyfleusterau cymunedol mewn canol trefi er mwyn annog ail-leoli.

Gwelliant 5—Aled Roberts

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn olaf, mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn credu ei bod yn hollbwysig y dylai ymchwil i effaith datblygiadau ar gyrion trefi ar ganol trefi, a argymhellwyd gan y pwyllgor, gael ei chomisiynu cyn gynted ag y bo modd. Rhaid i awdurdodau lleol hefyd ymdrin â'u hanghenion penodol o ran cynllunio'r stryd fawr yn eu cynlluniau datblygu lleol ac annog cymysgedd gwirioneddol ar y stryd fawr. Credaf fod Nick Ramsay yn eithaf brwdfrydig am syniad the Pub is the Hub, ac rwy'n siŵr y byddai nifer o Aelodau yn y Siambr yn barod i'w gefnogi yn hynny o beth. Felly, credaf yn gryf fod 'A Vision for the Welsh High Street' yn rhoi cyfres gynhwysfawr o gynigion polisi sy'n anelu at adfywio'r stryd fawr ledled Cymru, ac apelïaf yn daer ar y Siambr i roi gwleidyddiaeth plaid o'r neilltu ar yr achlysur hwn ac edrych ar y cynigion fel cyfraniad gwirioneddol at y ddadl.

Amendment 1—Aled Roberts

Add as a new point 2 and re-number accordingly:

Regrets that TAN 4: Retailing and Town Centres has not been updated since the advent of devolution.

Amendment 3—Aled Roberts

In point 4, delete 'A Vision for the Welsh High Street' and replace with 'the Business and Enterprise Committee's report: Regeneration of town centres dated January 2012'

Amendment 4—Aled Roberts

Add as a new point at end of motion:

Calls for greater powers for communities to mitigate the impact of out-of-town retail centres on local shopping, regenerate local town centres and lower business rates for community facilities in town centres to encourage re-location.

Amendment 5—Aled Roberts

Add as a new point at end of motion:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddatblygu rhaglen i ledaenu arfer gorau ym maes adfywio canol trefi ledled Cymru.

Gwelliant 6—Aled Roberts

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gydag awdurdodau lleol i gynnig gostyngiadau mewn ardrethi busnes i denantiaid sydd naill ai'n newydd i'r ardal neu sy'n ehangu busnes presennol, ac sy'n cymryd les eiddo sydd wedi bod yn wag am o leiaf 12 mis, fel ffordd o ddenu busnesau newydd a busnesau sy'n ehangu i'r Stryd Fawr yng Nghymru er mwyn annog adfywio.

Eluned Parrott: I move amendments 1, 3, 4, 5 and 6 in the name of Aled Roberts.

I thank the Welsh Conservatives for bringing this important topic back to the Chamber this afternoon and also for the interesting and thoughtful document that they have laid. I welcome the input into this area, which I think is important, and I congratulate their research team on the work that it has put into it.

Suzy Davies has already highlighted the worrying vacancy rates of shops across Wales, and we would like to see the Welsh Government working on improving that, working with local councils and organisations such as local chambers of commerce to help to create a vibrant and attractive area in which businesses can prosper and grow and local people can shop and socialise. A high street is more than a collection of shops: it is a community. Our high streets and neighbourhoods play a key role in our society and have done for hundreds of years, but we have to recognise that those high streets are changing and evolving, as they have done over that time—as everything has to, if it is to survive. I do not believe that our high streets are in a state of irreversible decline, but I fear that if they are not given help, encouragement and, crucially, the option of changing and evolving, many will find themselves in serious difficulties going forward.

Calls on the Welsh government to develop a programme to spread best practice in town centre regeneration across Wales.

Amendment 6—Aled Roberts

Add as a new point at the end of motion;

Calls on the Welsh Government to work with local authorities to offer reductions in business rates to tenants who are either new to the area or are expanding an existing business and who are taking over the lease of a property that has been empty for at least 12 months as a means of encouraging new and expanding businesses to Welsh High Streets to encourage re-generation.

Eluned Parrott: Cynigiad welliannau 1, 3, 4, 5 a 6 yn enw Aled Roberts.

Hoffwn ddiolch i'r Ceidwadwyr Cymreig am godi'r pwnc pwysig unwaith eto yn y Siambr y prynhawn yma a hefyd am y ddogfen ddiddorol ac ystyriol y maent wedi'i gosod. Croesawaf y cyfraniad yn y maes hwn, sy'n un pwysig, yn fy marn i, a llongyfarchaf eu tîm ymchwil ar y gwaith a gyflawnodd.

Mae Suzy Davies eisoes wedi tynnu sylw at y cyfraddau siopau gwag ledled Cymru sy'n peri pryder, a hoffem weld Llywodraeth Cymru yn mynd ati i geisio gwella hynny, gan weithio gyda chynghorau lleol a sefydliadau megis siambrau masnach lleol er mwyn helpu i greu ardal fywiog a deniadol lle gall busnesau ffynnu a thyfu a lle gall pobl leol siopa a chymdeithasu. Mae stryd fawr yn fwy na chasgliad o siopau: mae'n gymuned. Mae'r stryd fawr a chymdogaethau yn chwarae rhan allweddol yn ein cymdeithas ac wedi gwneud hynny ers canrifoedd, ond rhaid inni gydnabod bod y stryd fawr yn newid ac yn datblygu, fel y mae wedi'i wneud dros y cyfnod hwnnw—fel mae'n rhaid i bopeth ei wneud, os yw am oroesi. Ni chredaf fod ein strydoedd mawr mewn cyflwr o ddirywiad na ellir ei droi'n ôl, ond ofnaf, os na chânt gymorth, anogaeth ac, yn anad dim, y dewis o newid a datblygu, bydd llawer yn mynd i drafferthion mawr yn y dyfodol.

This is where reports such as this one, along with the Welsh Government's paper, mentioned in its amendment 2, and the recent report on town centre regeneration from the Enterprise and Business Committee are helpful, because we need creativity, focus and leadership from the Welsh Government, local authorities and non-governmental organisations if our high streets are not only to survive but also to thrive in the future.

It is often commented on that there are two major threats to our high streets, one of which is out-of-town retail centres and the other, the internet. There is a tendency to vilify out-of-town retail centres in the debate about high streets, which is not necessarily a positive way forward. The truth is that out-of-town retail has a place in our society. If it did not, people would not choose to use it. However, we need to make sure that our high streets have an opportunity to compete on a level playing field with out-of-town developments. Issues such as parking and business rates come up time and again, in the context of local authorities pitching an offer to businesses to locate somewhere. I do not think that we have got the full measure of that at present.

It is also often mentioned that internet shopping is killing trade on some of our high streets in town centres, particularly for specialist shops. There may be an element of truth to that, but it is also true that the internet can be a real opportunity for small and medium-sized businesses, which do not have massive catchment areas for their customer base. Just a fortnight ago, the Royal Mail announced that it was creating 1,000 new jobs to help it with the growth of online shopping. There are things that this Government could do to help small and medium-sized businesses to take advantage of that area of growth, namely the internet, but before that can happen, we have to see the delivery of the high-speed internet projects that have been promised.

To survive and prosper, high streets and city centres both need strong leadership. There is a strong role for councils and other local organisations to play. Cowbridge, in my region, is doing this well and has done for a

Dyma lle mae adroddiadau fel hwn, ynghyd â phapur Llywodraeth Cymru, a grybwyllwyd yn ei gwelliant 2, a'r adroddiad diweddar ar adfywio canol trefi gan y Pwyllgor Menter a Busnes yn ddefnyddiol, oherwydd mae angen creadigrwydd, ffocws ac arweiniad gan Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a sefydliadau anllywodraethol er mwyn i'n strydoedd mawr nid yn unig oroesi, ond hefyd ffynnu yn y dyfodol.

Dywedir yn aml fod dau brif fygythiad i'n strydoedd mawr, sef canolfannau manwerthu ar gyrion trefi a'r rhyngwyd. Wrth drafod y stryd fawr mae tuedd i ddifrio canolfannau manwerthu ar gyrion trefi, ond nad yw hynny o reidrwydd yn ffordd gadarnhaol ymlaen. Y gwir yw bod lle i ganolfannau manwerthu ar gyrion trefi yn ein cymdeithas. Os nad oedd, ni fyddai pobl yn dewis eu defnyddio. Fodd bynnag, mae angen inni sicrhau bod ein strydoedd mawr yn cael cyfle i gystadlu'n deg â datblygiadau ar gyrion trefi. Mae problemau fel parcio ac ardrethi busnes yn codi dro ar ôl tro, yng nghyd-destun cynigion awdurdodau lleol i fusnesau leoli yn rhywle arall. Ni chredaf ein bod wedi mynd i'r afael â hynny ar hyn o bryd.

Sonnir yn aml hefyd fod siopa ar y rhyngwyd yn lladd masnach ar ambell i stryd fawr yng nghanol trefi, yn enwedig ar gyfer siopau arbenigol. Efallai fod hynny'n wir i ryw raddau, ond mae hefyd yn wir y gall y rhyngwyd fod yn gyfle gwirioneddol i fusnesau bach a chanolig eu maint, nad oes ganddynt ddalgylchoedd enfawr ar gyfer eu sylfaen cwsmeriaid. Dim ond pythefnos yn ôl, cyhoeddodd y Post Brenhinol ei fod yn creu 1,000 o swyddi newydd i helpu gyda thwf siopa ar-lein. Mae pethau y gallai'r Llywodraeth hon eu gwneud i helpu busnesau bach a chanolig eu maint i fanteisio ar y maes hwn o dwf, sef y rhyngwyd, ond cyn y gall hynny ddigwydd, rhaid inni weld y prosiectau rhyngwyd cyflym a addawyd yn cael eu gweithredu.

Er mwyn goroesi a ffynnu, mae angen i strydoedd mawr a chanol dinasoedd gael arweiniad cadarn. Mae rôl bwysig y gall cynghorau a sefydliadau lleol eraill ei chwarae. Mae'r Bont-faen, yn fy rhanbarth i,

number of years, by creating programmes of events to encourage local residents into that shopping area, as well as people from a wide catchment area. Those local businesses drive a lot of that activity themselves. They work together effectively to make sure that Cowbridge is seen as an attractive place to go shopping and to meet. However, local authorities can also have a role to play in driving those kinds of activities through support for things like business improvement districts, and through active town centre management.

Councils, too, can also take practical steps to help businesses. For example, when the massive St David's shopping centre redevelopment was being built in Cardiff, the council administration at the time slashed business rates for shops in the neighbouring areas, including the city's famous arcades, which are a hub for independent stores, to help them at a time when footfall might be damaged by the redevelopment works. It took action, and I think that there is a role there for local authorities. As I said, the Scottish Government is looking at other schemes that it also wants to carry out. I thank the Welsh Conservatives for bringing forward this debate today.

Gwelliant 2—Jane Hutt

Dileu pwynt 4, a rhoi yn ei le:

Yn nodi bod dogfen ymgynghori Llywodraeth Cymru, 'Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid', yn rhoi pwyslais cryf ar adfywio canol trefi; ac yn nodi ymhellach ymrwymiad Llywodraeth Cymru i archwilio holl opsiynau adfywio canol trefi gyda golwg ar gyhoeddi ei chynigion i gefnogi canol trefi yn dilyn yr ymgynghoriad hwnnw.

The Minister for Housing, Regeneration and Heritage (Huw Lewis): I move amendment 2 in the name of Jane Hutt.

Mohammad Asghar: For generations, our town centres have been the trading heart of our communities. They are at the core of healthy and prosperous local economies, the

yn gwneud hyn yn dda ac mae wedi gwneud ers nifer o flynyddoedd, drwy greu rhaglenni o ddigwyddiadau i annog trigolion lleol i'r ardal siopa honno yn ogystal â phobl o ddalgylch eang. Mae'r busnesau lleol hynny'n ysgogi llawer o'r gweithgaredd hwnnw eu hunain. Maent yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol i sicrhau bod y Bont-faen yn cael ei hystyried yn lle deniadol i fynd i siopa a chwrdd â phobl. Fodd bynnag, gall awdurdodau lleol hefyd chwarae rhan o ran ysgogi'r fath weithgareddau drwy gefnogi pethau fel ardaloedd gwella busnes, a thrwy reoli canol trefi yn weithredol.

Gall cynghorau, hefyd, gymryd camau ymarferol i helpu busnesau. Er enghraifft, pan oedd y gwaith mawr o ailddatblygu canolfan siopa Dewi Sant yn mynd rhagddo yng Nghaerdydd, gwnaeth gweinyddiaeth y cyngor ar y pryd ostwng dipyn ar ardrethi busnes ar gyfer siopau yn yr ardaloedd cyfagos, gan gynnwys arcedau enwog y ddinas, sy'n ganolbwynt i siopau annibynnol, i'w helpu ar adeg pan oedd y gwaith ailddatblygu yn effeithio ar nifer yr ymwelwyr o bosibl. Gweithredodd, a chredaf fod rôl yn hynny o beth i awdurdodau lleol. Fel y dywedais, mae Llywodraeth yr Alban yn ystyried cynlluniau eraill y mae hefyd yn awyddus i'w rhoi ar waith. Diolchaf i'r Ceidwadwyr Cymreig am gyflwyno'r ddadl hon heddiw.

Amendment 2—Jane Hutt

Delete point 4 and replace with:

Notes the Welsh Government's 'Vibrant & Viable Places' consultation document offers a strong focus on town centre regeneration; and further notes the Welsh Government's commitment to explore all options on town centre regeneration with a view to publishing its proposals for supporting town centres following that consultation.

Y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth (Huw Lewis): Cynigiau welliant 2 yn enw Jane Hutt.

Mohammad Asghar: Ers cenedlaethau, mae canol ein trefi wedi bod yn ganolbwynt masnach ein cymunedau. Maent wrth wraidd economïau lleol iach a ffyniannus, yn destun

source of civic pride, and the focal point of community life. However, today, our high streets are under threat. I was elected to represent one of the poorest regions in the United Kingdom. If you visit Newport, Risca, Abertillery, Pontypool, Tredegar or Merthyr Tydfil, you will see the dilapidation in those high streets. It is an eyesore and is really disheartening. How has this Government, in power for the past 12 years, not done anything to improve those town centres? How will it fare with these austerity measures? God help this Government.

David Rees: Will you take an intervention?

Mohammad Asghar: Not at the moment. I will take an intervention later on.

Changes to people's lifestyle have meant changes to the way in which they shop. The development of out-of-town retail in some cases has had a detrimental effect on town centres across Wales. Go on; I give way.

David Rees: Thank you for taking an intervention. You mentioned the austerity measures of the UK Government. Do you not agree with me that we need growth, not austerity, because austerity is failing and there is no plan for growth?

Mohammad Asghar: The Labour Party has been ruling this part of the world for the past 12 years. What was done when there was no austerity? No development was made then. How will it develop things now? That is why I said God help us.

Shoppers like the convenience and choice offered by out-of-town retailers with free parking. E-commerce is one of the fastest growing markets in Europe. According to the Centre for Retail Research, online sales in the United Kingdom represent 12% of UK retail trade. It forecasts that that figure will rise to over 13%. In cash terms, that comes to over £57 billion, so our high streets are under pressure. That is reflected in shop vacancy rates. According to a survey by a local data company, the shop vacancy rate in Wales

balchder dinesig, ac yn ganolbwynt bywyd y gymuned. Fodd bynnag, heddiw, mae'r stryd fawr o dan fygythiad. Cefais fy ethol i gynrychioli un o'r rhanbarthau tlotaf yn y Deyrnas Unedig. Os ydych yn ymweld â stryd fawr Casnewydd, Rhisga, Abertyleri, Pont-y-pŵl, Tredegar neu Ferthyr Tudful, fe welwch fannau difrodus yno. Mae'n hyll ac yn wirioneddol dorcalonnus. Pam nad yw'r Llywodraeth hon, sydd wedi bod mewn grym am y 12 mlynedd diwethaf, wedi gwneud unrhyw beth i wella canol y trefi hynny? Sut y bydd yn ymdopi â'r camau cynilo hyn? Duw a helpo'r Llywodraeth hon.

David Rees: A wnewch chi dderbyn ymyriad?

Mohammad Asghar: Ddim ar hyn o bryd. Derbyniaf ymyriad yn nes ymlaen.

Mae newidiadau i ffordd o fyw pobl wedi golygu newidiadau i'r ffordd y maent yn siopa. Mae datblygiadau manwerthu ar gyrion trefi mewn rhai achosion wedi cael effaith niweidiol ar ganol trefi ledled Cymru. Ewch amdani; ildiaf.

David Rees: Diolch am dderbyn ymyriad. Soniasoch am gamau cynilo Llywodraeth y DU. Oni chytunwch â mi mai twf sydd ei angen arnom, nid camau cynilo, oherwydd mae camau cynilo yn methu ac nid oes unrhyw gynllun ar gyfer twf?

Mohammad Asghar: Mae'r Blaid Lafur wedi bod yn llywodraethu ar y rhan hon o'r byd ers y 12 mlynedd diwethaf. Beth a wnaed pan nad oedd camau cynilo? Ni chafwyd unrhyw ddatblygu bryd hynny. Sut y bydd yn datblygu pethau nawr? Dyna pam y dywedais Duw a'n helpo.

Mae siopwyr yn hoffi'r cyfleustra a'r dewis a gynigir gan fanwerthwyr ar gyrion trefi gyda pharcio am ddim. E-fasnach yw un o'r marchnadoedd sy'n tyfu gyflymaf yn Ewrop. Yn ôl y Ganolfan Ymchwil i Fanwerthu, mae gwerthiannau ar-lein yn y Deyrnas Unedig yn cyfrif am 12% o fasnach fanwerthu'r DU. Mae'n rhagweld y bydd y ffigur hwnnw'n codi i fwy na 13%. Mewn termau ariannol, mae hynny'n golygu dros £57 biliwn, felly mae'r stryd fawr o dan bwysau. Caiff hynny ei adlewyrchu yn y cyfraddau siopau gwag.

increased to 18.5% in the first six months of this year compared with a year ago. Newport was ranked among the top 10 worst-performing medium-sized centres, with a vacancy rate of nearly 29%. A number of shops have left Newport city centre and relocated to other areas, such as Spytty park and beyond. The president of Newport County Chamber of Commerce said that there was a lack of confidence in what was happening in the city.

In January, the Enterprise and Business Committee published its report on the regeneration of town centres. It made 21 recommendations, the majority of which were accepted by the Welsh Government. It is clear, however, that little has been achieved since, and the need for urgent action to revitalise our high streets as centres for economic growth is vital. The document set out practical proposals to bring real changes to our high streets.

We need a clear management strategy for our town centres. The town centre managers would engage with community groups and local businesses through town teams to propose and develop strategies to make town centre shopping more convenient and attractive, particularly at night time. We need more parking facilities. High parking charges, traffic congestion and a lack of public transport all serve to deter consumers from shopping in town centres. We need to promote free parking schemes, convenient public transport and park-and-ride schemes that aim to make town centres pedestrian and cycle friendly, as well as accessible for people with disabilities and senior citizens. To be honest with you, there should also be more toilets in town centres, and more play corner areas for little children so that families can go and shop.

The planning system must be used to protect the high street by addressing its needs in local development plans. Plans should encourage a genuine mix of shops and offices in town centres, as well as housing to bring people

Yn ôl arolwg gan gwmni data lleol, cynyddodd y gyfradd siopau gwag yng Nghymru i 18.5% yn ystod y chwe mis cyntaf o'r flwyddyn hon o gymharu â blwyddyn yn ôl. Roedd Casnewydd ymhlith y 10 uchaf sy'n perfformio waethaf o ran canolfannau o faint canolig, gyda chyfradd siopau gwag o bron i 29%. Mae nifer o siopau wedi gadael canol dinas Casnewydd ac wedi adleoli mewn ardaloedd eraill, megis parc Spytty a thu hwnt. Dywedodd llywydd Siambr Fasnach Sir Casnewydd fod diffyg hyder o ran yr hyn a oedd yn digwydd yn y ddinas.

Ym mis Ionawr, cyhoeddodd y Pwyllgor Menter a Busnes ei adroddiad ar adfywio canol trefi. Gwnaeth 21 o argymhellion, y derbyniwyd y rhan fwyaf ohonynt gan Lywodraeth Cymru. Mae'n amlwg, fodd bynnag, mai ychydig sydd wedi'i gyflawni ers hynny, ac mae'r angen am gamau brys i adfywio ein strydoedd mawr fel canolfannau ar gyfer twf economaidd yn hollbwysig. Mae'r ddogfen yn nodi cynigion ymarferol i gyflwyno newidiadau gwirioneddol i'r stryd fawr.

Mae angen strategaeth reoli glir ar gyfer canol ein trefi. Byddai'r rheolwyr canol tref yn ymgysylltu â grwpiau cymunedol a busnesau lleol trwy dimau trefi i gynnig a datblygu strategaethau i wneud siopa yng nghanol y dref yn fwy cyfleus a deniadol, yn enwedig gyda'r nos. Mae angen inni gael mwy o gyfleusterau parcio. Mae taliadau parcio uchel, tagfeydd traffig a diffyg trafndiaeth gyhoeddus i gyd yn atal defnyddwyr rhag siopa yng nghanol trefi. Mae angen inni hyrwyddo cynlluniau parcio am ddim, trafndiaeth gyhoeddus gyfleus a chynlluniau parcio a theithio sy'n anelu at wneud canol trefi yn fannau hwylus i gerddwyr a beicwyr, yn ogystal â bod yn hygyrch i bobl ag anableddau a'r henoed. A dweud y gwir, dylai fod mwy o doiledau yng nghanol trefi hefyd, a mwy o ardaloedd chwarae i blant bach fel y gall teuluoedd fynd i siopa.

Rhaid i'r system gynllunio yn cael ei defnyddio i warchod y stryd fawr drwy ymdrin â'i hanghenion mewn cynlluniau datblygu lleol. Dylai cynlluniau annog cymysgedd gwirioneddol o siopau a

into these areas, particularly at night time.

swyddfeydd yng nghanol trefi, yn ogystal â thai i ddod â phobl i mewn i'r ardaloedd hyn, yn enwedig gyda'r nos.

We need to look again at business rates, which remain a significant barrier.

Mae angen inni edrych eto ar ardrethi busnes, sy'n dal yn rhwystr sylweddol.

The Presiding Officer: Order. Time is up.

Y Llywydd: Trefn. Mae'ch amser ar ben.

Mick Antoniw: I welcome this debate because we have to be talking about our town centres. Look at the way in which our town centres are changing, and the way in which retail and trade is changing, and has been for the last 30 years or so. The statistics—and they are a bit variable—basically indicate that around 23% of retail is now carried out online, and that is increasing, showing no sign of going down. Vacancies in our shopping centres across the UK are between 12% and 15%, the highest being around 18% in Northern Ireland. Footfall this year is down 5.5% and has been going down, by and large, each year for well over a decade.

Mick Antoniw: Croesawaf y ddadl hon oherwydd rhaid inni roi sylw i ganol ein trefi. Edrychwch ar y ffordd y mae canol ein trefi yn newid, a'r ffordd y mae manwerthu a masnach yn newid, ac maent wedi bod yn newid dros y 30 mlynedd diwethaf. Mae'r ystadegau—ac maent yn amrywio ychydig—yn dangos yn y bôn bod tua 23% o fanwerthu yn digwydd ar-lein erbyn hyn, ac mae hynny'n cynyddu, heb ddangos unrhyw arwydd o leihau. Mae rhwng 12% a 15% o siopau yn ein canolfannau siopa ledled y DU yn wag, gyda'r gyfradd uchaf, sef tua 18%, yng Ngogledd Iwerddon. Mae nifer yr ymwelwyr eleni wedi gostwng 5.5% ac mae wedi bod yn gostwng, fwy neu lai, bob blwyddyn ers dros ddegawd a mwy.

Where I disagree slightly with some of the sentiments expressed today is that I feel there is a little bit of, 'If only we could put our finger on the magic solution to recreate our town centres as they used to be, and if only we did one or two of the right things, suddenly they would come back'. I believe that those days are completely gone, and we have to look in a totally different way at our town centres. I also believe that there is no one-size-fits-all solution to our town centres now. It is necessary to look at each of them individually within their circumstances, at the potential options for what might sustain a town centre with a degree of activity, and at what type of activity. Some of it may be educational. We may need to look at the public sector and our educational institutions and at how they might engage more.

Lle yr anghytunaf i ryw raddau â rhai o'r sylwadau a wnaed heddiw yw fy mod yn teimlo bod elfen o, 'Pe baem ond yn gallu dod o hyd i'r ateb hudol i ail-greu canol ein trefi fel y buont, a phe baem ond yn gwneud un neu ddau o'r pethau cywir, yn sydyn byddent yn cael eu hailfywiogi'. Credaf fod y dyddiau hynny wedi hen fynd, a rhaid inni edrych ar ganol ein trefi mewn ffordd gwbl wahanol. Credaf hefyd nad oes un ateb sy'n addas i bawb o ran canol ein trefi erbyn hyn. Mae angen edrych ar bob un ohonynt yn unigol o fewn eu hamgylchiadau, ar yr opsiynau posibl ar gyfer yr hyn a allai gynnal canol tref gyda rhywfaint o weithgaredd, ac ar ba fath o weithgaredd. Efallai y bydd rhai gweithgareddau yn addysgol. Efallai y bydd angen inni edrych ar y sector cyhoeddus a'n sefydliadau addysgol a gweld sut y gallent chwarae mwy o ran.

Andrew R.T. Davies: I thank the Member for Pontypridd for giving way. I could not agree more that we cannot hang on to the traditional model of our high street, which is why this document looks at a night-time strategy and a diverse type of high street. That is not how we have historically thought

Andrew R.T. Davies: Diolch i'r Aelod dros Bontypridd am ildio. Cytunaf yn llwyr na allwn gadw model traddodiadol y stryd fawr, a dyna pam mae'r ddogfen hon yn edrych ar strategaeth gyda'r nos a stryd fawr amrywiol ei natur. Nid felly yr ydym wedi meddwl am ein stryd fawr yn hanesyddol, sef, fel rhywle

of our high street, namely as somewhere solely for shopping.

Mick Antoniw: I agree, and a lot of town centres have things that we can value. For example, the market in Pontypridd adds value, and other towns have unique features, and so it is a question of how to build on those that offer something unique or different. We have to look at a completely different environment. Cardiff bay is a good example. It is not a traditional town centre, but lots of people come down because there are things to do, it is a fun place to go to, and there is a bit of everything. It has cornered quite a unique identity.

A common feature of the debate—and I suspect that there is quite a lot of agreement between us—was the complaint about business rates. They are clearly an issue, and the need to create a level playing field between retail parks and small businesses is valid. I have to say that I also think that the days of the big retail parks and supermarkets are gone, as they are reaching a peak now. We virtually have a supermarket at the end of each road at the moment, and I cannot personally see how that can be sustainable. Just like the housing boom, which kept growing and growing and suddenly went bust and the market collapsed, I wonder whether the supermarket bubble is about to burst. You look around a lot of the supermarkets and see that many of them are now half empty, when previously they were bubbling away. They have perhaps been undermined to some extent by the smaller extra versions of their stores that they create.

4.15 p.m.

One common issue that has been around for decades with which we need to get to grips is parking. There is no doubt that town centres, in whatever form they regenerate, cannot compete with free parking in the big retail parks. Sooner or later, we will have to get to grips with this issue so that town centres can compete at the same level. Even if the charge is only £1 or £1.20, it is still a barrier to a significant number of people who know that

ar gyfer siopa yn unig.

Mick Antoniw: Cytunaf, ac mae sawl canol tref yn cynnig pethau y gallwn eu gwerthfawrogi. Er enghraifft, mae'r farchnad ym Mhontypridd yn ychwanegu gwerth, ac mae trefi eraill yn meddu ar nodweddion unigryw, ac felly mae'n fater o weld sut y gellir adeiladu ar y rhai sy'n cynnig rhywbeth unigryw neu wahanol. Rhaid inni edrych ar amgylchedd cwbl wahanol. Mae bae Caerdydd yn enghraifft dda. Nid canol tref traddodiadol ydyw, ond mae llawer o bobl yn dod yma oherwydd bod pethau i'w gwneud, mae'n lle llawn hwyl i fynd iddo, ac mae tipyn o bopeth yma. Mae wedi meithrin hunaniaeth eithaf unigryw.

Un o nodweddion cyffredin y ddadl—a thybiaf fod cryn dipyn o gytundeb rhyngom—oedd y gŵyn am ardrethi busnes. Maent yn amlwg yn broblem, ac mae'r angen i sicrhau tegwch rhwng parciau manwerthu a busnesau bach yn bwynt dilys. Rhaid imi ddweud fy mod hefyd yn meddwl bod oes y parciau manwerthu a'r archfarchnadoedd mawr ar ben, gan eu bod wedi cyrraedd eu hanterth erbyn hyn. Mae archfarchnad ar ddiwedd pob stryd bron, ac ni allaf weld fy hun sut y gall hynny fod yn gynaliadwy. Yn union fel ffyniant y farchnad dai, a oedd yn tyfu ac yn tyfu o hyd ac yn sydyn a aeth i'r wal a chwympodd y farchnad, tybed a yw'r swigen yr archfarchnadoedd ar fin torri. Os edrychwch o amgylch llawer o archfarchnadoedd fe welwch fod llawer ohonynt yn hanner gwag erbyn hyn, pan oeddent yn arfer bod yn brysur iawn. Mae'n bosibl eu bod wedi cael eu tanseilio i ryw raddau gan y fersiynau llai, ychwanegol o'u siopau y maent yn eu creu.

Un broblem gyffredin sydd wedi bod ers degawdau y mae angen inni fynd i'r afael â hi yw parcio. Nid oes amheuaeth na all canol trefi, ar ba ffurf bynnag y byddant yn adfywio, gystadlu â pharcio am ddim yn y parciau manwerthu mawr. Yn hwyr neu'n hwyrach, bydd yn rhaid inni fynd i'r afael â'r mater hwn fel y gall canol trefi gystadlu ar yr un lefel. Hyd yn oed os mai dim ond £1 neu £1.20 a godir, mae'n dal i fod yn rhwystr i

free and easy-access parking is available elsewhere.

Suzy Davies: Thank you for taking the intervention. Do you consider that the convenience element of the out-of-town parking areas is just as significant as the fact that they are free?

Mick Antoniw: I agree entirely with that. It is not just the fact that they are free, but also the convenience of being so close to the shops. In addition, there are issues around mobility, disabled access and so on. Therefore, a free car park some distance away from the town centre still might not be able to compete with a retail park where everything is right there and perhaps under cover as well. Those are all factors and must be evaluated on a case-by-case basis.

It is necessary for us to look at having unique, almost tailored plans for each of our town centres, working out how they work on an individual basis, because all the factors raised are valid. I value this debate and think that we need to facilitate and implement a plan that enables our councils, the Welsh Government and other bodies to engage in the reconstruction of town centres.

Janet Finch-Saunders: I welcome this debate today, which demonstrates the commitment on this side of the Chamber to offer positive and constructive policies designed to reinvigorate the nation's high streets. There can be no doubt that high streets in Wales, not least in north Wales, have suffered—and this has been reiterated here today—from a number of challenges over recent years. A change in habits, internet shopping and out-of-town developments have all contributed to a general decline of these vital community assets. The evidence suggests that, in the last decade, the amount of out-of-town retail floor space has risen by 30%, while town-centre floor space has fallen by 14%. Furthermore, although internet sales currently account for less than 10% of all retail sales, some estimates suggest that e-commerce accounted for nearly half of all retail sales growth in the UK between 2003 and 2010. The message is clear, therefore,

nifer sylweddol o bobl sy'n gwybod bod parcio am ddim a mynediad hawdd ar gael mewn mannau eraill.

Suzy Davies: Diolch am dderbyn yr ymyriad. A ydych o'r farn bod yr elfen o gyfleustra a gynigir gan feysydd parcio ar gyrion trefi yr un mor bwysig â'r ffaith eu bod yn rhad ac am ddim?

Mick Antoniw: Cytunaf yn llwyr â hynny. Nid yn unig maent yn rhad ac am ddim, ond maent hefyd yn gyfleus am eu bod mor agos at y siopau. At hynny, cyfyd materion o ran symudedd, mynediad i'r anabl ac yn y blaen. Felly, mae'n ddigon posibl o hyd na allai maes parcio am ddim gryn bellter o ganol y dref gystadlu â pharc manwerthu lle mae popeth wrth law a hefyd o bosibl dan do. Mae'r rheini i gyd yn ffactorau a rhaid eu gwerthuso ar sail unigol.

Mae angen inni ystyried cael cynlluniau unigryw, wedi'i deilwra bron ar gyfer pob canol trefn, gan ddod i ddeall sut maent yn gweithio ar sail unigol, gan fod yr holl ffactorau a godwyd yn ddilys. Rwy'n gwerthfawrogi'r ddadl hon ac o'r farn bod angen inni hwyluso a gweithredu cynllun sy'n galluogi ein cynghorau, Llywodraeth Cymru a chyrff eraill i gymryd rhan yn y gwaith o ailadeiladu canol trefi.

Janet Finch-Saunders: Croesawaf y ddadl hon heddiw, sy'n dangos yr ymrwymiad ar yr ochr hon i'r Siambr i gynnig polisiau cadarnhaol ac adeiladol a gynlluniwyd i adfywio strydoedd mawr ein gwlad. Nid oes amheuaeth nad yw'r stryd fawr yng Nghymru, ac yn sicr yn y gogledd, wedi dioddef—ac mae hyn wedi cael ei ailddatgan yma heddiw—oherwydd nifer o heriau dros y blynyddoedd diwethaf. Mae newid mewn arferion siopa ar y rhynggrwyd a datblygiadau ar gyrion trefi i gyd wedi cyfrannu at ddirywiad cyffredinol yn yr asedau cymunedol hanfodol hyn. Awgryma'r dystiolaeth, yn ystod y degawd diwethaf, fod cyfanswm arwynebedd llawr manwerthu ar gyrion trefi wedi cynyddu 30%, tra bod arwynebedd llawr canol y dref wedi gostwng 14%. Ar ben hynny, er bod gwerthu ar y rhynggrwyd yn cyfrif am lai na 10% o'r holl werthiannau manwerthu ar hyn o bryd, mae rhai amcangyfrifon yn awgrymu i e-fasnach

that something must be done to help get our high streets back on track.

Our paper 'A Vision for the Welsh High Street' outlines a strategic vision for high-street regeneration, which is centred on community engagement, practical purposes and ensuring fairness for businesses. Our proposals call for an overhaul of high-street management. This should include the creation of town-centre managers across all 22 local authorities. I am aware of a town-centre manager who works in Colwyn Bay and what that person does for that business community within that town is insurmountable; it is fantastic. We also propose that an existing Deputy Minister should have named responsibility for the high street. That would help to avoid the danger, as it presently stands, whereby if the high street is in everyone's responsibility in the Cabinet, it can also become no-one's responsibility.

Business rates remain a hefty burden on Wales's small and medium-sized businesses, upon whom the future of the Welsh economy depends. Our manifesto pledge to abolish rates for small businesses with a rateable value of up to £12,000, and provide tapered relief for those with a rateable value up to £15,000, remains a key plank of our vision for the reinvigoration of our high streets.

Planning policy can have a huge impact on the composition of the high street and local communities. Our proposals would safeguard that our planning policies are consistent with the protection and the promotion of our high streets. It would seek to do that by ensuring that local authorities proactively identify development sites on existing town-centre high streets. If that has been done in other places, it can be done here. We also propose that local authorities address high street planning needs in their local development plans and any other local planning guidance. Too often, the LDP becomes more about the housing and not enough about employment and business opportunities.

gyfrif am bron hanner yr holl dwf mewn gwerthiannau manwerthu yn y DU rhwng 2003 a 2010. Mae'r neges yn glir, felly, rhaid i rywbeth gael ei wneud i helpu i sicrhau bod y stryd fawr ar y trywydd iawn unwaith eto.

Mae ein papur 'A Vision for the Welsh High Street' yn amlinellu gweledigaeth strategol i adfywio'r stryd fawr, sy'n canolbwyntio ar ymgysylltu â'r gymuned, dibenion ymarferol a sicrhau tegwch i fusnesau. Mae ein cynigion yn galw am newid y ffordd y rheolir y stryd fawr. Dylai hyn gynnwys creu rheolwyr canol trefi ym mhob un o'r 22 awdurdod lleol. Rwy'n ymwybodol o reolwr canol tref sy'n gweithio ym Mae Colwyn ac mae'r hyn y mae'r unigolyn hwnnw yn ei wneud dros y gymuned fusnes o fewn y dref yn arbennig iawn; mae'n wych. Rydym hefyd yn cynnig y dylai un o'r Dirprwy Weinidogion presennol gael cyfrifoldeb penodol am y stryd fawr. Byddai hynny'n helpu i osgoi'r perygl, fel y saif ar hyn o bryd, os yw'r stryd fawr yn gyfrifoldeb ar bawb yn y Cabinet, y gall hefyd fod yn gyfrifoldeb ar neb.

Erys ardrethi busnes yn faich fawr ar fusnesau bach a chanolig eu maint, y mae dyfodol economi Cymru yn dibynnu arnynt. Erys ein haddewid maniffesto i ddiddymu'r ardrethi ar gyfer busnesau bach sydd â gwerth ardrethol o hyd at £12,000, a darparu rhyddhad sy'n graddol leihau i'r rhai sydd â gwerth ardrethol o hyd at £15,000, yn elfen allweddol o'n gweledigaeth i adfywio'r stryd fawr.

Gall polisi cynllunio gael effaith enfawr ar natur y stryd fawr a chymunedau lleol. Byddai ein cynigion yn sicrhau bod ein polisiau cynllunio yn gyson â diogelu a hyrwyddo'r stryd fawr. Byddai'n ceisio gwneud hynny drwy sicrhau bod awdurdodau lleol yn mynd ati i nodi safleoedd datblygu ar strydoedd mawr yng nghanol trefi sy'n bodoli eisoes. Os yw hynny wedi cael ei wneud mewn mannau eraill, gellir ei wneud yma. Rydym hefyd yn cynnig y dylai awdurdodau lleol ymdrin ag anghenion cynllunio'r stryd fawr yn eu cynlluniau datblygu lleol ac unrhyw ganllawiau cynllunio lleol eraill. Yn rhy aml, mae'r CDLI yn ymwneud â thai ar draul cyfleoedd cyflogaeth a busnes.

In conclusion, our high streets are vital for the prosperity of local economies and the vibrancy of community life. Some of our high streets and market towns, like Mostyn Street in Llandudno and Llanrwst town centre, are of enormous community benefit and are also a source of great civic pride. The challenge for the Chamber and especially the Welsh Government is to rise to the occasion and place our high streets' long-term future on a sustainable footing. This document is not a silver bullet, but it offers a solid set of policies specifically aimed at boosting our local communities. I commend it to the Assembly today in terms of us being a constructive opposition. All we ask from you is co-operation and recognition of the fact that our high streets need our support and the support of Welsh Government Ministers. Please support our motion today.

Alun Ffred Jones: Diolch am y cyfle i gyfrannu at y ddadl y prynhawn yma, er nad oes llawer o ddadl wedi digwydd gan fod pawb sydd wedi siarad yn cytuno ei bod yn bwysig bod ein strydoedd mawr yn ffynnu, ein bod yn gallu eu cynnal ar gyfer hyfywedd ein cymunedau lleol ac, fel y dywed pwynt cyntaf y cynnig, eu bod yn ganolfannau cymdeithasol. Mae hwnnw'n bwynt eithriadol o bwysig i'w gofio wrth inni gael y drafodaeth hon.

Er hynny, teimlaf inni fod yn trafod hyn ers rai misoedd. Cyfeiriodd Mick Antoniw at y ffigurau ar gyfer y siopau gwag sydd, erbyn hyn, yn nodweddu'r rhan fwyaf o'n trefi bach a chanolig eu maint a'r ffaith bod busnesau lleol yn ei ffeindio'n eithriadol o anodd i wneud elw. Credaf fod pwynt yn dod lle nad oes llawer o bwynt i ni drafod y mater ymhellach heb weld camau gwirioneddol yn cael eu cymryd i geisio ymateb i'r her.

Yn hynny o beth—ac rwy'n siŵr bod y Torïaid yn gwbl ddiwyll yn y ffordd y maent wedi cynnig y testun hwn heddiw—y gwir amdani yw, rai blynyddoedd yn ôl yn y Siambr, cefais gyfle i wneud cynnig ein bod yn sicrhau, o fewn y drefn gynllunio, fod unrhyw gais am archfarchnad newydd yn gorfod cael asesiad ardrawiad economaidd i geisio cydbwysu effaith bosibl hynny ar drefi.

I gloi, mae'r stryd fawr yn hanfodol i ffyniant economïau lleol a bywiogrwydd bywyd cymunedol. Mae rhai o'n strydoedd mawr a'n trefi marchnad, fel Stryd Mostyn yn Llandudno a chanol tref Llanrwst, o fudd enfawr i'r gymuned ac maent hefyd yn destun cryn falchder dinesig. Yr her i'r Siambr ac yn enwedig i Lywodraeth Cymru yw ymateb a gosod dyfodol y stryd fawr ar sail gynaliadwy yn yr hirdymor. Nid yw'r ddogfen hon yn cynnig yr ateb i bopeth, ond mae'n cynnig cyfres gadarn o bolisiau sydd wedi'u hanelu'n benodol at hybu ein cymunedau lleol. Fe'i cymeradwyaf i'r Cynulliad heddiw fel gwaith gwrthblaid adeiladol. Y cyfan a ofynnwn gennych yw cydweithrediad a chydnyddiaeth bod angen i'r stryd fawr gael ein cefnogaeth ni a chefnogaeth Gweinidogion Llywodraeth Cymru. Cefnogwch ein cynnig heddiw.

Alun Ffred Jones: Thank you for the opportunity to contribute to this afternoon's debate, although there has not been much debate, as everyone who has spoken has agreed that it is important that our high streets flourish, that we can sustain them for the viability of our local communities and, as noted in the first point of the motion, that they are centres of social activity. That is an extremely important point to remember in this debate.

However, I feel that we have been discussing this for months. Mick Antoniw referred to the numbers of empty shops that nowadays characterise most of our small and medium-sized towns and the fact that local businesses find it extremely difficult to make a profit. I believe that there comes a point where there is not much point in us discussing the issue further without seeing real steps being taken to try to deal with the challenge.

In that regard—and I am sure that the Tories have brought this issue up in good faith today—the truth is that, a few years ago in this Chamber, I was able to propose that we ensured, within the planning regime, that any application for a new supermarket had to include an economic impact assessment in order to balance the possible effect on towns.

Mae'r pwynt wedi'i wneud fwy nag unwaith y prynhawn yma mai'r ddau beth sydd wedi cael effaith fawr ar y stryd fawr yw archfarchnadoedd a chanolfannau siopa ar gyrion trefi a'r newidiadau mawr o ran siopa ar-lein. O ran y ddau beth hynny—ffeithiau erbyn hyn—gallech chi bron ddweud bod y ceffyl wedi mynd drwy ddrws y stabl ac nad oes llawer o bwynt cau'r drws rŵan. Ond, pan gafwyd cyfle i wneud hynny yn y Siambr, yn anffodus, nid oedd y Torïaid na'r Plaid Lafur yn gallu cefnogi'r cynnig. Wrth gwrs, ni fyddai hynny ynddo'i hun yn ddigon i achub y stryd fawr, ond mae'n enghraifft o'r math o beth y gallasem fod wedi'i wneud rai blynyddoedd yn ôl, petai ewyllys yn y Siambr i wneud hynny.

Andrew R.T. Davies: I thank the Plaid Cymru spokesperson for bringing this issue up. However, it is not just a planning issue in isolation. There are a range of tools that need to be put in place. I take issue with the point that this is not a debate. We can all agree on a point, but nothing seems to go forward from it. We need to put policies in place that will make a real difference on the ground. This document does that.

Alun Ffred Jones: Rwy'n cytuno'n llwyr â'r hyn a ddwedoch. Fel y dywedais innau, nid mater cynllunio mohono yn unig. Ond, os na wnewch chi rai pethau penodol, yna mae'n rhaid stopio siarad am y peth. Rwy'n cytuno'n llwyr bod nifer o agweddau yn bwydo mewn i'r drafodaeth hon ac maent wedi'u rhestru'r prynhawn yma.

Mae ardrethi busnes bellach yn broblem i fusnesau, nid yn unig oherwydd eu bod yn faich, ond oherwydd bod y ffordd y caiff ardrethi busnes eu mesur wedi mynd yn broblem ynddi'i hun. Mae dwy system, hyd y gwelaf, yn gweithredu. Mae un system yn ymwneud ag elw potensial busnes, a chaiff hynny ei gyfrif mewn rhai meysydd fel rhan o'r mesur, ond, mewn lleoedd eraill, arwynebedd y busnes a gaiff ei fesur yn unig a gwneir penderfyniad ar sail gwerth rhent. Ni allwch gael dwy system yn cydreded o fewn yr un gwasanaeth. Rhaid inni ailedrych ar holl fater ardrethi busnes. Fel y Torïaid, mae Plaid Cymru hefyd wedi dweud bod yn rhaid inni ehangu system rhyddhad ardrethi i fusnesau bach a chanolig eu maint. Mae

The point has been made more than once this afternoon that the two greatest influences on high streets have been supermarkets and out-of-town shopping centres and the huge changes in online shopping. On those two points—which are now facts—you could nearly say that the horse has bolted and that there is little point in closing the door at this stage. However, when the opportunity arose in the Chamber to do that, the Tories and the Labour Party were, unfortunately, unable to support the motion. Of course, that would not have been enough in itself to save the high street, but it is an example of the kind of thing that we could have done some years ago had the will existed within the Chamber.

Andrew R.T. Davies: Diolch i lefarydd Plaid Cymru am godi'r mater hwn. Fodd bynnag, nid mater cynllunio ydyw'n unig. Mae angen rhoi amrywiaeth o offer ar waith. Anghytunaf â'r pwynt nad yw hon yn ddadl. Gallwn i gyd gytuno ar bwynt, ond ymddengys nad oes dim yn deillio o hynny. Mae angen inni roi polisïau ar waith a fydd yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol ar lawr gwlad. Mae'r ddogfen hon yn gwneud hynny.

Alun Ffred Jones: I agree completely with what you say. As I said, it is not merely a planning issue. However, if you do not do take some specific action, you must stop talking about it. I completely agree that a number of elements feed into this debate, and they have been listed this afternoon.

Business rates are now a problem for businesses, not only because they are a burden but because the way that business rates are measured has become a problem in itself. As far as I can see, two systems are in operation. One system deals with the potential profits of businesses, and is counted in some areas as part of the measure, while in other areas, decisions are made on rateable values on the basis of business space. You cannot have two systems running side by side within the same service. We must look again at the whole issue of business rates. Like the Tories, Plaid Cymru has also said that we must extend business rate relief for SMEs. That is a practical step on which the Government has the power to act.

hynny'n rhywbeth ymarferol sydd o fewn gallu'r Llywodraeth.

Mae cyfeiriadau hefyd wedi'u gwneud at enghreifftiau o lwyddiannau yng Nghymru. Mae'n ymddangos i mi fel pe baent yn syrthio i ddau gategori. Gallwch gael datblygiad mawr fel Caerdydd, er enghraifft, ond i wneud hynny, mae'n rhaid ichi sugno pobl i mewn o dalgylch eang. Buaswn i'n tybio bod y datblygiadau yng Nghaerdydd wedi cael effaith negyddol ar amryw o ganolfannau eraill. Yr ail beth—

The Presiding Officer: Order. Your time is up. I call on Nick Ramsay.

Nick Ramsay: Thank you, Presiding Officer. Listening to the contributions so far, I am pleased to hear the positive way in which this policy document has been received by the Chamber. It also goes to show the general concern of us all, from all parts of Wales. We all have our own particular examples of where high streets have been successful, but also of where they are failing. No-one here would disagree that high streets have played a key role in communities the length and breadth of Wales for hundreds of years. It is also undeniable that many are in a state of decline. In recent times, we have discussed this at length in the Assembly. We have seen the Mary Portas review, the inquiry of the Assembly's Enterprise and Business Committee, and we now have this document before us.

In opening, Suzy Davies pointed out some of the key issues facing our high streets. She mentioned the rising shop vacancy rate and the problems with the enterprise birth rate—not only in high streets but, for the sake of this debate, it is focused on high streets—which, in Wales, has tended to be lower than the UK average over a long period of time. If you look at some of the statistics, they are quite shocking. The vacancy rate of 18.5% compares with the UK average of 14.6%. Meanwhile, in 2010, the UK business birth rate was 10.2%, but only 8.5% in Wales. Interestingly, the business survival rate in Wales, which is not always spoken about, is on a par with that of the UK. However, the rate in Northern Ireland is considerably

Reference has also been made to examples of success in Wales. It seems to me that they fall into two categories. You can have a large development, like Cardiff, for example, but in order to do that you must draw people in from a large catchment area. I would have thought that developments in Cardiff have had a negative effect on a number of other centres. Secondly—

Y Llywydd: Trefn. Mae eich amser ar ben. Galwaf ar Nick Ramsay.

Nick Ramsay: Diolch, Lywydd. Ar ôl gwranddo ar y cyfraniadau hyd yn hyn, rwy'n falch o glywed y ffordd gadarnhaol y mae'r Siambr wedi derbyn y ddogfen bolisi hon. Mae hefyd yn dangos y pryder cyffredinol sydd gan bob un ohonom, o bob rhan o Gymru. Mae gennym ni i gyd ein henghreifftiau penodol lle mae strydoedd mawr wedi bod yn llwyddiannus, ond hefyd lle maent yn methu. Ni fyddai neb yma yn anghytuno bod y stryd fawr wedi chwarae rhan allweddol mewn cymunedau ar hyd a lled Cymru ers canrifoedd. Nid oes modd gwadu ychwaith nad yw cyflwr llawer ohonynt yn dirywio. Yn ddiweddar, rydym wedi trafod hyn yn helaeth yn y Cynulliad. Rydym wedi gweld adolygiad Mary Portas, ymchwiliad Pwyllgor Menter a Busnes y Cynulliad, a bellach mae gennym y ddogfen hon ger ein bron.

Wrth agor y ddadl, amlinellodd Suzy Davies rai o'r materion allweddol sy'n wynebu ein strydoedd mawr. Soniodd am y gyfradd siopau gwag sy'n cynyddu, a'r problemau o ran cyfradd creu mentrau newydd—nid yn unig ar y stryd fawr, ond, at ddiben y ddadl hon, mae'n canolbwyntio ar y strydoedd mawr—sydd, yng Nghymru, wedi tueddu i fod yn is na chyfartaledd y DU ers amser. Os edrychwch ar rai o'r ystadegau, maent yn eithaf brawychus. Mae'r gyfradd siopau gwag o 18.5% yn cymharu â chyfartaledd y DU o 14.6%. Yn y cyfamser, yn 2010, roedd cyfradd creu busnesau o 10.2% yn y DU ond dim ond 8.5% yng Nghymru. Yn ddi-ddorol ddigon, mae'r busnes goroesi busnesau yng Nghymru, na sonnir amdani yn aml yn debyg

higher, yet Northern Ireland has faced many economic problems over the years, and it would be something for us to aspire to in Wales to get our business survival rate in the medium term up to the rate in Northern Ireland.

You cannot have this debate without considering the issue of business rates. It is well known that Welsh Conservatives have spoken repeatedly about the need to provide greater assistance for business. We have spoken about, ideally, taking smaller businesses out of business rates altogether. I know that different parties have different views on that, but I think that everyone agrees that there needs to be some kind of assistance at some point in the near future to help businesses through the difficulties they are facing.

As Eluned Parrott said, we need a more level playing field between out-of-town shopping centres and high streets. It is much easier to say that than do it in practice, but I think that all of us realise that something has to be done to create that more even playing field. If the issue of out-of-town shopping is not dealt with, you will end up with a situation that was first witnessed in the 1950s and 1960s in the United States, when car growth was on the increase, where there was a movement of businesses from the central hub of town and city centres to the suburbs because there was more space. You ended up with what was known in Los Angeles as the doughnut effect, where there was a gap in the middle and everyone was going to the areas around it. That does not mean that a city like that is not successful, but it does raise questions about what we want our towns and cities to look like. That is the problem that we are now wrestling with in the UK and in Wales, given that we have seen similar patterns here.

Mohammad Asghar mentioned the vacancy rate of Newport at 20%, while at the same time, in the suburbs of Newport there are significant retail parks and estates that seem to be doing pretty well. Is this reversible? Well, the Business and Enterprise Committee thought that it was. We made a number of recommendations to the Government, which,

i gyfradd y DU. Fodd bynnag, mae'r gyfradd yng Ngogledd Iwerddon yn sylweddol uwch, ac eto mae Gogledd Iwerddon wedi wynebu llawer o broblemau economaidd dros y blynyddoedd, a byddai'n rhywbeth inni anelu ato yng Nghymru pe bai ein cyfradd goroesi busnesau yn y tymor canolig yn gallu cyrraedd y gyfradd yng Ngogledd Iwerddon.

Ni allwch gael y ddadl hon heb ystyried ardrethi busnes. Mae'n hysbys ddigon bod y Ceidwadwyr Cymreig wedi sôn dro ar ôl tro am yr angen i roi mwy o gymorth i fusnesau. Rydym wedi sôn, yn ddelfrydol, am ddi-ddymu ardrethi busnes i fusnesau bach yn gyfan gwbl. Gwn fod gan bleidiau gwahanol safbwyntiau gwahanol ynglŷn â hynny, ond credaf fod pawb yn cytuno bod angen rhyw fath o gymorth rywbryd yn y dyfodol agos er mwyn helpu busnesau drwy'r anawsterau maent yn eu hwynebu.

Fel y dywedodd Eluned Parrott, mae angen mwy o degwch rhwng canolfannau siopa ar gyrion trefi a'r strydoedd mawr. Mae'n llawer haws dweud hynny na'i wneud mewn gwirionedd, ond credaf fod pob un ohonom yn sylweddoli bod yn rhaid i rywbeth gael ei wneud er mwyn sicrhau mwy o degwch. Os nad ymdrinnir â mater siopa ar gyrion trefi, fe welwn sefyllfa a welwyd yn gyntaf yn y 1950au a'r 1960au yn yr Unol Daleithiau, pan oedd nifer y ceir ar gynnydd, pan symudodd busnesau o ganol trefi a dinasoedd i'r maestrefi am fod mwy o le. Cafwyd yr hyn a elwir yn effaith 'doughnut' yn Los Angeles lle roedd bwll yn y canol ac roedd pawb yn mynd i'r ardaloedd o'i chwmpas. Nid yw hynny'n golygu nad yw dinas o'r fath yn llwyddiannus, ond mae'n codi cwestiynau am ba fath o drefi a dinasoedd yr ydym am eu gweld. Dyna'r broblem yr ydym bellach yn ymrafael â hwy yn y DU ac yng Nghymru, o gofio ein bod wedi gweld patrymau tebyg yma.

Soniodd Mohammad Asghar am y gyfradd siopau gwag yng Nghasnewydd, sef 20%, tra ar yr un pryd, ym maestrefi Casnewydd ceir parciau ac ystadau manwerthu sylweddol sy'n eithaf llewyrchus yn ôl pob golwg. A oes modd gwrthdroi hyn? Wel, roedd y Pwyllgor Busnes a Menter o'r farn bod modd gwneud hynny. Gwnaethom nifer o

I was pleased to see, were largely accepted. As Mick Antoniw said, we need to think differently. The solutions to town centres in Wales and problems there in the future will not be the same as the solutions in the past.

4.30 p.m.

When the Enterprise and Business Committee visited Narberth to look at how that area had been turned around, we did not see a conflict between internet shopping and physical shops, so that old conflict that we are talking about does not have to be the case. In fact, in Narberth, many shops managed to survive because internet shopping made up a large part of their retail activity. Many customers went to the shops, but it allowed the shops to continue so that, when tourists visit the area, they had a physical shop that they could go into. Therefore, those two things can go together.

Planning is key to this issue. I agree with what previous Members have said on that. I know that planning legislation will come through the Assembly, and I urge the Welsh Government to consider what planning can be done. In, I think, Torfaen, for a long time, there has been a move to try to make sure that supermarkets, where possible, are near town centres rather than out of town. Issues like that can be looked at in the future.

Joyce Watson: I try to avoid clichés like the plague, but the one that you hear every day is: wake up and smell the coffee. What does that mean? It means the same to the man or the woman in the street in Newport, whether that is Newport, Gwent or Newport, Pembrokeshire. They are asking us to help the high street to survive.

Last February, the Minister for Housing, Regeneration and Heritage launched the 'Vibrant and Viable Places' consultation. That document picked up on the work undertaken by the Enterprise and Business Committee, which published a report on town-centre regeneration in January.

argymhellion i'r Llywodraeth, a gafodd eu derbyn i raddau helaeth yr oeddwn yn falch o nodi. Fel y dywedodd Mick Antoniw, mae angen inni feddwl yn wahanol. Ni fydd yr atebion i ganol trefi yng Nghymru a'r problemau yno yn y dyfodol yr un fath â'r atebion yn y gorffennol.

Pan ymwelodd y Pwyllgor Menter a Busnes ag Arberth i edrych ar y ffordd yr oedd yr ardal honno wedi'i gwednewid, ni welsom wrthdaro rhwng siopa ar y rhyngwyd a siopau go iawn, felly ymddengys nad oedd yr hen wrthdaro hwnnw yr ydym yn sôn amdano wedi codi yn yr achos hwn. Yn wir, yn Arberth, roedd llawer o siopau yn llwyddo i oroesi am fod siopa ar y rhyngwyd yn gyfran fawr o'u gweithgarwch manwerthu. Byddai llawer o gwsmeriaid yn mynd i'r siopau, ond roedd yn galluogi siopau i barhau fel bod siopau go iawn i dwristiaid fynd i mewn iddynt pan fyddant yn ymweld â'r ardal. Felly, gall y ddau beth gyd-fodoli.

Mae cynllunio yn allweddol i'r mater hwn. Cytunaf â'r hyn a ddywedodd Aelodau blaenorol am hynny. Gwn y bydd ddeddfwriaeth cynllunio yn cael ei chyflwyno drwy'r Cynulliad, ac rwy'n annog Llywodraeth Cymru i ystyried yr hyn y gellir ei wneud ym maes cynllunio. Yn Nhor-faen, fe gredaf, ers amser hir, bu ymgais i geisio sicrhau bod archfarchnadoedd, lle y bo'n bosibl, yn agos at ganol trefi yn hytrach nag ar gyrion trefi. Bydd modd ystyried materion o'r fath yn y dyfodol.

Joyce Watson: Rwy'n ceisio osgoi ystrydebau fel y pla, ond un yr ydych yn ei glywed bob dydd yw: deffrowch ac aroglwch y coffi. Beth mae hynny'n ei olygu? Mae'n golygu yr un peth i'r dyn neu'r fenyw ar y stryd ym mhob rhan o Gymru. Maent yn gofyn inni helpu'r stryd fawr i oroesi.

Fis Chwefror diwethaf, lansiodd y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth ymgynghoriad o'r enw 'Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid'. Mae'r ddogfen honno yn gweithredu ar y gwaith a wnaed gan y Pwyllgor Menter a Busnes, a gyhoeddodd adroddiad ar adfywio canol trefi ym mis Ionawr.

What is killing the centre of Welsh towns? There are many things, and we have heard about many of these today. However, one factor is uncontrolled competition, which ends up closing stores, and closed stores, in turn, turn a high street into a rundown eyesore. I am sure that everyone here today could talk about empty shops and a rundown street in their area.

What has amazed me here today is that the Tories are asking for interventionist policies while, at the same time, adhering to the free market. I wonder how you manage to put those two things together. How can you want a proposal that suggests there should be intervention, but, at the same time, advocate free-market policies?

Andrew R.T. Davies: I am not sure what you believe is interventionist in this document; it is about co-ordinated policy and working with the private sector, as should be the case for any good partnership. If you can point out an interventionist policy, I would be most grateful.

Joyce Watson: If you want lessons, I am quite happy to give them. The point is that you are talking about intervening in a policy to give an advantage—and you have said this—to small shops over the free market.

Janet Finch-Saunders *rose*—

The Presiding Officer: Order. Will you take another intervention?

Joyce Watson: No.

I am not saying that I would not support that; all I am saying is that you cannot have your cake and eat it. You cannot pretend to be non-interventionist and then ask for intervention. However, if you want a good example of good practice, then I ask you all to look at Cardigan, where the old police station and court house have been taken over by a community co-operative that has 560 local shareholders. The Society to Sustain and Support the Rural Countryside, 4CG, can now extend that existing site to build a

Beth sy'n lladd canol trefi yng Nghymru? Mae llawer o bethau, ac rydym wedi clywed am lawer o'r rhain heddiw. Fodd bynnag, un ffactor yw cystadleuaeth heb ei rheoli, sy'n arwain at siopau yn cael eu cau ac mae siopau caeedig, yn eu tro, yn troi stryd fawr yn ardal mewn cyflwr llwm sy'n ddolur llygad. Gallai pawb sydd yma heddiw sôn am siopau gwag a stryd mewn cyflwr llwm yn eu hardal, mae'n siŵr gennyf.

Yr hyn sydd wedi fy synnu yma heddiw yw bod y Torïaid yn gofyn am bolisiau ymyraethol, ac ar yr un pryd, am gadw at y farchnad rydd. Tybed sut y gallwch gyfuno'r ddau beth hynny. Sut y gallwch chi gynnig cynnig sy'n awgrymu y dylai fod ymyrraeth, ond, ar yr un pryd, hyrwyddo polisiau'r farchnad rydd?

Andrew R.T. Davies: Nid wyf yn siŵr beth sy'n ymyraethol yn y ddogfen hon, yn eich barn chi; mae a wnelo â chydlynu polisi a gweithio gyda'r sector preifat, fel y dylai ddigwydd mewn unrhyw bartneriaeth dda. Os gallwch chi nodi polisi ymyraethol, byddwn yn ddiolchgar iawn.

Joyce Watson: Os ydych am gael gwers, rwy'n fwy na pharod i'w rhoi. Y pwynt yw eich bod yn sôn am ymyrryd mewn polisi i roi mantais—ac rydych wedi dweud hyn—i siopau bach ar draul y farchnad rydd.

Janet Finch-Saunders *a gododd*—

Y Llywydd: Trefn. A wnewch chi dderbyn ymyriad arall?

Joyce Watson: Na wnaif.

Nid wyf yn dweud na fyddwn yn cefnogi hynny; dweud yr wyf na allwch ei chael hi'r ddwy ffordd. Ni allwch esgus bod yn erbyn ymyrraeth ac yna ofyn am ymyrraeth. Fodd bynnag, os ydych am gael enghraifft dda o arfer da, yna gofynnaf ichi i gyd edrych ar Aberteifi, lle mae cwmni cydweithredol cymunedol sy'n cynnwys 560 o gyfranddalwyr lleol wedi dod yn gyfrifol am hen orsaf yr heddlu a'r llys. Gall Cymdeithas Cynnal a Cefnogi Cefn Gwlad, 4CG, bellach ymestyn y safle presennol i adeiladu siop

community shop to promote local goods. I would absolutely support such an interventionist policy, and that is what we need to regenerate our town centres, working in partnerships where community actions are fundamental. We need to work together in co-operation, not in competition. We do not want town centres that are homes only to charity shops and building societies; we need a variety of businesses in our town centres. We need pubs, restaurants and shops—

Janet Finch-Saunders *rose*—

The Presiding Officer: Order. Will you take another intervention?

Joyce Watson: I think that I have taken quite enough interventions, and I have given quite enough lessons; thank you.

It is not something that can be imposed from above. Viable places depend on vibrant communities, and vibrant communities depend on local jobs and feeling safe and secure where we live and work. If you want to talk about vibrant communities, you should have mentioned the kind of economy that you are imposing from above on the people who have no money to spend in those town centres. The Welsh Government recognises that, which is why there is a Minister in the Cabinet in this Welsh Government who is responsible for housing, regeneration and heritage. That is how things work in a democracy. I hope that we receive many submissions to the consultation document and I commend the work begun by this Welsh Government.

William Powell: Welsh high streets and town centres are key to the wider economic prosperity of towns and counties across this nation. Our town centres are struggling. We have heard of examples and we all know them ourselves, first hand. In recent years we have witnessed the closure of long-standing and well-established brands—shops such as Woolworths and Borders. In more recent times, Clintons, Game and many other known and trusted brands have gone into administration, and this has brought the situation to a head. Earlier this afternoon, my

gymunedol i hyrwyddo nwyddau lleol. Byddwn yn sicr yn rhoi cefnogaeth lwyr i bolisi ymyraethol o'r fath, a dyna'r hyn y mae angen inni ei wneud i adfywio canol ein trefi, gan weithio mewn partneriaethau lle mae gweithredu cymunedol yn hanfodol. Mae angen inni weithio gyda'n gilydd mewn cydweithrediad, nid mewn cystadleuaeth. Nid ydym am ganol trefi sydd ond yn cynnal siopau elusen a chymdeithasau adeiladu; mae angen amrywiaeth o fusnesau yng nghanol ein trefi. Mae angen tafarndai, bwytai a siopau—

Janet Finch-Saunders *a gododd*—

Y Llywydd: Trefn. A wnewch chi dderbyn ymyriad arall?

Joyce Watson: Credaf fy mod wedi derbyn hen ddigon o ymyriadau, ac wedi rhoi hen ddigon o wersi, diolch yn fawr.

Nid yw'n rhywbeth y gellir ei orfodi oddi fry. Mae lleoedd llewyrchus yn dibynnu ar gymunedau bywiog, ac mae cymunedau bywiog yn dibynnu ar swyddi lleol a theimlo'n ddiogel lle rydym yn byw ac yn gweithio. Os ydych am sôn am gymunedau bywiog, dylech fod wedi crybwyll y math o economi yr ydych yn ei gorfodi oddi fry ar y bobl sydd heb arian i'w wario yng nghanol y trefi. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod hynny, a dyna pam y mae Gweinidog yn y Cabinet yn y Llywodraeth hon yng Nghymru sy'n gyfrifol am adfywio tai a threftadaeth. Dyna sut mae pethau'n gweithio mewn democratiaeth. Gobeithiaf ein bod yn derbyn cyflwyniadau lawer i'r ddogfen ymgynghori a chymeradwyaf y gwaith a ddechreuwyd gan y Llywodraeth hon yng Nghymru.

William Powell: Mae strydoedd mawr a chanol trefi ledled Cymru yn allweddol i ffyniant economaidd ehangach trefi a siroedd drwy'r wlad gyfan. Mae canol trefi mewn trafferthion. Rydym wedi clywed am enghreifftiau, ac rydym i gyd yn gyfarwydd â hwy, o brofiad. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf rydym wedi gweld brandiau sefydledig—siopau fel Woolworths a Borders—yn cau. Yn fwy diweddar, mae Clintons, Game a llawer o frandiau adnabyddus eraill, y gellir ymddiried ynddynt, wedi mynd i ddwylo'r

colleague Eluned Parrott mentioned that town centres and high streets that are prospering and growing in these difficult times are doing so because they are backed up by strong leadership and the inculcating of civic pride. She cited the example of Cowbridge. In my own region, there have been some notable successes of town-centre regeneration. We look at Tenby, Narberth, Aberaeron and Llandiloes as good examples. There are also other areas where community regeneration is at an earlier phase or where real progress has been made. In that context, I think of Blaenau Ffestiniog and my own native town of Talgarth, where I look forward to the Minister's visit this coming Friday to see some examples of progress in action.

The blight of empty shops is, however, an issue that can cause real distress to a town centre or high street, both economically and aesthetically. Many councils and local chambers of commerce have started copying what large shopping centres, both in and out of town, do with empty shops, which is to cover windows and doors with vinyl and use that space to portray a positive and uplifting impression of what that town could look like in better times.

The UK Government has recently awarded Folkestone, Kent, a £10,000 starter grant to help deliver a project called 'Made in Folkestone'. This is an initiative that plans to use empty shops in the town to give small and start-up businesses the chance to trade. As well as being a creative use of unused space, it aims to give businesses the experience of seeing what it would be like to trade on the high street and what new customers they might attract. This is an initiative that could be replicated in Wales—funding permitting—in town centres and high streets across the country. Recently, a leading politician in Guernsey, Deputy Heidi Soulsby, has called for a new tax to be levied on the owners of vacant premises in her constituency. This is an interesting initiative; whether it is one that we should follow is open to question. Nevertheless, it may have a role to play.

gweinyddwyr, ac rydym wedi cyrraedd penllanw erbyn hyn. Yn gynharach y prynhawn yma, soniodd fy nghyd-Aelod Eluned Parrott fod canol trefi a strydoedd mawr sy'n ffynnu ac yn tyfu yn ystod y cyfnod anodd hwn yn gwneud hynny am eu bod yn cael cefnogaeth arweiniad cadarn a thrwy feithrin balchder dinesig. Soniodd am y Bont-faen. Yn fy rhanbarth i, cafwyd rhai llwyddiannau nodedig o ran adfywio canol tref. Mae Dinbych-y-Pysgod, Arberth, Aberaeron a Llandiloes yn enghreifftiau da. Ceir hefyd ardaloedd eraill lle mae adfywio cymunedol ar gam cynharach, neu lle mae cynnydd gwirioneddol wedi'i wneud. Yn y cyd-destun hwnnw, meddyliaf am Flaenau Ffestiniog a'm tref enedigol fy hun, sef Talgarth, ac edrychaf ymlaen at ymweliad y Gweinidog ddydd Gwener yma sy'n dod i weld rhai enghreifftiau o gynnydd ar waith.

Fodd bynnag, mae malltod y siopau gwag yn broblem a all achosi gofid gwirioneddol yng nghanol tref neu stryd fawr, yn economaidd ac yn esthetaidd. Mae llawer o gynghorau a siambrau masnach lleol wedi dechrau efelychu'r hyn y mae canolfannau siopa mawr, yn y dref neu ar y cyrion, yn ei wneud gyda siopau gwag, sef gorchuddio'r ffenestri a'r drysau â finyl a defnyddio'r gofod i bortreadu delwedd gadarnhaol a dyrchafol o'r hyn y gellid disgwyl ei weld mewn tref mewn cyfnod mwy ffyniannus.

Yn ddiweddar mae Llywodraeth y DU wedi dyfarnu grant cychwyn o £10,000 i Folkestone yn swydd Gaint i helpu i gyflawni prosiect o'r enw 'Made in Folkestone'. Mae hon yn fenter sy'n bwriadu defnyddio siopau gwag yn y dref i roi cyfle i fusnesau bach a newydd i fasnachu. Yn ogystal â bod yn ddefnydd creadigol o ofod nad yw'n cael ei ddefnyddio, ei nod yw rhoi profiad i fusnesau o sut beth fyddai masnachu ar y stryd fawr a pha gwsmeriaid newydd y gallent eu denu. Mae hon yn fenter a allai gael ei rhoi ar waith yng Nghymru hefyd—os oes cyllid ar gael—yng nghanol trefi ac ar strydoedd mawr ledled y wlad. Yn ddiweddar, mae gwleidydd blaenllaw yn Guernsey, y Dirprwy Heidi Soulsby, wedi galw am i dreth newydd gael ei chodi ar berchenogion eiddo gwag yn ei hetholaeth. Mae hon yn fenter ddiddorol; ni wn a yw'n un y dylem ei hefelychu ai peidio. Serch hynny, gallai chwarae rôl o bosibl.

Turning to the motion itself, we are in broad support, and we believe that it contains some commendable proposals. Moving to the amendments, amendment 1 concerns the almost historic document, issued way back in 1996, on planning guidance for retail and town centres. This document is still relevant, albeit somewhat out of date, and is still used by councils across Wales. However, it is in need of updating, to take account of recent trends in retail. Changes that have occurred over the past 18 years need to be acknowledged and accompanied by fresh advice. Amendment 2 concerns the bulk of the motion. It will come as no surprise that, in our group, we would prefer to remove the reference to a particular report commissioned by the Welsh Conservatives—

Andrew R.T. Davies: I am grateful to the Member for Mid and West Wales for taking an intervention. There are distinct differences between our paper and the Enterprise and Business Committee report—such as on references to a night-time strategy and town-centre managers. I could go on, as there are extensive differences. Your amendment will be diverting the real intention of this motion, which is about a document that has met wide acclaim across the Chamber.

William Powell: I thank the Member for that intervention. There are fresh aspects of merit in your group's proposals but, on balance, I feel that the strongest common ground—and that is the view expressed by my whole group—is that the Enterprise and Business Committee's report is the most valid basis for making progress. That committee is chaired by your colleague Nick Ramsay.

Amendment 3 is about levelling the playing field between out-of-town shopping centres and local high streets, limiting the negative economic impact that out-of-town retail parks can have. We have heard of several examples of this today.

The Presiding Officer: Order. Your time is up.

Gan droi at y cynnig ei hun, rydym yn ei gefnogi'n gyffredinol, a chredwn ei fod yn cynnwys rhai pethau clodwiw. Gan symud at y gwelliannau, mae gwelliant 1 yn ymwneud â'r ddogfen hanesyddol bron, a gyhoeddwyd ymhell yn ôl yn 1996, ar ganllawiau cynllunio ar gyfer manwerthu a chanol trefi. Mae'r ddogfen hon yn dal yn berthnasol, er braidd yn hen, ac yn cael ei defnyddio o hyd gan gynghorau ledled Cymru. Fodd bynnag, mae angen ei diweddarau, er mwyn ystyried tueddiadau diweddar ym maes manwerthu. Mae angen cydnabod newidiadau sydd wedi digwydd dros y 18 mlynedd diwethaf a rhoi cyngor newydd. Mae gwelliant 2 yn ymwneud â swmp a sylwedd y cynnig. Ni fydd yn syndod i neb y byddai'n well gennym, yn ein grŵp ni, ddileu'r cyfeiriad at adroddiad penodol a gomisiynwyd gan y Ceidwadwyr Cymreig—

Andrew R.T. Davies: Rwy'n ddiolchgar i'r Aelod dros Ganolbarth a Gorrlewin Cymru am dderbyn ymyriad. Mae gwahaniaethau amlwg rhwng ein papur ni ac adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes—megis y cyfeiriadau at strategaeth gyda'r nos a rheolwyr canol tref. Gallwn fynd ymlaen, gan fod gwahaniaethau helaeth. Bydd eich gwelliant yn gwyrddroi bwriad gwirioneddol y cynnig hwn, sy'n ymwneud â dogfen sydd wedi cael clod cyffredinol yn y Siambr.

William Powell: Diolch i'r Aelod am yr ymyriad hwnnw. Mae agweddau newydd o werth yng nghynigion eich grŵp, ond, ar y cyfan, teimlaf mai'r hyn sy'n cynnig y consensws mwyaf—a dyna'r farn a fynegwyd gan fy ngrŵp cyfan—yw adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes, sy'n cynnig y sylfaen mwyaf dilys ar gyfer gwneud cynnydd. Cadeirir y pwyllgor hwnnw gan eich cyd-Aelod Nick Ramsay.

Mae gwelliant 3 yn ymwneud â thegwch rhwng canolfannau siopa ar gyrion trefi a'r strydoedd mawr lleol, gan gyfyngu ar yr effaith economaidd negyddol y gall y parciau manwerthu ar gyrion trefi ei chael. Rydym wedi clywed am sawl enghraifft o hyn heddiw.

Y Llywydd: Trefn. Mae eich amser ar ben.

William Powell: I urge Members to support our amendment.

The Minister for Housing, Regeneration and Heritage (Huw Lewis): I thank the Welsh Conservatives for initiating this debate today and Members for their contributions. These are challenging times for our town and city centres, and it is important for us to collectively consider how we tackle the issues facing our high streets. This issue is of great concern to communities across the whole of Wales, and I agree with the Welsh Conservatives when they recognise

‘the important role of the Welsh high street as a centre for community engagement, boosting local economies and enhancing civic pride’.

I believe that our actions and policies as a Government have demonstrated our commitment to that very agenda. Town-centre regeneration is a priority for this Government, and I have said that from day one as Minister. In our seven regeneration areas, for instance, we have supported initiatives in town centres from Holyhead in the north to Barry in the south. My commitment to those areas has been firm, and we will see the job through.

For Mohammad Asghar to suggest, as he did during the debate, that nothing has been done must surely mean that he has never been to Holyhead, Rhyl, Aberystwyth, Swansea, Merthyr, Blaenau Ffestiniog, Amlwch, Aberdare, Ebbw Vale, Barry, Tredegar, Blaenavon, Neath or Pontypool. With European funding, we are supporting 24 town-centre regeneration projects with a total of around £270 million of investment. Perhaps we could set aside a small travel budget for the Welsh Conservatives to get out more, to see what is happening on the Welsh high street and to see the intervention that this Government is engaged with. [*Interruption.*] Intervene if you wish.

As this work evolves, I will be seeking ever-closer integration of housing and heritage

William Powell: Anogaf Aelodau i gefnogi ein gwelliant.

Y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth (Huw Lewis): Diolchaf i'r Ceidwadwyr Cymreig am gyflwyno'r ddatl hon heddiw ac i'r Aelodau am eu cyfraniadau. Mae amseroedd anodd yn wynebu canol ein trefi a'n dinasoedd, ac mae'n bwysig i ni ar y cyd ystyried sut rydym yn mynd i'r afael â'r problemau a wynebir gan ein strydoedd mawr. Mae'r mater hwn yn peri pryder mawr i gymunedau ledled Cymru, a chytunaf â'r Ceidwadwyr Cymreig pan fyddant yn cydnabod

‘yn nodi swyddogaeth bwysig y stryd fawr yng Nghymru fel canolfan ar gyfer ymgysylltu cymunedol, rhoi hwb i economïau lleol a gwella balchder bro’;

Credaf fod ein gweithredoedd a'n polisïau fel Llywodraeth wedi dangos ein hymrwymiad i'r union agenda honno. Mae adfywio canol trefi yn flaenoriaeth i'r Llywodraeth hon, ac rwyf wedi dweud hynny o'r diwrnod cyntaf fel Gweinidog. Yn ein saith ardal adfywio, er enghraifft, rydym wedi cefnogi mentrau yng nghanol trefi o Gaergybi yn y gogledd i'r Barri yn y de. Mae fy ymrwymiad i'r ardaloedd hynny wedi bod yn gadarn, a byddwn yn sicrhau ein bod yn cael y maen i'r wal.

I Mohammad Asghar awgrymu, fel y gwnaeth yn ystod y ddatl, nad oes dim wedi'i wneud, mae hynny'n sicr yn golygu nad yw erioed wedi bod i Gaergybi, y Rhyl, Aberystwyth, Abertawe, Merthyr, Blaenau Ffestiniog, Amlwch, Aberdâr, Glynebwy, Y Barri, Tredegar, Blaenafon, Castell-nedd na Pont-y-pŵl. Gydag arian Ewropeaidd, rydym yn cefnogi 24 o brosiectau adfywio canol tref gyda chyfanswm o tua £270 miliwn o fuddsoddiad. Efallai y gallem neilltuo cyllideb deithio fach i'r Ceidwadwyr Cymreig er mwyn iddynt gael mynd ar daith i weld beth sy'n digwydd ar y stryd fawr yng Nghymru a gweld ymyrraeth y Llywodraeth hon. [*Torri ar draws.*] Croeso ichi ymyrryd os dymunwch.

Wrth i'r gwaith hwn ddatblygu, byddaf yn ceisio sicrhau integreiddio agosach fyth

efforts alongside traditional physical regeneration. I will also work towards an all-Government response to the needs of given places, and the wholehearted buy-in of the local authority concerned will be a prerequisite of any further action.

Antoinette Sandbach: I am grateful to you for taking the intervention, Minister. What measurements do you have in place to confirm the outcomes of that European spending and regeneration that you have spoken about?

Huw Lewis: Again, if the Welsh Conservatives were up-to-speed with the consultation document circulating around Wales at the moment, ‘Vibrant and Viable Places’, they would know that a heavy concentration on the measurement of outcomes will also be a prerequisite of the new regeneration regime. It is not enough to produce a document, which may well be full of good intentions and good ideas—I do not detract from that at all—while supporting a Government at Westminster that, through pay restraint, VAT policies, tax credit and benefits cuts, impoverishes the very communities that support the high streets that we are talking about here this afternoon.

Turning to the motion, I am afraid that I am not prepared to support the original motion tabled by the Welsh Conservatives. Our consultation document, ‘Vibrant and Viable Places’, is the culmination of our efforts to review our regeneration practices. It has been a very thorough review, covering many strands of inquiry, and I look forward to hearing people’s views on it.

Over the past year, we have welcomed input from the Enterprise and Business Committee’s inquiry into town-centre regeneration, and I was very pleased to be able to respond positively to the committee’s report. I am keen to emphasise that many of the recommendations outlined in the report will be integral to our regeneration framework.

4.45 p.m.

Huw Lewis: In the same way, as I have said,

rhwng gwaith tai a threftadaeth ochr yn ochr ag adfywio ffisegol traddodiadol. Byddaf hefyd yn gweithio tuag at ymateb Llywodraeth gyfan i anghenion manau penodol, a bydd cefnogaeth lawn yr awdurdod lleol dan sylw yn rhagofyniad cyn cymryd unrhyw gamau pellach.

Antoinette Sandbach: Rwy’n ddiolchgar ichi am dderbyn yr ymyriad, Weinidog. Pa fesuriadau sydd gennych ar waith i gadarnhau canlyniadau’r gwariant Ewropeaidd hwnnw a’r gweithgarwch adfywio yr ydych wedi cyfeirio atynt?

Huw Lewis: Unwaith eto, pe bai’r Ceidwadwyr Cymreig wedi astudio’r ddogfen ymgynghori sy’n cael ei dosbarthu o amgylch Cymru ar hyn o bryd, ‘Lleoedd Llewyrchus a Llawm Addewid’, byddent yn gwybod y bydd cryn bwyslais ar fesur canlyniadau hefyd yn un o ragofynion y drefn adfywio newydd. Nid yw cynhyrchu dogfen, a allai fod yn llawn bwriadau da a syniadau da—nid wyf yn dilorni hynny o gwbl— yn ddigon tra’n cefnogi Llywodraeth yn San Steffan, sydd drwy gyfyngu ar gyflogau, polisïau TAW, toriadau mewn credyd treth a budd-daliadau, yn gwneud yr union gymunedau sy’n cefnogi’r strydoedd mawr yr ydym yn sôn amdanynt yma y prynhawn yma yn dlotach.

Gan droi at y cynnig, nid wyf yn barod i gefnogi’r cynnig gwreiddiol a gyflwynwyd gan y Ceidwadwyr Cymreig, mae arnaf ofn. Ffrwyth ein hymdrechion i adolygu ein harferion adfywio yw ein dogfen ymgynghori, ‘Lleoedd Llewyrchus Llawm Addewid’. Bu’n adolygiad trylwyr iawn, yn cwmpasu nifer o feysydd, ac edrychaf ymlaen at glywed barn pobl arni.

Dros y flwyddyn diwethaf, rydym wedi croesawu cyfraniad gan ymchwiliad y Pwyllgor Menter a Busnes i adfywio canol trefi, ac roeddwn yn falch iawn o allu ymateb yn gadarnhaol i adroddiad y pwyllgor. Rwy’n awyddus i bwysleisio y bydd llawer o’r argymhellion a amlinellwyd yn yr adroddiad yn rhan annatod o’n fframwaith adfywio.

Huw Lewis: Yn yr un modd, fel y dywedais,

we welcome the ideas outlined in the Welsh Conservatives' policy document. Some of these ideas have already been highlighted in the committee's report, but that underlines the fact there is a common understanding of the concerns and potential solutions. The consultation document highlights the new framework within which we will be supporting regeneration in future. Last week, in the Government's Plenary debate on regeneration, I highlighted to Members the key messages from our review of regeneration policy and I was pleased to note a degree of consensus across the Chamber.

Once the consultation comes to a conclusion, I will publish our proposals to support our town centres in more detail. The Government's amendment 2 reflects that very important position and I ask Members to support it. I oppose amendment 1, tabled by the Welsh Liberal Democrats. Our policies in 'Planning Policy Wales' and technical advice note 4 are as relevant and appropriate today as they were when introduced. Our policies seek to restrict out-of-town development and promote a sequential approach to site selection for new retail development.

I am happy to support amendments 4 and 5. We will of course consider the vital role our communities can play in regeneration and the tools they need as we develop and implement our framework. We already work closely with the Centre for Regeneration Excellence Wales to promote best practice. We have published a significant amount of useful material alongside our consultation document, and we are holding a national regeneration summit tomorrow in north Wales. I recommend that Mohammad Asghar buys a ticket because all Members are welcome at that very important event. I oppose amendment 6 as work is already under way on business rates, as the Minister for Business, Enterprise, Technology and Science reported in her statement on 23 October.

I would like to finish by reassuring Members that town and city centre regeneration is a commitment for this Welsh Government,

rydym yn croesawu'r syniadau a amlinellir yn nogfen bolisi'r Ceidwadwyr Cymreig. Mae rhai o'r syniadau hyn eisoes wedi cael eu hamlygu yn adroddiad y pwyllgor, ond mae hynny'n pwysleisio'r ffaith bod dealltwriaeth gyffredin o'r pryderon a'r atebion posibl. Mae'r ddogfen ymgynghori hefyd yn amlygu'r fframwaith newydd y byddwn yn cefnogi gweithgarwch adfywio oddi mewn iddo yn y dyfodol. Yr wythnos diwethaf, yn nadl y Llywodraeth ar adfywio yn y Cyfarfod Llawn, tynnais sylw'r Aelodau at y negeseuon allweddol o'n hadolygiad o bolisi adfywio ac roeddwn yn falch o nodi rhywfaint o gonsensws yn y Siambr.

Unwaith y daw'r ymgynghoriad i ben, byddaf yn cyhoeddi ein cynigion i gefnogi canol trefi yn fanylach. Mae gwelliant 2 y Llywodraeth yn adlewyrchu'r penderfyniad pwysig iawn hwnnw a gofynnaf i Aelodau ei gefnogi. Gwrthwynebaf welliant 1, a gyflwynwyd gan Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru. Mae ein polisiau yn 'Cynllunio Polisi Cymru' a nodyn cyngor technegol 4 yr un mor berthnasol a phriodol heddiw ag yr oeddent pan y'u cyflwynwyd. Mae ein polisiau yn ceisio cyfyngu ar ddatblygiadau ar gyrion trefi a hyrwyddo ffordd ddilyniannol o ddewis safle ar gyfer datblygiadau manwerthu newydd.

Rwy'n fodlon cefnogi gwelliannau 4 a 5. Byddwn wrth gwrs yn ystyried y rôl hanfodol y gall ein cymunedau ei chwarae ym maes adfywio a'r adnoddau sydd eu hangen arnynt wrth inni ddatblygu a gweithredu ein fframwaith. Rydym eisoes yn gweithio'n agos gyda Chanolfan Rhagoriaeth Adfywio Cymru i hyrwyddo arfer gorau. Rydym wedi cyhoeddi cryn dipyn o ddeunydd defnyddiol ochr yn ochr â'n dogfen ymgynghori, ac rydym yn cynnal uwchgynhadledd genedlaethol ar adfywio yfory yn y gogledd. Rwy'n argymhell bod Mohammad Asghar yn prynu tocyn gan fod croeso i bob Aelod fynd i'r digwyddiad pwysig iawn hwnnw. Gwrthwynebaf welliant 6 gan fod gwaith eisoes ar y gweill o ran ardrethi busnes, fel y nododd y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth yn ei datganiad ar 23 Hydref.

Hoffwn orffen gan roi sicrwydd i'r Aelodau bod adfywio canol trefi a dinasoedd yn ymrwymiad gan y Llywodraeth hon yng

now and in future. I encourage everyone to participate in the consultation and to contribute positively to creating vibrant and viable places.

Antoinette Sandbach: I wish to start by thanking Members from all parties who contributed in a constructive way to this debate. Suzy Davies opened the debate, setting the scene and raising the importance of having a bustling high street in each constituency in Wales. Eluned Parrott emphasised the issue of vacancy rates and highlighted the importance of leadership in councils, which is clearly a key issue. Mohammad Asghar pointed out the lack of action since the Welsh Government accepted the committee's recommendations in January 2012—a matter that the Minister sadly did not address in his response. Mick Antoniw highlighted the fact that footfall is down by 5.5%, recognising the role of the internet and the fact that no one-size-fits-all solution exists. He also raised the issue of business rates, which was a theme across the contributions to today's debate. It was also raised by Alun Ffred Jones, who agreed with the proposal to expand business rate relief.

Nick Ramsay pointed to the low business birth rate in Wales. Although the success of the businesses that are started up here equals the UK average, it would be a good thing if we had more. Joyce Watson needs to wake up and smell the coffee. [*Laughter.*] She cannot turn back the reality of the internet, and simply sticking your head in the sand and not looking at the impact of things such as the internet on town centres is simply not an option.

I enjoyed very much William Powell's contribution, which pointed out some of the imaginative steps being taken by other local councils. He highlighted the Made in Folkestone initiative, which is a really interesting idea, particularly if, as Suzy Davies suggested, we could also support arts and culture with such an initiative. Very sadly, the Minister failed to explain why he has taken no action to implement the committee's recommendations from January 2012. In fact, it is rather depressing to hear

Nghymru, yn awr ac yn y dyfodol. Rwy'n annog pawb i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad ac i gyfrannu'n gadarnhaol er mwyn creu lleoedd llewyrchus llawn addewid.

Antoinette Sandbach: Hoffwn ddechrau drwy ddiolch i Aelodau o bob plaid sydd wedi cyfrannu mewn ffordd adeiladol yn y ddadl hon. Agorodd Suzy Davies y ddadl, gan roi'r cyd-destun a nodi pwysigrwydd cael stryd fawr brysur ym mhob etholaeth yng Nghymru. Pwysleisiodd Eluned Parrott gyfraddau siopau gwag a thynnodd sylw at bwysigrwydd arweiniad mewn cynghorau, sydd yn amlwg yn fater allweddol. Nododd Mohammad Asghar y diffyg gweithredu ers i Lywodraeth Cymru dderbyn argymhellion y pwyllgor ym mis Ionawr 2012—mater nad yw'r Gweinidog yn anffodus yn mynd i'r afael ag ef yn ei ymateb. Tynnodd Mick Antoniw sylw at y ffaith bod nifer yr ymwelwyr wedi gostwng 5.5%, gan gydnabod rôl y rhyngwrwyd a'r ffaith nad oes unrhyw ateb sy'n addas ar gyfer pawb. Cododd fater ardrethi busnes hefyd, a oedd yn thema drwy gydol y cyfraniadau at y ddadl heddiw. Fe'i codwyd hefyd gan Alun Ffred Jones, a gytunodd â'r cynnig i ehangu rhyddhad ardrethi busnes.

Nododd Nick Ramsay y gyfradd creu busnesau newydd isel yng Nghymru. Er bod llwyddiant y busnesau sy'n cael eu sefydlu yma ar yr un lefel â chyfartaledd y DU, byddai'n beth da pe bai mwy ohonynt. Mae angen i Joyce Watson ddeffro ac aroglu'r coffi. [*Chwerthin.*] Ni all wrth-droi realiti y rhyngwrwyd, ac nid yw claddu'ch pen yn y tywod a pheidio ag edrych ar effaith pethau megis y rhyngwrwyd ar ganol trefi yn ddewis gennym.

Fe fwynheais gyfraniad William Powell yn fawr iawn, a nododd rai o'r camau creadigol sy'n cael eu cymryd gan gynghorau lleol eraill. Tynnodd sylw at fenter Made in Folkestone, sy'n syniad diddorol iawn, yn enwedig os galledd hefyd gefnogi'r celfyddydau a diwylliant, fel yr awgrymodd Suzy Davies, drwy fenter o'r fath. Gwaetha'r modd, methodd y Gweinidog ag esbonio pam nad yw wedi cymryd unrhyw gamau i weithredu argymhellion y pwyllgor a wnaed ym mis Ionawr 2012. Yn wir, mae'n eithaf

that, after 10 years of European funding, there is no method in place to measure the outcomes of that investment. That is something that has only been looked at in the recent papers.

As my colleagues have said, it is disappointing that amendment 2 seeks to replace the Welsh Conservatives' vision for the high street with the Government's 'Vibrant and Viable Places' consultation. They are simply not comparable. As admitted, there are no measurable targets. It will not report until February 2013. As the Centre for Regeneration Excellence Wales said, action is urgently required, and Wales cannot afford to wait.

The challenges facing our high streets are many, not least the internet, out-of-town shopping and the vacancy rate that sees one in five units unoccupied. We are not advocating a one-size-fits-all approach. What works in one town may not in another. However, we want to give our high streets a fighting chance of success. We believe that, through the proposals we have set out in this policy paper, and in particular by looking at things such as splitting the multiplier and making sure that high streets are properly managed, among other ideas, this can be achieved.

I hope that the Members who contributed in a positive way to this debate will continue to work on a cross-party basis to develop these policies and to secure the future of our high streets. We want to see vibrant, viable and bustling high streets. I would like to mention Denbigh in north Wales as an example of a really good high street that is vibrant, bustling and has a fantastic range of shops and services available; it is the type of model that other high streets should be looking that. I particularly wanted to say that, because Denbigh is hosting the Eisteddfod next year, so there will be an opportunity for all of you to come to have a look at Denbigh's vibrant and bustling high street.

Kenneth Skates *rose*—

Antoinette Sandbach: I have finished,

digalon clywed, ar ôl 10 mlynedd o gyllid Ewropeaidd, nad oes dull ar waith i fesur canlyniadau'r buddsoddiad hwnnw. Mae hynny'n rhywbeth sydd ond wedi cael ei ystyried yn y papurau diweddar.

Fel y dywedodd fy nghyd-Aelodau, mae'n siomedig bod gwelliant 2 yn ceisio disodli gweledigaeth y Ceidwadwyr Cymreig ar gyfer y stryd fawr gan ymgynghoriad 'Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid' y Llywodraeth. Nid oes modd eu cymharu. Fel y cyfaddefwyd, nid oes unrhyw dargedau mesuradwy. Ni fydd adroddiad tan fis Chwefror 2013. Fel y dywedodd Canolfan Rhagoriaeth Adfywio Cymru, mae angen gweithredu ar frys, ac ni all Cymru fforddio oedi.

Mae'r heriau sy'n wynebu ein strydoedd mawr yn niferus, yn enwedig y rhyngrywd, siopa ar gyrion trefi a'r gyfradd siopau gwag lle mae un o bob pump o unedau'n wag. Nid ydym yn dadlau bod un ateb sy'n addas ar gyfer pawb. Efallai na fydd rhywbeth sy'n llwyddo mewn un dref yn llwyddo mewn un arall. Fodd bynnag, rydym am roi cyfle teg i'n strydoedd mawr. Credwn, drwy'r cynigion yr ydym wedi'u hamlinellu yn y papur polisi hwn, ac yn arbennig drwy edrych ar bethau fel rhannu'r lluosydd a gwneud yn siŵr bod strydoedd mawr yn cael eu rheoli'n briodol, ymysg syniadau eraill, y gellir cyflawni hyn.

Gobeithiaf y bydd yr Aelodau a gyfrannodd mewn ffordd gadarnhaol i'r ddadl hon yn parhau i weithio ar sail drawsbleidiol i ddatblygu'r polisiâu hyn a sicrhau dyfodol ein strydoedd mawr. Rydym am weld strydoedd mawr bywiog, hyfyw a phrysur. Hoffwn sôn am Ddinbych yn y gogledd fel enghraifft o stryd fawr wirioneddol dda sy'n fywiog, yn brysur ac sy'n cynnig amrywiaeth wych o siopau a gwasanaethau; dyma'r math o fodel y dylai strydoedd mawr eraill ei ystyried. Roeddwn yn awyddus iawn i nodi hynny, gan fod Dinbych yn cynnal yr Eisteddfod y flwyddyn nesaf, felly bydd cyfle ichi i gyd ddod i gael golwg ar stryd fawr fywiog a phrysur Dinbych.

Kenneth Skates *a gododd*—

Antoinette Sandbach: Rwyf wedi gorffen,

Presiding Officer.

Lywydd.

The Presiding Officer: Timing is everything, Ken Skates. [*Laughter.*]

Y Llywydd: Amseru yw popeth, Ken Skates. [*Chwerthin.*]

The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? I see that there are objections. I will defer all voting on this item until voting time.

Y cynnig yw y dylid derbyn y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf fod. Gohiraf yr holl bleidleisiau ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.
Voting deferred until voting time.*

*Daeth y Dirprwy Lywydd i'r Gadair am 4.52 p.m.
The Deputy Presiding Officer took the Chair at 4.52 p.m.*

Dadl Plaid Cymru Plaid Cymru Debate

Tlodi Tanwydd Fuel Poverty

The Deputy Presiding Officer: I have selected amendments 1, 4, 5 and 6 in the name of Aled Roberts, amendments 2, 7 and 8 in the name of William Graham, and amendment 3 in the name of Jane Hutt. If amendment 1 is agreed, amendment 2 will be deselected.

Y Dirprwy Lywydd: Rwyf wedi dethol gwelliannau 1, 4, 5 a 6 yn enw Aled Roberts, gwelliannau 2, 7 ac 8 yn enw William Graham, a gwelliant 3 yn enw Jane Hutt. Os derbynnir gwelliant 1, caiff gwelliant 2 ei dddad-ddethol.

Cynnig NDM5091 Jocelyn Davies

Motion NDM5091 Jocelyn Davies

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn nodi'r cynnydd diweddar mewn prisiau ynni ac yn gresynu wrth yr effaith a gaiff hyn ar bob aelwyd yng Nghymru, yn enwedig y rheini sy'n dlawd o ran tanwydd;

1. Notes the recent rises in energy prices and regrets the impact that this will have on all households in Wales, especially the fuel poor;

2. Yn gresynu bod Llywodraeth y DU wedi methu â rheoleiddio'r farchnad ynni i ddiogelu'r rheini sy'n byw mewn tlodi tanwydd; a

2. Regrets that the UK Government has failed to regulate the energy market to protect those living in fuel poverty; and

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i lunio cynllun i uwchraddio sgoriau effeithlonrwydd ynni holl stoc tai Cymru, gan flaenoriaethu'r rheini sy'n dlawd o ran tanwydd.

3. Calls on the Welsh Government to establish a plan for upgrading the energy efficiency ratings of the entire Welsh housing stock, prioritising the fuel poor.

Yr Arglwydd Elis-Thomas: Cynigaf y

Lord Elis-Thomas: I move the motion.

cynnig.

Mae'n bleser gennyf agor dadl ar y pwnc eang hwn ar gynnig yn enw Jocelyn Davies ar ran Plaid Cymru. Mae'r cwestiwn hwn yn cyfeirio at brisiau ynni a pholisi ynni, at yr angen i reoleiddio'r farchnad yn effeithlon, effeithiau tlodi tanwydd ac, yn briodol iawn heddiw ar ôl y ddadl cyn yr un diwethaf, ar ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, at yr ymdrech, neu'r methiant, i gyrraedd safon ansawdd tai Cymru ymhlith y stoc gymdeithasol. Mae'r materion hynny i gyd yn cysylltu â'i gilydd. Mae'n addas ein bod yn dadlau'r pwnc hwn yn ehangach yn y ddadl hon y prynhawn yma.

Mae'r cwestiwn hwn yn gwestiwn o degwch a chyfiawnder cymdeithasol. Mae hefyd yn gwestiwn o gyfiawnder amgylcheddol rhwng cenedlaethau, fel yr ydym yn wynebu effeithiau cynhesu byd eang a'r angen i ddad-garboneiddio'r grid. Felly, mae'n cyplysu llawer iawn o faterion sydd nid yn unig o ddiddordeb personol i mi ac Aelodau'r meinciau hyn, ond i'r Cynulliad hwn yn gyffredinol. Mae nifer ohonynt yn faterion yr ydym wedi bod yn ymwneud â hwy mewn sawl pwyllgor. Yn sicr, mae'n debyg iawn y bydd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd yn troi at y materion hyn ymhellach yn nes ymlaen yn ein rhaglen waith.

Mae'n bwysig inni sylweddoli hefyd fod deinamig dinistriol yn y cwestiynau hyn, oherwydd rydym mewn sefyllfa lle mae'r farchnad ynni ryngwladol gyfalafol yn gallu newid sefyllfa dros nos a thanseilio ymdrechion bychan llywodraethau sy'n ceisio ymyryd o ran cyfiawnder cymdeithasol.

Mae'r amcangyfrifon a gynigiwyd yn y gorffennol ynglŷn â nifer yr aelwydydd yng Nghymru sydd yn dioddef o dlodi tanwydd bellach yn sicr yn anghywir. Roedd yr amcangyfrif yn yr arolwg 'Byw yng Nghymru' yn dangos bod rhyw 26% o aelwydydd yn dioddef o dlodi tanwydd. Fodd bynnag, mae'r glymblaid tlodi tanwydd sydd wedi bod yn cysylltu â ni i gyd fel Aelodau Cynulliad ar y materion hyn yn dweud bod

It is a pleasure to open this debate on a very wide-ranging subject on a motion in the name of Jocelyn Davies on behalf of the Party of Wales. This question refers to energy prices and energy policy, to the need to regulate the market efficiently, the impact of fuel poverty and, very appropriately today following the debate before the last one, on the Welsh Government's response to the Public Accounts Committee report, to the efforts, or the failure, to reach the Welsh housing quality standard in terms of social housing. All these issues are interrelated. It is appropriate that we should have a wider debate on this issue during this afternoon's debate.

This question is one of social justice and social equity. It is also a question of environmental justice between generations, as we face up to the impact of global warming and the need to decarbonise the grid. Therefore, it links together a number of issues that are of interest not only to me personally and to Members on these benches, but to this Assembly in general. Many of them are issues that we will have dealt with in a number of committees. It is certainly likely that the Environment and Sustainability Committee will turn to these issues in greater detail further on in our work programme.

It is important that we also realise that there is a destructive dynamic in these questions, because we are in a situation where the international capitalist energy market can change overnight and undermine the small efforts made by governments that are trying to intervene in terms of social justice.

The estimates put forward in the past on the number of households in Wales that are affected by fuel poverty are now certainly wrong. The estimate in the 'Living in Wales' survey demonstrated that some 26% of households were in fuel poverty. However, the fuel poverty coalition that has been contacting all of us as Assembly Members on these matters says that over 300,000 households are in fuel poverty. Therefore, the

dros 300,000 o aelwydydd mewn tloidi tanwydd. Felly, mae'r broblem yn un sylweddol.

Rwyf am ganolbwyntio, drwy ddilyn y ddadl flaenorol, ar y cwestiwn o ba fodd y gallwn ddelio â stoc dai Cymru yn fwy effeithlon i wynebu sefyllfa tloidi tanwydd. Rwyf yn credu bod yn rhaid i ni feddwl am gynllun llawer mwy cynhwysfawr, yn adeiladu ar lwyddiannau Arbed a Nyth, gydag uchelgais llawer yn fwy i geisio uwchraddio'r stoc dai yn gyffredinol. Mae'r rhai ohonom sydd wedi bod yn siarad yn gyhoeddus fel gwleidyddion ar faterion tai ers blyneddau mewn perygl o ailadrodd ein hunain ar y cwestiwn hwn, ond y gwir amdani yw bod ymdrechion cynlluniau fel HEES a Nyth, sydd wedi bod yn trin tai hŷn i'r grwpiau o bobl sydd yn gymwys fel rhan o'r strategaeth tloidi tanwydd, er rhagored ydynt, yn annigonol.

Mae'n bryd i ni, fel yr awgrymodd Aled Roberts yn y ddadl o'r blaen, gael uchelgais uwch a gweld y pictiwr mwy, gan geisio ymroi i ddelio â'r sefyllfa honno yn llawer ehangach. Mae'n wir fod Arbed wedi gweithio yn effeithlon gyda darparwyr tai cymdeithasol i uwchraddio'r rheini, ac y mae hynny wedi hybu cyflenwi lleol. Hefyd, mae prosiectau sydd wedi sicrhau, oherwydd eu graddfa, fod cyflogaeth wedi cael ei chreu. Symudwyd o gefnogi dros 7,000 o gartrefi yng nghanam 1 o Arbed tuag at darged is o 4,800 yng nghanam 2, ac er y bu cynnydd yn y gyllideb yn ddiweddar, nid oes arwydd bod y frwydr i ddelio â'n stoc dai yn mynd i fod yn llwyddiannus. Mae Cyfeillion y Ddaear a'r gronfa bywyd gwyllt byd-eang, y WWF, wedi dweud wrthym fod angen i ni wella 400,000 o dai yng Nghymru, sef traean o'r stoc bresennol, dros y 10 mlynedd nesaf os ydym i gael yr effeithiau angenrheidiol ar dorri allyriadau carbon. Os ydym am dorri'r rheini yn llwyddiannus, mae'n rhaid i ni gynyddu ein targedau.

Roedd ailddarllen heddiw'r hyn a ddywedwyd yn safon ansawdd tai Cymru yn 2002 yn dangos mor ddiffygiol rydym wedi bod yn cyrraedd ein hamcanion. Rydym yn cofio'r elfennau craidd, onid ydym? Y trydydd ohonynt, ar ôl sôn am yr angen i gartrefi fod mewn cyflwr da ac yn ddiogel, oedd y dylai cartrefi fod wedi eu gwresogi yn

problem is significant.

I want to concentrate, by following the earlier debate, on the question of how we can deal with the Welsh housing stock more efficiently to face up to the problems of fuel poverty. I believe that we must think of a far more comprehensive approach, building on the successes of Arbed and Nest, with far greater ambition in trying to upgrade the housing stock in general. Those of us who have been speaking publicly as politicians on housing issues over many years are at risk of repeating ourselves on this question, but the truth is that the efforts of schemes such as HEES and Nest, which have been retrofitting older homes for the groups of people who qualify as part of the fuel poverty strategy, despite their excellence, are inadequate.

It is time for us, as Aled Roberts suggested in the earlier debate, to have greater ambition and to see the bigger picture, and to commit to dealing with that situation in a far broader sense. It is true that Arbed has worked effectively with providers of social housing on upgrading those, and that has boosted local suppliers. Also, there are projects that have ensured, because of their scale, that employment has been created. There was a shift from supporting over 7,000 homes in phase 1 of Arbed to a lower target of 4,800 in phase 2, and although there has been an increase in the budget recently, there is no sign that the battle in getting to grips with the housing stock is going to be successful. Friends of the Earth and the world wildlife fund, the WWF, have told us that we need to improve 400,000 homes in Wales, which is a third of the current stock, over the next 10 years, if we are to have the necessary impacts in terms of cutting carbon emissions. If we are to make those cuts successfully, we must increase our targets.

Re-reading today what was said in the Welsh housing quality standard in 2002 has demonstrated how deficient we have been in reaching our aims. We remember those core elements, do we not? The third of them, having mentioned the need for homes to be in a good and safe condition, was that homes should be adequately heated, efficient in

ddigonol, yn effeithiol o ran tanwydd ac wedi eu hinswleiddio yn dda. Rwyf yn bersonol yn teimlo'n euog iawn, oherwydd rwy'n digwydd byw mewn bwthyn bychan gwledig sydd â chyflenwad nwy prif biben. Fodd bynnag, rwy'n eithriadol iawn—nid oes a wnelo hynny ddim byd gyda'm statws na dim byd felly; digwydd bod ar hen ffordd dyrpeg cyn Telford lle mae piben nwy yr ydym. Mae tlodi gwirioneddol yn codi i bobl nad ydynt ar rwydweithiau—rhwydwaith trydan o hyd i ambell un, ond yn sicr rhwydwaith nwy, sef y tanwydd pwysicaf i gadw cartrefi yn ddiddos.

Mae angen i ni symud, felly, at dargedau uwch gyda'r trydydd sector. Mae eisiau sicrhau y gallwn weithio am gyllid ychwanegol, ac mae'n ymddangos i mi y byddai buddsoddi i godi safon stoc dai Cymru i lefel ddiddos a chlyd yn un o'r ymgeision a fuasai'n addas iawn ar gyfer rhagor o fenthyg gan Lywodraeth Cymru ar ran y trydydd sector yng Nghymru at y dyfodol. Pe baem yn gosod targed o uwchraddio'r holl stoc dai dros dymor hir—bydd hwn yn *job 20* mlynedd efallai, os ydym am fynd ati o ddifrif, ond gadewch i ni feddwl am osod targed felly o'n blaen—gallai hynny ein symud tuag at sefyllfa lle y byddai'r stoc dai yn ddiogel i bobl, a hefyd fod datblygu sgiliau.

5.00 p.m.

Rydym wedi pwysleisio yn ein trafodaeth am y gyllideb ddoe yr angen i hyfforddi a datblygu sgiliau. Yr hyn sy'n arbennig am unrhyw raglen sydd am ddelio â chyflwr stoc dai a gwneud y tai hynny'n ddiddos yw bod y swyddi a grëir yn cael eu creu yn lleol. Mae inswleiddio'n gorfod digwydd yn y lleoedd sydd i'w hinswleiddio. Mae'n creu swyddi'n uniongyrchol mewn busnesau bach a chanolig eu maint, ac mae'r swyddi lleol a grëwyd o dan gyllun Arbed, er enghraifft, yn dangos yn glir iawn sut mae hyn yn gallu bod o fantais i ni.

Am yr holl resymau hynny felly, o ran cyfiawnder cymdeithasol, dad-garboneiddio, a delio â chwestiynau'r farchnad ynni, mae'r mater hwn yn un y bydd yn rhaid inni ddychwelyd ato yn aml yn y Cynulliad hwn cyn ein bod yn cael rhaglen a fydd yn ateb y gofynion o ran yr hyn sy'n effeithio ar gyflwr

terms of fuel and well insulated. I, personally, feel very guilty, because I happen to live in a small rural cottage that has a mains gas supply. However, I am very much the exception—it has nothing to do with my status or anything of that sort; it just happens to be that we live on an old pre-Telford turnpike road where there is a gas pipeline. There is real poverty for people who are off-network—even the electricity network in some cases, but certainly the gas network, which is the most important fuel in keeping homes warm and comfortable.

We need to move, therefore, to more ambitious targets along with the third sector. We need to ensure that we can work towards greater funding, and it would appear to me that investing in improving the Welsh housing stock to attain a warm and comfortable standard would be one of the ambitions that would be very appropriate for further borrowing by the Welsh Government on behalf of the third sector in Wales for the future. If we were to set a target of upgrading all the housing stock in the long term—this may be a 20-year job, if we are serious about this, but let us think of setting such a target for ourselves—that could move us towards a situation where the housing stock would be safe, and there would be skills development.

We have emphasised in our discussion on the budget yesterday the need to train and to develop skills. What is particular about any programme that aims to deal with the condition of housing stock and make it safe and warm is that the jobs that are created are created locally. Insulation has to happen at those sites where insulation is required. It directly creates jobs in small and medium-sized enterprises, and the local jobs created under the Arbed scheme, for example, demonstrate very clearly how this can be beneficial to us.

For all of those reasons, therefore, in terms of social justice, decarbonisation, and dealing with the issues of the energy market, this matter is one that we will have to regularly revisit in this Assembly before we have a programme that meets the demands in terms of what impacts on the condition of Welsh

tai pobl Cymru. Mae'n dda gennyf agor y ddadl. housing. I am pleased to open the debate.

Gwelliant 1—Aled Roberts

Amendment 1—Aled Roberts

Dileu pwynt 2 a rhoi yn ei le:

Delete point 2 and replace with:

Yn nodi Bargen Werdd Llywodraeth y DU a fydd:

Notes the UK Government's Green Deal that will:

a) yn sicrhau, o dan y Rhwymedigaeth Cwmnïau Ynni newydd, ei bod yn ofynnol i gwmnïau ynni ganolbwyntio eu cymorth ar y cartrefi tlotaf a mwyaf agored i niwed, yn ogystal â'r rheini mewn eiddo sy'n anodd eu trin sy'n methu â gwneud arbedion ariannol heb rywfaint o gymorth;

a) ensure energy companies will be required, under the new Energy Company Obligation (ECO), to focus their assistance on the poorest and most vulnerable households, as well as those in hard to treat properties which cannot achieve financial savings without a measure of support;

b) yn sicrhau y bydd llawer o bobl yn gallu ad-dalu costau cychwynnol gwaith inswleiddio eu cartrefi drwy gyfrwng biliau is o ganlyniad i welliannau i'w cartrefi; ac

b) ensure many people will be able to pay back the upfront costs of home insulation work through the lower bills that be achieved by home improvements; and

c) yn sicrhau bod cwmnïau ynni'n cyfathrebu â'u cwsmeriaid i wneud yn siŵr eu bod ar y tariff mwyaf addas yn unol â'u hanghenion;

c) ensure that energy companies communicate with customers to ensure that they are on the most appropriate tariff according to their needs;

Gwelliant 4—Aled Roberts

Amendment 4—Aled Roberts

Cynnwys fel pwynt 3 newydd ac ailrifo'r pwyntiau sy'n dilyn:

Insert as a new point 3 and renumber accordingly:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio ar y cyd â Bargen Werdd Llywodraeth y DU i wella effeithlonrwydd ynni cartrefi yng Nghymru.

Calls on the Welsh Government to work in conjunction with the UK Government's Green Deal to improve the energy efficiency of Welsh homes.

Gwelliant 5—Aled Roberts

Amendment 5—Aled Roberts

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Add a new point at end of motion:

Yn nodi mai'r cynnydd sylweddol ym mhri cyfanwerthu nwy sy'n bennaf cyfrifol am y codiadau diweddar mewn prisiau ynni, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i barhau i fynd ar drywydd dulliau amgen o gynhyrchu ynni adnewyddadwy er budd y cyhoedd yng Nghymru ac i ddiogelu ffynonellau ynni'r wlad.

Notes that the significant increase in the wholesale price of gas is largely responsible for the recent rises in energy prices, and calls on the Welsh Government to continue to pursue renewable energy generation alternatives for the benefit of the Welsh public and the nation's energy security.

Gwelliant 6—Aled Roberts

Amendment 6—Aled Roberts

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y

Add as a new point at the end of motion:

cynnig:

Yn gresynu'n arw fod nifer y cartrefi mewn tloedi tanwydd yng Nghymru wedi codi o 28% i 33.5% rhwng 2008 a 2011.

William Powell: I move amendments 1, 4, 5 and 6 in the name of Aled Roberts.

It is a great pleasure to take part in this important debate, and I am grateful to the Plaid Cymru group for bringing it forward. At this time of year, the seemingly ever-increasing cost of heating our homes is particularly apparent. It is vital that Governments both here and in Westminster act to protect consumers and to ensure that no-one has to choose between heating their home and putting food on the table. As Members will be aware, many Welsh homes still rely on natural gas for their heating. Our supplies of gas, as a fossil fuel, are ever diminishing and to fuel our energy needs we as a nation have been forced to rely on dwindling sources from overseas with an ever-increasing price tag.

Since 2005, we have seen the price of gas and electricity in the UK more than double. Given increasing global demand for what is a finite resource, there is little hope of this price change being reversed. In fact, there is no hope. To tackle this and the growing problem of fuel poverty we must address three inter-related issues: how our energy is generated, how it is supplied, and how it is conserved. Over the past few days, we have seen several serious allegations made about the actions of some suppliers. While it would be inappropriate for me to comment further, I am sure that other Members will join me in paying tribute to the Secretary of State for Energy and Climate Change, Ed Davey, for the swift action undertaken by him on this particularly alarming issue. I must also emphasise that we eagerly await the results of the investigation by the Financial Services Authority and the Office of Gas and Electricity Markets into these deeply worrying allegations.

While debates surrounding how we generate our energy have dominated proceedings here

Deeply regrets that between 2008 and 2011, the number of homes in fuel poverty in Wales rose from 28% to 33.5%.

William Powell: Cynigiau welliannau 1, 4, 5 a 6 yn enw Aled Roberts.

Mae'n bleser mawr cymryd rhan yn y ddadl bwysig hon, ac rwy'n ddiolchgar i grŵp Plaid Cymru am ei chyflwyno. Ar yr adeg hon o'r flwyddyn, mae cost gwresogi ein cartrefi, sy'n cynyddu'n barhaus yn ôl pob golwg, yn amlwg iawn. Mae'n hanfodol bod Llywodraethau, yma ac yn San Steffan, yn gweithredu i ddiogelu defnyddwyr a sicrhau nad oes neb yn gorfod dewis rhwng gwresogi eu cartref a rhoi bwyd ar y bwrdd. Fel y gŵyr yr Aelodau, mae llawer o gartrefi yng Nghymru yn dal i ddibynnu ar nwy naturiol i'w gwresogi. Mae ein cyflenwadau o nwy, fel tanwydd ffosil, yn lleihau o hyd ac er mwyn diwallu ein hanghenion ynni rydym ni fel gwlad wedi cael ein gorfodi i ddibynnu ar ffynonellau o dramor sy'n prinhaus ac sydd â thag pris bythol gynyddol.

Ers 2005, mae pris nwy a thrydan yn y DU wedi mwy na dyblu. O ystyried y galw bydeang cynyddol am yr hyn sy'n adnodd cyfyngedig, nid oes llawer o obaith y bydd y newid hwn mewn prisiau yn cael ei wrthdroi. Yn wir, nid oes gobaith. Er mwyn mynd i'r afael â hyn a phroblem gynyddol tloedi tanwydd rhaid inni ymdrin â thri phrif fater rhyng-gysylltiol: sut y caiff ein hynni ei gynhyrchu, sut y caiff ei gyflenwi, a sut y caiff ei arbed. Dros yr ychydig ddyddiau diwethaf, gwnaed nifer o honiadau difrifol am weithredoedd rhai cyflenwyr. Er y byddai'n amhriodol imi wneud sylwadau pellach, rwy'n sicr y bydd Aelodau eraill yn ymuno â mi i dalu teyrnged i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ynni a Newid yn yr Hinsawdd, Ed Davey, am weithredu'n ddi-oed ar y mater hwn sy'n achosi cryn bryder. Rhaid imi hefyd bwysleisio ein bod yn edrych ymlaen yn eiddgar at gael canlyniadau'r ymchwiliad gan yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol a'r Swyddfa Marchnadoedd Nwy a Thrydan i'r honiadau hyn sy'n achosi pryder mawr.

Er bod trafodaethau ynghylch sut yr ydym yn cynhyrchu ein hynni wedi cael lle blaenllaw

and at Westminster, it is in the area of energy conservation that each and every householder has the ability to make a difference. Moreover, this is an area in which both the Welsh and UK Governments are becoming increasingly active. It is for this reason that I call upon your support for amendments 1 and 4, which recognise the much-needed contribution of the UK's Green Deal and the potential that it has to work alongside the Welsh Government programmes, such as Nest and Arbed, both of which play an important role in improving the quality of our housing stock and reducing energy bills for families across the land.

The Green Deal will act to ensure that energy companies will be required, under the new energy company obligation, to focus their assistance on the poorest and most vulnerable households, as well as those in hard-to-treat properties that cannot achieve energy savings without a measure of financial support. Importantly, it will also ensure that families will be able to pay back the upfront costs of home insulation work through the lower bills that will be achieved by those very home improvements. This critical step guarantees that home improvements are not limited to those who can afford the initial investment, as we have sometimes seen in the past.

Finally, it confirms that energy companies have to communicate effectively with their customers, in plain language, to ensure that they are on the most appropriate tariff for their particular individual needs. We are all too familiar with horror stories about the complexity of the average energy bill, and the confusing way in which rival suppliers detail their various tariffs to customers. The Green Deal represents an important step forward so that UK households can once again take control of how they consume energy and, indeed, work to reduce their bills. By showing its support today, the Welsh Government can show that it is willing to rise above partisan divisions and work in a non-tribal way to deliver what is best for the people of Wales. I urge them to do so by supporting our amendments and the motion.

Gwelliant 2—William Graham

yn y trafodion yma ac yn San Steffan, ym maes arbed ynni y gall pob deiliad tŷ wneud gwahaniaeth. At hynny, mae hwn yn faes lle mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn dod yn fwyfwy gweithgar. Am y rheswm hwn y gofynnaf am eich cefnogaeth i welliannau 1 a 4, sy'n cydnabod cyfraniad mawr ei angen Bargaen Werdd y DU a'r potensial sydd ganddi i weithio ochr yn ochr â rhaglenni Llywodraeth Cymru, fel Nyth ac Arbed, y mae'r ddwy yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o wella ansawdd ein stoc dai a lleihau biliau ynni ar gyfer teuluoedd ledled Cymru.

Bydd y Fargaen Werdd yn sicrhau y bydd yn ofynnol i gwmnïau ynni, o dan y rhwymedigaeth cwmnïau ynni newydd, ganolbwyntio eu cymorth ar y cartrefi tlotaf a mwyaf agored i niwed, yn ogystal ag eiddo anodd ei drin na all sicrhau arbedion ynni heb gymorth ariannol. Yn bwysig ddigon, bydd hefyd yn sicrhau y gall teuluoedd ad-dalu costau cychwynnol gwaith insiwleiddio cartref trwy filiau is o ganlyniad i'r union welliannau hynny yn y cartref. Mae'r cam hollbwysig hwn yn sicrhau nad yw gwelliannau yn y cartref yn cael eu cyfyngu i'r rhai sy'n gallu fforddio'r buddsoddiad cychwynnol, fel yr ydym wedi gweld weithiau yn y gorffennol.

Yn olaf, mae'n cadarnhau bod yn rhaid i gwmnïau ynni gyfathrebu'n effeithiol â'u cwsmeriaid, mewn iaith syml, er mwyn sicrhau eu bod ar y tariff mwyaf priodol ar gyfer eu hanghenion unigol penodol. Rydym i gyd wedi clywed y straeon erchyll am gymhlethdod y bil ynni arferol, a'r ffordd ddryslyd y mae cyflenwyr sy'n cystadlu â'i gilydd yn cyflwyno manylion am eu tariffau amrywiol i gwsmeriaid. Mae'r Fargaen Werdd yn gam pwysig ymlaen fel y gall aelwydydd y DU unwaith eto reoli'r ffordd y maent yn defnyddio ynni ac, yn wir, fynd ati i leihau eu biliau. Drwy ddangos ei chefnogaeth heddiw, gall Llywodraeth Cymru ddangos ei bod yn fodlon diystyru rhaniadau pleidiol a gweithio mewn ffordd amhleidiol i gyflawni'r hyn sydd orau dros bobl Cymru. Rwy'n eu hannog i wneud hynny drwy gefnogi ein gwelliannau a'r cynnig.

Amendment 2—William Graham

Dileu pwynt 2 a rhoi yn ei le:

Yn croesawu cynlluniau Llywodraeth y DU i ddefnyddio'r Bil Ynni sydd yn yr arfaeth i ddeddfu ar dariffau isel ar gyfer pob cwsmer.

Gwelliant 7—William Graham

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu'r ffaith bod Llywodraeth y DU yn cyflwyno'r Rhwymedigaeth Cwmnïau Ynni i helpu'r rheini sydd fwyaf mewn angen ac ar gyfer eiddo sy'n anos eu trin, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod ei chynlluniau effeithlonrwydd ynni ei hun yn cyd-fynd â'r Rhwymedigaeth Cwmnïau Ynni yn hytrach na'i dyblygu'n ddiangen.

Gwelliant 8—William Graham

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn annog Llywodraeth Cymru i fanteisio i'r eithaf ar bolisi Bargen Werdd Llywodraeth y DU.

Mark Isherwood: I move amendments 2, 7 and 8 in the name of William Graham.

One in three Welsh households is living in fuel poverty and one in five is in severe fuel poverty, spending over 20% of their income on staying warm. Amendment 8

'urges the Welsh Government to maximise the benefits of the UK Government's Green Deal policy',

under which every British home and business will be able to install energy-saving packages worth up to £10,000, at no upfront cost, with repayments made over time and subject to the golden rule preventing anyone from taking out more than the measures will save over the lifetime of the deal. Building on its deal with major energy suppliers to provide information on how to move to the simplest tariff on every energy bill, the UK Government's energy Bill will place more obligations on energy companies to ensure

Delete point 2 and replace with:

Welcomes UK Government plans to use the forthcoming Energy Bill to legislate on low tariffs for all customers.

Amendment 7—William Graham

Add new point at end of motion:

Welcomes the UK Government's introduction of the Energy Company Obligation (ECO) to help those most in need and for properties that are harder to treat and calls on the Welsh Government to ensure that its own energy efficiency schemes complement rather than unnecessarily duplicate the ECO.

Amendment 8—William Graham

Add new point at end of motion:

Urges the Welsh Government to maximise the benefits of the UK Government's Green Deal policy.

Mark Isherwood: Cynigiau welliannau 2, 7 ac 8 yn enw William Graham.

Mae un o bob tri aelwyd yng Nghymru yn byw mewn tlodi tanwydd ac mae un o bob pump yn byw mewn tlodi tanwydd difrifol, gan wario dros 20% o'u hincwm ar gadw'n gynnes. Mae gwelliant 8

'*annog Llywodraeth Cymru i fanteisio i'r eithaf ar bolisi Bargen Werdd Llywodraeth y DU*',

lle y bydd pob cartref a busnes ym Mhrydain yn gallu gosod pecynnau arbed ynni gwerth hyd at £10,000, heb unrhyw gost ymlaen llaw, gydag ad-daliadau yn cael eu gwneud dros gyfnod o amser ac yn amodol ar y rheol aur sy'n atal unrhyw un rhag hawlio mwy na'r hyn y bydd y mesurau yn ei arbed dros oes y cytundeb. Gan adeiladu ar ei bargaen â chyflenwyr ynni mawr i ddarparu gwybodaeth ar sut i symud i'r tariff symlaf ar bob bil ynni, bydd Bil ynni Llywodraeth y DU yn gosod mwy o rwymedigaethau ar

that all customers get the lowest tariffs.

The UK Government has preserved winter fuel payments in line with the budget set by the former UK Labour Government. Labour had only temporarily increased winter fuel payments and, although they have now reverted to normal levels, the temporary increase in separate cold weather payments, also inherited from the previous UK Government, has been made permanent, with an extra £50 million a year invested in these one-off payments made during periods of extreme cold weather, benefitting millions of low-income pensioners and families. During the winter of 2010-11, 17.2 million individual cold weather payments, amounting to £430.8 million, were made.

At least half of the UK Government's home energy efficiency programme will be targeted at helping the poorest households under the energy company obligation. The UK Government has also introduced the warm homes discount, which will see the 600,000 most vulnerable pensioners automatically receive a £130 rebate a year, alongside help for a further 1.4 million households. Unlike the previous, voluntary scheme, the warm homes discount is mandatory, and provides two thirds more support than was previously available.

The UK Government has welcomed Ofgem's retail market proposals, published last month, and looks forward to seeing its full proposals. Ofgem found that many consumers struggle to understand tariffs, that many are put off by the sheer number and complexity of the deals on offer and that large numbers of customers do not trust their supplier. Ofgem is proposing a number of measures to make the energy market less confusing and easier to understand, including a limit on the number of tariffs each supplier can offer, requiring suppliers to tell you their cheapest deal, and requiring them to show a tariff comparison rate for all tariffs to allow customers to compare their deals with those of other suppliers. We welcome the UK Government's plans to use the forthcoming energy Bill to legislate on low tariffs for all

gwmnïau ynni i sicrhau bod pob cwsmer yn cael y tariffau isaf.

Mae Llywodraeth y DU wedi cadw taliadau tanwydd gaeaf yn unol â'r gyllideb a bennwyd gan Lywodraeth Lafur flaenorol y DU. Dim ond cynyddu taliadau tanwydd gaeaf dros dro a wnaeth Llafur, ac er eu bod wedi dychwelyd yn awr i lefelau arferol, mae'r cynnydd dros dro mewn taliadau tywydd oer ar wahân, a etifeddwyd oddi wrth Lywodraeth flaenorol y DU hefyd, wedi cael ei wneud yn barhaol, gyda £50 miliwn yn ychwanegol y flwyddyn yn cael ei fuddsoddi yn y taliadau untro hyn a wneir yn ystod cyfnodau o dywydd eithafol oer, sydd o fudd i filiynau o bensiynwyr a theuluoedd ar incwm isel. Yn ystod gaeaf 2010-11, gwnaed 17.2 miliwn o daliadau tywydd oer unigol gwerth £430,800,000.

Bydd o leiaf hanner rhaglen effeithlonrwydd ynni cartref Llywodraeth y DU yn cael ei thargedu at gynorthwyo'r teuluoedd tlotaf o dan y rhwymedigaeth cwmnïau ynni. Mae Llywodraeth y DU hefyd wedi cyflwyno disgownt cartrefi cynnes, a fydd yn golygu y bydd y 600,000 o bensiynwyr mwyaf agored i niwed yn cael £130 o ad-daliad y flwyddyn yn awtomatig, ochr yn ochr â chymorth i 1.4 miliwn o gartrefi eraill. Yn wahanol i'r cynllun gwirfoddol blaenorol, mae'r disgownt cartrefi cynnes yn orfodol, ac yn rhoi dwy ran o dair yn fwy o gymorth na chynt.

Mae Llywodraeth y DU wedi croesawu cynigion Ofgem ynglŷn â'r farchnad fanwerthu, a gyhoeddwyd y mis diwethaf, ac yn edrych ymlaen at weld ei chynigion llawn. Canfu Ofgem fod llawer o ddefnyddwyr yn ei chael hi'n anodd i ddeall tariffau, bod llawer yn diflasu o weld yr holl gynigion sydd ar gael a pha mor gymhleth ydynt ac nad yw nifer fawr o gwsmeriaid yn ymddiried yn eu cyflenwr. Mae Ofgem yn cynnig nifer o fesurau i sicrhau bod y farchnad ynni yn llai drslyd ac yn haws ei deall, gan gynnwys terfyn ar nifer y tariffau y gall pob cyflenwr ei gynnig, gan ei gwneud yn ofynnol i gyflenwyr eich hysbysu am eu cynnig rhataf, ac yn ei gwneud yn ofynnol iddynt ddangos cyfradd cymharu tariffau ar gyfer yr holl dariffau er mwyn galluogi cwsmeriaid i gymharu eu cynigion â chynigion cyflenwyr

customers, as reflected in amendment 2.

eraill. Rydym yn croesawu cynlluniau Llywodraeth y DU i ddefnyddio'r Bil ynni arfaethedig i ddeddfu ar dariffau isel ar gyfer pob cwsmer, fel yr adlewyrchir yng ngwelliant 2.

Not every household will be eligible for the Green Deal. The lowest income and vulnerable households may not save money through energy efficiency measures, because many do not have the heating turned on long enough to heat their homes sufficiently, while harder-to-treat homes can require more expensive measures. The UK Government has therefore introduced the energy company obligation, a subsidy from energy suppliers that will provide extra help for those most in need and for properties that are harder to treat. In evidence to the cross-party group on fuel poverty, the UK Department of Energy and Climate Change stated that more money would be available for affordable warmth under the ECO than was previously available. Amendment 7 welcomes the UK Government's introduction of the ECO and calls on the Welsh Government to ensure that its own energy efficiency schemes

Ni fydd pob cartref yn gymwys o dan y Fargen Werdd. Efallai na fydd aelwydydd ar yr incwm isaf ac sydd fwyaf agored i niwed yn arbed arian drwy fesurau effeithlonrwydd ynni, am nad yw llawer yn troi'r gwres ymlaen yn ddigon hir i wresogi eu cartrefi yn ddigonol, tra bydd angen mesurau drutach mewn cartrefi anos eu trin. Felly mae Llywodraeth y DU wedi cyflwyno'r rhwymedigaeth cwmnïau ynni, cymhorthdal gan gyflenwyr ynni a fydd yn rhoi cymorth ychwanegol i'r rhai sydd fwyaf mewn angen ac ar gyfer cartrefi anos eu trin. Mewn tystiolaeth i'r grŵp trawsbleidiol ar dlodi tanwydd, nododd Adran Ynni a Newid Hinsawdd y DU y byddai mwy o arian ar gael ar gyfer cynhesrwydd fforddiadwy o dan y rhwymedigaeth nag oedd ar gael o'r blaen. Mae gwelliant 7 yn croesawu penderfyniad Llywodraeth y DU i gyflwyno'r rhwymedigaeth cwmnïau ynni ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod ei chynlluniau effeithlonrwydd ynni eu hunain yn

'complement rather than unnecessarily duplicate the ECO.'

'cyd-fynd â'r Rhwymedigaeth Cwmnïau Ynni yn hytrach na'i dyblygu'n ddiangen.'

Under DECC guidelines, a household's energy efficiency improvements could not benefit from split funding from Government schemes, preventing funding under both the old UK carbon emissions reduction target scheme and the Welsh Government's Nest scheme. Nothing prevented a household from receiving help through Nest and then receiving CERT funding for additional measures, such as cavity wall insulation or loft insulation. I welcome work under Nest being completed on 1,402 north Wales households up to the end of August, but the Welsh Government must provide assurance that Nest complements the ECO and that it does not fund measures also available under the ECO.

O dan ganllawiau'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd, ni allai gwelliannau effeithlonrwydd ynni cartref gael arian rhannol o dan gynlluniau'r Llywodraeth, gan atal ariannu o dan hen gynllun lleihau allyriadau carbon y DU a chynllun Nyth Llywodraeth Cymru. Nid oedd dim yn rhwystro aelwyd rhag cael cymorth drwy Nyth ac yna arian Targed Lleihau Allyriadau Carbon ar gyfer mesurau ychwanegol, fel inswleiddio waliau ceudod neu lofft. Croesawaf y gwaith o dan Nyth sy'n cael ei wneud ar 1,402 o gartrefi yn y gogledd hyd at ddiwedd mis Awst, ond rhaid i Lywodraeth Cymru roi sicrwydd bod Nyth yn ategu'r Rhwymedigaeth Cwmnïau Ynni ac nad yw'n ariannu mesurau sydd hefyd ar gael o dan y rhwymedigaeth.

We will oppose the Welsh Government's amendment. While the second phase of the

Byddwn yn gwrthwynebu gwelliant Llywodraeth Cymru. Er bod ail gam rhaglen

Arbed programme aims to reach 4,800 existing homes in Wales by the end of 2015, we urgently need a plan to tackle fuel poverty within the entire Welsh housing stock.

Gwelliant 3—Jane Hutt

Ym mhwynt 3, dileu ‘lunio cynllun i uwchraddio sgoriau effeithlonrwydd ynni holl’ a rhoi yn ei le ‘adeiladu ar y gwaith y mae’n ei wneud eisoes i uwchraddio sgoriau effeithlonrwydd ynni’.

Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy (John Griffiths): Cynigïaf welliant 3 yn enw Jane Hutt.

Llyr Huws Gruffydd: Hoffwn ganolbwyntio yn fy nghyfraniad i at y ddadl hon ar broblemau penodol tloidi tanwydd mewn ardaloedd gwledig. Mae adroddiad diweddar gan Sefydliad Joseph Rowntree wedi dangos, yn gyffredinol, fod y rhan fwyaf o gartrefi gwledig yn wynebu costau byw sydd rhwng 10% ac 20% yn uwch na chostau byw cartrefi mewn ardaloedd trefol. Hynny yw, mae’n costio 10% i 20% yn fwy i fyw mewn ardal wledig. Yn ôl yr ymchwil, y ddwy elfen sy’n cyfrannu fwyaf at y costau ychwanegol hynny yw costau trafndiaeth a gwresogi. Mae ystadegau’r Llywodraeth yn dangos bod mwy o dlodi tanwydd yn bodoli mewn ardaloedd gwledig, ac, yn ddiddorol, yng nghanolbarth a gogledd Cymru yn fwy na mewn rhannau eraill. Yn wir, mae lefelau tloidi tanwydd mewn ardaloedd gwledig ddwywaith yn uwch nag ydynt mewn ardaloedd trefol, ac mae un o bob pum person sy’n byw mewn ardal wledig yn dioddef o dlodi tanwydd.

Rydym eisoes wedi clywed cyfeiriadau at y ffaith mai tanwydd oddi ar y grid yw un o’r problemau sylfaenol. Mae ymchwil gan Ofgem wedi amlygu’r ffaith bod cartrefi gwledig nad ydynt ar linell prif gyflenwad nwy yn talu tua 10% i 15% yn fwy am eu trydan hefyd, oherwydd nad ydynt yn gallu manteisio ar filiau deuol, lle rydych yn talu am nwy a thrydan gyda’i gilydd.

Rydym wedi clywed fod y stoc dai mewn rhai ardaloedd gwledig yn gyffredinol yn

Arbed yn anelu at gyrraedd 4,800 o gartrefi sy’n bodoli eisoes yng Nghymru erbyn diwedd 2015, mae taer angen cynllun i fynd i’r afael â thlodi tanwydd yn stoc dai Cymru gyfan.

Amendment 3—Jane Hutt

In point 3 delete ‘establish a plan for upgrading the energy efficiency ratings of the entire’ and replace with ‘build on its existing work in upgrading the energy efficiency ratings of’.

The Minister for Environment and Sustainable Development (John Griffiths): I move amendment 3 in the name of Jane Hutt.

Llyr Huws Gruffydd: I would like to concentrate in my contribution to this debate on the specific problems of fuel poverty in rural areas. A recent report by the Joseph Rowntree Foundation has shown that, in general, the majority of rural homes face living costs that are between 10% and 20% higher than the living costs for homes in urban areas. That is, it costs 10% to 20% more to live in a rural area. According to the research, the two elements that contribute most to those additional costs are the costs of transport and of heating. Government statistics show that there is more fuel poverty in rural areas, and, interestingly, more so in mid Wales and north Wales than in other areas. Indeed, the levels of fuel poverty in rural areas are twice as high as they are in urban areas, and one in five people living in rural areas suffer from fuel poverty.

We have already heard references to the fact that off-grid fuel is one of the fundamental problems. Research from Ofgem has highlighted the fact that rural homes that do not have a mains gas supply pay 10% to 15% more for their electricity too, because they cannot take advantage of dual billing, whereby you pay for gas and electricity together.

We have heard that the housing stock in some rural areas is generally older. Rural cottages,

hŷn. Mae bythynnod gwledig, tai fferm ac yn y blaen sydd wedi'u hadeiladu ers canrifoedd yn anodd i'w trin oherwydd bod ganddynt waliau solet, lloffttydd crog ac yn y blaen. Mae'r cartrefi hyn, felly, yn anodd i'w hinswleiddio'n economaidd trwy ddulliau traddodiadol, sy'n golygu bod deiliaid y tai hyn yn aml yn colli allan ar rai o'r mentrau inswleiddio cartref oherwydd y cymhlethdod o ran mynd i'r afael â'r anghenion inswleiddio hynny.

Y cyfradd SAP—y *standard assessment procedure*—yw un o'r cyfraddau a ddefnyddir i fesur effeithlonrwydd ynni cartrefi. Mae'n rhedeg o un i 100, gyda sgôr o 100 yn golygu'r mwyaf ynni effeithlon. Ar draws y Deyrnas Unedig, mae 50% o gartrefi mewn ardaloedd gwledig yn sgorio cyfradd SAP o dan 30, o gymharu â dim ond 8% o gartrefi mewn ardaloedd trefol.

Beth yw'r atebion? Mae enghreifftiau gwych, wrth gwrs, ac rwy'n siŵr bod nifer ohonom yn ymwybodol o gynlluniau ar hyd a lled Cymru, megis cynlluniau i brynu tanwydd ar y cyd. Mae angen sicrhau bod mwy o gefnogaeth er mwyn ymestyn a datblygu cynlluniau o'r fath. Mae National Energy Action wedi dweud bod cartrefi sy'n defnyddio olew i wresogi yn talu tua £200 yn fwy na chartrefi sydd ar linell prif gyflenwad nwy. Mae talu am olew yn medru bod yn arbennig o anodd i deuluoedd ar incwm isel, oherwydd yn aml rhaid ichi brynu isafswm o olew bob tro, ac mae'r bil, felly, pan ddaw, yn un sylweddol iawn.

Fel rhan o'r uchelgais i daclo tlodi tanwydd, dylem fod yn ystyried ehangu'r meini prawf ar gyfer retroffitio tai i gynnwys y rhai sydd ar gyflogau isel. Byddai hynny'n help i fynd i'r afael â thlodi tanwydd mewn ardaloedd gwledig, oherwydd mae rhai cynlluniau ar gael yn unig ar gyfer aelwydydd sy'n derbyn budd-daliadau. Mae hynny'n cau allan y bobl sydd ar gyflogau isel, ac, fel y dywedais, mae cyflogau ar gyfartaledd yn is mewn ardaloedd gwledig.

Fel sydd wedi'i ddweud yn y fan hon yn y gorffennol mewn cyd-destunau eraill, mae angen gwella'r seilwaith, gan gynnwys band eang. Yn aml iawn, dim ond drwy dalu ar-lein y gallwch gael y tariff gorau. Mae

farmhouses and so on that are centuries old can be difficult to treat because they have solid walls, rooms open to the rafters and so on. These homes, therefore, are difficult to insulate economically by traditional means, which means that the householders often lose out on some of the home insulation initiatives because of the complexities involved in tackling those insulation needs.

The SAP rate—the standard assessment procedure rate—is one of the rates used to measure the energy efficiency of homes. It runs from 1 to 100, where a score of 100 is the most energy efficient. Across the UK, 50% of homes in rural areas have a SAP rate of under 30, compared with just 8% of homes in urban areas.

What are the solutions? There are excellent examples, of course, and I am sure that many of us are aware of schemes throughout Wales, such as schemes to buy fuel jointly. We need to ensure that more support is available to extend and develop such schemes. National Energy Action has said that homes that use oil for heating pay around £200 more than homes that have a mains gas supply. Paying for oil can be particularly difficult for low-income families, because often you have to buy a minimum amount of oil at a time, and, therefore, when the bill arrives, it is very substantial.

As part of our ambition to tackle fuel poverty, we should consider expanding the criteria for retrofitting homes to include those on low incomes. That would help to tackle fuel poverty in rural areas, because some schemes are available only to households in receipt of benefits. That shuts out people on low incomes, and, as I have said, incomes are, on average, lower in rural areas.

As has been said here in the past in other contexts, we need to improve the infrastructure, including broadband. Often, you can get the best tariff online only. That means that people in some rural areas cannot

hynny'n golygu nad yw pobl mewn rhai ardaloedd yn gallu manteisio ar y prisiau gorau. Byddai pwerau rheoleiddio yn ein galluogi i ymgorffori cyfrifoldeb am danwydd oddi ar y grid i Ofgem, oherwydd, ar hyn o bryd, nid oes rheoleiddiwr i danwydd oddi ar y grid. Mae hynny'n gadael pobl mewn ardaloedd gwledig yn fwy agored i drafferthion tlodi tanwydd.

5.15 p.m.

Rydym eisoes wedi clywed cyfraniadau am Arbed a Nyth yn cyfrannu at nifer o agendâu gwahanol o safbwynt allyriadau carbon, hybu'r economi a chreu swyddi yn ogystal â dileu tlodi. Fel y dywedodd Dafydd Elis-Thomas wrth agor y ddadl, mae galw wedi bod am gynyddu'r rhaglenni hynny yn sylweddol. Mae Comisiwn Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd hefyd wedi galw am dyfu'r cynllun yn sylweddol i hwyluso'r rhaglen retroffio ar raddfa llawer iawn mwy uchelgeisiol.

Cyfeiriwyd at Gyfeillion y Ddaear a'r ymchwil sydd wedi'i wneud am yr angen i wella traean o stoc dai Cymru. Byddai hynny'n creu degau o filoedd o swyddi ac yn arbed £488 y flwyddyn ar gyfartaledd i bob teulu, mae'n debyg. Felly, mae llawer mwy y gellid ei wneud a, gobeithio, yn sgîl y ddadl hon, y bydd y Llywodraeth yn ystyried yr holl opsiynau sydd ar gael.

Jenny Rathbone: It has been very interesting to listen to the issues raised for people in rural areas. I was surprised that Llyr Huws Gruffydd did not mention the opportunities presented by the use of ground source heat pumps, which offer a really cheap solution for people in rural areas if they have small pieces of land available adjacent to their homes. I hope that we will hear a bit more about that from the Minister when he speaks. Obviously, a ground source heat pump is not suitable for people living in built-up urban areas, such as Cardiff Central.

Antoinette Sandbach: There is no doubt that there is potential for ground source heat pumps, but they are incredibly expensive to fit and so are largely unaffordable.

take advantage of the best prices. Regulatory powers would enable us to incorporate responsibility for off-grid fuel with Ofgem, because, at the moment, there is no regulator for off-grid fuel. That leaves people in rural areas more open to difficulties with fuel poverty.

We have already heard references to Arbed and Nest contributing to several different agendas, including carbon emissions, promoting the economy and creating jobs, as well as eradicating poverty. As Dafydd Elis-Thomas said in opening the debate, there has been a call for a substantial increase in those schemes. The Climate Change Commission for Wales has also called for the significant expansion of the scheme to promote the retrofitting programme on a far more ambitious scale.

Friends of the Earth was referred to and the research that has been carried out about the need to improve a third of the Welsh housing stock. That would create tens of thousands of jobs and would apparently save £488 a year on average to every family. Therefore, there is far more that could be done and, hopefully, as a result of this debate, the Government will consider all the options on the table.

Jenny Rathbone: Bu'n ddiddorol iawn gwranddo ar y materion a godwyd ynglŷn â phobl mewn ardaloedd gwledig. Roeddwn yn synnu nad oedd Llyr Huws Gruffydd wedi sôn am y cyfleoedd a gyflwynir drwy ddefnyddio pypmpiau gwres o'r ddaear, sy'n cynnig ateb rhad iawn i bobl mewn ardaloedd gwledig os oes ganddynt ddarnau bach o dir wrth ymyl eu cartrefi. Gobeithiaf y byddwn yn clywed ychydig mwy am hynny gan y Gweinidog pan fydd yn siarad. Yn amlwg, nid yw pwmp gwres o'r ddaear yn addas i bobl sy'n byw mewn ardaloedd adeiledig trefol, megis Caerdydd Canolog.

Antoinette Sandbach: Nid oes amheuaeth nad oes potensial ar gyfer pypmpiau gwres o'r ddaear, ond maent yn ddud iawn i'w gosod ac felly'n anfforddiadwy i raddau helaeth.

Jenny Rathbone: That is not my experience, but we will have that lecture later.

Some 2,700 people die every year as a result of being unable to heat their homes. It is extraordinary that only one in five people are on the cheapest tariff. That is because they find the tariffs presented to them utterly confusing. Many people think that switching suppliers is too complicated—perhaps they are elderly or do not use the internet. They just find it too complicated. Some people are nervous that the better deal that they are apparently being offered ends up being too good to be true and they will end up worse off.

People are extremely anxious about switching without being able to understand whether they really are getting a better deal. That is a real problem that we need to address. Some people are able to use the comparison sites on the internet, which find the cheapest deal and switch you to it. However, you have only to see this week's allegations about the rigging of the wholesale gas market to understand that individuals feel that they are being ripped off by the big boys of the energy companies. We need legislation on this matter. We need legislation to ensure that energy companies are offering the best deal for people's situation and we also need regulation to ensure that they actually do that.

In the meantime, some interesting co-operative solutions are being promoted, and I would like to see many more people in Wales taking up those opportunities. In one, people either register online or talk to people who are running a scheme, and they collectively get together and express an interest in switching. It does not matter if you own or rent your home or if you pay quarterly, weekly, monthly or have a pre-payment meter—anybody can take part. By pooling everybody's resources together, the scheme can bulk buy the fuel, which means that everybody gets a saving.

The second scheme conducts a reverse auction with energy suppliers. They are forced to bid the lowest price in order to get

Jenny Rathbone: Nid dyna fy mhrofiad i, ond cawn y ddarlith honno yn nes ymlaen.

Mae tua 2,700 o bobl yn marw bob blwyddyn am na allant wresogi eu cartref. Mae'n rhyfeddol mai dim ond un o bob pump o bobl sydd ar y tariff rhataf. Y rheswm dros hynny yw bod pobl yn cael eu drysu'n lân gan y tariffau a gyflwynir iddynt. Mae llawer o bobl yn meddwl bod newid cyflenwyr yn rhy gymhleth—efallai eu bod yn oeddrannus neu nad ydynt yn defnyddio'r rhyngwyd. Mae'n rhy gymhleth iddynt. Mae rhai pobl yn ofni y bydd y cynnig gwell a gynigir iddynt yn ôl pob golwg yn rhy dda i fod yn wir ac y byddant ar eu colled yn y pen draw.

Mae pobl yn hynod bryderus ynglŷn â newid heb allu deall p'un a ydynt yn cael cynnig gwell mewn gwirionedd. Mae honno'n broblem wirioneddol y mae angen inni roi sylw iddi. Gall rhai pobl ddefnyddio'r gwefannau cymharu ar y rhyngwyd, sy'n dod o hyd i'r cynnig rhataf a newid iddo. Fodd bynnag, dim ond edrych ar yr honiadau yr wythnos hon am rigio'r farchnad cyfanwerthu nwy y mae angen ichi ei wneud i ddeall bod unigolion yn teimlo eu bod yn cael eu twyllo gan y cwmnïau ynni mawrion. Mae angen inni ddeddfu ar y mater hwn. Mae angen deddfwriaeth i sicrhau bod cwmnïau ynni yn cynnig y fargen orau o ran sefyllfa pobl ac mae angen rheoleiddio hefyd i sicrhau eu bod yn gwneud hynny mewn gwirionedd.

Yn y cyfamser, mae rhai atebion cydweithredol diddorol yn cael eu hyrwyddo, a hoffwn weld llawer mwy o bobl yng Nghymru yn manteisio ar y cyfleoedd hynny. O dan un, mae pobl naill ai'n cofrestru ar-lein neu'n siarad â phobl sy'n rhedeg cynllun, ac maent yn dod at ei gilydd ac yn mynegi diddordeb mewn newid. Nid oes ots p'un a ydych yn berchen ar eich cartref neu'n ei rentu neu p'un a ydych yn talu yn chwarterol, yn wythnosol, yn fisol neu drwy fesurydd rhagdal—gall unrhyw un gymryd rhan. Trwy gyfuno adnoddau pawb, gall y cynllun swmp-brynu tanwydd, sy'n golygu bod pawb yn arbed arian.

Mae'r ail gynllun yn cynnal arwerthiant o chwith gyda chyflenwyr ynni. Maent yn cael eu gorfodi i gynnig y pris isaf er mwyn cael

the custom of all those who have registered. The lowest price is the one that wins and the consumers have the option to switch to the new tariff. These sorts of co-operative deals are gathering pace. For example, one of these schemes has been running in Oldham, organised by a company called iChoosr. By this lunchtime, 5,000 households had signed up for this round of the process, and those switches will happen later in December. People will then immediately see those benefits. They are huge benefits, which will vary between households, but savings of anything from £20 to £200 or, in some cases, £400 to £500 can be made by people getting together. I understand that Cardiff Council is in discussions with Oldham Council to try to build on that scheme. That is excellent news for people in Cardiff, but everybody needs to be doing it.

Equally, even at this time of year, the sun is warm enough to power solar panels. It is extremely disappointing that the UK Government keeps reducing the incentives for solar panel companies and for people to install solar panels. That is another resource that we ought to be choosing, to bring down energy prices.

Simon Thomas: Rwy'n falch o gyfrannu at y ddadl hon. Nid oes dwywaith nad yw tlodi tanwydd ar gynnydd yng Nghymru. Gyda'r cynnydd diweddar ym mhrisiau nwy a thrydan, bydd teuluoedd yng Nghymru yn talu ar gyfartaledd £1,300 y flwyddyn a mwy am eu tanwydd. Os ydym yn derbyn bod tlodi tanwydd yn golygu talu 10% o'r cyflog yr ydych yn mynd adref ag ef yn flynyddol ar danwydd, nid yw'n syndod gweld cynifer o bobl yn awr yn disgyn i'r trap hwnnw. Mae hynny eisoes yn cynnwys traean o bobl Cymru, ac mae'r nifer yn cynyddu.

Ers chwarter canrif, mae'r cyswllt pendant rhwng afiechyd a byw mewn tai oer a thamp wedi'i dderbyn yn rhyngwladol. O ran iechyd, mae'r oerfel yn arwain at geulo'r gwaed, sy'n arwain yn ei dro at bwysedd gwaed uchel. Mae ffwng yn tyfu mwy mewn tai tamp ac oer, sy'n arwain at asthma ac afiechydon anadlu. I roi enghraifft, os ydym yn cael dau ddiwrnod o dywydd oer a garw, mae hynny'n arwain at gynnydd o draean yn

busnes pawb sydd wedi cofrestru. Y pris isaf yw'r un sy'n ennill ac mae defnyddwyr yn cael dewis newid i'r tariff newydd. Mae cynigion cydweithredol o'r fath yn dod yn boblogaidd. Er enghraifft, mae un o'r cynlluniau hyn wedi bod yn rhedeg yn Oldham, a drefnir gan gwmni o'r enw iChoosr. Erbyn amser cinio heddiw, roedd 5,000 o aelwydydd wedi cofrestru ar gyfer y cylch hwn o'r broses, a byddant yn newid yn ddiweddarach ym mis Rhagfyr. Yna bydd pobl yn cael y manteision hynny ar unwaith. Bydd manteision enfawr, a fydd yn amrywio rhwng cartrefi, ond gall pobl arbed rhwng £20 a £200 neu, mewn rhai achosion, gall pobl arbed £400 i £500 ar ôl dod at ei gilydd. Caf ar ddeall bod Cyngor Caerdydd yn cynnal trafodaethau gyda Chyngor Oldham i geisio adeiladu ar y cynllun hwnnw. Mae hyn yn newyddion gwych i bobl yng Nghaerdydd, ond mae angen bod pawb yn gwneud hynny.

Yn yr un modd, hyd yn oed ar yr adeg hon o'r flwyddyn, mae'r haul yn ddigon cynnes ar gyfer paneli solar. Mae'n hynod siomedig bod Llywodraeth y DU yn dal i leihau'r cymhellion i gwmnïau paneli solar ac i bobl osod paneli solar. Mae hwnnw'n adnodd arall y dylem ei ddewis, er mwyn gostwng prisiau ynni.

Simon Thomas: I am pleased to be able to contribute to this debate. There is no doubt that fuel poverty is on the increase in Wales. With the recent price increases for gas and electricity, families in Wales will pay an average of £1,300 a year or more for their fuel. If we accept that fuel poverty means paying 10% of your annual take-home pay on fuel, it comes as no surprise to see so many people now falling into that trap. That already amounts to a third of the people of Wales, and that number is rising.

It has been accepted internationally for a quarter of a century that there is a definite link between ill-health and living in cold and damp homes. In health terms, the cold can lead to blood clotting, which in turn can result in high blood pressure. Fungus grows more in cold and damp houses, which leads to asthma and respiratory problems. To give an example, if we have two days of cold weather, that leads to increase of a third in

nifer y trawiadau ar y galon sy'n cael eu gweld gan y gwasanaeth iechyd. Os ydym yn cael pum niwrnod o dywydd oer, mae hynny'n arwain at gynnydd sylweddol yn nifer y bobl sy'n cael strôc. Mae 12 diwrnod o dywydd oer yn arwain at gynnydd mewn afiechydon anadlu. Felly, mae tlodi tanwydd yn costio inni fel cenedl ac fel cymdeithas. Mae gorfod trin effeithiau byw mewn tai anaddas ac o ansawdd gwael yn costio £67 miliwn y flwyddyn i'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru, yn ôl Shelter. Felly, gwelwn fod costau uchel tanwydd yn cael eu sybsideiddio, i bob pwrpas, gan y gwasanaeth iechyd, oherwydd yr effaith ar deuluoedd ac ar y pwrs cyhoeddus.

Nid oes modd inni amddiffyn cwsmeriaid yng Nghymru yn erbyn cynnydd sylweddol pellach mewn prisiau oni bai ein bod yn rheoleiddio'r farchnad yn fwy trylwyr a'n bod hefyd yn mynnu grym dros y farchnad yn ogystal â'r grym dros bolisi ynni i'r Cynulliad.

Fel yr ydym eisoes wedi clywed, mae'r costau'n sylweddol uwch mewn ardaloedd cefn gwlad, yn enwedig i bobl nad ydynt yn derbyn nwy i'w cartrefi, yn wahanol i'r arglwydd yn y rhes flaen. Ar gyfartaledd, mae'r costau yng Nghymru rhwng 5% a 10% yn uwch. Mae hyn yn draddodiadol am fod gennym seilwaith llai datblygedig, a hynny oherwydd natur ddaearyddol Cymru.

Nid oes dwywaith ychwaith nad yw'r cwmnïau mawr wedi bod yn cambrisio a chamwerthu ynni. Rydym i gyd yn gyfarwydd â storïau o'r gorffennol, ac mae bron yn amhosibl dewis y tariff rhataf neu fwyaf addas i chi o blith y cannoedd sy'n bosibl, a'r dewisiadau o dalu ar-lein neu drwy ddebyd uniongyrchol, neu ym mha ffordd bynnag. Mae angen gradd mewn economeg ynni i wneud synnwyr ohonynt. Ar ben hynny, rydym wedi clywed sibrydion yn ddiweddar, ynghyd â rhywfaint o dystiolaeth, fod ymgais wedi bod i rigio neu osod prisiau'r farchnad nwy gyfanwerthol. Mae hyn erbyn heddiw wedi ymledu i'r farchnad drydan, ac mae'r Awdurdod Gwasanaethau Ariannol ac Ofgem wedi dechrau ymchwilio i rai o'r honiadau sydd wedi'u gwneud. Os edrychwch ar y dystiolaeth, mae'n glir bod newid sylweddol, afresymol wedi bod o ran

the number of heart attacks dealt with by the health service. If we have five days of cold weather, that leads to a substantial increase in the number of people presenting with stroke. Twelve days of cold weather can lead to an increase in the incidence of respiratory diseases. Therefore, fuel poverty is costing us as a nation and as a society. Having to treat the effects of living in unfit homes of poor quality is costing the health service in Wales £67 million a year, according to Shelter. Therefore, we see that the high costs of fuel are being subsidised, to all intents and purposes, by the health service, because of the impacts on families and on the public purse.

We cannot protect customers in Wales from further significant price hikes unless we can regulate the market more thoroughly and unless we also insist on having powers over the market as well as having the powers over energy policy here in the Assembly.

As we have already heard, the costs in rural areas are substantially higher, particularly for those who cannot get gas in their homes, unlike the lord in the front row. On average, the costs in Wales are between 5% and 10% higher. That has traditionally been the case, because our infrastructure is not as well developed, because of Wales's geographical issues.

There is also no doubt that the big companies have been mis-selling and mispricing energy. We are all aware of stories from the past, and it is virtually impossible to choose the cheapest or most appropriate tariff for you from the many hundreds there are, with the option of paying online or by direct debit, or however. You need a degree in energy economics to make sense of them. On top of that, we have heard rumours recently, as well as some evidence, that there has been an attempt to rig or fix prices in the wholesale gas market. That has by now spread to the electricity market, and the Financial Services Authority and Ofgem have started to look into some of the allegations made. If you look at the evidence, it is clear that there was a significant and unreasonable increase in the price of gas in the markets on the very day and at the very time when that price was

pris nwy yn y marchnadoedd ar y diwrnod a'r amser pan benderfynwyd ar y pris a phan wnaed y penderfyniad o ran gosod y prisiau i'r dyfodol. Felly, mae'n hynod o bwysig ein bod yn gweithredu yn fwy trylwyr i reoleiddio'r farchnad hon.

Mae hefyd yn bwysig ein bod yn ystyried a yw'n bosibl sicrhau bod pobl yn parhau i dderbyn rhywfaint o drydan neu nwy i gadw eu tai yn glyd, hyd yn oed os ydynt wedi methu yn y gorffennol i dalu am eu tanwydd, fel sy'n digwydd gyda dŵr. Mae hynny'n bwysig o ran cyfiawnder cymdeithasol.

Therefore, although we want to see action from Ofgem on the market, I do not think that we can have any trust in the Westminster Government, I am afraid. After all, Ed Davey is the Minister who the Tory MP involved in the Corby by-election said was paid to 'talk bollocks around the world'—I am afraid that that was the quote—while the actual policy was decided by the Tories, against renewable energy policy and against energy policy. Cameron, as the Prime Minister, promised that everyone would get the lowest tariff, but that has been thrown out of the window, and the Ofgem consultation will not be about giving everyone the lowest tariff.

With 2,000 deaths each year, any attempt to rig the market means that you are playing with people's lives, and that means that the big companies have a real duty of care to their customers and could be complicit in deaths if they do not ensure fair play.

The Deputy Presiding Officer: Order. I remind Members that, even if something appears in inverted commas, you still have to obey the rules of proper decorum in the Chamber, so please be careful.

Joyce Watson: I welcome this motion for debate tabled by Plaid Cymru, and I am happy to support the general thrust of it. More and more these days, fuel bills take a bigger chunk out of people's incomes, aggravating the crisis over the cost of living and driving up inflation. Of course, those on

decided and when the decision was made to set the prices for the future. Therefore, it is extremely important that we are more thorough in regulating this market.

It is also important that we consider whether it is possible to ensure that people continue to receive a certain amount of electricity or gas to keep their homes warm, even if they have defaulted on their fuel bills in the past, as happens with water. That is important for social justice.

Felly, er ein bod am weld Ofgem yn gweithredu o ran y farchnad, ni chredaf y gallwn ymddiried yn Llywodraeth San Steffan, mae arnaf ofn. Wedi'r cyfan, Ed Davey yw'r Gweinidog y dywedodd yr AS Ceidwadol a oedd yn ymwneud â'r isetholiad yn Corby ei fod yn cael ei dalu i 'talk bollocks around the world'—dyna'r dyfyniad mae arnaf ofn—tra bod y polisi ei hun yn cael ei benderfynu gan y Torïaid, yn erbyn polisi ynni adnewyddadwy ac yn erbyn polisi ynni. Gwnaeth Cameron, fel y Prif Weinidog, addewid y byddai pawb yn cael y tariff isaf, ond cefnwyd ar hynny, ac ni fydd ymgynghoriad Ofgem yn ymwneud â rhoi'r tariff isaf i bawb.

Gyda 2,000 o farwolaethau bob blwyddyn, byddai unrhyw ymgais i rigio'r farchnad yn golygu eich bod yn chwarae â bywydau pobl, ac mae hynny'n golygu bod ar y cwmnïau mawr ddyletswydd gofal wirioneddol tuag at eu cwsmeriaid a gallent fod yn gyfrannog mewn marwolaethau os nad ydynt yn sicrhau chwarae teg.

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Hoffwn atgoffa Aelodau, hyd yn oed os oes rhywbeth yn ymddangos mewn dyfynodau, rhaid ichi ufuddhau i'r rheolau ynglŷn ag urddas priodol yn y Siambr, felly byddwch yn ofalus.

Joyce Watson: Croesawaf y cynnig hwn ar gyfer dadl a gyflwynwyd gan Blaid Cymru, ac rwy'n fwy na pharod i gefnogi'r byrdwn cyffredinol. Yn fwyfwy y dyddiau hyn, mae biliau tanwydd yn mynd â chyfran fwy o incwm pobl, gan waethygu'r argyfwng o ran costau byw a pheri i chwyddiant godi. Wrth

low wages and benefits feel the worst effects. When I brought forward a motion for debate on pre-paid meters earlier this year, I made the point that the poorest families are paying £80 per year more for energy than those paying by direct debit. That is fundamentally unfair.

With budgets stretched wafer thin, more people simply cannot make the sums add up. They are forced to borrow money to pay for the essentials, so it is a question of eat or heat. Yes, we need a more muscular regulatory system, which I will come back to in a minute, but looking more widely at what we can call the fuel-bill gap, we see that what we need is a three-way approach that takes in low wages, high energy prices and home energy efficiency. All these contribute to fuel poverty and they all demand the political will to secure policy solutions. Plaid Cymru is today proposing to upgrade every house in Wales. There is more than a bit of hyperbole in that ambition, but I support the long-term investment that the Welsh Government is making to upgrade our housing stock.

There is a specific issue in Mid and West Wales, where a disproportionate number of the houses are old, draughty and more difficult to modernise. I should also point out that around one in six households in Wales—once again, mainly in rural areas—is off the gas network altogether. There is a big issue with the lack of proper regulation of the heating oil market, which affects many of my constituents, and I believe that we really need to look at that. However, I want to focus on regulation and on what Governments must do to reform a malfunctioning market, and consider what people can do for themselves to get a better deal.

Gas leaks are always a cause for alarm, and the leaks that have come from the industry insiders this week, which purport to have shed light on the way in which the gas and electricity markets are rigged in Britain, must surely scare the UK Government into action.

